

# Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post

---

Fersiwn heb fod yn gyfrinachol


## Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd 30 Ionawr 2025

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 10 Ebrill 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch I

<https://www.ofcom.org.uk/cy/post/royal-mail/consultation-review-of-the-universal-postal-service-and-other-postal-regulation/>



# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
2. Cyflwyniad a Chefnidir .....	11
3. Asesiad o Anghenion Defnyddwyr Post .....	30
4. Cynaliadwyedd ariannol yr USO .....	61
5. Newidiadau arfaethedig i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth .....	71
6. Newidiadau arfaethedig i dargedau ansawdd gwasanaeth yr USO .....	93
7. Newidiadau arfaethedig i'r amod mynediad .....	119
8. Effaith ein cynigion ar gynaliadwyedd ariannol .....	159
9. Y camau nesaf a diweddariad ar waith arall .....	171

# 1. Trosolwg

- 1.1 Mae gwasanaethau post yn dal yn hanfodol i bobl ac i fusnesau ledled y DU, ond mae'r ffordd mae pobl yn eu defnyddio wedi newid. Mae nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon wedi haneru dros y degawd diwethaf ac mae'n parhau i ostwng. Mae anghenion pobl wedi symud i werthfawrogi gwasanaeth dibynadwy yn hytrach na gwasanaeth cyflym. Ar yr un pryd, mae nifer y parseli wedi cynyddu'n sylweddol.
- 1.2 Mae'r gwasanaeth post cyffredinol yn mynnu bod darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig Grŵp y Post Brenhinol (y Post Brenhinol) yn danfon amrywiaeth o gynnyrch post i gartrefi ac i fusnesau am brisiau fforddiadwy sy'n unffurf ledled y DU, ac mae wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2011. Mae'r newidiadau yn neinameg y farchnad golygu nad yw'r gwasanaeth post cyffredinol yn cyd-fynd ag anghenion pobl ac mae'r cynnydd mewn costau uned yn bygwth ei gynaliadwyedd ariannol. Rydym wedi siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid mewn gwahanol rannau o'r wlad am ddyfodol y gwasanaeth, gan gynnwys defnyddwyr, busnesau, cwmnïau post, grwpiau defnyddwyr, undebau llafur a chyrrff cyhoeddus. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno ein diwygiadau arfaethedig i gefnogi gwasanaeth cyffredinol modern a ddylai fod o fudd i ddefnyddwyr drwy gyd-fynd yn well ag anghenion pobl a busnesau. Maes o law dylai hyn gynnal fforddiadwyedd parhaus gwasanaethau a gallu'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol mewn ffordd sy'n gynaliadwy'n ariannol.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Yn dilyn llawer o ymgynghori â rhanddeiliaid ac ymchwil defnyddwyr, rydym yn cynnig pecyn o ddiwygiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar y Post Brenhinol a newidiadau cyfatebol i rwymedigaeth y Post Brenhinol i ddarparu mynediad i'w rwydwaith llythyrau.

### Newidiadau i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth

Ar hyn o bryd mae'r USO yn mynnu bod llythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn).

- Rydym yn cynnig dileu'r gofyniad ar y Post Brenhinol i ddanfon **llythyrau Ail Ddosbarth** chwe diwrnod yr wythnos a chaniatáu iddo ddanfon llythyrau o'r fath **bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos** (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes angen dau wasanaeth chwe-diwrnod-yr-wythnos ar ddefnyddwyr post mwyach i ddiwallu eu hanghenion a'i fwriad yw cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth.
- Byddwn yn cynnal y gofynion i ddanfon llythyrau Dosbarth Cyntaf – byddant yn dal i gael eu danfon y diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos.
- Byddwn yn cynnal manyleb bresennol yr USO ar gyfer parseli.

### Ansawdd gwasanaethau

Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth penodol i'w gymell i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

Rydym yn cynnig cyflwyno **targedau post hwyr** newydd i adlewyrchu'r ffaith bod defnyddwyr post bellach yn gwerthfawrogi gwasanaeth dibynadwy yn hytrach na gwasanaeth cyflym. Ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, byddai'n rhaid danfon 99.5% o fewn tri diwrnod i bostio. Ar gyfer post Ail Ddosbarth, byddai'n rhaid danfon 99.5% o fewn pum niwrnod i bostio.

Rydym yn cynnig newid y prif darged ar gyfer danfon post Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol o 93% i 90% a newid y prif darged ar gyfer danfon post Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod o 98.5% i 95% er mwyn adlewyrchu dewisiadau pobl yn well a chefnogi cynaliadwyedd ariannol. Byddai'r targedau arfaethedig yn dal yn uchel yn ôl safonau rhyngwladol. Rydym hefyd yn cynnig ailosod y targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf cysylltiedig ar gyfer danfon y diwrnod canlynol o 91.5% i 87%.

### Rhwymedigaeth llythyrau mynediad

'Post swmp' yw'r rhan fwyaf o'r llythyrau a anfonir heddiw – y llythyrau a anfonir gan sefydliadau mawr megis banciau, adrannau'r llywodraeth, y GIG neu awdurdodau lleol. Anfonir y llythyrau hyn y tu allan i'r gwasanaeth cyffredinol. I gefnogi cystadleuaeth yn y farchnad hon, rydym yn mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu mynediad i'w rwydwaith llythyrau, sy'n golygu bod yn rhaid iddo ddanfon llythyrau sy'n cael eu casglu gan gwmnïau post eraill. Er mwyn gwireddu manteision diwygio'r USO, mae angen newid y rhwymedigaethau mynediad sydd ar y Post Brenhinol i sicrhau ei fod yn gallu gweithredu'r un model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer y mwyafrif helaeth o bost. Nod ein cynigion yw galluogi hyn wrth barhau i gefnogi marchnad gystadleuol ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.

- Mae'r Post Brenhinol yn cyflwyno gwasanaeth mynediad newydd i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, a fyddai'n ceisio danfon llythyrau o fewn tri diwrnod yn ystod yr wythnos (D+3) ar ôl casglu gan yr anfonwr. Rydym yn cynnig rheoleiddio'r gwasanaeth newydd hwn yn yr un ffordd ag yr ydym yn rheoleiddio'r gwasanaethau mynediad presennol ar hyn o bryd.
- Byddwn yn parhau i reoleiddio'r gwasanaeth mynediad D+2 presennol ar gyfer post swmp â blaenoriaeth, o leiaf tra bydd y farchnad yn ymateb i'r diwygio.
- Rydym hefyd yn cynnig dileu danfon ar ddydd Sadwrn o wasanaethau mynediad D+5.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

## Mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio'r post wedi newid ac mae angen i'r gwasanaeth cyffredinol addasu i ymateb i hynny

- 1.3 Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn yn nodi'r angen brys am newidiadau i'r USO ac yn gwahodd safbwyntiau gan yr holl randdeiliaid ar sut dylid moderneiddio'r fanyleb i'r dyfodol. Roeddem wedi nodi opsiynau i ddiwygio a fyddai'n dod â'r USO yn nes at anghenion pobl gyda llythyrau ac yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth.
- 1.4 Roeddem yn croesawu'r ymgysylltu helaeth â'n Cais am Fewnbwn, gan gynnwys drwy gyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus a gynhaliwyd ym mhob un o wledydd y DU. Cafodd

crynodeb o'r ymatebion ei nodi yn ein diweddariad ym mis Medi 2024.<sup>1</sup> Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a'r cyfranogwyr yn ein digwyddiadau cyhoeddus yn cydnabod bod y ffordd mae pobl a busnesau'n defnyddio llythyrau wedi newid yn sylfaenol. Roedd cydnabyddiaeth bod angen newid y gwasanaeth cyffredinol i sicrhau bod gwasanaethau post yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn ddibynadwy. Nid y DU yw'r unig wlad sydd angen ymateb i'r her hon. Ar draws Ewrop ac yn ehangach, mae rhwymedigaethau gwasanaeth post cyffredinol wedi cael eu diwygio neu wrthi'n cael eu diwygio.

- 1.5 Mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn, am y tro cyntaf mae'r Post Brenhinol wedi cyflwyno cynnig mawr i newid yr USO. Y cynnig yw newid y rhwymedigaeth ar llythyrau Ail Ddosbarth a gwasanaethau post swmp nad yw'n flaenoriaeth, er mwyn i'r llythyrau hyn gael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Byddai llythyrau Dosbarth Cyntaf yn dal i gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos, a byddai'r rhwymedigaeth parseli yn aros yr un fath. Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn agos iawn ag un o'r opsiynau i ddiwygio a gyflwynwyd gennym yn y Cais am Fewnbwn.
- 1.6 Gan na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn gofyn am newid gwasanaethau sylfaenol yr USO a sefydlwyd mewn deddfwriaeth, gellir eu rhoi ar waith drwy newid gwaith rheoleiddio Ofcom. Mae'r cynnig hefyd yn adlewyrchu barn y Post Brenhinol am yr hyn y gall ei gyflawni'n weithredol. O ystyried bod angen diwygio ar frys, rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar brofi cynigion y Post Brenhinol yn drylwyr fel sail ar gyfer newidiadau posibl i'r USO. Mae ein gwaith wedi cael ei lywio gan astudiaeth ymchwil eang i anghenion defnyddwyr a chasglu rhagor o wybodaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid eraill ac ymgysylltu â nhw.

## Mae'r gwasanaeth cyffredinol presennol yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen ar bobl yn rhesymol gan y post heddiw

---

- 1.7 Mae'r dirywiad strwythurol yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon bob blwyddyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o bobl a sefydliadau'n dibynnu llawer llai ar bost nag yn y gorffennol, yn bennaf wrth i fwy a mwy ddefnyddio dulliau digidol amgen. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi asesu'r hyn y mae ar bobl ei angen yn rhesymol gan y gwasanaeth post heddiw. Mae ein hasesiad yn seiliedig ar yr ymchwil helaeth rydym wedi'i gynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys astudiaeth bellach ddiwedd 2024.
- 1.8 Dyma'r prif ganfyddiadau rydym yn ymgynghori yn eu cylch:
- a) Mae pob grŵp yn dibynnu llai a llai ar wasanaethau post, ond mae pobl yn credu y bydd angen iddynt wastad ddefnyddio gwasanaethau post.
  - b) Mae ar bobl angen gwasanaeth rheolaidd ond nid oes angen i'r rhan fwyaf o'r llythyrau maent yn eu hanfon a'u derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Yn

---

<sup>1</sup> Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - [crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn a'r camau nesaf.](#)

gyffredinol, nid yw pobl yn teimlo y byddai angen danfon y rhan fwyaf o lythyrau ar ddydd Sadwrn.

- c) Yn gyffredinol, nid yw cyflymder yn cael ei ystyried yn ffactor hollbwysig ar gyfer y rhan fwyaf o lythyrau a anfonir, ond mae angen gwasanaeth diwrnod canlynol ar bobl ar gyfer rhai eitemau, er bod hyn yn angen achlysurol ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau.
- d) Mae ar bobl angen gwasanaeth sy'n ddibynadwy, ac mae hyn yn bwysicach i bobl na chyflymder. Mae dibynadwyedd yn arbennig o bwysig ar gyfer rhai mathau o lythyrau fel y rheini sy'n ymwneud â materion iechyd ac ariannol.
- e) Mae ar bobl angen gwasanaeth sy'n fforddiadwy ac maent yn ffafrio gwasanaeth un pris i ddanfon i unrhyw le.
- f) Mae rhai grwpiau, gan gynnwys defnyddwyr hŷn, y rhai heb fynediad at y rhyngwyd, pobl â symudedd cyfyngedig a'r rhai mewn lleoliadau gwledig, yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post. Serch hynny, mae eu hanghenion o ran y mathau o wasanaethau post sydd eu hangen arnynt yn debyg i bobl eraill ac mae cynnyrch ar gael yn y farchnad gwasanaethau post a fydd yn diwallu'r anghenion hynny.

1.9 Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr USO presennol yn rhagori ar anghenion rhesymol pobl o ran nifer y diwrnodau mae llythyrau'n cael eu danfon. Mae hyn yn bwysig oherwydd, os yw manyleb y gwasanaeth cyffredinol yn rhagori ar yr hyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr, yna bydd angen adennill y costau ychwanegol gan ddefnyddwyr am darparu'r gwasanaethau post hyn sy'n fwy na'r gofyn. Yn y pen draw, byddai hyn yn golygu bod defnyddwyr yn talu prisiau uwch na'r angen am rai mathau o gynnyrch. Byddai hefyd yn cyfrannu at yr heriau mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu o ran bodloni gofynion ansawdd gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post.

## Mae risgiau i gynaliadwyedd ariannol darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol gan y Post Brenhinol

---

- 1.10 Ar sail perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf, rydym yn poeni am gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol. Rydym yn monitro perfformiad ariannol 'Busnes a Gofnodwyd' y Post Brenhinol yn ofalus, y rhwydwaith cyffredin sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol a rhai gwasanaethau sydd y tu allan i gwmpas y gwasanaeth cyffredinol (fel post swmp a pharseli). Rydym hefyd yn monitro perfformiad a sefyllfa ariannol International Distribution Services plc (IDS) (rhiant-gwmni'r Post Brenhinol) i'r graddau y mae'n berthnasol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- 1.11 Rydym wedi awgrymu o'r blaen mai un dangosydd cyntaf sy'n dangos bod yr USO yn gynaliadwy'n ariannol yw bod y Busnes a Gofnodwyd yn sicrhau EBIT o 5-10%.<sup>2</sup> Fodd bynnag nid yw'r Post Brenhinol wedi cyrraedd 5% ers 2015/16. Yn ystod 2023/24, roedd y Post Brenhinol wedi cofnodi colled o £458m gydag EBIT o -6.3% ar gyfer y Busnes a Gofnodwyd.<sup>3</sup> Cyhoeddodd IDS ei ganlyniadau hanner blwyddyn (Ebrill – Medi 2024) ar 21 Tachwedd 2024; roedd y rhain yn dangos colled o £97m i'r Post Brenhinol, er bod ei berfformiad yn ystod y cyfnod hwn wedi gwella o'i gymharu â 2023/24 pan gollodd £318m.

---

<sup>2</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post](#).

<sup>3</sup> Mae canlyniadau 2023-34 yn cael eu hailddatgan i'w dangos ar sail 52 wythnos.

Rhaid gwella'r perfformiad yn arw er mwyn i'r Busnes a Gofnodwyd gyflawni EBIT o 5% o leiaf.

- 1.12 Yn ein barn ni, ar ei ffurf bresennol, mae'r USO yn gosod costau diangen sylweddol ar y Post Brenhinol oherwydd ei fod yn mynnu gwasanaeth sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen yn gyffredinol gan ddefnyddwyr post.
- 1.13 Mae'r Post Brenhinol wedi dadlau y gallai symud i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth arbed hyd at £300m yn 2025/26. Rydym wedi cynnal ein dadansoddiad ein hunain o'r arbedion posibl ac wedi dod i'r casgliad dros dro bod y rhain yn cyd-fynd yn fras ag amcan y Post Brenhinol, er ein bod yn credu bod y Post Brenhinol yn tanbrisio manteision net posibl y newidiadau arfaethedig. Rydym yn amcangyfrif y gallai'r arbedion fod rhwng £250m a £425m. Mae ein hamcangyfrif ni ac amcangyfrif y Post Brenhinol yn tybio bod potensial llawn y diwygio'n cael ei wireddu. Mae'r amcangyfrifon hyn yn adlewyrchu newidiadau strwythurol parhaus i sylfaen costau a refeniw'r Post Brenhinol, fel y dylai'r Post Brenhinol allu sicrhau arbedion parhaol, hyd yn oed os ydynt yn amrywio, yng nghostau danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, yn hytrach na sicrhau'r arbedion hyn mewn un flwyddyn. Yn ymarferol, bydd maint yr arbedion net gwirioneddol yn dibynnu ar lwyddiant y Post Brenhinol o ran rhoi'r newidiadau gweithredol angenrheidiol ar waith.
- 1.14 Os caiff yr arbedion eu gwireddu byddant yn codi EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn sylweddol. Ar sail gwybodaeth 2023/24 y Post Brenhinol, mae ein hamcangyfrifon o werth y newidiadau hyn yn awgrymu y gallent ychwanegu tua 4%-6% at yr EBIT. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod ein newidiadau arfaethedig i'r USO yn cynnig arbedion net sylweddol a allai helpu i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, fel rydym yn egluro isod, nid yw diwygio'r USO ar ei ben ei hun yn debygol o fod yn ddigon i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol yn y tymor hirach.

## Gwasanaeth cyffredinol modern sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion pobl

---

- 1.15 Dylai'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer yr USO wasanaethu buddiannau defnyddwyr post a chreu'r cyfle gorau i'r gwasanaeth cyffredinol barhau i gael ei ddarparu ar sail fasnachol (h.y. heb gymhorthdal cyhoeddus). Rydym wedi asesu anghenion rhesymol pobl o ran y post ac effaith cadw manyleb bresennol yr USO ar gynaliadwyedd ariannol. Rydym yn dod i'r casgliad dros dro bod angen pecyn o newidiadau i'r USO er mwyn ei gysoni'n well ag anghenion defnyddwyr ac wrth wneud hynny lleihau cost y ddarpariaeth. Dylai hyn olygu y bydd prisiau yn y dyfodol yn is nag y byddent wedi bod heb ddiwygio a dylai helpu i liniaru'r risgiau i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Bydd gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol ac sy'n caniatáu i wasanaethau gael eu darparu'n fwy effeithlon hefyd o fudd i'r gymdeithas ehangach ac yn cefnogi twf economaidd. Rydym hefyd yn dod i'r casgliad dros dro bod angen newidiadau cyfatebol i'r rhwymedigaethau mynediad i gyflawni'r manteision hyn.

## Danfon llythyrau Ail Ddosbarth

- 1.16 Rydym yn cynnig dileu'r gofyniad ar y Post Brenhinol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos ac yn lle hynny iddo ddanfon llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod yn

ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae hyn yn golygu y gall rhai llythyrau (os ydynt yn cael eu postio o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn) gymryd diwrnod yn hirach i gyrraedd nag ar hyn o bryd. Nid ydym yn cynnig newid y gofynion i ddanfon llythyrau Dosbarth Cyntaf – bydd yn dal yn rhaid eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar gyfer parseli.

- 1.17 Rydym yn cydnabod bod rhai pobl a sefydliadau'n poeni am gynigion a fydd yn golygu newid mawr, yn enwedig danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml a rhoi'r gorau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn. Rydym wedi ystyried hyn yn drylwyr ac mae ein hymchwil yn dangos mai dim ond cyfran fach iawn o bobl (4%) oedd yn credu y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n sylweddol arnynt. Roeddem hefyd wedi asesu'r effaith ar y grwpiau hynny sy'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar y post, er enghraifft defnyddwyr hŷn a defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig. Canfu ein hymchwil fod y grwpiau hyn yn tueddu i fod â gofynion danfon llythyrau tebyg i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, gan eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd a fforddiadwyedd dros gyflymder, ac felly dylid parhau i ddiwallu eu hanghenion.

## Ansawdd gwasanaethau

- 1.18 Mae safon bresennol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol yn bryder sylweddol i bobl ac i fusnesau. Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i roi cosb ariannol arall o £10.5m ar ôl dod i'r casgliad bod y Post Brenhinol wedi methu cyflawni ei rwymedigaethau yn 2023/24.<sup>4</sup> Rydym yn disgwyl gweld ei berfformiad yn gwella'n sylweddol ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos. Byddwn yn ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad ffurfiol arall ar ddiwedd blwyddyn adrodd 2024/25.
- 1.19 Gan edrych y tu hwnt i'r camau gweithredu mae angen i'r Post Brenhinol eu cymryd i wella ansawdd ei wasanaeth o'r lefelau presennol, rydym wedi ystyried lefelau priodol y targedau allweddol y dylid eu gosod yn y tymor hirach. Ac ystyried perfformiad y Post Brenhinol ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod y bydd rhai rhanddeiliaid yn teimlo nad yw'n briodol cynnig newidiadau a allai olygu gostwng rhai targedau ansawdd gwasanaeth. Fodd bynnag, credwn ei bod yn iawn ailasesu'r targedau gyda'r dyfodol mewn golwg, fel sydd wedi digwydd mewn llawer o wledydd eraill yn Ewrop yn barod.
- 1.20 Cafodd y targedau ansawdd gwasanaeth presennol eu gosod bron i ddau ddegawd yn ôl, ac mae'r farchnad bost wedi newid yn fawr ers hynny ac mae'r ffordd mae pobl yn ei ddefnyddio wedi esblygu. Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu'r anhawster a'r gost fesul uned sy'n gysylltiedig â gweithredu rhwydwaith danfon sy'n gallu cyrraedd lefelau ansawdd gwasanaeth uchel iawn yn gyson, ac mae ein hymchwil yn awgrymu bod fforddiadwyedd a dibynadwyedd nawr yn bwysicach i bobl na chyflymder danfon.
- 1.21 Yn unol â hynny, rydym yn cynnig diweddarau fframwaith o dargedau ansawdd gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion a dewisiadau pobl, gan ystyried cost ac effeithiau prisio canlyniadol gwahanol lefelau targed mewn marchnad bost sy'n newid. Yn benodol,

---

<sup>4</sup> Fe wnaethom hefyd roi cosb ariannol o £5.6m ar ôl dod i'r casgliad bod y Post Brenhinol wedi methu cyflawni ei rwymedigaethau yn 2022/23.



mae cynnal safonau ansawdd gwasanaeth uchel iawn yn gostus a byddai angen i ddefnyddwyr dalu am y costau uwch hyn. Felly, rydym yn cynnig dwy set o newidiadau:

- a) Newid bach yn y prif darged ar gyfer danfon post Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol o 93% i 90% a newid cyfatebol i darged ardal cod post danfon Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol<sup>5</sup> o 91.5% i 87%, yn ogystal â newid ar gyfer danfon post Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod o 98.5% i 95%. Credwn fod y targedau newydd arfaethedig yn heriol ond yn gyraeddadwy, a byddent yn parhau i fod yn uchel yn ôl safonau rhyngwladol.
- b) Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn gwerthfawrogi dibynadwyedd, neu mewn geiriau eraill y bydd eu post yn cyrraedd o fewn cyfnod rhesymol. Mae targedau post hwyr newydd, ychwanegol wedi'u cynllunio i sicrhau, hyd yn oed os bydd llythyrau'n methu'r prif darged, y bydd defnyddwyr yn hyderus y byddant yn cyrraedd o fewn cyfnod rhesymol. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r niwed mae rhai pobl wedi'i ddiodef pan fydd rhai llythyrau wedi cymryd cyfnod estynedig i gyrraedd ar ôl methu'r targed danfon gwreiddiol.

## Mynediad

- 1.22 Mae'r rhan fwyaf o lythyrau a anfonir heddiw yn bost swmp a anfonir gan sefydliadau mawr (fel banciau neu'r GIG), ond nid yw post swmp yn rhan o'r USO. Yn 2023/24, anfonwyd 9 biliwn o lythyrau, ac mae post swmp yn cynrychioli 63% o hynny (5.7 biliwn o eitemau). Mae'r Post Brenhinol yn cynnig ei wasanaethau post swmp ei hun ar sail fasnachol, ond mae ein rheoliad hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad i'w rwydwaith i gwmnïau post eraill er mwyn iddynt allu cynnig gwasanaethau post swmp sy'n cystadlu. Rhaid i'r Post Brenhinol hefyd gynnig mynediad yn uniongyrchol i gwmnïau sy'n prosesu post gan sefydliadau mawr cyn defnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol i ddanfôn y post hwn (a elwir gyda'i gilydd yn 'gwmnïau mynediad').
- 1.23 Er mwyn gwireddu manteision diwygio'r USO, mae angen newid y rhwymedigaethau mynediad i sicrhau bod y Post Brenhinol yn gallu gweithredu'r un model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer y mwyafrif helaeth o bost. Rydym eisiau galluogi hyn ar yr un pryd â chefnogi marchnad gystadleuol ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.
- 1.24 Rydym yn cynnig rheoleiddio gwasanaeth mynediad newydd gan y Post Brenhinol, a fyddai'n ceisio danfon llythyrau o fewn tri diwrnod yn ystod yr wythnos (D+3) ar ôl i'r cwmni mynediad eu casglu gan yr anfonwr. Byddai'r danfon yn digwydd o fewn dau ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar ôl i'r cwmni mynediad drosglwyddo'r post i'r Post Brenhinol, o dan yr un model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos â'r un a gynigir ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Rydym hefyd yn cynnig mynnu bod y Post Brenhinol yn cyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn er mwyn helpu cwmnïau mynediad i ddal y Post Brenhinol i gyfrif am ei berfformiad.
- 1.25 Roedd y Post Brenhinol wedi cynnig na ddylai fod yn rhaid iddo mwyach gynnig y gwasanaethau mynediad D+2 presennol (sy'n cael eu danfon o ddydd Llun i ddydd Sadwrn)

---

<sup>5</sup> Mae'r targed hwn yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cyflawni lefel sylfaenol o wasanaeth ym mhob ardal cod post unigol yn y DU, ac eithrio tair ardal anghysbell lle mae'n rhaid i'r Post Brenhinol adrodd ar ei berfformiad.

ond mae wedi dweud y byddai'n parhau i gynnig gwasanaeth o'r fath ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio.

- 1.26 Ein barn ni yw y gallai dileu'r gwasanaeth mynediad D+2 presennol neu ei wneud yn wasanaeth cwbl fasnachol nawr darfu'n ddiangen, a allai niweidio cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr mawr sy'n anfon post swmp ac, yn y pen draw, y bobl sy'n derbyn y post hwnnw. Rydym yn arbennig o bryderus gan fod y post hwn yn cynnwys llythyrau sy'n ymwneud â materion ariannol ac iechyd y mae ein hymchwil yn dangos bod pobl yn poeni fwyaf amdanynt. Felly, byddwn yn parhau i reoleiddio mynediad D+2, o leiaf wrth i'r farchnad addasu i unrhyw ddiwygio. Fodd bynnag, rydym yn cynnig diweddarau gwasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol ar gyfer y rheolaeth gwasgu elw ar wasanaethau mynediad D+2 o ystyried y ffordd y bydd y post hwn yn cael ei ddanfôn yn y dyfodol.

## Dylai'r newidiadau arfaethedig fod o fudd i ddefnyddwyr ond mae'n hanfodol bod y Post Brenhinol yn eu rhoi ar waith yn effeithiol

---

- 1.27 Rydym yn credu bod y newidiadau arfaethedig yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, a fydd yn ei dro o fudd i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i'r economi ehangach.
- 1.28 Yn y pen draw bydd yn rhaid i'r Post Brenhinol weithredu'r model newydd yn effeithiol er mwyn cyflawni manteision ein cynigion. Mae'n amlwg hefyd na fydd diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn unig yn ateb heriau gweithredol ac ariannol ehangach y Post Brenhinol. Mae angen i'r busnes gymryd camau eraill i sicrhau ei fod yn dal i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gan drawsnewid ei rwydwaith a'i weithrediadau, yn ogystal â gwella twf drwy ei gynnig parseli.
- 1.29 Yn ein barn ni mae'n annhebygol y gallwn wneud llawer mwy o dan y fframwaith rheoleiddio presennol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth cyffredinol. Wrth i'r farchnad llythyrau barhau i ddirywio, efallai bydd angen adolygu manyleb yr USO eto yn y dyfodol, er ein bod yn nodi y byddai unrhyw newidiadau sylweddol pellach yn debygol o olygu newid deddfwriaeth.

## Y camau nesaf

---

- 1.30 Rydym yn croesawu ymatebion i'n hymgyngoriad sy'n dod i ben ar 10 Ebrill 2025. Mae Atodiad A1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn benodol rydym yn croesawu ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad sydd yn Atodiad A4.
- 1.31 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori, felly cysylltwch â ni os hoffech gwrdd â ni.
- 1.32 Rydym ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad sy'n nodi ein penderfyniad yn ystod haf 2025.

## 2. Cyflwyniad a Chefndir

### Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn egluro fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol gwasanaethau post yn y DU, gan gynnwys pwerau Ofcom. Mae'n rhoi trosolwg o'r farchnad bost ac yn egluro'r angen am ddiwygio, ac yna amlinellid o'r diwygiadau sy'n cael eu cynnig gan y Post Brenhinol mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn. I gloi, mae'n egluro pwrpas a strwythur yr ymgynghoriad hwn.

### Yn fyr

Mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau post y DU, gan gynnwys y Post Brenhinol, sef y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol. Ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Rhaid i ni hefyd gyflawni ein swyddogaethau post mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, ac wrth wneud hynny mae'n rhaid i ni ystyried bod angen i wasanaeth o'r fath fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, mae gostyngiad yn nifer y llythyrau yn taseilio ei gynaliadwyedd. Mae Ofcom yn cynnig newid y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth ac i gyd-fynd yn well ag anghenion rhesymol defnyddwyr. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i rwymedigaethau parseli'r Post Brenhinol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

## Fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol

### Rôl Ofcom mewn rheoleiddio post

- 2.1 Ofcom yw awdurdod rheoleiddio annibynnol gwasanaethau post y DU. Mae ein dyletswyddau cyffredinol yn cael eu nodi yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Ein prif ddyletswydd yw 'hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol.<sup>6</sup>
- 2.2 Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 (y Ddeddf)<sup>7</sup> yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post. Mae'n mynnu bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau post mewn ffordd a gredwn a fydd yn sicrhau darparu gwasanaeth post cyffredinol.<sup>8</sup>

---

<sup>6</sup> Adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

<sup>7</sup> [Deddf Gwasanaethau Post 2011](#).

<sup>8</sup> Adran 29(1) o'r Ddeddf.

- 2.3 Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i ni ystyried yr angen i wasanaeth post cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon cyn diwedd cyfnod rhesymol (ac i'w ddarpariaeth barhau i fod yn effeithlon ar bob adeg ddilynol).<sup>9</sup>
- 2.4 Rydym yn monitro'r sector i ddeall y newidiadau yn anghenion defnyddwyr, deinameg y farchnad a chynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol, yn ogystal ag unrhyw risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae ein gwaith monitro yn canolbwyntio ar y Post Brenhinol, ac rydym yn nodi ein canfyddiadau yn ein hadroddiad monitro post blynyddol.

## Y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol

- 2.5 Rhaid i'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig (DUSP), Royal Mail Group Limited (y Post Brenhinol), ddarparu amrywiaeth o gynnyrch post penodol i gartrefi ac i fusnesau am brisiau fforddiadwy, sy'n unffurf ledled y DU.<sup>10</sup> Y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) yw'r enw ar y gofyniad hwn.
- 2.6 Mae Adran 31 o'r Ddeddf yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu cynnwys, o leiaf, mewn gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys:
- Danfon llythyrau o leiaf unwaith bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a danfon pecynnau post eraill o leiaf unwaith y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener;<sup>11</sup>
  - Casglu llythyrau o leiaf unwaith bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a chasglu pecynnau post eraill o leiaf unwaith y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener;
  - Gwasanaeth sy'n cludo pecynnau post o un lle i'r llall drwy'r post am brisiau fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol ledled y DU;
  - Gwasanaeth eitemau cofrestredig am brisiau fforddiadwy, unffurf yn ddaearyddol ledled y DU;
  - Gwasanaeth eitemau wedi'u hyswirio am brisiau fforddiadwy, unffurf yn ddaearyddol ledled y DU;
  - Darparu rhai gwasanaethau am ddim i bobl ddall/rhannol ddall; a
  - Trosglwyddo rhai cyfeiriadau a deisebau deddfwriaethol yn rhad ac am ddim.
- 2.7 Mae'r Ddeddf wedyn yn mynnu bod Ofcom yn nodi, drwy orchymyn, ddisgrifiad o'r gwasanaethau sydd i'w darparu fel rhan o'r USO.<sup>12</sup> Rydym yn nodi cwrmpas manwl yr USO

---

<sup>9</sup> Adran 29(3) o'r Ddeddf. Mae Adran 29(4) o'r Ddeddf yn datgan bod yr angen i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol yn cynnwys yr angen am gyfradd enillion fasnachol resymol ar unrhyw wariant a gaiff darparwr y gwasanaeth cyffredinol am ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol neu mewn cysylltiad â hynny.

<sup>10</sup> Mae'r Post Brenhinol yn is-gwmni mewn grŵp o gwmnïau o dan y rhiant-gwmni, International Distributions Services plc (IDS). Bydd IDS yn cael ei gymryd drosodd gan EP UK Bidco (EP). Ar 19 Rhagfyr 2024 roedd Swyddfa'r Cabinet wedi cymeradwyo'r trafodiad o dan Ddeddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol 2021, ond mae rhagor o wiriadau rheoleiddio eto i'w gwneud.

<sup>11</sup> Mae 'pecynnau post' yn cael eu diffinio yn adran 27(2) o'r Ddeddf fel "llythyr, parcel, pecyn neu eitem arall mae modd ei hanfon drwy'r post." Er mwyn bod yn glir, rydym yn defnyddio'r termau llythyrau a pharseli yn y ddogfen hon. Mae'r llythyrau'n cynnwys llythyrau Mawr, oni nodir yn wahanol.

<sup>12</sup> Adran 30(1) o'r Ddeddf.

yng Ngorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012 (y Gorchymyn).<sup>13</sup> Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf,<sup>14</sup> mae'r Gorchymyn yn cynnwys y gwasanaethau sylfaenol y cyfeirir atynt uchod. Mae hefyd yn nodi darparu dau gyflymder danfon ar gyfer llythyrau a pharseli nad ydynt wedi'u hyswiro: Dosbarth Cyntaf (y diwrnod gwaith nesaf) ac Ail Ddosbarth (o fewn tri diwrnod gwaith).<sup>15</sup>

- 2.8 Mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol, fel y DUSP, yn darparu'r USO drwy amodau rheoleiddio o'r enw Amodau'r DUSP. Mae Amodau'r DUSP yn mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu'r gwasanaethau a nodir yn y Gorchymyn, ac yn nodi rhagor o fanylion am ddarparu'r gwasanaethau hyn. Er enghraifft, maent yn cynnwys targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer rhai gwasanaethau, gan gynnwys post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.

## Rhwymedigaethau ar gyfer post swmp a gwasanaethau post mynediad

- 2.9 Mae'r USO yn mynnu bod 'gwasanaethau eitem unigol' yn cael eu darparu, sy'n golygu gwasanaeth i anfon pecynnau post unigol. Ar ben hynny, mae'r Post Brenhinol yn darparu gwasanaethau 'post swmp'. Mae'r rhain yn wasanaethau i gwsmeriaid post mawr sy'n anfon llawer o lythyrau, fel cyrff cyhoeddus, banciau ac ymddiriedolaethau'r GIG. Nid yw post swmp yn rhan o fanyleb yr USO ond mae'n cael ei ddanfôn gan ddefnyddio'r un rhwydwaith cenedlaethol â'r un sy'n cael ei ddefnyddio i ddanfôn cynnyrch USO eitemau unigol. Post swmp yw oddeutu 63%<sup>16</sup> o'r holl lythyrau a anfonir.<sup>17</sup>
- 2.10 O dan yr amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol (yr Amod USPA),<sup>18</sup> mae Ofcom hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi mynediad i'w rwydwaith danfon llythyrau i weithredwyr eraill (a elwir yn 'gwmnïau mynediad') er mwyn iddynt allu cynnig gwasanaethau post swmp sy'n cystadlu â'r Post Brenhinol.<sup>19</sup> Mae 'post mynediad' yn golygu'r post sy'n cael ei anfon drwy ddefnyddio gwasanaethau mynediad, sy'n cael ei gasglu a'i dddoli gan barti ar wahân i'r Post Brenhinol, cyn ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol i'w ddanfôn.<sup>20</sup> Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gynnig gwasanaethau sy'n ceisio bodloni dau

---

<sup>13</sup> [Gorchymyn y Gwasanaethau Post \(Gwasanaeth Post Cyffredinol\) 2012](#).

<sup>14</sup> Adran 30(2) o'r Ddeddf.

<sup>15</sup> Paragraffau 2 a 3 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn. Mae 'diwrnod gwaith' yn golygu bob dydd ac eithrio dydd Sul a gwyliau cyhoeddus (Erthygl 3(2A) o'r Gorchymyn).

<sup>16</sup> Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi gan y Post Brenhinol fel rhan o'n [gofynion adrodd rheoleiddiol](#).

<sup>17</sup> Mae'r term 'post swmp' yn disgrifio llawer iawn o lythyrau a/neu barseli sy'n cael disgownt oherwydd eu niferoedd, fformat a'u bod wedi'u ddoli ymlaen llaw. Mae'n cynnwys yr holl gontractau post mynediad a phost swmp sydd gan y Post Brenhinol yn uniongyrchol gyda defnyddwyr post mawr.

<sup>18</sup> Gweler [amodau ar gwmnïau post](#).

<sup>19</sup> Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig gwasanaethau post swmp i gwsmeriaid mawr ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio.

<sup>20</sup> Gall defnyddwyr post mawr hefyd ofyn am fynediad uniongyrchol i rwydwaith y Post Brenhinol, ac os felly mae'n rhaid iddynt ddoli eu post eu hunain a'i drosglwyddo i'r Post Brenhinol ar gyfer ei ddanfôn y filltir olaf.

gyflymder danfon – o fewn dau (D+2) neu bump (D+5)<sup>21</sup> diwrnod gwaith<sup>22</sup> ar ôl casglu gan yr anfonwr – ar delerau teg a rhesymol ac yn amodol ar reolaeth gwasgu elw.

- 2.11 Mae hyn yn golygu bod post swmp yn cael ei ddanfôn gan weithwyr post y Post Brenhinol ar eu rowndiau arferol ac, i'r rhan fwyaf o bobl, nid oes modd ei wahaniaethu oddi wrth llythyrau sy'n cael eu danfon fel rhan o'r USO.

## Diwygio manyleb yr USO

- 2.12 Mae gan Ofcom y pŵer i ddiwygio'r Gorchymyn yn dilyn adolygiad o anghenion defnyddwyr. Mae addasiadau i Amodau'r DUSP a'r Amod USPA yn amodol ar brofion statudol penodol. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r gofynion sylfaenol yn adran 31 o'r Ddeddf drwy is-ddeddfwriaeth.<sup>23</sup>

Tabl 2.1: Sut mae modd diwygio manyleb yr USO

Deddfwriaeth/rheoliad	Beth mae'n ei wneud?	Pwy sy'n cael ei newid?
<b>Adran 31 (gofynion sylfaenol) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011</b>	Mae'n nodi'r gwasanaethau sylfaenol sy'n gorfod bod yn y gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys gwasanaeth fforddiadwy am bris unffurf, a chasglu a danfon llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn.	Yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn gyda chymeradwyaeth y Senedd Brydeinig, yn dilyn adolygiad gan Ofcom o'r graddau y mae'r gofynion sylfaenol yn adlewyrchu anghenion rhesymol defnyddwyr. <sup>24</sup>
<b>Gorchymyn y Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) 2012</b>	Mae'n pennu cwmpas manwl manyleb yr USO, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, a chyflymder danfon.	Ofcom, ar ôl asesiad o'r graddau y mae'r farchnad gwasanaethau post yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr <sup>25</sup> ac ymgynghoriad cyhoeddus. <sup>26</sup>

<sup>21</sup> Yng nghyd-destun gwasanaethau mynediad, mae 'D+X' (e.e. D+2, D+5) yn nodi cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith rhwng y diwrnod bydd y cwmni mynediad yn casglu'r eitem gan yr anfonwr ('D') a'r diwrnod caiff ei ddanfôn ('X'). Er enghraifft, mae D+2 yn cyfeirio at y senario lle mae cwmni mynediad yn casglu llythyr ar ddydd Llun ac mae i fod i gael ei ddanfôn dau ddiwrnod gwaith wedyn ar y dydd Mercher, h.y. D+2.

<sup>22</sup> Mae 'diwrnod gwaith' yn golygu unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sul neu'n ŵyl gyhoeddus (Amod 1.3 USPA (gg)).

<sup>23</sup> Adran 34(5) o'r Ddeddf.

<sup>24</sup> Adran 34 o'r Ddeddf.

<sup>25</sup> Adran 30(3) o'r Ddeddf.

<sup>26</sup> O dan adran 63 o'r Ddeddf ac adran 403(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i ni roi hysbysiad o'n cynigion i wneud neu i addasu gorchymyn o dan adran 30 o'r Ddeddf. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gyfystyr â hysbysiad at y diben hwnnw, ac mae'n cydymffurfio â'r gofynion yn adran 403(5) a (6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Deddfwriaeth/rheoliad	Beth mae'n ei wneud?	Pwy sy'n cael ei newid?
<b>Amodau Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig</b>	Gosod gofynion penodol ar y Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig, gan gynnwys rhwymedigaethau casglu a danfon, targedau perfformiad a chapiau prisiau.	Ofcom, ar ôl ymgynghoriad ac yn amodol ar brofion statudol penodol. <sup>27</sup>
<b>Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol</b>	Mae'n mynnu mai'r Post Brenhinol yw'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig i gynnig mynediad at ei rwydwaith danfon llythyrau. Rhaid iddo gynnig cynnyrch dau a phum diwrnod gwaith ar delerau teg a rhesymol ac yn amodol ar reolaeth gwasgu elw.	Ofcom, ar ôl ymgynghoriad ac yn amodol ar brofion statudol penodol. <sup>28</sup>

2.13 Gweler Atodiad A5 i gael rhagor o wybodaeth am y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol.

## Dyletswyddau eraill

- 2.14 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau: a) bod camau rheoleiddio'n cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur. Wrth asesu effaith ein cynigion yn Adrannau 5, 6 a 7, rydym wedi ystyried ffactorau allweddol perthnasol sy'n sbarduno twf economaidd, gan gynnwys arloesi, cystadleuaeth, effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a masnach.<sup>29</sup>
- 2.15 Yn unol ag adran 2B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i ni hefyd ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP) Llywodraeth y DU ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post.<sup>30</sup> Mae'r SSP yn nodi prif amcan y Llywodraeth sef sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon yn ariannol yn cael ei ddarparu, yn amodol ar y ffaith bod y Llywodraeth am gael marchnad bost gystadleuol sy'n sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i eraill sy'n defnyddio gwasanaethau post.

<sup>27</sup> Adran 36 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf.

<sup>28</sup> Adran 38 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf.

<sup>29</sup> Gweler [Canllawiau Statudol ar y Ddyletswydd Twf](#).


<sup>30</sup> Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2019. [Datganiad Blaenoriaethau Strategol](#).

## Diwygio'r USO

### Yr angen i ddiwygio

- 2.16 Mae post yn dal yn arf pwysig ar gyfer cyfathrebu, ond mae'r ffordd mae pobl yn ei ddefnyddio wedi newid. Mae nifer y llythyrau wedi gostwng wrth i bobl symud i ddewisiadau digidol amgen. Roedd nifer y llythyrau a anfonwyd wedi cyrraedd ei lefel uchaf tua 2005 ond maent wedi bod yn gostwng ers hynny,<sup>31</sup> ac maent bron wedi haneru ers 2011-12, i 6.6 biliwn o eitemau yn 2023-24. Fe wnaethom nodi yn ein Cais am Fewnbwn er gwaethaf hyn, bod nifer y pwyntiau y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfoni llythyrau iddynt wedi cynyddu o 28 miliwn i 31.7 miliwn ers 2008.<sup>32</sup> Mae hyn bellach wedi cynyddu i 32 miliwn.<sup>33</sup> Ynghyd â gostyngiad mewn niferoedd, mae refeniw llythyrau hefyd wedi gostwng.<sup>34</sup>
- 2.17 Mae'r gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau oherwydd argaeledd a defnydd cysylltiadau band eang a symudol cyflymach dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i fusnesau a gwasanaethau cyhoeddus fabwysiadu offer a systemau cyfathrebu digidol. Mae'r cyfle i ddefnyddio dulliau cyfathrebu digidol amgen yn uwch nag erioed ac rydym yn disgwyl i'w defnydd gynyddu wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach.<sup>35</sup>

**Ffigur 2.2: Nifer y llythyrau i gyfeiriadau (miliynau) a refeniw mewn termau real (£m, prisiau 2023-24)<sup>36</sup>**



<sup>31</sup> Adolygiad Hooper, 2008. [Saving the Royal Mail's universal postal service in the digital age](#), tudalen 39.

<sup>32</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn](#) tudalen 15.

<sup>33</sup> Mae nifer cyfeiriadau'r DU (pwyntiau danfon) a ddaw dan y gwasanaeth post cyffredinol wedi codi o tua 28 miliwn yn 2008 (adeg Adolygiad Hooper) i tua 32 miliwn ym mis Rhagfyr 2024, yn ôl y [Postcode Address File](#).

<sup>34</sup> Ac eithrio 2021-22 pan roedd nifer y llythyrau wedi codi fymryn gyda diwedd cyfnod clo y pandemig a dychwelyd i fusnes arferol.

<sup>35</sup> Ofcom, 2024. [Cysylltu'r Gwledyddys – Adroddiad y DU 2024](#), tudalen 6 a thudalen 34. Yn 2024, roedd gan 98% o eiddo'r DU fynediad at fand eang cyflym iawn o linellau sefydlog ac mae 4G ar gael mewn 99%+ o safleoedd awyr agored.


<sup>36</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad monitro'r post – gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24](#). Nid yw hyn yn cynnwys llythyrau heb gyfeiriad megis post hysbysebu a phost etholiad.



*Ffynhonnell: Ofcom / data gweithredwyr. Mae o un pen i'r llall y Post Brenhinol yn gyfrifiad gan Ofcom ac mae'n cyfeirio at gyfanswm llythyrau'r Post Brenhinol heb gynnwys llythyrau mynediad. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys llythyrau rhyngwladol. Mae'r niferoedd mynediad yn cynnwys nifer fach o barseili mynediad.*

- 2.18 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal i fod angen mynediad at y gwasanaeth post i anfon ac, yn benodol, i dderbyn post pwysig, er enghraifft mewn perthynas â'u hiechyd neu eu sefyllfa ariannol, hyd yn oed os ydynt yn gwneud hynny'n llai aml o lawer nag yn y gorffennol. Mae canlyniadau ein harolwg a gynhaliwyd yn Hydref 2024 yn dangos bod y mwyafrif helaeth (95%) o oedolion yn dal i anfon llythyrau, gyda hanner (50%) yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis.<sup>37</sup> Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf hefyd fod wyth person o bob deg yn cytuno y bydd wastad pethau mae angen eu hanfon drwy'r post.<sup>38</sup>
- 2.19 I'r gwrthwyneb, er bod defnyddwyr a busnesau yn defnyddio llai o lythyrau, mae'r farchnad parseli wedi tyfu'n sylweddol. Er bod niferoedd a refeniw parseli wedi disgyn yn ôl ers 2020-21, mae'r duedd gyffredinol ar i fyny, gyda chyfansymiau 2022-23 yn uwch na ffigurau cyn y pandemig 2019-20.

**Ffigur 2.3: Cyfanswm nifer y parseli a'r niferoedd domestig a fesurir yn ôl cyflymder danfon (miliynau)**



*Ffynhonnell: Ofcom / data gweithredwyr. Sylwer: Mae niferoedd post mynediad yn cael eu cynnwys yn y rhai domestig. Mae data ar gyfer 2019-20 a 2022-23 wedi cael ei ailddatgan oherwydd ailgyflwyno gan weithredwyr. Mae data ar gyfer 2021-22 ymlaen yn cynnwys gweithredwyr post ychwanegol ac felly nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â data ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Mae cyfanswm niferoedd y parseli yn cynnwys parseli domestig a rhyngwladol (i mewn/allan).*

- 2.20 Mae'r tueddiadau hyn ym marchnad y DU yn gyson â marchnadoedd ar draws y byd. Wrth i'r defnydd o'r post newid, mae rheoleiddwyr post a llywodraethau mewn gwledydd eraill wedi ymateb drwy ddiwygio'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn eu

<sup>37</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 13.

<sup>38</sup> Ofcom, 2024. Traciwr [Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol](#).

hawdurdodaeth neu drwy ddigolledu'r darparwr gwasanaeth cyffredinol drwy ddefnyddio arian cyhoeddus, a fyddai'n gost i'r trethdalwr yn y pen draw.<sup>39</sup>

- 2.21 Wrth i'r defnydd o'r post newid, mae mwy a mwy o risg y bydd yr USO yn anghydnaws ag anghenion defnyddwyr. Pan nad yw'r USO llythyrau yn cyd-fynd ag anghenion rhesymol pobl, rydym yn disgwyl y bydd y costau sy'n gysylltiedig â danfon llythyrau yn anoddach eu rheoli yn unol â gostyngiad yn nifer y llythyrau. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach ac yn ddrutach i'r Post Brenhinol ddarparu'r USO, gyda chostau uwch yn arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr.
- 2.22 Mae risg sylweddol hefyd y bydd y gwasanaeth cyffredinol yn dod yn anghynaliadwy yn ariannol, ac rydym yn amcangyfrif bod yr USO eisoes yn faich ariannol ar y Post Brenhinol.<sup>40</sup> Am y rhesymau hyn, ac ar ôl ystyried y ddyletswydd twf economaidd ac SSP y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau post, rydym o'r farn ei bod yn bwysig ein bod yn gweithredu nawr i ystyried a oes modd diwygio'r USO i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth ar yr un pryd â pharhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at gynnydd is mewn prisiau i ddefnyddwyr nag a fyddai wedi digwydd fel arall yn y dyfodol.

## Cais am fewnbwn a dewisiadau i ddiwygio'r USO

- 2.23 Ar 24 Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn ar ddyfodol y gwasanaeth post cyffredinol. Roeddem wedi nodi'r dystiolaeth roeddem wedi'i chasglu ac opsiynau ar gyfer diwygio. Cawsom 2,348 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion, cyrff defnyddwyr, grwpiau ymgyrchu, sefydliadau cynrychioladol, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, cwmnïau mynediad a phostwyr swmp.<sup>41</sup> Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith nad y DU yw'r unig wlad sy'n gorfod ymateb i'r heriau hyn; ar draws Ewrop a gweddill y byd, mae rhwymedigaethau gwasanaeth post cyffredinol wedi cael eu diwygio neu wrthi'n cael eu diwygio.
- 2.24 Yn ein Cais am Fewnbwn, roeddem wedi nodi nifer o opsiynau i ddiwygio a allai, yn ein barn ni, arwain at USO sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion pobl am lythyrau. Roedd yr opsiynau posibl a nodwyd gennym yn dibynnu ar gadw'r Post Brenhinol yn DUSP a chynnal egwyddorion craidd yr USO – cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf.
- 2.25 Fe wnaethom ystyried dau brif opsiwn:
- a) Danfon llythyrau'n llai aml drwy leihau nifer y diwrnodau danfon o'r rhwymedigaeth chwe diwrnod yr wythnos presennol, i lawr i bump neu dri diwrnod yr wythnos; neu

---

<sup>39</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn](#) tudalennau 46-53. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Denmarc, Ffrainc, yr Eidal, Gwlad Pwyl a Sbaen wedi gofyn am gymeradwyo cymorth gwladwriaethol i'w ddarparu i'w USPs er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu gwasanaethau.

<sup>40</sup> Gweler Adrannau 4 ac 8 o'r ddogfen hon.

<sup>41</sup> Mae'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn ar gael yma: Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol – crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn a'r camau nesaf..](#)

- b) Newidiadau i gyflymder danfon llythyrau,<sup>42</sup> fel bod y rhan fwyaf o lythyrau'n cael eu danfon drwy wasanaeth arafach sy'n cymryd hyd at dri diwrnod neu fwy, gyda gwasanaeth y diwrnod canlynol ar gael o hyd ar gyfer unrhyw lythyrau brys.
- 2.26 Fe wnaethom hefyd wedi ystyried opsiynau eraill fel:
- a) Dim ond gwneud newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth presennol; a
  - b) Chymhorthdal i'r USO presennol (drwy gymhorthdal cyhoeddus neu o gronfa diwydiant).
- 2.27 Fodd bynnag, ein safbwyntiau cychwynnol oedd y byddai ein prif opsiynau'n cael eu ffafrio yn lle'r opsiynau eraill.

## Ymatebion i'r Cais am Fewnbwn

- 2.28 Ym mis Medi 2024, fe wnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gawsom.<sup>43</sup>
- 2.29 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a'r cyfranogwyr yn ein digwyddiadau cyhoeddus yn cydnabod bod y ffordd mae pobl a busnesau'n defnyddio llythyrau wedi newid. Er bod pobl yn anfon llai o lythyrau, mae angen anfon llawer o eitemau drwy lythyr o hyd. Roedd ymatebwyr yn cydnabod y bydd angen newid y rhwymedigaethau ar y Post Brenhinol wrth i bobl barhau i ddibynnu ar lythyrau, ond dylai egwyddorion allweddol cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf barhau. Byddai angen i ddibynadwyedd fod yn ganolog i ddiwygio'r USO ac roedd rhai yn teimlo bod dibynadwyedd gwael, ynghyd â chynnydd mewn prisiau, yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y llythyrau. Nid oedd rhai ymatebwyr yn credu bod angen diwygio ac roeddent yn credu y dylai'r Post Brenhinol ganolbwyntio ar fod yn fwy effeithlon a/neu gynnal yr USO drwy gyflwyno cynnyrch neu wasanaethau newydd. Codwyd pryderon hefyd am perfformiad ansawdd gwasanaeth presennol y Post Brenhinol ac a yw'r drefn orfodi bresennol yn effeithiol.<sup>44</sup>
- 2.30 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn derbyn y byddai'r opsiwn i ddanfon llythyrau'n llai aml yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar yr amod bod opsiwn diwrnod canlynol yn aros yn ei le a bod y gwasanaeth yn ddibynadwy.<sup>45</sup> Fodd bynnag, roedd unrhyw ostyngiad pellach i dri diwrnod neu un diwrnod yr wythnos yn llai derbyniol. Soniodd rhai rhanddeiliaid am bwysigrwydd parhau i ddanfon ar ddydd Sadwrn – rydym yn rhoi sylw manylach i hyn yn Adran 5. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n anfon post swmp hefyd yn gwerthfawrogi dibynadwyedd dros gyflymder ac yn dewis amseroedd danfon hirach (o fewn pum diwrnod) – rydym yn rhoi sylw manylach i hyn yn Adran 7.

---

<sup>42</sup> Mae hyn yn cyfeirio at y gwasanaethau post swmp sy'n cael eu darparu drwy bost manwerthu swmp y Post Brenhinol a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan weithredwyr post sy'n defnyddio gwasanaethau mynediad milltir olaf y Post Brenhinol.

<sup>43</sup> Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - [crynodeb o'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn a'r camau nesaf](#).

<sup>44</sup> Cawsom nifer fawr o ymatebion gan unigolion a oedd yn galw ar y llywodraeth i ymyrryd i ailwladoli'r Post Brenhinol fel rhan o ymgyrch We Own it. Roedd rhai ymatebwyr yn galw ar y llywodraeth i ymyrryd i roi cymhorthdal i'r USO i gynnal y fanyleb bresennol neu i'w chefnogi tra mae'n cael ei diwygio. Rydym yn parhau i nodi mai materion i Lywodraeth y DU yw'r rhain.

<sup>45</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn](#).

## Ymateb y Post Brenhinol

- 2.31 Roedd y Post Brenhinol wedi ymateb i'n Cais am Fewnbwn gyda chynnig mawr i ddiwygio'r USO a oedd yn canolbwyntio ar newid y patrymau danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, h.y. llythyrau Ail Ddosbarth, a llythyrau mynediad D+2 a D+5. Byddai llythyrau Dosbarth Cyntaf yn dal i gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos, a byddai'r rhwymedigaeth parseli yn aros yr un fath. Roedd hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r opsiwn i ddanfon yn llai aml, roeddem yn ystyried dros dro bod hyn yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth o'r esblygiad yn anghenion defnyddwyr. Ym mis Medi 2024, fe wnaethom ddweud y byddem yn canolbwyntio ar asesiad manwl o'r cynigion hyn.
- 2.32 Byddai cynigion y Post Brenhinol yn gofyn am newidiadau i'r Gorchymyn, Amodau'r DUSP a'r Amod USPA a gellir eu crynhoi mewn tri maes allweddol: newidiadau i ddanfon llythyrau USO Ail Ddosbarth; newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth; a newidiadau i'r rhwymedigaeth mynediad.<sup>46</sup>
- 2.33 Dywedodd y Post Brenhinol y byddai'r gyfres hon o newidiadau yn arwain at arbedion cost sylweddol a fyddai'n helpu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.<sup>47</sup>

### Newidiadau arfaethedig y Post Brenhinol i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth (Adran 5)

- 2.34 Yn gryno, roedd y Post Brenhinol yn cynnig y canlynol mewn perthynas â'r USO:
- i) Byddai llythyrau Dosbarth Cyntaf yn dal i gael eu danfon y diwrnod canlynol (D+1) gyda llythyrau'n cael eu danfon o ddydd Llun i ddydd Sadwrn (yn unol â'r USO presennol).
  - ii) Byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon cyn pen tri diwrnod gwaith (D+3) (yn unol â'r USO presennol), gyda llythyrau yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Mae hynny'n golygu rhoi'r gorau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn.
  - iii) Ni fyddai unrhyw newidiadau i'r amllder danfon neu gasglu ar gyfer parseli.
- 2.35 Byddai'r newidiadau hyn yn golygu bod y Post Brenhinol yn gallu gweithredu model danfon 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Mae hyn yn golygu y byddai hanner y cyfeiriadau'n derbyn llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener un wythnos, ac yna'n newid i ddydd Mawrth a dydd Iau yr wythnos ganlynol, cyn dychwelyd i ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yr wythnos wedyn, h.y. danfon 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd. Fel sy'n cael ei ddangos yn Nhabl 2.4 isod, byddai hyn yn golygu y byddai eitemau sy'n cael eu postio ar rai diwrnodau (dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn) yn cael eu danfon un diwrnod yn ddiweddarach na'r hyn sy'n

---

<sup>46</sup> Gwnaeth y Post Brenhinol nifer o gynigion hefyd i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ac ynghylch amseru a chynnal gwaith Ofcom nawr ac yn y dyfodol. Gweler [ymateb y Post Brenhinol](#) i'r Cais am Fewnbwn yn 2024 i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>47</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

digwydd ar hyn o bryd,<sup>48</sup> heb unrhyw newid i eitemau sy'n cael eu postio ar ddiwrnodau eraill (dydd Sul, dydd Llun a dydd Mawrth).

**Tabl 2.4: Tabl i ddangos y diwrnod danfon disgwylidig presennol a'r diwrnod danfon disgwylidig yn y dyfodol ar ôl y diwrnod postio os bydd y newidiadau arfaethedig i'r amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu rhoi ar waith.**

Diwrnod postio	Dyddiad danfon disgwylidig ar hyn o bryd	Dyddiad danfon disgwylidig yn y dyfodol
Dydd Llun	Dydd Iau	Dydd Iau
Dydd Mawrth	Dydd Gwener	Dydd Gwener
Dydd Mercher	Dydd Sadwrn	Dydd Llun
Dydd Iau	Dydd Llun	Dydd Mawrth
Dydd Gwener	Dydd Mawrth	Dydd Mercher
Dydd Sadwrn	Dydd Mercher	Dydd Iau
Dydd Sul	Dydd Iau	Dydd Iau

### Newidiadau arfaethedig y Post Brenhinol i'r USO targedau ansawdd gwasanaeth (Adran 6):

- 2.36 Mae'r Post Brenhinol hefyd yn rhwym wrth dargedau ansawdd gwasanaeth sy'n delio â'i berfformiad yn erbyn y cyflymder danfon disgwylidig, gweithgareddau casglu, cwblhau llwybrau danfon, yn ogystal â pherfformiad mewn ardaloedd cod post unigol yn y DU. Y tro diwethaf i ni adolygu agweddau ar y fframwaith ansawdd gwasanaeth oedd yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Post 2022.<sup>49</sup> Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu problemau parhaus gyda pherfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol.
- 2.37 Mae'r Post Brenhinol wedi cynnig newidiadau amrywiol i'r targedau. Mae'r rhain yn cynnwys gostwng y prif dargedau ar gyfer danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, a chyflwyno targedau dibynadwyedd post hwyr eilaidd newydd. Byddai'r targedau post hwyr yn berthnasol i bost nad yw wedi cael ei ddanfon yn brydlon, ac yn cyflwyno cymhelliant eilaidd i leihau oedi sylweddol. Mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl 2.5 isod.
- 2.38 Mae'r Post Brenhinol wedi datgan na all gyrraedd y targedau cyfredol am gost resymol. Mae'r newidiadau sy'n cael eu cynnig gan y Post Brenhinol yn ceisio adlewyrchu newidiadau

<sup>48</sup> Mae llythyrau Ail Ddosbarth a anfonir ar ddydd Mercher i fod i gael eu danfon ar ddydd Sadwrn ar hyn o bryd. O dan ein cynigion, byddent yn cael eu danfon ar y diwrnod danfon nesaf, sef dydd Llun gan nad yw dydd Sul yn ddiwrnod danfon.

<sup>49</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post.](#)

yn y farchnad bost, fel pwysau costau uned uwch ar gyfer danfon a disgwyliadau cysylltiedig yr USO sy'n canolbwyntio ar ddibynadwyedd a fforddiadwyedd, yn hytrach na chyflymder.

**Tabl 2.5: Targedau ansawdd gwasanaeth presennol a thargedau ansawdd gwasanaeth arfaethedig y Post Brenhinol wrth ddiwygio'r USO<sup>50</sup>**

Targed	Cyfredol	Cynnig y Post Brenhinol
<b>Dosbarth Cyntaf (D+1)</b>	Danfon 93% o'r post y diwrnod canlynol	Danfon 90% o'r post y diwrnod canlynol
<b>Ardal Cod Post Dosbarth Cyntaf (PCA) (D+1)</b>	Danfon 91.5% o'r post y diwrnod canlynol ym mhob ardal cod post, ac eithrio HS, KW, a ZE (118/121 PCAs)	<u>Dewis cyntaf</u> : dileu'r targed PCA <u>Ail ddewis</u> : Danfon 86% o'r post y diwrnod canlynol ym mhob ardal cod post, ac eithrio HS, KW, a ZE (118/121 PCAs), gyda lwfans ar gyfer methiant 6 PCA
<b>Post Hwyr Dosbarth Cyntaf</b>	Amh	NEWYDD: Danfon 96% o'r post cyn pen dau ddiwrnod (D+2) Wedi'i ddiwygio wedyn: Danfon 99% o'r post cyn pen pum niwrnod (D+5)
<b>Ail Ddosbarth (D+3)</b>	Danfon 98.5% o'r post cyn pen tri diwrnod	Danfon 95% o'r post cyn pen tri diwrnod
<b>Post Hwyr Ail Ddosbarth</b>	Amh	NEWYDD: Danfon 99% o'r post cyn pen pum niwrnod (D+5)

### Newidiadau arfaethedig y Post Brenhinol i'r Amod USPA (Adran 7):

2.39 Mae'r Post Brenhinol yn defnyddio'r un rhwydwaith i ddanfon post yr USO a phost swmp. Fel sy'n cael ei egluro uchod, post swmp yw'r rhan fwyaf o'r farchnad llythyrau ac mae'n cynnwys llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio gwasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, a gwasanaethau mynediad, y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cynnig o dan yr Amod USPA. Roedd y Post Brenhinol yn cynnig danfon y rhan fwyaf o bost swmp o dan y model arfaethedig danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ac awgrymodd y newidiadau canlynol i'r manylebau mynediad presennol sy'n cael eu rheoleiddio gan yr Amod USPA:

- i) Cyflwyno gwasanaeth mynediad D+3 newydd sy'n cael ei reoleiddio ar gyfer llythyrau mynediad, a newid y fanyleb ar gyfer gwasanaethau mynediad D+5 presennol, a fyddai'n cyd-fynd â'r fanyleb sy'n cael ei chynnig ar gyfer llythyrau eitemau unigol Ail Ddosbarth, h.y. danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Byddai hyn yn golygu bod modd i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau mynediad D+3

<sup>50</sup> Roedd y Post Brenhinol wedi gofyn i ni ailystyried ceisiadau blaenorol i newid y targed danfon, yn enwedig newid o fesur llwybrau danfon sy'n cael eu cwblhau i fesur pwyntiau danfon sy'n cael eu gwasanaethu, ac ymestyn cyfnod eithrio'r Nadolig i gynnwys 'Wythnos Prynu Ar-lein'. Gweler Adran 6 i gael rhagor o wybodaeth.

a D+5 ochr yn ochr â llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

- ii) Dileu'r gofyniad presennol i gynnig gwasanaethau mynediad D+2 y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cynnig drwy'r Amod USPA.

2.40 Mae'r Post Brenhinol yn credu bod angen y newidiadau hyn i'r rhwymedigaeth mynediad i sicrhau ei fod yn gallu gweithredu model danfon wedi'i ddiweddarau ar gyfer llythyrau USO a phost mynediad, ac i helpu i gyflawni manteisio diwygio'r USO.

## Ein hasesiad o gynigion y Post Brenhinol

- 2.41 Roedd cynigion y Post Brenhinol yn debyg iawn i un o'r ddau brif opsiwn a nodwyd gennym yn ein Cais am Fewnbwn (danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml), a allai, yn ein barn ni, gyd-fynd â'r esblygiad yn anghenion defnyddwyr. Byddai'r newidiadau arfaethedig hyn yn arwain at lai o newidiadau i'r USO gan y byddai'r gwasanaeth llythyrau Dosbarth Cyntaf a'r rhwymedigaeth parseli yn aros yr un fath.
- 2.42 Am y rhesymau sy'n cael eu hegluro uchod, credwn fod angen ystyried diwygio'r USO ar frys. Rydym yn nodi y gellid gweithredu cynnig y Post Brenhinol yn gyflymach na'r opsiynau i leihau nifer y diwrnodau danfon ar gyfer pob math o lythyrau, gan gynnwys llythyrau Dosbarth Cyntaf, gan na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn gofyn am newid y lefelau gwasanaeth USO sylfaenol a sefydlwyd mewn deddfwriaeth ac y gellir eu gweithredu drwy newidiadau i reoliadau Ofcom. O ystyried yr uchod i gyd, rydym wedi canolbwyntio ar asesu newidiadau i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth fel y prif opsiwn i ddiwygio'r USO.
- 2.43 Er bod ymateb y Post Brenhinol yn cynnwys diwygiadau i'w rwymedigaethau parseli, nid ydym yn cynnig newidiadau i fanyleb yr USO ar gyfer casglu neu ddanfon parseli.<sup>51</sup> Fe wnaethom archwilio'r mater hwn yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Post yn 2022 a phenderfynu na ddylid ei gyflwyno gan y byddai perygl iddo ystumio cystadleuaeth ym maes danfon parseli.<sup>52</sup> Ar sail yr ymchwil defnyddwyr a wnaethom yn 2022 a 2023, rydym yn dal i gredu bod anghenion parseli'n cael eu diwallu. Nid ydym yn credu y bu newid sylweddol mewn amgylchiadau ers i ni wneud y penderfyniad hwnnw ac nid ydym yn bwriadu ailagor y mater hwn yn ein gwaith presennol.<sup>53</sup>
- 2.44 Fe wnaethom benderfynu hefyd ystyried a oes achos dros newid y targedau ansawdd gwasanaeth sy'n gysylltiedig â diwygio'r USO a chefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth.

---

<sup>51</sup> Roedd y Post Brenhinol wedi gofyn am gael ychwanegu tracio parseli a chynnyrch diwedd dydd newydd ar gyfer Danfon Arbennig at yr USO. Mae tracio yn elfen o'r cynnyrch USO Danfon Arbennig 1pm, ond nid y cynnyrch USO parseli (neu lythyrau) Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Mae'r Post Brenhinol yn cynnig cynnyrch parseli wedi'u holrhain yn fasnachol (y tu allan i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol) ee Orlhain 24 awr ac Orlhain 48 awr. Danfon Arbennig erbyn 1pm y diwrnod canlynol yw'r cynnyrch cofrestredig ac yswiriedig sydd yn yr USO ar hyn o bryd.

<sup>52</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post](#), Adran 7.

<sup>53</sup> Er nad ydym yn ystyried diwygio danfon parseli, mae targedau ansawdd gwasanaeth yn berthnasol i lythyrau ac i barseli. Felly, mae'r cynigion yn Adran 6 yn berthnasol i dargedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer llythyrau a pharseli.

## Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

---

- 2.45 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw cyflwyno ein hasesiad o gynigion i ddiwygio'r USO. Er mwyn arwain ein hasesiad, rydym wedi ceisio cyflawni'r amcanion polisi canlynol, er mwyn dangos yn glir i randdeiliaid beth rydym yn ceisio ei gyflawni a sut rydym wedi pwysu a mesur ein dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â gwasanaethau post wrth lunio ein cynigion. Mae ein hamcanion polisi yn rhoi fframwaith clir a thryloyw i asesu'r dystiolaeth sydd ar gael a gwneud cynigion.
- 2.46 Gan ystyried ein rôl, ein pwerau a'n dyletswyddau sy'n cael eu disgrifio uchod, ein hamcanion yw rhoi fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar waith a fydd yn hyrwyddo'r canlyniadau canlynol:
- Arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy wasanaeth cyffredinol sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr;
  - Cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol;
  - Cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel; a
  - Hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post.
- 2.47 Er nad oes gan Ofcom ddyletswydd i ystyried effeithiau amgylcheddol mewn perthynas â'r USO, fel y gwelwch yn ein Cais am Fewnbwn, mae hwn yn fater o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn un lle mae gweithgareddau logisteg yn chwarae rhan fawr.<sup>54</sup> Rydym o'r farn bod ein cynigion yn cyd-fynd â hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol yn gyffredinol, maent yn arafu'r danfon, yn enwedig ar gyfer post swmp ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol o ran sut mae'n gweithredu yn y dyfodol er mwyn iddo allu parhau i adlewyrchu effeithiau amgylcheddol yn ei ddull gweithredu. Gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio mwy o ddulliau teithio arafach ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd yn hytrach na chludo nwyddau ar awyrennau, a fyddai'n lleihau allyriadau CO2.
- 2.48 Mae'n well gan rai defnyddwyr weithrediadau sy'n amgylcheddol gynaliadwy, ac mae ein hymchwil yn cefnogi hyn, gan fod ychydig o dan hanner y defnyddwyr yn cytuno y byddai'n well ganddynt i wasanaethau post gael eu darparu mewn ffordd sy'n amgylcheddol gyfrifol, hyd yn oed os byddai'n golygu y byddai'n cymryd mwy o amser i ddanfon eitemau.<sup>55</sup>

## Asesiad effaith

---

- 2.49 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.
- 2.50 Mae asesiadau o'r effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd y dewis sy'n cael ei ffafrio. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maen nhw hefyd

---

<sup>54</sup> Mae canllawiau statudol y Llywodraeth ar y ddyletswydd twf economaidd hefyd yn rhestru cynaliadwyedd amgylcheddol fel un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno twf economaidd.

<sup>55</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad monitro'r post – gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24](#), tud12.



yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.<sup>56</sup>

- 2.51 Mae'r dadansoddiad sy'n cael ei gyflwyno yn y ddogfen hon ar gael yn y paragraffau canlynol.
- 2.52 Yn Adran 5, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i newid amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth ym mharagraffau 5.35 i 5.68. Yn benodol, mae'r effeithiau ar ddefnyddwyr post ym mharagraffau 5.38 i 5.58, ac mae'r effaith ar gynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol ym mharagraffau 5.60-5.65.
- 2.53 Yn Adran 6, rhwng paragraffau 6.40 a 6.44, rydym yn nodi'r effeithiau'r cynnig i ddiwygio'r targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf D+1 a rhwng paragraffau 6.46 a 6.54, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i ddiwygio'r targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf D+1. O baragraff 6.58 i 6.61, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i gyflwyno targed post hwyr Dosbarth Cyntaf D+3. Rydym hefyd yn nodi effeithiau'r cynnig i addasu'r targed Ail Ddosbarth D+3 i adlewyrchu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos o baragraff 6.62 i 6.69 ac effeithiau'r cynnig i gyflwyno targed post hwyr newydd Ail Ddosbarth D+5 rhwng paragraffau 6.70 a 6.72.
- 2.54 Yn Adran 7, o baragraff 7.26 i 7.48, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i reoleiddio gwasanaeth mynediad D+3 a rhwng paragraffau 7.75 a 7.80, rydym yn nodi effeithiau'r cynnig i ddiwygio'r rhwymedigaeth mynediad D+5 presennol.
- 2.55 Yn Adran 8, rydym yn nodi effaith y cynigion i ddiwygio'r USO ar sefyllfa cost a refeniw'r Post Brenhinol ac effaith y newidiadau arfaethedig ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, yn nhabl 8.2 a rhwng paragraffau 8.48 a 8.50.
- 2.56 Mae ein hasesiad effaith rheoleiddiol o gynigion i addasu'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol wedi'i nodi yn Atodiad A7.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

---

- 2.57 Mae gan Ofcom ddyletswyddau amrywiol i asesu'r effeithiau ar grwpiau penodol pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau. Mae'r grwpiau hyn wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gogledd Iwerddon 1998 a Deddf Cyfathrebiadau 2003.
- 2.58 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd arnom i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu ein bod yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

---

<sup>56</sup> I gael rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu yng nghyswllt asesiadau effaith, edrychwch ar [ganllawiau asesiadau effaith](#).

- 2.59 Mae Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategoriâu a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.<sup>57</sup>
- 2.60 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (Deddf 2003) yn mynnu ein bod yn gweithredu er budd dinasyddion, gan roi sylw penodol i nodweddion penodol: y rheini sydd angen gwarchodaeth arbennig, pobl ag anabledau, yr henoed, pobl ar incwm isel, pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, pobl o wahanol gymunedau ethnig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- 2.61 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010, Deddf 1998 a Deddf 2003, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.
- 2.62 Rydym o'r farn y gallai ein cynigion gael effaith niweidiol ar bobl sy'n fwy tebygol o fod yn ddibynol ar y gwasanaeth post, gan gynnwys:
- Defnyddwyr heb fynediad i'r rhyngwyd
  - Defnyddwyr â symudedd cyfyngedig
  - Defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig
  - Defnyddwyr hŷn
- 2.63 Yn Adran 3 (Asesiad o Anghenion Defnyddwyr), rydym yn nodi sut gallai ein cynigion effeithio ar bobl sy'n dibynnu mwy ar y gwasanaeth post.
- 2.64 Rydym hefyd o'r farn y gallai ein cynigion gael effeithiau niweidiol ar bobl mewn ardaloedd daearyddol penodol, pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, pobl sy'n agored i niwed yn ariannol a phobl sy'n fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau post ar gyfer samplau a phrofion meddygol.
- 2.65 Fodd bynnag, ar y cyfan rydym o'r farn bod yr effeithiau niweidiol posibl ar y grwpiau hyn yn cael eu cyfiawnhau gan y manteision sy'n deillio o'n cynigion.
- 2.66 Rydym yn croesawu ymatebion ar yr effaith bosibl ar y grwpiau hyn, gan gynnwys sut gallem liniaru neu ddileu effeithiau niweidiol.
- 2.67 Mae ein Hasesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad A6.

### **Cwestiwn 2.1**

Ydych chi'n cytuno â'r casgliadau dros dro a nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

---

<sup>57</sup> Ofcom, 2019. [Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon ar gyfer Ofcom.](#)

## Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

---

- 2.68 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisiau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).
- 2.69 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.
- 2.70 Rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio ein cynigion.
- 2.71 Ni fydd y cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac ni fyddant yn cael unrhyw effeithiau niweidiol. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch, yn enwedig yn Adran 5, yn ceisio sicrhau bod defnyddwyr ar draws y DU yn gallu parhau i ddefnyddio'r post fel math o gyfathrebu, sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg drwy'r dull hwn (llythyrau'n unig).
- 2.72 Rydym yn croesawu ymatebion i unrhyw effeithiau posibl sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

### **Cwestiwn 2.2**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o dan Safonau'r Gymraeg? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

## Strwythur y ddogfen hon

---

2.73 Dyma strwythur gweddill y ddogfen hon:

- **Adran 3 - Asesiad o Anghenion Defnyddwyr Post:** Mae'n nodi asesiad Ofcom o anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau ac a yw marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu'r anghenion hynny.
- **Adran 4 – Cynaliadwyedd Ariannol yr USO:** Mae'n egluro ein dull gweithredu yng nghyswllt ein dyletswydd i ystyried yr angen i'r gwasanaeth cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol, yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol bresennol y Post Brenhinol a'r ffyrdd posibl y gellid gwneud arbedion net drwy newid cwmpas yr USO.
- **Adran 5 - Newidiadau arfaethedig i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth:** Mae'n nodi ein cynigion ar gyfer model i ddanfôn llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos ac mae'n asesu effaith y cynigion hynny.
- **Adran 6 - Newidiadau arfaethedig i dargedau Ansawdd Gwasanaeth yr USO:** Mae'n nodi ein cynigion i addasu'r targedau ansawdd gwasanaeth y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd gyda gwasanaethau'r USO ac yn asesu effaith y cynigion hynny.
- **Adran 7 - Newidiadau Arfaethedig i'r Amod Mynediad:** Mae'n nodi ein cynigion i newid y rhwymedigaeth ar y Post Brenhinol i gynnig mynediad i'w rwydwaith post ac yn asesu effaith y cynigion hynny.
- **Adran 8 – Effaith ein cynigion ar gynaliadwyedd ariannol:** Mae'n nodi ein hamcangyfrifon o'r arbedion posibl y gallai'r Post Brenhinol eu gwneud o'n cynigion i newid ein gwaith rheoleiddio ac yn eu cymharu ag amcangyfrifon y Post Brenhinol gan ddefnyddio ei gynigion ei hun.
- **Adran 9 – Y camau nesaf a diweddariad ar waith arall.**

2.74 Mae'r Atodiadau wedi'u gosod fel a ganlyn:

- **Atodiad A1 – Ymateb i'r ymgynghoriad hwn:** Manylion sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
- **Atodiad A2 – Egwyddorion ymgynghori Ofcom:** Yr egwyddorion mae Ofcom yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus.
- **Atodiad A3 – Dalen cyflwyno'r ymgynghoriad:** Dalen cyflwyno i'w defnyddio wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
- **Atodiad A4 – Cwestiynau'r ymgynghoriad:** Mae'n nodi'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth ar y rhain gan randdeiliaid.
- **Atodiad A5 - Fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol:** Crynodeb o ddyletswyddau Ofcom, a fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y gwasanaeth cyffredinol a rheoleiddio'r post yn ehangach.
- **Atodiad A6 – Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:** Mae'n nodi ein Hasesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

- **Atodiad A7 – Asesiad effaith rheoleiddiol o newidiadau i Orchymyn y Gwasanaeth Post Cyffredinol:** Asesiad effaith rheoleiddiol o'n cynigion i addasu'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol, a chadarnhad o'r addasiadau arfaethedig hynny.
- **Atodiad A8 - Hysbysiad o newidiadau i amodau'r DUSP:** Hysbysiad statudol o'n haddasiadau arfaethedig i Amod 1 y DUSP.
- **Atodiad A9 - Hysbysiad o newidiadau i'r amodau Mynediad:** Hysbysiad statudol o'n haddasiadau arfaethedig i'r Amod Mynediad i Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol.
- **Atodiad A10 – Geirfa:** Rhestr o dermau ac acronymau wedi'u diffinio a ddefnyddir drwy'r ddogfen hon.

2.75 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cyhoeddi adroddiad gan BMG yn nodi ein hymchwil ddiweddaraf i'r farchnad ar Bost. <sup>58</sup>

---

<sup>58</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post.](#)

# 3. Asesiad o Anghenion Defnyddwyr Post

## Pwrpas yr adran hon

- Mae'n rhaid i Ofcom asesu i ba raddau mae marchnad gwasanaethau post y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr y gwasanaethau hynny cyn unrhyw addasiad posibl i'r Gorchymyn.
- Yn yr adran hon, gan ddefnyddio ymchwil i anghenion defnyddwyr, data am y farchnad a thystiolaeth arall, rydym yn nodi asesiad Ofcom o anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau ac a yw marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu'r anghenion hynny.

## Yn fyr

- Mae'r ffordd mae unigolion a busnesau'n defnyddio gwasanaethau post wedi newid, oherwydd bod mwy a mwy yn defnyddio cyfathrebiadau digidol a'r gostyngiad dilynol yn y ddibyniaeth ar wasanaethau post ar gyfer cyfathrebu personol a busnes.
- Er mwyn canfod anghenion defnyddwyr, rydym wedi cyfeirio at ein corff helaeth o ymchwil, gan gynnwys ein hymchwil defnyddwyr diweddaraf<sup>59</sup> a oedd yn profi'n benodol ymatebion defnyddwyr i newidiadau posibl i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth.
- Mae llawer o'r post mae llawer o ddefnyddwyr yn dibynnu arno ar gyfer cyfathrebiadau swyddogol fel apwyntiadau ysbyty, llythyrau meddygol, biliau a llythyrau budd-daliadau yn cael ei anfon gan ddefnyddio post swmp yn hytrach na gwasanaethau USO. Felly, mae ein hasesiad hefyd yn ystyried anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig fel rhai sy'n derbyn post swmp.
- Fe welsom fod ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth llythyrau sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Byddant wastad angen defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau, ac o bryd i'w gilydd bydd arnynt angen gwasanaeth danfon cyflymach, y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth ar wasanaethau post i anfon llythyrau wedi gostwng ac nid oes angen i'r rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon ac yn eu derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos.
- Ein casgliad dros dro yw y byddai anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dal i gael eu diwallu drwy ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml, ar yr amod bod gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol yn dal ar gael.
- Er gwaethaf pryderon rhai defnyddwyr am effaith danfon yn llai aml, mae anghenion y rhai sy'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau llythyrau yn debyg i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ac mae cynnyrch ar gael yn y farchnad gwasanaethau post a fydd yn parhau i ddiwallu eu hanghenion.

---

<sup>59</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#).

- Rydym yn dod i'r casgliad dros dro bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn mynd y tu hwnt i anghenion rhesymol defnyddwyr yn gyffredinol o ran pa mor aml caiff llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth eu danfon.

## Cyflwyniad

---

- 3.1 Amcan gwasanaeth post cyffredinol yw gwarantu bod gwasanaeth post o ansawdd da yn cael ei ddarparu am brisiau fforddiadwy, a'i fod ar gael i bawb yn y DU. Mae'n adlewyrchu'r casgliad bod y gwasanaeth mor bwysig i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i gymdeithas yn gyffredinol bod angen ymyrryd i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau ar yr un telerau, sef rhywbeth na fyddai'r farchnad yn gallu ei wneud fel arall. Fodd bynnag, bwriad y gwasanaeth cyffredinol yw dim ond diwallu'r anghenion rhesymol hynny nad ydynt yn cael eu diwallu'n ddigonol gan y farchnad ehangach fel arall.
- 3.2 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2, mae Ofcom yn nodi'r gwasanaethau mae'n rhaid eu darparu fel rhan o'r USO drwy orchymyn. Cyn addasu'r Gorchymyn, mae adran 30 o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cynnal asesiad o'r graddau mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau post yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Mae'r adran hon yn cynnwys yr asesiad hwnnw.
- 3.3 Roedd ein Cais am Fewnbwn yn galw am ddadl genedlaethol ar ddyfodol y gwasanaeth post cyffredinol. Yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom nodi opsiynau i ddiwygio'r USO a fyddai'n gallu, yn ein barn ni, parhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, gan greu arbedion cost ac arwain at ganlyniadau da i ddefnyddwyr o ran parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol a chynnydd is mewn prisiau. Roedd yr opsiynau hyn yn canolbwyntio ar newid pa mor aml fyddai llythyrau'n cael eu danfon a'u danfon yn arafach. Byddai mabwysiadu unrhyw opsiynau diwygio o'r fath yn golygu bod yn rhaid i ni newid y Gorchymyn.
- 3.4 Er bod yr asesiad hwn yn ystyried anghenion defnyddwyr yn gyffredinol, o ystyried yr opsiynau rydym wedi'u nodi i ddiwygio, mae'n canolbwyntio ar anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n ymwneud â pha mor aml a pha mor gyflym mae llythyrau'n cael eu danfon ac a yw'r farchnad yn diwallu'r anghenion hynny. Rydym wedyn yn mynd ymlaen i asesu a fyddai newidiadau i'r USO mewn perthynas â'r ddwy nodwedd hyn yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Yn ogystal ag amllder a chyflymder, mae ein hasesiad hefyd yn ystyried anghenion rhesymol eraill sy'n berthnasol i ddiwygio, fel dibynadwyedd a fforddiadwyedd.
- 3.5 Ein ffordd o asesu anghenion rhesymol defnyddwyr oedd edrych ar y ffordd mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post wedi newid, y ffaith bod mwy a mwy yn defnyddio cyfathrebiadau digidol, a'r gostyngiad dilynol yn y ddibyniaeth ar wasanaethau post ar gyfer cyfathrebu personol a busnes. Rydym wedi dadansoddi ein corff helaeth o ymchwil defnyddwyr i ddod i gasgliadau am anghenion busnesau bach a chanolig ac unigolion gan wasanaethau post ac a ydym yn credu bod yr anghenion hyn yn rhesymol. Rydym yn canolbwyntio ar anghenion busnesau bach a chanolig yn hytrach na'r holl ddefnyddwyr busnes gan fod busnesau a sefydliadau mwy yn tueddu i ddefnyddio

gwasanaethau post swmp yn hytrach na chynnyrch USO i anfon llythyrau.<sup>60</sup> Fodd bynnag, gan fod llawer o'r llythyrau sy'n cael eu hystyried yn bwysig iawn gan ddefnyddwyr, er enghraifft llythyrau sy'n ymwneud â materion meddygol ac ariannol, yn cael eu hanfon gan ddefnyddio post swmp, rydym hefyd yn ystyried anghenion busnesau bach a chanolig a defnyddwyr unigol o ran y llythyrau maent yn eu derbyn gan sefydliadau a busnesau mawr drwy wasanaethau post swmp.

- 3.6 Wrth asesu anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post, rydym yn ystyried beth mae defnyddwyr yn ei ddweud yn ein hymchwil am sut maen nhw'n defnyddio gwasanaethau post a beth maen nhw ei angen ganddyn nhw. Wrth ystyried a yw'r anghenion a nododd defnyddwyr yn rhesymol, efallai byddwn yn dod i'r casgliad, er bod gan rai grwpiau o ddefnyddwyr ffafriaeth neu angen penodol, nad yw'r rhesymol cynnal neu gynyddu darpariaeth yr USO i ddiwallu'r angen neu'r dewis hwnnw. Er mwyn cyfrannu at ein casgliadau, rydym yn ystyried a yw'r costau sydd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaeth ac yn ystyried effaith darparu gwasanaeth ar ddefnyddwyr, ar gymdeithas yn gyffredinol, ac ar y Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig.
- 3.7 Ar ôl sefydlu'r hyn rydym yn ei ystyried sy'n anghenion rhesymol defnyddwyr, rydym yn asesu a yw'r farchnad bresennol ar gyfer gwasanaethau post yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr.

## Cwmpas ein hasesiad

---

### Parseli

- 3.8 Dim ond ar anghenion rhesymol defnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau mae ein hasesiad yn canolbwyntio. Nid yw'r cynnwys parseli. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2, mae'r opsiynau i ddiwygio a nodir yng Nghais am Fewnbwn yn ymwneud â'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol llythyrau yn unig. Fe wnaethom egluro yn y Cais am Fewnbwn nad oeddem wedi ystyried newidiadau i fanyleb yr USO ar gyfer parseli oherwydd nad oeddem yn credu bod hynny'n cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr.<sup>61</sup> Rydym yn dal o'r farn hon.

### Defnyddwyr busnes a llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio post swmp

- 3.9 Mae'r asesiad mae'n rhaid i ni ei gynnal o dan y Ddeddf yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau un eitem o'r USO, felly rydym yn edrych ar anghenion busnesau bach a chanolig yn hytrach na phob busnes. Y rheswm am hyn yw, fel y nodwn ym mharagraff 3.5, mae busnesau mwy fel arfer yn defnyddio gwasanaethau post swmp. Fodd

---

<sup>60</sup> Mae gwasanaethau post swmp yn cael eu defnyddio gan sefydliadau mawr sy'n anfon nifer fawr o lythyrau. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2, mae gwasanaethau post swmp yn cael eu cynnig gan y Post Brenhinol ar sail fasnachol, ond mae Ofcom hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi mynediad i'w rwydwaith danfon i gwmnïau post swmp sy'n cystadlu.

<sup>61</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn](#), cyhoeddwyd 24 Ionawr 2024 para 9.3, tudalen 68.



bynag, post swmp yw'r rhan fwyaf o'r holl llythyrau ac mae'n cael ei ddanfon ochr yn ochr â llythyrau un eitem gan ddefnyddio'r rhwydwaith USO. Yn yr un modd â llythyrau un eitem, mae'n cael ei ddanfon bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Gan mai'r Post Brenhinol yw'r unig weithredwr sydd â rhwydwaith danfon llythyrau cenedlaethol, mae'n bwysig bod y rhwydwaith hwn yn cefnogi danfon llythyrau post swmp.

- 3.10 Fel arfer, nid yw defnyddwyr yn gwahaniaethu rhwng USO un eitem a gwasanaethau post swmp wrth feddwl am eu hanghenion o ran derbyn post. Mae ein hymchwil wedi canfod bod y post mae llawer o ddefnyddwyr yn dibynnu arno ar gyfer gohebiaeth swyddogol yn cael ei anfon fel arfer gan ddefnyddio gwasanaethau post swmp, megis apwyntiadau ysbyty, llythyrau meddygol, biliau, llythyrau budd-daliadau a dogfennau fel pasbortau. O'r herwydd, mae cyfranogwyr yn ein hymchwil yn aml yn trafod gwasanaethau nad ydynt yn rhai USO wrth feddwl am yr hyn sydd ei angen arnynt gan wasanaethau post.
- 3.11 O ystyried yr uchod, mae ein hasesiad yn ystyried anghenion unigolion a busnesau bach a chanolig fel derbynwyr post swmp ac, o ganlyniad, mae'n ystyried yn anuniongyrchol anghenion busnesau a sefydliadau mawr fel anfonwyr, y disgwyliwn y byddai'n cyd-fynd ag anghenion eu cwsmeriaid. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau post swmp yn rhan o'r USO. Mae'r rhan fwyaf o bost swmp yn cael ei drin gan gwmnïau mynediad, sy'n golygu bod darparu'r rhan fwyaf o bost swmp yn cael ei ategu gan reoleiddio mynediad Ofcom ac yn cael ei bennu gan y trefniadau masnachol rhwng y Post Brenhinol a'r cwmnïau mynediad. Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig gwasanaethau manwerthu swmp, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, ac mae'r Post Brenhinol a'i gwsmeriaid yn cytuno ar delerau'r gwasanaethau hyn o dan gontract. Mae anghenion sefydliadau a busnesau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp yn cael eu hystyried ymhellach mewn cysylltiad â'n cynigion i newid yr amod mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol, fel y nodir yn Adran 7.

## Rôl gymdeithasol ehangach gwasanaethau post

- 3.12 Cawn ar ddeall i rai defnyddwyr, yn enwedig pobl hŷn, pobl sydd â symudedd cyfyngedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, bod gwasanaethau post yn dal yn bwysig ar gyfer cydlyniant cymdeithasol a bod gweithwyr y Post Brenhinol yn chwarae rhan bwysig mewn cymunedau lleol. Er ei fod yn sicr yn bwysig, nid yw'r rôl gymdeithasol ehangach yn y gymuned a'r gwerth sy'n gysylltiedig â'r Post Brenhinol a'i weithwyr yn rhan o'r asesiad o anghenion defnyddwyr fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Fodd bynnag, rydym yn ystyried y manteision cymdeithasol ehangach hyn wrth asesu effaith y newidiadau arfaethedig i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn Adran 5.

## Ein tystiolaeth

---

- 3.13 I wneud yr asesiad hwn, rydym wedi defnyddio ein sylfaen dystiolaeth helaeth ar sut mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau. Rydym hefyd yn edrych ar nodweddion y gwasanaethau post maent yn eu gwerthfawrogi, y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a sut mae hyn wedi newid.

## Ymchwil ar anghenion defnyddwyr

- 3.14 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi comisiynu ymchwil i'n helpu i ddeall anghenion rhesymol defnyddwyr post. Mae'r rhaglen ymchwil hon yn rhoi sylfaen

dystiolaeth fawr i ni o sut mae defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig yn defnyddio gwasanaethau post ar draws y DU, beth maent yn ei werthfawrogi, anghenion gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr (e.e. defnyddwyr hŷn a phobl mewn lleoliadau gwledig), newid arferion defnyddwyr a thueddiadau ehangach. Rydym wedi defnyddio'r corff hwn o ymchwil i lywio ein hasesiad:

- Yn 2020, fe wnaethom gynnal ymchwil feintiol gyda defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig er mwyn deall eu hanghenion. Roedd yr ymchwil yn cynnwys ymarfer ar y cyd ar sail dewis, i'n helpu i ddeall ac i fesur pwysigrwydd a gwerth cymharol gwahanol elfennau o'r gwasanaeth post.<sup>62</sup> Fe wnaethom hefyd gynnal ymchwil ansoddol (gweithdai a chyfweiliadau manwl) gyda defnyddwyr post preswyl a busnesau bach a chanolig er mwyn deall eu hanghenion.<sup>63</sup>
- Yn 2020, fe wnaethom gynnal arolwg ar-lein ymysg sampl gynrychioladol o oedolion yn y DU yng nghyd-destun cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19.<sup>64</sup>
- Yn 2023, fe wnaethom gynnal ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar ddefnyddwyr agored i niwed, i'n helpu i ddeall beth sydd ei angen ar ddefnyddwyr preswyl gan wasanaeth post.<sup>65</sup> Fe wnaethom hefyd gynnal arolwg ar-lein ymysg sampl gynrychioladol o oedolion yn y DU.<sup>66</sup>
- Yn 2024, fe wnaethom gynnal ymchwil feintiol gyda samplau cynrychioliadol o oedolion a busnesau bach a chanolig yn y DU. Roedd yr ymchwil yn gofyn i ddefnyddwyr am nifer o wahanol gategoriâu o lythyrau maent yn eu hanfon a'u derbyn. Mae'r samplau'n golygu ein bod yn gallu dadansoddi'r canlyniadau yn ôl grwpiau demograffig a math o fusnes, gan gynnwys y rhai a allai fod yn dibynnu'n drwm ar wasanaethau llythyrau.<sup>67</sup>
- Rydym hefyd yn cynnal arolygon tracio post blynyddol sy'n darparu data ar brofiadau ac agweddau defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig i lywio ein gwaith monitro post a'n helpu i ddeall profiad defnyddwyr unigol a busnesau bach a chanolig o'r marchnadoedd post a sut maen nhw'n newid o un flwyddyn i'r llall. Mae'r traciwr diweddaraf rydym wedi adrodd arno yn berthnasol i fis Gorffennaf 2023 i fis Mehefin 2024.<sup>68</sup>

---

<sup>62</sup> Jigsaw, 2020. [Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#)

<sup>63</sup> Jigsaw, 2020. [Anghenion Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Ansoddol](#)

<sup>64</sup> Jigsaw, 2020. [Adroddiad Ymchwil Dilynol Anghenion Post](#)

<sup>65</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#)

<sup>66</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil arolwg defnyddwyr ar bost](#)

<sup>67</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#)

<sup>68</sup> Jigsaw, 2024. [Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 BVA BDRC, 2024. [Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, a'r Traciwr Post Preswyl Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 [tablau data wedi'u pwysoli](#), Traciwr Post Busnesau Bach a Chanolig Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 [tablau data wedi'u pwysoli](#)

## Adolygiadau o anghenion defnyddwyr

- 3.15 Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post yn 2011, mae Ofcom wedi cynnal dau adolygiad cynhwysfawr o anghenion defnyddwyr, yn 2013 ac yn 2020.<sup>69 70</sup>

## Data'r farchnad

- 3.16 Rydym yn casglu amrywiaeth o ddata marchnad ar wasanaethau post sy'n dangos y newidiadau yn y farchnad llythyrau, a gyhoeddwyd fel rhan o'n hadroddiad monitro post blynyddol.<sup>71</sup>

## Cais am Fewnbwn

- 3.17 Fel yr eglurwyd yn Adran 2, ym mis Ionawr 2024 fel wnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn<sup>72</sup> yn galw am ddatl genedlaethol ar ddyfodol y gwasanaeth post cyffredinol. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn, yn ogystal ag adborth o'r pedwar digwyddiad a gynhaliwyd gennym ledled y DU ym mis Mawrth 2024 a chyfarfodydd dilynol gyda grwpiau defnyddwyr, wrth gynnal yr asesiad hwn o anghenion defnyddwyr a dylunio'r ymchwil defnyddwyr newydd sy'n cael ei ddefnyddio yn yr asesiad hwn.
- 3.18 Mae'r ymatebion a'r canfyddiadau o'r cyfarfodydd â busnesau a sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp a'r cwmnïau mynediad sy'n darparu'r gwasanaethau hynny yn cael eu hystyried yn Adran 7.

## Marchnad llythyrau'r DU

---

- 3.19 Wrth asesu a yw marchnad llythyrau'r DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, rydym yn ystyried y farchnad llythyrau gyfan, nid dim ond gwasanaethau USO.
- 3.20 Mae tair prif ran i'r farchnad llythyrau yn y DU ar hyn o bryd:
- Gwasanaethau llythyrau 'un eitem' o un pen i'r llall:** Llythyrau sengl safonol (e.e. llythyrau personol, biliau, cardiau cyfarch, gwasanaethau ffrancio) a llythyrau mawr,<sup>73</sup> a anfonir yn bennaf gan unigolion a busnesau bach a chanolig drwy ddefnyddio blwch post neu swyddfa bost, sy'n cael eu casglu a'u danfon gan y Post Brenhinol. Y Post Brenhinol yw'r unig ddarparwr gwasanaethau llythyrau un eitem ac mae'n darparu

---

<sup>69</sup> Ofcom, 2013. [Adolygiad o anghenion defnyddwyr post](#)

<sup>70</sup> Ofcom, 2020. [Adolygiad o anghenion defnyddwyr post](#). Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o dan adran 34 o'r Ddeddf, sy'n nodi y gall Ofcom gynnal adolygiad i weld a allai'r gofynion sylfaenol adlewyrchu anghenion rhesymol defnyddwyr yn well, ac ar ôl hynny gall yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r gofynion hynny. Nid yw'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn golygu newid y gofynion sylfaenol, felly mae'r adran hon wedi'i chyfyngu i'n hasesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr ac a yw'r farchnad bresennol ar gyfer llythyrau yn diwallu'r anghenion hynny fel sy'n ofynnol o dan adran 30(3) o'r Ddeddf.

<sup>71</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad monitro'r post – Gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24](#)

<sup>72</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol](#)

<sup>73</sup> Caiff llythyrau fod hyd at 24cm o hyd, 16.5cm o led a hyd at a chan gynnwys 0.5cm o drwch, gan bwyso dim mwy na 100g. Caiff llythyrau mawr fod hyd at 35.3cm o hyd, 25cm o led a hyd at a chan gynnwys 2.5cm o drwch, gan bwyso dim mwy na 750g.

amrywiaeth o wasanaethau llythyrau USO, gan gynnwys y Dosbarth Cyntaf, Ail Ddosbarth a Danfon Arbennig y Diwrnod Canlynol (Wedi'i warantu erbyn 1pm). Felly, mae defnyddwyr gwasanaethau llythyrau un eitem yn dal i ddibynnu bron yn gyfan gwbl ar y Post Brenhinol i'w galluogi i gasglu ac i ddanfon llythyrau fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol.

- ii) Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig gwasanaethau post wedi'u ffrancio i fusnesau ac i sefydliadau fel opsiwn talu a phostio mewnol, yn ogystal â stampiau. Mae hyn yn golygu bod busnesau a sefydliadau eraill yn gallu prynu neu lesio peiriannau ffrancio sy'n argraffu'r marc post yn uniongyrchol ar llythyrau. Mae'r Post Brenhinol yn cynnig gwasanaethau post wedi'u ffrancio am brisiau is o'i gymharu â gwasanaethau rheolaidd â stamp o fewn yr USO.
- iii) Mae prisiau cynnyrch Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<sup>74</sup> Roedd y Post Brenhinol wedi codi'r tariff ar gyfer rhai gwasanaethau wedi'u ffrancio a stampiau Dosbarth Cyntaf, a ddaeth i rym o 7 Hydref 2024 ymlaen. Mae stampiau Dosbarth Cyntaf wedi cynyddu o £1.10 ym mis Ebrill 2023 i £1.65 o fis Hydref 2024, ac mae stampiau Ail Ddosbarth wedi cynyddu o £0.75 ym mis Ebrill 2023 i £0.85 o fis Ebrill 2024 ymlaen. Mae pris llythyr safonol Ail Ddosbarth dros y pedair blynedd diwethaf wedi cynyddu o £0.61 yn 2019-20 i £0.85 o fis Ebrill 2024 ymlaen.<sup>75</sup>
- iv) **Gwasanaethau manwerthu busnes o un pen i'r llall (dim-USO):** Pan fydd y Post Brenhinol yn casglu llawer iawn o bost yn uniongyrchol gan fusnesau mwy (neu sefydliadau eraill) ac yn ei ychwanegu at ei rwydwaith i'w dddoli, ei dddosbarthu a'i ddanfon.
- v) **Gwasanaethau post mynediad busnes (dim-USO):** Fel y nodir ym mharagraff 2.11, mae cwmnïau mynediad yn cystadlu'n uniongyrchol â gwasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol am bost swmp gan fusnesau mawr a sefydliadau fel banciau, adrannau'r llywodraeth a'r GIG. Mae'r cwmnïau mynediad hyn yn casglu ac yn didoli post cyn ei roi yn rhwydwaith y Post Brenhinol ar gyfer ei ddanfon y filltir olaf.

## Beth yw anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post?

3.21 Rydym wedi asesu anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post mewn dau gam: yn gyntaf rydym wedi ymchwilio i sut mae defnyddio gwasanaethau post a'r ddibyniaeth arnynt wedi newid, y defnydd cynyddol o wasanaethau cyfathrebu digidol a'r gostyngiad dilynol yn nifer y llythyrau; mae hyn wedyn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer yr ail gam lle rydym yn dadansoddi ein corff helaeth o ymchwil ac yn dod i gasgliadau am yr hyn mae unigolion a busnesau bach a chanolig yn ei ddweud sydd ei angen arnynt gan wasanaethau post. Gan ddefnyddio'r casgliadau hyn, rydym wedyn yn sefydlu beth, yn ein barn ni, yw anghenion rhesymol defnyddwyr ac a yw marchnad llythyrau bresennol y DU yn diwallu'r anghenion hyn.

<sup>74</sup> Gweler Ofcom, 2022. [Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post 2022](#), tudalen 126. paragraff 5.244


<sup>75</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad Monitro'r Post 2023-24](#), tudalen 9.

## Y farchnad llythyrau a sut mae unigolion a sefydliadau yn defnyddio gwasanaethau post

3.22 Yn yr adran hon rydym yn nodi'r ffactorau sydd wedi arwain at ostyngiad yn y ddibyniaeth ar wasanaethau post i lawer o ddefnyddwyr a'r gostyngiad dilynol yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon a'u derbyn. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y llythyrau, rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn credu y bydd wastad angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau post i anfon llythyrau. Rydym hefyd yn nodi grwpiau defnyddwyr sy'n dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post. Mae'r ffaith bod mwy o opsiynau digidol ar gael a mwy yn eu defnyddio yn arwain at ostyngiad yn nifer y llythyrau

3.23 Mae defnyddwyr yn ffafrio cyfathrebu digidol fwyfwy ar draul llythyrau at ddibenion cyfathrebu personol a busnes. Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf yn dangos bod defnyddwyr yn parhau i symud oddi wrth bost ac at gyfathrebu digidol. Mae nifer y defnyddwyr preswyl sy'n gweld y post fel sianel bwysig i gyfathrebu â theulu a ffrindiau wedi gostwng o 75% yn 2016/17 i 64% yn 2023/24.<sup>76</sup>

**Ffigur 3.1: Pwysigrwydd sianeli i gyfathrebu â ffrindiau a theulu (Net hanfodol/gweddol bwysig)**




*Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl. C4. Gan feddwl am sut rydych chi'n cyfathrebu â ffrindiau a theulu, pa mor bwysig yw pob un o'r sianeli cyfathrebu hyn i chi? Sail: Pob cyfranogwr (mewn misoedd cyfartal) – Dangosir maint y sampl ar y siart.*

3.24 E-bost hefyd nawr yw'r dull mae pobl yn ei ffafrio i gysylltu â phob perthynas roedd ein harolwg yn gofyn amdanynt heblaw teulu, ac eithrio meddygon teulu lle'r oedd y ffôn yn cael ei ffafrio.

<sup>76</sup>Jigsaw, 2024. [Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 5.

**Ffigur 3.2: Dewisiadau cysylltu – Y dull a ffefrir i dderbyn gohebiaeth gan...**



*Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl. C2\_1. Pa ddull fyddai orau gennych dderbyn gohebiaeth gan... Sail: Pob cyfranogwr 2022-23 (n=5564), 2023-24 (n=6160).*

- 3.25 Mae'r duedd o symud at ddewisiadau digidol amgen hefyd yn berthnasol i ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig. Canfu ein harolwg yn 2024 fod llai nag un busnes bach a chanolig o bob pump (18%) yn cael llythyr bob dydd, a bod llai na phedwar o bob deg (36%) yn anfon llythyrau'n amlach nag oddeutu unwaith yr wythnos.<sup>77</sup> Canfu ein harolwg tracio busnes diweddaraf fod ychydig o dan hanner y busnesau bach a chanolig wedi dweud eu bod wedi symud rhywfaint o'u post i ddulliau cyfathrebu eraill yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<sup>78</sup> Canfu ein hymchwil yn 2020 hefyd fod llawer o fusnesau bach a chanolig wedi symud, neu eu bod yn ystyried symud cyfathrebiadau allweddol ar-lein. Roeddent yn fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn ystyried symud trafodion ariannol (75%) a gohebiaeth gyffredinol (75%) i ddewisiadau digidol amgen.<sup>79</sup>
- 3.26 Mae ein hymchwil yn awgrymu bod y cam hwn hefyd yn berthnasol i amrywiaeth o grwpiau defnyddwyr a allai fod yn dibynnu mwy ar bost, gan gynnwys defnyddwyr hŷn, aelwydydd incwm isel, lleoliadau gwledig, a phobl â symudedd cyfyngedig. Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf yn canfod bod y rhan fwyaf o'r grwpiau hyn yn dweud ei bod yn well ganddynt ddefnyddio e-bost yn hytrach na llythyrau lle bynnag y bo modd.<sup>80</sup>
- 3.27 Roedd cyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol yn 2023, a oedd yn canolbwyntio ar anghenion a phrofiad grwpiau a allai fod yn agored i niwed, hefyd wedi dweud bod nifer y llythyrau roedden nhw wedi'u hanfon a'u derbyn (yn enwedig yr eitemau a anfonwyd) yn dal i ddisgyn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd eu bod yn newid i ddewisiadau digidol amgen:

<sup>77</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 69, 72.

<sup>78</sup> BVA BDRC, 2024. [Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 18.

<sup>79</sup> Jigsaw, 2020. [Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#), tudalen 44.

<sup>80</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tabl 42,

“Adnewyddu pasbort a phethau felly, mae’n rhaid i chi ddefnyddio’r post .... Ond fel arall, rwy’n ei wneud ar-lein a bod yn onest ... rydw i wedi mynd yn ddi-bapur fwy neu lai”

Cwsmer â Symudedd Cyfyngedig, 60au, Lloegr <sup>81</sup>

- 3.28 Mae’r cynnydd yn y nifer sy’n defnyddio dulliau digidol amgen a’r gostyngiad dilynol yn nifer y llythyrau yn cyd-fynd â thueddiadau rhyngwladol. Er enghraifft, y gwledydd sydd â’r nifer isaf o llythyrau y pen heddiw ac sydd wedi gwneud y newidiadau mwyaf radical i fanylebau eu USO, yn aml oedd y rhai cyntaf i gael cynlluniau trawsnewid digidol a oedd yn aml yn cael eu harwain gan y llywodraeth i fynnu neu gefnogi’r nifer sy’n defnyddio cyfathrebiadau digidol (e.e. Denmarc, Norwy a Gwlad Belg).<sup>82</sup>

## Bydd y cynnydd mewn cysylltiadau symudol a band eang a’r nifer sy’n eu defnyddio yn parhau i wthio pobl at dulliau digidol

- 3.29 Mae gan bron i bob eiddo yn y DU (98%) fynediad at fand eang cyflym iawn erbyn hyn ac mae 75% o’r eiddo hyn yn defnyddio’r gwasanaethau hyn.<sup>83</sup> Mae argaeledd symudol hefyd yn parhau i dyfu, gyda 4G yn cyrraedd y tu allan i fwy na 99% o eiddo’r DU.<sup>84</sup> Mae cyfran yr unigolion sy’n gallu defnyddio’r rhyngwrwyd gartref hefyd yn uchel iawn; mae 94% o unigolion yn y DU sy’n 16 oed a hŷn yn dweud bod ganddynt fynediad i’r rhyngwrwyd gartref.<sup>85</sup>
- 3.30 Mae defnyddio ffonau clyfar i gael mynediad at y rhyngwrwyd a gwasanaethau cyfathrebu hefyd yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae naw deg tri y cant o unigolion 16 oed a hŷn yn y DU yn dweud eu bod nhw neu rywun yn eu cartref yn berchen ar ffôn clyfar.<sup>86</sup> Ym mis Mai 2024, roedd 75% o’r amser a dreuliodd ar-lein bob dydd gan oedolion ar-lein yn y DU ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron, yn cael ei dreulio ar ffonau clyfar. Roedd apiau cyfathrebu ffonau clyfar fel WhatsApp, Gmail a Facebook Messenger ymysg y rheini sydd â’r cyrhaeddiad dyddiol uchaf ymysg oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2024.<sup>87</sup>

---

<sup>81</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#) 2023, sleid 27.

<sup>82</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol](#), tudalen 45.

<sup>83</sup> Mae band eang cyflym iawn yn cael ei ddiffinio fel gwasanaethau sydd â chyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad o leiaf

<sup>84</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad Cysylltu’r Gwledydd y DU 2024](#), tudalen 4.

<sup>85</sup> Ofcom [Traciwr Technoleg 2024](#). QE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i’r rhyngwrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi’n bersonol yn defnyddio’r rhyngwrwyd gartref? Sylwer: Nododd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i’r rhyngwrwyd gartref.

<sup>86</sup> Ofcom, [Traciwr Technoleg 2024](#). CM2 A yw unrhyw rai o’r ffonau symudol yn eich cartref yn ffôn clyfar? Sylwer: Nododd 1% o unigolion ‘nad oeddent yn gwybod’ a oedd ganddynt ffôn clyfar

<sup>87</sup> Ofcom, 2024, [Ein Gwlad Ar-lein 2024](#), tudalen 12 a thudalen 27.

- 3.31 Rydym yn cydnabod bod pobl heb fynediad i'r rhyngwrwd naill ai drwy gysylltiadau sefydlog neu symudol, sy'n golygu mai cyfyngedig yw eu gallu i newid i gyfathrebu digidol, os gallant wneud hynny o gwbl. Mae'r grŵp hwn yn cael ei drafod yn fanylach ym mharagraffau 3.42 i 3.58.

## **Mae dibyniaeth ar bost yn lleihau, ond mae gwasanaethau post yn dal yn bwysig i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr**

- 3.32 Mae pwysigrwydd post fel dull cyfathrebu yn lleihau i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Canfu ein harolwg olrhain preswyl diweddaraf fod defnyddwyr preswyl, ar y cyfan, yn credu eu bod yn anfon llai o lythyrau nag oeddent ddwy flynedd yn ôl. Mae mwy o bobl hefyd yn gweld gwasanaethau post fel rhywbeth i'w ddefnyddio fel dewis olaf. Yn 2023/2024, dywedodd hanner y defnyddwyr preswyl mai dim ond os nad oedd dewis arall y byddent yn defnyddio'r post, o'i gymharu â 32% o bobl yn 2015/2016.<sup>88</sup>
- 3.33 Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dibynnu llai ar lythyrau at ddibenion cyfathrebu personol a busnes, mae gwasanaethau post yn dal yn bwysig ac yn cael eu defnyddio gan bron bob preswlydd yn y DU. Canfu ein harolwg a gynhaliwyd yn ystod hydref 2024 fod bron pob un o aelwydydd y DU yn dal i gael llythyrau, gydag 82% yn dweud eu bod yn gwneud hynny o leiaf bob wythnos. Mae'r mwyafrif helaeth (95%) o oedolion yn parhau i anfon llythyrau, gyda hanner (50%) yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis.<sup>89</sup>
- 3.34 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu y bydd wastad angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth post i anfon neu i dderbyn llythyrau rywbyrd. Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod wyth person o bob deg yn cytuno y bydd wastad pethau mae angen eu hanfon drwy'r post.<sup>90</sup> Mae'r gyfran uchel hon o ddefnyddwyr sy'n dweud y byddai angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth post bob amser wedi aros yr un fath dros y blynyddoedd. Canfu ein harolygon meintiol ar gyfer 2023 a 2020 hefyd fod wyth o bob deg o bobl yn cytuno bod rhai pethau y bydd wastad angen iddynt eu hanfon drwy'r post.<sup>91</sup>

## **Mae data ymchwil defnyddwyr a'r farchnad yn dangos bod nifer y llythyrau'n gostwng yn gyflym**

- 3.35 Mae'r gostyngiad yn y ddibyniaeth ar lythyrau a newid i gyfathrebiadau digidol wedi arwain at ostyngiad serth yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon a'u derbyn. Ceir tystiolaeth dda o'r gostyngiad hwn drwy ddata'r farchnad ac adroddiadau defnyddwyr am newidiadau yn eu hymddygiad eu hunain.
- 3.36 Mae gwaith monitro parhaus Ofcom ar y farchnad bost yn dangos bod nifer y llythyrau i gyfeiriadau yn y DU wedi gostwng 54% ers 2011-12, i 6.6 biliwn o eitemau yn 2023-24, 9.0% yn is o un flwyddyn i'r llall.<sup>92</sup>

---

<sup>88</sup> Jigsaw, 2024. [Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 6.

<sup>89</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 11, 13.


<sup>90</sup> Jigsaw, 2024. [Traciwr Post Preswyl – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 6.

<sup>91</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 5.

<sup>92</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad Monitro Post](#), tudalen 3.



**Ffigur 3.3:** Cyfanswm nifer y llythyrau â chyfeiriad arnynt yn y DU (mewn miliynau), gan gynnwys post o un pen i'r llall a phost mynediad



*Ffynhonnell: Ofcom. Mae o un pen i'r llall y Post Brenhinol yn gyfrifiad gan Ofcom ac mae'n cyfeirio at gyfanswm llythyrau'r Post Brenhinol heb gynnwys llythyrau mynediad. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys llythyrau rhyngwladol na llythyrau heb gyfeiriad megis hysbysebion a phost etholiad.*

3.37 Yn ôl ffigurau'r Post Brenhinol ei hun, danfonodd y busnes 6.7 biliwn o lythyrau â chyfeiriad arnynt yn 2023/24 o'i gymharu ag 20 biliwn o lythyrau yn 2004/5, gostyngiad o 67% mewn niferoedd mewn 19 mlynedd, sy'n tynnu sylw at faint a thuedd gyson y gostyngiad yn nifer y llythyrau.<sup>93</sup> Mae'r Post Brenhinol yn disgwyl y bydd nifer y llythyrau yn ystod y pum mlynedd nesaf yn nes at 4 biliwn ar y gyfradd hon.<sup>94</sup> Mae adroddiadau diweddar gan froceriaid hefyd yn pwysleisio'r gostyngiad cyflym yn nifer y llythyrau, a rhagwelir y bydd nifer y llythyrau'n disgyn 5-7% y flwyddyn yn y tymor canolig.<sup>95</sup>

3.38 Mae niferoedd mynediad yn dal i gynrychioli'r rhan fwyaf o lythyrau sy'n cael eu hanfon sef 4.8 biliwn o eitemau, ond mae cyfanswm y niferoedd mynediad hefyd yn gostwng.

## Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr yn dweud yn gyson eu bod yn anfon ac yn derbyn llai o lythyrau

3.39 Canfu ein hymchwil diweddar fod chwech oedolyn o bob deg (60%) yn dweud bod eu cartref yn derbyn llythyrau bob dydd neu ychydig o weithiau'r wythnos a dywedodd un o bob pump (22%) eu bod yn anfon llythyrau o leiaf oddeutu unwaith yr wythnos. Ymysg busnesau bach a chanolig, dywedodd 58% eu bod yn derbyn llythyrau bob dydd neu ychydig

<sup>93</sup> IDS 2024, [ids\\_annual-report-2023-24.pdf](#), tudalen, 25

<sup>94</sup> IDS 2024, [ids\\_annual-report-2023-24.pdf](#), tudalen 25 ac IDS, [The future of letter deliveries](#).

<sup>95</sup> Ar sail data gan Liberum Capital Limited a gyhoeddwyd ar 28 Mai 2024 a Peel Hunt LLP ar 18 Gorffennaf 2024 a 05 Medi 2024.

o weithiau'r wythnos a dywedodd tua hanner (51%) eu bod yn anfon llythyrau tua unwaith yr wythnos neu'n amlach.<sup>96</sup>

- 3.40 Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod defnyddwyr ar draws pob math o bost yn credu eu bod yn cael llai nag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl. Soniodd defnyddwyr am ostyngiad net ym mhob math o bost llythyrau a dderbyniwyd, gyda nifer y llythyrau a dderbyniwyd yn gostwng o bump yr wythnos yn 2017/18 i dri yr wythnos yn 2023/24.<sup>97</sup>
- 3.41 Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf hefyd yn dangos bod nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon wedi disgyn yn sylweddol, er eu bod wedi dechrau sefydlogi'n ddiweddar. Yn 2015/16, dywedodd 83% o ddefnyddwyr preswyl eu bod wedi anfon llythyr yn ystod y mis diwethaf; erbyn 2021/22 roedd hyn wedi disgyn i 73% ac wedi disgyn yn fwy serth i 58% yn 2022/23. Mae wedi aros yn sefydlog ar 57% yn 2023/24.<sup>98</sup>
- 3.42 Mae busnesau bach a chanolig hefyd yn anfon llai o lythyrau. Yn ein traciwr busnesau bach a chanolig diweddaraf, roedd 18% o fusnesau bach a chanolig yn honni bod nifer y post a anfonwyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi gostwng, gyda 61% o'r busnesau bach a chanolig hyn yn priodoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon. Fodd bynnag, dywedodd 13% o fusnesau bach a chanolig fod faint o bost roeddent wedi'i anfon yn ystod y 12 mis diwethaf wedi cynyddu, er bod llawer o'r cynnydd hwnnw mewn post yn barseli ac yn becynnau (58%), roedd 20% yn llythyrau (er bod hyn yn ostyngiad o 34% yn 2022/23) a 36% yn llythyrau mawr.<sup>99</sup>

## Dywed rhai grwpiau eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post

- 3.43 Er gwaethaf y gostyngiad ym mhwyysigrwydd llythyrau fel math o gyfathrebu i lawer o ddefnyddwyr, mae rhai grwpiau defnyddwyr y mae llythyrau'n dal yn sianel gyfathrebu arbennig o bwysig iddynt.
- 3.44 Mae ein hymchwil wedi canfod bod rhai grwpiau o ddefnyddwyr y mae eu hamgylchiadau neu eu nodweddion yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu mwy ar wasanaethau post, er nad yw mwy o ddibyniaeth o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd.
- 3.45 Mae'r grwpiau hyn yn ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhynggrwyd, defnyddwyr â symudedd cyfyngedig, defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig, a defnyddwyr hŷn.

## Defnyddwyr heb fynediad i'r rhynggrwyd

- 3.46 Er bod llawer iawn yn defnyddio'r rhynggrwyd a band eang, mae 5% o oedolion dros 16 oed heb rynggrwyd gartref. Dywedodd y rhan fwyaf (82%) o'r rhai heb fynediad i'r rhynggrwyd

---

<sup>96</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 11, 13, 69, 72. Cafodd yr ymchwil hwn ei gynnal yn ystod hydref 2024 ac mae'n seiliedig ar gof yr ymatebwyr, felly efallai nad yw'n llawn ystyried amrywiadau mewn anfon/derbyn llythyrau.

<sup>97</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tablau 186-193.

<sup>98</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tabl 168. Data arolwg blaenorol ar gael o: <https://www.ofcom.org.uk/research-statistics-and-data/statistical-release-calendars/>

<sup>99</sup> BVA BDRC, 2024. [Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024](#), sleid 17.

gartref eu bod yn annhebygol (neu'n ansicr) o gael mynediad gartref yn ystod y 12 mis nesaf. Dywedodd dros chwarter (27%) y bobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd gartref nad oeddent yn debygol o'i gael yn ystod y 12 mis nesaf oherwydd rhesymau'n ymwneud â chostau. Soniwyd hefyd am resymau eraill, fel bod y rhyngwrwyd yn rhy gymhleth (13%) a gallu gofyn i rywun arall fynd ar-lein ar eu rhan (17%).<sup>100</sup>

- 3.47 I rai defnyddwyr, efallai na fydd hi'n bosibl newid i ddulliau digidol amgen oherwydd seilwaith digidol gwael lle maen nhw'n byw. Er bod gan y rhan fwyaf o'r DU fynediad at seilwaith digidol cyflym a dibynadwy, ac mae hyn yn gwella drwy'r amser, mae rhai rhannau o'r DU nad oes ganddynt fynediad at gysylltedd da. Nid oes gan nifer fach o eiddo'r DU (60,000 neu 0.2% o eiddo'r DU) fynediad at fand eang boddhaol<sup>101</sup> ac mae rhai ardaloedd sydd â chysylltedd symudol gwael o hyd.<sup>102</sup>
- 3.48 Nid yw hi mor hawdd i ddefnyddwyr heb fynediad at y rhyngwrwyd fanteisio ar ddewisiadau digidol amgen ac felly maent yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post. Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 nad oedd hi mor hawdd i ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngwrwyd ddefnyddio dewisiadau digidol heb gymorth gan eraill a'u bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post am llythyrau 'swyddogol', er enghraifft gan awdurdod lleol, y GIG neu fanc. Mae'r defnyddwyr hyn hefyd yn teimlo'n fwy hyderus gyda chopïau caled o ddogfennau. Canfu'r ymchwil hefyd fod y grŵp hwn yn gwerthfawrogi anfon post personol (er enghraifft, llythyrau a chardiau pen-blwydd) gan fod hyn yn rhoi ymdeimlad o gysylltiad. Fodd bynnag, canfu ein hymchwil yn 2023 hefyd fod llawer o ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngwrwyd fel arfer yn fodlon defnyddio'r ffôn i gyfathrebu â chwmnïau lle bo hynny'n bosibl, neu i ddibynnu ar ffrindiau neu deulu i hwyluso defnyddio'r rhyngwrwyd lle bo angen.<sup>103</sup>
- 3.49 Canfu ein hymchwil arolwg yn 2024 fod y rheini heb fynediad i'r rhyngwrwyd gartref, a'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwyd o gwbl, yn dweud eu bod yn cael llythyrau'n llai aml na grwpiau eraill.<sup>104</sup> Gellid egluro hyn drwy'r ffaith y gallai grwpiau heb fynediad i'r rhyngwrwyd gartref neu nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwyd o gwbl hefyd gael llai o ddefnydd o wasanaethau cyfathrebu yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw eu niferoedd defnydd is o reidrwydd yn golygu bod y grŵp hwn yn dibynnu llai ar bost llythyrau.

---

<sup>100</sup> Ofcom, [Traciwr Technoleg 2024](#), QE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngwrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngwrwyd gartref? Sylwer: Dywedodd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd gartref, QE15 Pa mor debygol ydych chi o gael mynediad i'r rhyngwrwyd gartref yn ystod y 12 mis nesaf a QE16 Am pa rai o'r rhesymau hyn nad ydych yn debygol o gael mynediad i'r rhyngwrwyd gartref yn y 12 mis nesaf?

<sup>101</sup> Mae deddfwriaeth y DU yn diffinio bod 'band eang boddhaol' yn gallu darparu cyflymder llwytho i lawr o 10 Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbit yr eiliad.

<sup>102</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2024](#), tudalen 20 Nid oes gan 58,000 neu 0.2% o eiddo (preswyl a busnesau bach) fynediad at fand eang boddhaol, sydd wedi disgyn o 61,000 yn 2023.

<sup>103</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 19.

<sup>104</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl](#), tabl 23

## Defnyddwyr â symudedd cyfyngedig

- 3.50 Gall defnyddwyr â symudedd cyfyngedig fel arfer dreulio mwy o amser gartref a dibynnu mwyar wasanaethau cyfathrebu yn gyffredinol fel ffordd o gysylltu ag eraill.
- 3.51 Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod defnyddwyr nad oeddent yn gallu gadael eu cartref heb gymorth yn fwy tebygol o deimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymdeithas os nad oeddent yn gallu anfon neu dderbyn post (63% o'i gymharu â 56% i bob defnyddiwr). Mae'r grŵp hwn hefyd yn fwy tebygol o weld post fel ffordd bwysig o gyfathrebu â ffrindiau a theulu (74% o'i gymharu â 64% o'r holl ddefnyddwyr).<sup>105</sup> Canfu ein hymchwil yn 2024 fod pobl yr effeithiwyd arnynt gan gyflwr sy'n gysylltiedig â symudedd yn llawer mwy tebygol o fod wedi derbyn llythyrau apwyntiadau gofal iechyd a gwaith papur sy'n gysylltiedig â budd-daliadau gartref yn ystod y mis diwethaf.<sup>106</sup> Yn yr un modd, canfu ein cyfweiliadau ansoddol yn 2023 fod y defnyddwyr hyn yn aml yn dibynnu ar lythyrau i gael gwybod am apwyntiadau ysbyty neu am unrhyw fudd-daliadau maen nhw'n eu cael.<sup>107</sup>

## Defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig

- 3.52 Mae defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu ar wasanaethau post. Gall hyn fod yn gysylltiedig â seilwaith gwaeth nag ardaloedd trefol a bod cymunedau mwy ynysig yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau mae gwasanaethau post yn eu darparu. Er ei fod yn gwella, mae darpariaeth band eang cyflym iawn preswyl yn dal yn is mewn ardaloedd gwledig yn y DU (89%) nag mewn ardaloedd trefol (98%).<sup>108</sup>
- 3.53 Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 fod defnyddwyr mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn ystyried bod bodolaeth gwasanaethau post yn bwysig o ran mynd i'r afael â theimladau o unigrwydd (e.e. oherwydd bod eu darpariaeth symudol yn gyfyngedig yn aml).<sup>109</sup>
- 3.54 Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf, sy'n monitro agweddau a phrofiadau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, fod defnyddwyr yn yr Alban (61%), yn enwedig rhanbarth Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gytuno y byddent yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymdeithas pe na allent anfon neu dderbyn post.<sup>110</sup>
- 3.55 Nid yw'r ffaith bod mwy o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post yn yr ardaloedd hyn o reidrwydd yn golygu bod yr anghenion yn wahanol. Canfu ein hymchwil diweddaraf fod defnyddwyr preswyl mewn ardaloedd gwledig ar draws y DU yr un mor debygol neu'n llai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud na fydd eu hanghenion yn cael

---

<sup>105</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tablau 45, 54.

<sup>106</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl](#), tabl 27.

<sup>107</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 20.

<sup>108</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2024](#), tudalen 13.

<sup>109</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 21.

<sup>110</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tabl 45.

eu diwallu mwyach drwy leihau cyflymder danfon llythyrau. Roedd yr un peth yn wir am Gymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, o'i gymharu â chyfartaledd y DU.<sup>111</sup>

## Defnyddwyr hŷn

- 3.56 Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu mwy ar y gwasanaeth post. Mae pobl hŷn yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhyngwrwyd gartref, felly maen nhw'n llai tebygol o newid i ddewisiadau digidol. Canfu ymchwil Ofcom nad oes gan 13% o bobl 65 oed a hŷn fynediad i'r rhyngwrwyd gartref, ac mae gan 2% arall fynediad i'r rhyngwrwyd gartref ond nid ydynt yn ei ddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf (95%) o bobl dros 65 oed heb fynediad i'r rhyngwrwyd gartref yn dweud eu bod yn annhebygol o'i gael yn ystod y 12 mis nesaf a dywedodd cyfran fawr (80%) mai diffyg diddordeb neu angen oedd y rheswm am hynny.<sup>112</sup> Mae defnyddwyr hŷn hefyd yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhyngwrwyd drwy ffôn clyfar: Mae 12% o bobl dros 65 oed yn dweud nad oes yr un o'r ffonau symudol yn eu cartref yn ffonau clyfar.<sup>113</sup>
- 3.57 Mae defnyddwyr hŷn yn fwy tebygol o werthfawrogi'r gwasanaeth post fel ffordd o gadw mewn cysylltiad a chael copïau ffisegol o ddogfennau. Canfu ein harolwg tracio preswyl diweddaraf fod pobl 65 oed a hŷn yn llai tebygol o lawer na grwpiau iau o gytuno ei bod yn well ganddynt anfon negeseuon e-bost yn hytrach na llythyrau lle bo hynny'n bosibl (59%, o'i gymharu â 75% o bobl rhwng 16 a 54 oed).<sup>114</sup> Roedd defnyddwyr hŷn a gafodd eu cyfwrdd yn ein harolwg ansoddol yn 2023 hefyd yn tueddu i werthfawrogi natur ffisegol llythyrau yn fwy na grwpiau eraill, er enghraifft oherwydd eu bod yn eu hystyried yn fwy diogel a bod ganddynt lai o siawns o fynd ar goll.<sup>115</sup>
- 3.58 Roedd defnyddwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o gytuno y byddent yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth gymdeithas pe na allent anfon neu dderbyn post (69% ymysg pobl 65 oed a hŷn o'i gymharu â 45% o bobl 16-34 oed).<sup>116</sup> Canfu ein hymchwil feintiol yn 2023 hefyd fod defnyddwyr dros 55 oed yn fwy tebygol o gytuno y byddent yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth gymdeithas pe na allent anfon neu dderbyn post.<sup>117</sup>
- 3.59 Er eu bod yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar bost, yn gyffredinol canfu ein hymchwil er bod y grwpiau hyn o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post, i'r rhan fwyaf o grwpiau roedd eu anghenion danfon llythyrau yn debyg i ddefnyddwyr

---

<sup>111</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl](#), tabl 204.

<sup>112</sup> Ofcom, 2024. [Traciwr Technoleg](#) QE1. A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngwrwyd gartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngwrwyd gartref? Sylwer: Dywedodd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd gartref, QE15 Pa mor debygol ydych chi o gael mynediad i'r rhyngwrwyd gartref yn ystod y 12 mis nesaf a QE16 Am pa rai o'r rhesymau hyn nad ydych yn debygol o gael mynediad i'r rhyngwrwyd gartref yn y 12 mis nesaf?

<sup>113</sup> Ofcom, 2024. [Traciwr Technoleg](#). CM2 A yw unrhyw rai o'r ffonau symudol yn eich cartref yn ffôn clyfar? Sylwer: Nododd 1% o unigolion 'nad oeddent yn gwybod' a oedd ganddynt ffôn clyfar

<sup>114</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tabl 42.

<sup>115</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 22.

<sup>116</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tabl 45.

<sup>117</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 8.

'nodweddiadol' o ran eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd a fforddiadwyedd, ac nad oedd cyflymder danfon yn hollbwysig yn aml.

## Anghenion rhesymol pobl a busnesau bach a chanolig am llythrau

---

- 3.60 Yn yr adran hon rydym yn ystyried yr hyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr gan wasanaethau post. Rydym yn dadansoddi ein corff o ymchwil defnyddwyr i drafod nodweddion penodol gwasanaethau post mae defnyddwyr yn dweud sydd eu hangen arnynt a'u gwerth. Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes gan rai grwpiau anghenion gwahanol neu benodol oherwydd eu nodweddion neu eu hamgylchiadau. Rydym yn cynnal y dadansoddiad hwn yng nghydestun ehangach gostyngiad parhaus yn y ddibyniaeth ar bost a gostyngiad yn nifer y llythrau, fel y nodir yn yr adran uchod.
- 3.61 Rydym wedi trefnu ein dadansoddiad o'r hyn mae defnyddwyr yn ei werthfawrogi a'i angen a'n hasesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr o dan y nodweddion allweddol canlynol:
- i) Amllder danfon
  - ii) Cyflymder
  - iii) Dibynadwyedd; a
  - iv) Phris.

### Amllder danfon

- 3.62 Canfu ein hymchwil, yn y rhan fwyaf o achosion y byddai danfon bump neu hyd yn oed dair gwaith yr wythnos yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr ac, i lawer, nid oedd dydd Sadwrn yn cael ei ystyried yn ddiwrnod danfon hollbwysig. Pan ofynnwyd iddynt ystyried newidiadau penodol i amllder danfon llythrau busnes Ail Ddosbarth a safonol, teimlai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr na fyddai'n achosi problem fawr neu na fyddai'n cael fawr o effaith pe na baent yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn mwyach, er y byddai'n anghyfleus i rai. Dywedodd nifer fach o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith negyddol fawr ac na fyddai'r gwasanaeth post yn diwallu eu hanghenion mwyach.

### Byddai danfon ar bump neu hyd yn oed dri diwrnod yr wythnos yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr

- 3.63 Mae ein hymchwil wedi canfod yn gyson bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ystyried bod danfon pum diwrnod yr wythnos (hynny yw, o ddydd Llun i ddydd Gwener) yn bwysig. Canfu ein hymchwil diweddar fod 80% o ddefnyddwyr preswyl ac 82% o fusnesau bach a chanolig wedi dweud ei bod yn bwysig bod llythrau'n cael eu danfon o ddydd Llun i ddydd Gwener.<sup>118</sup> Mae pwysigrwydd danfon o ddydd Llun i ddydd Gwener wedi aros yn weddol sefydlog: Roedd 79% o ddefnyddwyr yn 2023 yn cytuno ei bod yn bwysig bod llythrau'n cael eu danfon i'w cartref o ddydd Llun i ddydd Gwener o'i gymharu ag 81% yn 2020.<sup>119</sup>

---

<sup>118</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 19, 80.

<sup>119</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 9.

- 3.64 Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn dadlau y byddai danfon llythyrau bum niwrnod yr wythnos yn ddigon i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, cyn belled â bod y gwasanaeth yn ddibynadwy, ond bod unrhyw ostyngiad pellach i dri diwrnod neu un diwrnod yr wythnos yn llai derbyniol.<sup>120</sup>
- 3.65 Mae ein hymchwil mewn blynyddoedd blaenorol wedi canfod bod defnyddwyr yn gyffredinol yn fodlon ystyried lleihau amllder danfon a chasglu. Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn fodlon ystyried casglu a danfon llythyrau ar lai o ddiwrnodau, oherwydd teimlwyd nad oedd y rhan fwyaf o lythyrau'n rhai brys. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd wedi awgrymu opsiynau eraill i helpu i gadw'r prisiau i lawr, fel cyfuno Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth (h.y. un opsiwn cyflymder danfon). Canfu'r ymchwil hefyd y byddai derbyn llythyrau bob dau i dri diwrnod yn dderbyniol i'r mwyafrif, gan gynnwys y rhan fwyaf o grwpiau 'agored i niwed'.<sup>121</sup> Roedd yr ymchwil a oedd wedi cyfrannu at ein Hadolygiad o Anghenion Defnyddwyr Post yn 2020 hefyd wedi canfod bod pobl yn fodlon derbyn danfon ar lai o ddiwrnodau. Roedd dadansoddiad o'n hymchwil yn awgrymu y byddai gwasanaeth post gyda llythyrau'n cael eu danfon bum diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) yn dal i ddiwallu anghenion y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr (96.8%).<sup>122</sup>
- 3.66 Mae gostyngiad pellach o dri diwrnod yr wythnos yn llai poblogaidd. Roedd llawer o ymatebwyr unigol i'r Cais am Fewnbwn yn teimlo na fyddai gostyngiad o'r fath yn dderbyniol i ddefnyddwyr.<sup>123</sup> Roedd yr ymchwil a gyfrannodd at ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr yn 2020 wedi canfod bod lleihau'r danfon i dri diwrnod yr wythnos yn llai poblogaidd, yn enwedig ymysg busnesau bach a chanolig a chwsmeriaid anabl. Fodd bynnag, roedd yn dal yn dderbyniol i'r mwyafrif, gyda'n dadansoddiad ar y cyd yn rhagweld y byddai'n dderbyniol i 85.4% o bobl.<sup>124</sup>
- 3.67 Roedd ein hymchwil ansoddol yn 2023 yn awgrymu y byddai derbyn llythyrau bob dau i dri diwrnod yn dderbyniol i'r mwyafrif, gan gynnwys y rhan fwyaf o grwpiau agored i niwed.

“Rwy'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn derbyn bod llythyrau ond yn cael eu danfon unwaith neu ddwywaith yr wythnos, ond mae angen i'r Post Brenhinol fod yn dryloyw am hynny a dweud y byddai angen i bobl fod yn drefnus”

Defnyddiwr nodweddiadol, hŷn, Aberdeen<sup>125</sup>

<sup>120</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol: crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn](#).

<sup>121</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 5.

<sup>122</sup> Jigsaw, 2020. [Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#), tudalen 3.

<sup>123</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol. – crynodeb o'r ymatebion i'n Cais am Fewnbwn](#) a'r camau nesaf


<sup>124</sup> Jigsaw, 2020. [Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#), tudalen 3.

<sup>125</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 49.

## Nid yw llawer o ddefnyddwyr yn ystyried bod danfon ar ddydd Sadwrn yn hollbwysig

- 3.68 Un o ganfyddiadau cyson ein hymchwil oedd pwysigrwydd cymharol isel danfon ar ddydd Sadwrn i ddefnyddwyr wrth gymharu â danfon o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn 2024, roedd 57% o ddefnyddwyr yn cytuno ei bod yn bwysig iddynt fod llythyrau'n cael eu danfon ar ddydd Sadwrn.<sup>126</sup> Mae hyn wedi disgyn o 63% yn 2020.<sup>127</sup> Roedd ein hymchwil ansoddol yn 2023 hefyd wedi canfod bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl y byddai danfon ar bedwar neu bum niwrnod yr wythnos yn addas iddynt ac nad oedd angen cynnwys y penwythnos gan fod llawer o bobl yn teimlo na fyddent yn debygol o ymgysylltu â'r post bryd hynny.<sup>128</sup>
- 3.69 Canfu ein hymchwil yn 2024 fod pedwar busnes bach a chanolig o bob deg (39%) sy'n cael llythyrau yn dweud naill ai nad ydynt yn cael llythyrau ar ddydd Sadwrn neu os ydynt, nad ydynt yn eu hagog tan y dydd Llun neu ar ôl hynny.<sup>129</sup>

**Ffigur 3.4:** Canlyniadau ymchwil 2024 ar bwysigrwydd danfon ar ddydd Sadwrn i oedolion yn y DU



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), Pwysigrwydd a nodwyd gan oedolion y DU.

<sup>126</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 19.


<sup>127</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 9.

<sup>128</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 49.

<sup>129</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 85.



**Ffigur 3.5: Canlyniadau ymchwil 2024 ar bwysigrwydd danfon ar ddydd Sadwrn i fusnesau bach a chanolig**



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), Pwysigrwydd a nodwyd gan fusnesau bach a chanolig y DU

### Mae danfon ar ddydd Sadwrn yn dal yn bwysig i rai defnyddwyr

- 3.70 Fodd bynnag, mae danfon llythyrau ar ddydd Sadwrn yn dal yn bwysig i rai grwpiau. Canfu ein hymchwil yn 2024 mai defnyddwyr sy'n anfon eitemau sy'n cael eu gwerthu ar-lein ar farchnadoedd ar-lein drwy wasanaeth llythyrau, tanysgrifwyr cylchgronau, y rhai sydd mewn gwaith, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai sydd â phlant yn y cartref oedd fwyaf tebygol o ddweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig. Roedd lleiafrif o fusnesau bach a chanolig (35%) hefyd yn dweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig.<sup>130</sup>
- 3.71 Canfu ein hymchwil blaenorol hefyd fod rhai grwpiau'n fwy tebygol o ddweud bod angen danfon chwe diwrnod yr wythnos (gan gynnwys dydd Sadwrn). Canfu ein hymchwil meintiol yn 2023 fod defnyddwyr 55 oed neu hŷn (68%) a'r rhai mewn ardaloedd gwledig (66%) ychydig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod danfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos yn bwysig iddyn nhw (63%).<sup>131</sup> Roedd llawer o ymatebwyr unigol i'r Cais am Fewnbwn yn teimlo y byddai angen gwasanaeth chwe diwrnod yr wythnos o hyd, yn enwedig i ddefnyddwyr hŷn, cymunedau gwledig a'r rhai nad oeddent yn gallu defnyddio dewisiadau digidol, neu y byddai'n well ganddynt beidio â gwneud hynny. Pan ofynnwyd iddynt ystyried danfon yn llai aml, roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn teimlo na fyddai hyn yn effeithio arnynt, ond roedd rhai grwpiau yn teimlo y byddai'r newidiadau'n cael effaith negyddol arnynt.

<sup>130</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl](#), Tabl 15; a, BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 80.

<sup>131</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 12.<sup>132</sup> Fel rhan o'i [ymateb](#) i'n Cais am Fewnbwn cyhoeddodd y Post Brenhinol ei gynnig ar ddiwygio a oedd yn cynnwys rhoi'r gorau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn a danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

## Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfôn llythyrau ail ddsbarth a llythyrau busnes safonol yn effeithio ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, ond roedd rhai yn teimlo y byddai'n cael effaith negyddol arnynt

- 3.72 Roedd ein hymchwil yn 2024 yn gofyn yn benodol i ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig am eu barn ar gynnig y Post Brenhinol i roi'r gorau i ddanfôn ar ddydd Sadwrn a danfôn llythyrau busnes safonol ac Ail Ddsbarth yn llai aml (rydym yn trafod ein canfyddiadau ar gyflymder danfôn ym mharagraffau 3.82 i 3.90.<sup>132</sup> Dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr na fyddai'r newidiadau hyn yn cael fawr ddim effaith arnynt, os o gwbl. Roedd rhai yn teimlo, er y byddai'r newidiadau arfaethedig yn anghyfleus, ni fyddent yn broblem fawr iddynt.
- 3.73 Wrth ystyried popeth gyda'i gilydd roedd saith o bob deg (71%) yn dweud, pe na bai llythyrau Ail Ddsbarth na llythyrau busnes safonol yn cael eu danfôn ar ddydd Sadwrn mwyach, na fyddai'n cael dim effaith, neu na fyddent yn sylw ar unrhyw wahaniaeth. Roedd busnesau bach a chanolig, llawer ohonynt yn gweithio ac yn masnachu o ddydd Llun i ddydd Gwener, hyd yn oed yn llai tebygol o ddweud y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith. Dim ond 1% a 7% yn y drefn honno o fusnesau bach a chanolig a ddywedodd y byddai'r newidiadau arfaethedig (anfôn llythyrau busnes safonol yn arafach, posibilrwydd danfôn llythyrau Ail Ddsbarth yn arafach, a dim danfôn llythyrau busnes safonol na llythyrau Ail Ddsbarth ar ddydd Sadwrn) yn cael effaith negyddol sylweddol iawn neu sylweddol ar eu sefydliad.<sup>133</sup>
- 3.74 Roedd rhai defnyddwyr yn teimlo y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith negyddol arnynt, dywedodd 17% pe na bai llythyrau Ail Ddsbarth na llythyrau busnes safonol yn cael eu danfôn ar ddydd Sadwrn mwyach, y byddai'n cael effaith negyddol fach, a dywedodd 3% a 7% arall yn y drefn honno y byddai hyn yn cael effaith negyddol sylweddol iawn arnynt neu effaith negyddol sylweddol (ond nid sylweddol iawn).
- 3.75 Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau meddygol oedd fwyaf tebygol o ddweud na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu ac y byddent yn wynebu niwed neu anawsterau sylweddol o ganlyniad i lythyrau Ail Ddsbarth a phost busnes safonol yn cymryd diwrnod yn hirach i'w danfôn a ddim yn cael eu danfôn ar ddydd Sadwrn. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod masnachwyr ar-lein sy'n defnyddio'r gwasanaeth llythyrau i anfon eitemau maent wedi'u gwerthu (fel eu prif ffynhonnell incwm) yn fwy tebygol o ddweud y byddai danfôn yn llai aml yn golygu na fyddai gwasanaethau post yn diwallu eu hanghenion mwyach.<sup>134</sup>
- 3.76 Dywedodd pymtheg y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod yn cael canlyniadau profion meddygol drwy lythyr na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu gyda gwasanaeth llythyrau busnes safonol/Ail Ddsbarth a fyddai'n cymryd diwrnod yn hirach i gyrraedd a

---

<sup>132</sup> Fel rhan o'i [ymateb](#) i'n Cais am Fewnbwn cyhoeddodd y Post Brenhinol ei gynnig ar ddiwygio a oedd yn cynnwys rhoi'r gorau i ddanfôn llythyrau Ail Ddsbarth ar ddydd Sadwrn a danfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

<sup>133</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 47, 100.

<sup>134</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 29, 39 a BMG 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl](#), Tabl 204.

dim danfon ar ddydd Sadwrn. Dywedodd ychydig dros un o bob deg (12%) o'r derbynwyr yr un peth mewn perthynas â llythyrau apwyntiadau gofal iechyd. Y rhai a oedd yn derbyn llythyrau budd-daliadau (10%) a llythyrau sy'n ymwneud â chyllid, fel biliau ac anfonebau (9%), oedd y nesaf mwyaf tebygol o ddweud na fyddai newid o'r fath i wasanaethau llythyrau'n diwallu eu hanghenion mwyach.<sup>135</sup>

- 3.77 Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ein hymchwil ansoddol yn 2023 a ganfu fod defnyddwyr a oedd yn fwyaf dibynnol ar lythyrau ar gyfer gohebiaeth feddygol, fel cyfranogwyr hŷn a phobl â phroblemau symudedd cronig, yn llai agored i newid amllder danfon.<sup>136</sup>

### **Dywedodd nifer fach o ddefnyddwyr y byddai'r newidiadau arfaethedig i ddanfôn llythyrau busnes safonol ac ail ddosbarth yn golygu na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach**

- 3.78 Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil fod 4% o ddefnyddwyr preswyl yn dweud na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach mewn perthynas ag o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon neu'n ei dderbyn ac y byddai'r newidiadau, gan ystyried popeth, yn cael effaith negyddol sylweddol iawn arnynt. Dywedodd 7% arall na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach ac y byddai'r newidiadau'n cael effaith sylweddol. Dywedodd y rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig y byddai'r gwasanaeth arfaethedig newydd yn parhau i ddiwallu eu hanghenion, gyda dim ond cyfran fach iawn (1%) yn dweud na fyddai'r newidiadau'n diwallu eu hanghenion mwyach, ac y byddent yn cael effaith sylweddol iawn ar o leiaf un math o lythyr maent yn ei anfon neu'n ei dderbyn.<sup>137</sup>


---

<sup>135</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 29.

<sup>136</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 47.


<sup>137</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 50.

**Ffigur 3.6: Crynodeb o ymatebion defnyddwyr preswyl i'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth**



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 50.

**Ffigur 3.7: Crynodeb o ymatebion defnyddwyr busnesau bach a chanolig i'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth**



Ffynhonnell: BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 102.

## Casgliad dros dro – Amllder danfon

- 3.79 Gan ddefnyddio ein hymchwil, rydym wedi asesu beth yw anghenion defnyddwyr o ran amllder danfon ac wedi canfod nad oes angen gwasanaeth heb-flaenoriaeth sy'n danfon chwe diwrnod yr wythnos ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, ac y byddai'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu pe byddid yn danfon bump neu hyd yn oed dri diwrnod yr wythnos. Nid yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn credu bod danfon llythyrau heb flaenoriaeth ar ddydd Sadwrn yn bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o'r llythyrau maen nhw'n eu hanfon ac yn eu derbyn. Dywedodd rhai defnyddwyr fod angen gwasanaeth y diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, er mai dim ond yn bur anaml y byddai angen iddynt anfon neu dderbyn llythyr brys.
- 3.80 Mae rhai defnyddwyr yn credu efallai na fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach ar gyfer rhai mathau o bost drwy roi'r gorau grau i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn. Mae'r defnyddwyr hyn yn poeni fwyaf am effaith danfon ar lythyrau am apwyntiadau meddygol, budd-daliadau a materion ariannol yn llai aml. Mae bron y cyfan o'r math hwn o bost yn cael ei anfon gan sefydliadau mawr sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp, yn hytrach na gwasanaethau USO un eitem. I'r sefydliadau mawr sy'n anfon y mathau hyn o lythyrau, mae amrywiaeth o gynnyrch post swmp ar gael, gan gynnwys cynnyrch blaenoriaeth y gallant eu defnyddio os oes angen i'r llythyrau gyrraedd yn gynt neu ar ddiwrnod penodol. Rydym yn trafod y gwasanaethau mynediad rydym yn cynnig mynnu bod y Post Brenhinol yn eu cynnig ymhellach yn Adran 7.
- 3.81 Gan ystyried y canfyddiad nad ydy'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr angen danfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn a'r wybodaeth am gostau a drafodir yn Adrannau 4 ac 8, rydym o'r farn dros dro bod danfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn yn mynd y tu hwnt i anghenion rhesymol defnyddwyr.
- 3.82 Felly, rydym yn dod i'r casgliad dros dro bod marchnad llythyrau bresennol y DU yn rhagori ar anghenion defnyddwyr o ran amllder danfon. Petai llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon yn llai aml, byddai'r farchnad yn dal i ddiwallu'r angen achlysurol am ddanfon ar ddydd Sadwrn gan y byddai cynnyrch post swmp blaenoriaeth a Dosbarth Cyntaf yn dal ar gael i unigolion ac i fusnesau.

## Cyflymder

- 3.83 Mae ein hymchwil yn dangos, o'i gymharu â nodweddion eraill gwasanaethau post, yn gyffredinol nid yw defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder danfon yn bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau maen nhw'n eu hanfon ac, ar gyfer pob math o lythyr mae defnyddwyr yn ei anfon drwy Ail Ddosbarth, mae'r rhan fwyaf yn fodlon derbyn cyflymder danfon arafach. Fodd bynnag, mae cefnogaeth gref i wasanaeth danfon y diwrnod canlynol ar gyfer yr achlysuron pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon neu dderbyn eitem frys.

## Yn gyffredinol, nid yw defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder danfon yn hollbwysig

- 3.84 Canfu ein hymchwil, i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau, fod dibynadwyedd a sicrwydd cyrraedd yn bwysicach o lawer na chyflymder danfon.<sup>138</sup> Mae bodolaeth a mabwysiadu mwy a mwy o ddulliau cyfathrebu ar unwaith a throsglwyddo dogfennau fel e-bost a llwyfannau ar-lein wedi lleihau pwysigrwydd cyflymder ymhellach fel nodwedd allweddol o ddanfon llythyrau gan fod modd anfon llawer o ohebiaeth a dogfennau brys ar unwaith drwy ddulliau eraill.
- 3.85 Er mwyn deall anghenion defnyddwyr o ran cyflymder danfon gwahanol, gofynnodd ein hymchwil yn 2024 i ddefnyddwyr preswyl pa mor hir ar ôl postio y byddai arnynt angen i wahanol fathau o lythyrau gyrraedd wrth anfon drwy bost Ail Ddosbarth. Ar gyfer pob math o lythyr, dywedodd llai na chwarter yr holl ddefnyddwyr (rhwng 15% a 24%) y byddent fel arfer angen i'r eitemau gyrraedd drwy bost Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith i'w postio. Nid oedd y mwyafrif a oedd yn weddill naill ai'n anfon y math penodol hwnnw o lythyr, byddent yn ei anfon fel Dosbarth Cyntaf, fel arfer byddent angen iddo gyrraedd o fewn pedwar i bum diwrnod gwaith ar ôl postio, neu roeddent yn dweud na fyddai'n bwysig pe bai'n cymryd mwy na phum niwrnod i'w ddanfon. Mynegodd defnyddwyr busnesau bach a chanolig ofynion tebyg, gyda rhwng 9% a 25%, yn dibynnu ar y math o lythyr, yn dweud eu bod fel arfer angen i'r rhain gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith i bostio wrth anfon drwy bost Ail Ddosbarth.<sup>139</sup>

## Nid yw defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder mor bwysig â nodweddion eraill gwasanaethau post

- 3.86 Roedd ein hymchwil diweddaraf hefyd yn cadarnhau nad yw cyflymder danfon yn cael ei ystyried yn bwysig yn gyffredinol o'i gymharu â nodweddion eraill gwasanaethau post. Fe wnaethom ofyn i'r ymatebwyr gwblhau ymarfer cyfnewid pwysigrwydd.<sup>140</sup> Roedd canlyniadau'r ymarfer hwn yn awgrymu bod diogelwch gwybodaeth bersonol/sensitif a pheidio â cholli na difrodi llythyrau tua phum gwaith yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith. Yn yr un modd, roedd gwasanaeth llythyrau fforddiadwy dros ddwywaith yn fwy tebygol o gael ei ystyried yr un mor bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith.
- 3.87 Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwil flaenorol. Yn ein hymchwil ansoddol yn 2023 roedd defnyddwyr yn cydnabod yn gryf nad oedd y rhan fwyaf o lythyrau'n rhai brys ac felly pur anaml oedd cyflymder y danfon yn hollbwysig.<sup>141</sup> Yn 2020, roedd pobl yn teimlo o'r holl eitemau y byddai angen iddynt eu hanfon, na fyddai angen i lai na thraean ohonynt

---

<sup>138</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 22, 84, a Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 32.

<sup>139</sup> Wrth eithrio'r rhai a ddywedodd y byddent yn defnyddio gwasanaeth Dosbarth Cyntaf.

<sup>140</sup> Methodoleg MaxDiff, sy'n cael ei hegluro'n llawn yn ein hadroddiad ymchwil.

<sup>141</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 49.

gyrraedd erbyn y diwrnod canlynol.<sup>142</sup> Mae hyd yn oed rhywfaint o barodrwydd i dderbyn cynnyrch arafach: yn ein hymchwil meintiol yn 2023, byddai 34% o bobl yn fodlon derbyn gwasanaeth llythyrau arafach (yn cyrraedd o fewn pum niwrnod ar ôl anfon) a byddent yn defnyddio cynnyrch o'r fath pe bai ar gael.<sup>143</sup>

- 3.88 Roedd canfyddiad ein harolwg tracio busnesau bach a chanolig diweddaraf ychydig yn wahanol ar gyfer defnyddwyr busnesau bach a chanolig. Canfu'r traciwr fod cyflymder bellach yn ystyriaeth gynyddol i lawer o fusnesau bach a chanolig, gydag 81% o fusnesau bach a chanolig yn cytuno bod danfon yn gyflym yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis darparwr neu wasanaeth i anfon llythyrau, i fyny o 72% yn 2020/21.<sup>144</sup> Fodd bynnag, efallai mai un esboniad am hyn yw bod llai o lythyrau'n cael eu hanfon a bod mwy o ddulliau digidol yn cael eu defnyddio, sy'n golygu, er bod busnesau bach a chanolig yn anfon llai o lythyrau, bod amser yn bwysig neu'n hollbwysig i gyfran uwch ohonynt.
- 3.89 Cadarnhaodd ein hymchwil diweddaraf hyn pan wnaethom ofyn i fusnesau bach a chanolig gwblhau ymarfer cyfnewid pwysigrwydd.<sup>145</sup> Roedd canlyniadau'r ymarfer hwn yn awgrymu bod diogelwch gwybodaeth bersonol/sensitif a pheidio â cholli na difrodi llythyrau tua phum ac wyth gwaith yn y drefn honno'n fwy tebygol o gael eu hystyried yn bwysig wrth gymharu â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith. Yn yr un modd, roedd gwasanaeth llythyrau fforddiadwy dair gwaith yn fwy tebygol o gael ei ystyried yr un mor bwysig â danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith.

### **Mae parhau i ddarparu gwasanaeth y diwrnod canlynol yn cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer yr achlysuron pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon llythyr brys**

- 3.90 Canfu ein hymchwil arolwg yn 2024 fod 78% o ddefnyddwyr preswyl a 68% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig yn dweud ei bod yn bwysig bod gwasanaeth llythyrau danfon y diwrnod canlynol ar gael (fel y Dosbarth Cyntaf presennol).<sup>146</sup> Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil blaenorol ar bwysigrwydd gwasanaethau danfon y diwrnod canlynol.<sup>147</sup>
- 3.91 Er gwaethaf y pwysigrwydd a roddir ar argaeledd gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol, mae llawer o bobl yn teimlo mai dim ond o bryd i'w gilydd y byddai angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn ein hymchwil ansoddol yn 2023 o ba bryd roedd pobl yn credu y byddai angen opsiwn danfon y diwrnod canlynol arnynt yn cynnwys cardiau cyfarch mae'r defnyddiwr yn hwyr yn eu hanfon (e.e. ar gyfer pen-blwydd), a phan mae eitemau'n arbennig o bwysig a/neu frys, ond roedd yr

---

<sup>142</sup> Jigsaw, 2020. [Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#), tudalen 43.

<sup>143</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 5.

<sup>144</sup> BVA BDRC, 2024. [Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 4.

<sup>145</sup> Methodoleg MaxDiff, sy'n cael ei hegluro'n llawn yn ein hadroddiad ymchwil.

<sup>146</sup> Mae cyfran y defnyddwyr a gytunodd â'r datganiad hwn yn ein harolwg yn 2024 yn uwch na phan ofynnwyd cwestiynau tebyg yn y gorffennol. Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod geiriad y cwestiwn wedi newid, gyda'n harolwg diweddaraf yn nodi y byddai hwn yn wasanaeth fel y Dosbarth Cyntaf presennol.

<sup>147</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 9 a BVA BDRC, 2024. [Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024, sleid 4.

achlysuron hyn yn cael eu hystyried yn rhai prin.<sup>148</sup> Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn, efallai y bydd amgylchiadau lle bydd yn rhaid i gwsmeriaid anfon eitemau pwysig yn rheolaidd gan ddefnyddio gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol, e.e. cwsmeriaid â chyflyrau meddygol penodol sy'n anfon profion gwaed.<sup>149</sup>

## Casgliad dros dro – Cyflymder danfon

3.92 Gan ddefnyddio ein hymchwil, rydym wedi asesu beth yw anghenion defnyddwyr o ran cyflymder ac rydym wedi canfod mai anaml mae cyflymder danfon yn cael ei ystyried yn hollbwysig gan nad yw'r rhan fwyaf o lythyrau a anfonir yn rhai brys. Mae defnyddwyr yn fodlon derbyn bod llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon yn arafach. Canfu ein hymchwil ddiweddaraf nad oedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr fel arfer angen llythyrau Ail Ddosbarth i gyrraedd cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl eu hanfon, oherwydd nad oeddent yn anfon y math o lythyr roedden ni wedi gofyn amdano, roeddent yn defnyddio Dosbarth Cyntaf, yn dweud y byddai pedwar i bum diwrnod gwaith yn dderbyniol, neu na fyddai'n bwysig pe bai'n cymryd mwy na phum diwrnod gwaith i'w danfon. Fodd bynnag, mae adegau, er nad yw hyn yn digwydd yn aml, pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon neu dderbyn eitem ar frys. Mae cynnyrch Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm yn diwallu'r angen hwn sy'n codi o bryd i'w gilydd, oherwydd dylai llythyrau sy'n cael eu danfon drwy'r gwasanaethau hyn gyrraedd erbyn y diwrnod gwaith canlynol. Rydym felly'n dod i'r casgliad dros dro bod cynnyrch yn y farchnad sy'n diwallu anghenion defnyddwyr o ran cyflymder danfon eitemau o'r fath.

## Dibynadwyedd

- 3.93 Mae dibynadwyedd, sef eitemau sy'n cyrraedd o fewn amser rhesymol a rhagweladwy ar ôl postio, yn cael ei ystyried yn nodweddiadol bwysig o wasanaethau post a dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr wrthym eu bod yn ei flaenoriaethu dros gyflymder ac amllder. Canfu ein hymchwil diweddar fod 88% o ddefnyddwyr preswyl a 89% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig wedi dweud ei bod yn bwysig eu bod yn gallu bod yn hyderus eu bydd llythyrau/cardiau yn cael eu danfon yn brydlon.<sup>150</sup>
- 3.94 Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymchwil yn 2020 ac yn 2023 lle roedd 87% ac 88% o ddefnyddwyr yn cytuno ei bod yn bwysig bod 90% o'r llythyrau sy'n cael eu hanfon yn cael eu danfon yn brydlon. Roedd defnyddwyr hŷn (dros 55) a defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig ychydig yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn.<sup>151</sup>
- 3.95 Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023, wrth feddwl am ddibynadwyedd, fod defnyddwyr yn dweud bod angen iddyn nhw fod yn siŵr y byddai'r eitemau maen nhw'n eu hanfon drwy'r post yn cyrraedd yn ddiogel ac o fewn amser rhesymol. Canfu'r ymchwil hefyd ei bod yn

---

<sup>148</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 32.

<sup>149</sup> Mae'r [BIMDG](#) (British Inherited Metabolic Diseases Group) a'r elusen [NSPKU](#) (sy'n cefnogi pobl sydd â'r cyflwr metabolig genetig PKU) yn amcangyfrif bod gan oddeutu 2,000 - 4,000 o bobl yn y DU gyflwr sy'n golygu eu bod yn gorfod anfon profion gwaed rheolaidd, e.e. Bob 48 awr.

<sup>150</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 19, 80.

<sup>151</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleidiau 9,12.



arbennig o bwysig i ddefnyddwyr bod cyfathrebiadau pwysig sy'n dibynnu ar amser, fel apwyntiadau ysbyty, biliau a dogfennau swyddogol eraill, yn cyrraedd mewn da bryd.<sup>152</sup>

## Casgliad dros dro

- 3.96 Gan ddefnyddio ein hymchwil, rydym wedi asesu beth yw anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd y gwasanaeth ac wedi canfod pan fyddant yn anfon ac yn derbyn llythyrau, bod defnyddwyr yn disgwyl i lythyrau gyrraedd o fewn cyfnod rhesymol. Mae dibynadwyedd yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau post ar gyfer cyfathrebiadau sy'n ymwneud â materion ariannol a meddygol.
- 3.97 Mae Ofcom yn gosod targedau ansawdd gwasanaeth i gymell y Post Brenhinol i ddanfoni eitemau ar amser.
- 3.98 Yn Adran 6 rydym yn ystyried y ffordd mae'r targedau presennol yn cymhell gwasanaeth o ansawdd uchel – gan gynnwys dibynadwyedd – ac yn gwneud cynigion i newid rhain i gyflawni gwell canlyniadau i ddefnyddwyr.

## Pris

- 3.99 Mae cefnogaeth gref gan ddefnyddwyr i wasanaethau post fod ar gael am bris sy'n fforddiadwy ac yn unffurf. Er bod pris anfon post yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, mae cynnydd diweddar mewn prisiau stampiau a chostau byw yn sbarduno newidiadau yn ymddygiad a phryderon rhai defnyddwyr.

## Mae fforddiadwyedd ac unffurfiaeth pris yn bwysig i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr

- 3.100 Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn nodi'n gyson bod cost anfon llythyrau a fforddiadwyedd yn bwysig. Canfu ein hymchwil diweddar fod 90% o ddefnyddwyr preswyl ac 86% o fusnesau bach a chanolig wedi dweud ei bod yn bwysig bod pris anfon llythyrau'n parhau i fod yn fforddiadwy.<sup>153</sup> Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwil yn 2020 ac yn 2023, lle'r oedd 90% a 91% o ddefnyddwyr yn y drefn honno'n cytuno ei bod yn bwysig bod pris anfon llythyrau'n cael ei gadw'n fforddiadwy.<sup>154</sup>
- 3.101 Roedd ein hymchwil ddiweddar yn cynnwys cyfnewid (Max Diff), a ganfu fod fforddiadwyedd yn gymharol bwysig i ddefnyddwyr preswyl (yn enwedig defnyddwyr hŷn) a busnesau bach a chanolig o'i gymharu ag agweddau eraill ar y gwasanaeth.<sup>155</sup>
- 3.102 Mae ein hymchwil hefyd wedi canfod, er nad oes llawer o ymwybyddiaeth o'r USO ar gyfer gwasanaethau post, bod defnyddwyr yn cefnogi nodweddion cyffredinol i raddau helaeth fel prisio unffurf ar ôl i hynny gael ei egluro iddynt. Mae ein harolwg tracio preswyl diweddaraf yn dangos bod prisiau unffurf yn dal yn nodwedd werthfawr, gyda 82% o bobl yn dweud bod yr un pris i anfon i unrhyw le yn y DU yn ffactor pwysig wrth anfon

---

<sup>152</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 32.

<sup>153</sup> BMG, 2025. [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 19, 80.

<sup>154</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 9.

<sup>155</sup> BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 22, 84, a BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024 data defnyddwyr preswyl](#), tabl 117.

llythyrau.<sup>156</sup> Mae busnesau bach a chanolig hefyd yn gwerthfawrogi prisiau unffurf, gyda 81% o fusnesau bach a chanolig yn dweud bod hyn yn ffactor pwysig wrth ddewis darparwr i anfon llythyrau.<sup>157</sup>

- 3.103 Mae'r farn hon yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil blaenorol, gyda phobl hŷn a phobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o gefnogi cyffredinolrwydd a nodweddion yr USO. Yn 2023, canfu ymchwil fod 66% o'r bobl a holwyd yn cytuno â'r syniad o brisiau cyffredinol.<sup>158</sup> Pan ofynnwyd am brisiau cyffredinol yn ein hymchwil ansoddol yn 2023, roedd llawer o bobl yn cefnogi'r cysyniad; gan deimlo ei fod yn syml, yn ddealladwy ac yn deg:

“Rwy'n credu y dylen nhw ei gadw fel y mae... ac mai un pris yw anfon i ble bynnag. Os ydw i'n anfon rhywbeth i Aberdeen ac yna rhywbeth i Brighton, does dim rhaid i mi ymchwilio i hynny felly rwy'n creu ei fod yn haws os yw popeth yr un fath”

Defnyddiwr nodweddiadol, hŷn, Plymouth.<sup>159</sup>

### **Ychydig iawn mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei wario ar bost, ond mae cynnydd mewn prisiau'n sbarduno newid mewn ymddygiad**

- 3.104 Er gwaethaf y pwysigrwydd uchel a gofnodwyd o ran fforddiadwyedd anfon post, ychydig iawn mae aelwydydd yn ei wario ar bost ar gyfartaledd. Ar gyfartaledd, mae aelwyd yn y DU yn gwario £0.60c yr wythnos neu 0.11% o wariant wythnosol ei aelwyd ar wasanaethau post sy'n cynrychioli cyfran fach iawn a swm absoliwt bach iawn o gyfanswm gwariant defnyddwyr.<sup>160</sup>
- 3.105 Er nad yw aelwydydd yn gwario llawer ar bost ar gyfartaledd, mae costau byw a'r cynnydd diweddar mewn prisiau stampiau wedi dod â chost anfon llythyrau i'r amlwg ym meddyliau llawer o ddefnyddwyr.<sup>161</sup> Mae ein hymchwil ddiweddar wedi gweld bod ystyriaethau cost yn dechrau newid ymddygiad pobl, er enghraifft:

---

<sup>156</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tabl 206.

<sup>157</sup> BVA BDRC, 2024. [Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024](#), sleid 4.

<sup>158</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), sleid 17.

<sup>159</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#) sleid 46.

<sup>160</sup> ONS, 2024. [Gwariant teuluoedd yn y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#): Ebrill 2022 i Mawrth 2023, Ffigur 3: Gwariant wythnosol cyfartalog aelwydydd yn y DU, y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 2023 (Ffynhonnell: Arolwg Costau Byw a Bywd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

<sup>161</sup> Mae'r Post Brenhinol wedi codi pris llythyr safonol Ail Ddosbarth dros y pedair blynedd diwethaf o £0.61 yn 2019-20 i £0.85 ym mis Ebrill 24. Yn ddiweddar, mae'r Post Brenhinol wedi cyflwyno cynnydd pellach yn y tariff ar gyfer rhai gwasanaethau wedi'u ffrancio a stampiau Dosbarth Cyntaf o 7 Hydref 2024 ymlaen. Mae stampiau Dosbarth Cyntaf wedi cynyddu o £1.10 ym mis Ebrill 2023 i nawr fod yn £1.65 ym mis Hydref 2024, ac mae stampiau Ail Ddosbarth wedi cynyddu o £0.75 ym mis Ebrill 2023 i £0.85 ym mis Ebrill 2024.

- **Anfon llai o bost** - Mae chwech o bob deg (62%) o ddefnyddwyr preswyl yn cytuno eu bod yn anfon llai o llythyrau oherwydd y gost ac mae chwarter busnesau bach a chanolig yn dweud eu bod wedi gwario llai ar bost yn y 12 mis diwethaf.<sup>162</sup>
- **Defnyddio cynnyrch rhatach** – Dywedodd chwe deg chwech y cant o ddefnyddwyr preswyl ac 80% o fusnesau bach a chanolig sy'n defnyddio stampiau Ail Ddosbarth eu bod yn gwneud hynny i arbed arian oherwydd mai dyma oedd yr opsiwn rhataf.<sup>163</sup> Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2023 hefyd fod codi prisiau ac ystyriaethau cost yn cymell rhai ymatebwyr i ddefnyddio post Ail Ddosbarth yn amlach, yn enwedig ar gyfer cardiau a llythyrau personol.<sup>164</sup>
- **Gwario llai mewn meysydd eraill** – Roedd rhai grwpiau defnyddwyr, er enghraifft y rhai nad oeddent yn gallu gadael eu cartref heb gymorth, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chwsmeriaid anabl, yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwario llai ar hanfodion i fforddio anfon llythyrau neu gardiau.<sup>165</sup>

## Casgliad dros dro

- 3.106 Gan ddefnyddio ein hymchwil, rydym wedi asesu anghenion defnyddwyr o ran pris ac wedi canfod bod gallu anfon post am bris fforddiadwy a chyffredinol yn bwysig iawn i'r mwyafrif o ddefnyddwyr, hyd yn oed y defnyddwyr hynny mae cost post yn rhan fach iawn o wariant cyffredinol eu cartref.
- 3.107 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.5, mae'r USO yn mynnu bod y Post Brenhinol (fel y DUSP) yn darparu amrywiaeth o gynnyrch post i gartrefi ac i fusnesau am brisiau fforddiadwy. Yn ddiweddar, fe wnaethom adolygu fforddiadwyedd a chanfu ein datganiad cap diogelu Ail Ddosbarth yn 2024 nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i brisiau post, ac felly bod y prisiau presennol yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.<sup>166</sup> Fodd bynnag, roedd y datganiad yn nodi bod defnyddwyr ar incwm isel a'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau yn fwy tebygol o wynebu problemau fforddiadwyedd, ond mae'r ymchwil hwnnw'n awgrymu bod y grwpiau hyn yn gallu ymdopi â'r costau hyn yn bennaf (ond nid bob amser).<sup>167</sup> Roedd y datganiad hefyd yn nodi ein penderfyniad i gadw'r cap diogelu ar llythyrau Ail Ddosbarth am dair blynedd arall, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn fforddiadwy.<sup>168</sup>

<sup>162</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), Tabl 47 a BVA BDRC, 2024. [Arolwg Defnyddwyr Post Busnesau Bach a Chanolig – Adroddiad Blynyddol](#) Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 sleid 13.

<sup>163</sup> BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleidiau 18, 77.

<sup>164</sup> Jigsaw, 2023. [Deall anghenion defnyddwyr gwasanaethau post – adroddiad ar ganfyddiadau ymchwil ansoddol, gan ganolbwyntio ar grwpiau a allai fod yn agored i niwed](#), sleid 37.

<sup>165</sup> [Arolwg tracio defnyddwyr post preswyl, Gorffennaf 2023-Mehefin 2024](#), tabl 178.

<sup>166</sup> Ofcom, 2025. [Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024- Penderfyniad ar gapiau diogelu i wasanaethau cyffredinol Ail Ddosbarth](#), tudalennau 55 – 76.

<sup>167</sup> Jigsaw, 2023. [Ymchwil i Fforddiadwyedd Post Preswyl](#)

<sup>168</sup> Mae gan y Post Brenhinol fonopoli bron o ran danfon llythyrau, felly ni ellir dibynnu ar gystadleuaeth i sicrhau bod prisiau'n aros yn fforddiadwy.

- 3.108 Rydym yn bwriadu ystyried opsiynau i sicrhau bod gwasanaethau USO yn parhau i fod yn fforddiadwy, gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu'n well na'r cap diogelu Ail Ddosbarth presennol. Nodir hyn yn fanylach yn Adran 9.

## A yw'r farchnad bresennol yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr?

---

- 3.109 Mae ein dadansoddiad wedi canfod y bydd wastad angen i unigolion ac i fusnesau bach a chanolig ddefnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau ac mae arnynt angen gwasanaeth sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Mae dibynnu ar post llythyrau wedi gostwng ac nid oes angen i'r rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon ac yn eu derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos (gan gynnwys ar ddydd Sadwrn). Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr hefyd yn fodlon derbyn bod llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu danfon yn arafach. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd mae ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth danfon cyflymach y diwrnod canlynol.
- 3.110 Ar ôl asesu marchnad llythyrau bresennol y DU yn erbyn yr anghenion hyn, ein casgliad dros dro yw bod y farchnad bresennol yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr wrth eu hystyried yn gyffredinol, ac yn rhagori arnynt yng nghyd-destun pa mor aml caiff llythyrau heb-flaenoriaeth eu danfon.
- 3.111 Er bod ein hymchwil yn dangos bod rhai defnyddwyr yn credu efallai na fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu mwyach ar gyfer rhai mathau o bost petai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon yn llai aml, rydym o'r farn bod digon o ddewis o gynnyrch post ar gael petai ar ddefnyddwyr eisiau danfon eitemau'n gynt a/neu ar ddydd Sadwrn, er enghraifft Dosbarth Cyntaf a Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm. Pan fydd ar fusnesau a sefydliadau angen danfon llythyrau neu eitemau bach yn gynt a/neu ar ddydd Sadwrn, mae cynnyrch post swmp ar gael iddynt eu defnyddio.

### **Cwestiwn 3.1**

Ydych chi'n cytuno ein bod wedi canfod anghenion rhesymol defnyddwyr post?  
Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

### **Cwestiwn 3.2**

Ydych chi'n cytuno bod y farchnad yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr post?  
Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

## 4. Cynaliadwyedd ariannol yr USO

### Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn egluro ein dull gweithredu yng nghyswllt ein dyletswydd i ystyried yr angen i'r gwasanaeth post cyffredinol (USO) fod yn gynaliadwy yn ariannol, yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol bresennol y Post Brenhinol ac yn trafod y ffyrdd posibl y gellid gwneud arbedion net drwy newid cwmplas yr USO.

### Yn fyr

- Rydym yn ystyried bod Enillion cyn Llog a Threth (EBIT) o fewn yr ystod 5% i 10% yn ddangosydd cyntaf o ran a yw'r Busnes a Gofnodwyd (sy'n cynnwys y rhwydwaith sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol) yn ennill elw masnachol. Mae cyflawni elw masnachol yn dangos bod y Busnes a Gofnodwyd, ac felly darparu'r gwasanaeth cyffredinol, yn debygol o fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hirach.
- Mae perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- Rydym o'r farn y gallai newid cwmplas yr USO arwain at arbedion net sylweddol a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

## Ein dull o fonitro cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol


- 4.1 Mae adran 29 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gweithredu ei swyddogaethau o ran y gwasanaethau post mewn ffordd mae'n credu a fydd yn sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i ni roi sylw i'r angen bod darparu gwasanaeth post cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon. Er mwyn ein helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gennym drefn fonitro sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol a gweithredol fisol, chwarterol a blynyddol a gyflwynir gan y Post Brenhinol o dan ein gofynion adrodd rheoleiddiol parhaus, yn ogystal â'n pwerau casglu gwybodaeth.
- 4.2 Mae Adran 29(4) o'r Ddeddf yn datgan bod yr angen i wasanaeth cyffredinol fod yn gynaliadwy yn ariannol yn cynnwys yr angen i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol wneud elw masnachol rhesymol (ar unrhyw wariant a gaiff am ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol neu mewn cysylltiad â hynny). Felly, rydym yn asesu cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol drwy ystyried a ellid disgwyl i 'Fusnes a Gofnodwyd' y Post Brenhinol ennill elw masnachol rhesymol. Mae'r Busnes a Gofnodwyd yn cynnwys y rhwydwaith cyffredinol sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol yn ogystal â gwasanaethau sydd y tu allan i gwmpas y gwasanaeth cyffredinol fel post swmp, mynediad a pharseli cyfrifon<sup>169</sup> (gweler Ffigur 4.1

<sup>169</sup> Mae parseli cyfrifon yn wasanaeth parseli sy'n cael ei ddefnyddio gan fusnesau i anfon nwyddau wedi'u prynu at eu cwsmeriaid.

isod sy'n dangos sut mae'r Busnes a Gofnodwyd yn cyd-fynd â grŵp corfforaethol International Distribution Services Plc (IDS), rhiant-gwmni'r Post Brenhinol).

- 4.3 Mae'r gweithrediadau a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynnyrch USO a dim-USO yn gorgyffwrdd i raddau helaeth ac maen nhw'n debyg iawn mewn rhai rhannau o'r rhwydwaith cyffredin yn y Busnes a Gofnodwyd, fel danfon, lle mae cymysgedd o gynnyrch USO a dim-USO yn cael eu cludo a'u danfon gyda'i gilydd. O ganlyniad, nid oes dull cyfrifyddu na dyrannu costau i wahanu costau ac elw cynnyrch yr USO oddi wrth y cynnyrch nad yw'n USO. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl asesu cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ar ei ben ei hun yn ddibynadwy ac yn fanwl gywir. Felly, rydym o'r farn mai cyfradd elw'r Busnes a Gofnodwyd yn ei gyfanrwydd yw'r dangosydd mwyaf priodol o'r gyfradd elw wrth ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol, ac mae'n ddangosydd allweddol o gynaliadwyedd ariannol tymor hir y gwasanaeth cyffredinol.

**Ffigur 4.1: Busnes a Gofnodwyd, Grŵp y Post Brenhinol, International Distributions Services (IDS)**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom*

- 4.4 Rydym yn defnyddio EBIT y Busnes a Gofnodwyd fel y metrig mwyaf priodol ar gyfer y gyfradd elw.<sup>170</sup> Rydym yn ystyried bod EBIT o fewn yr ystod 5% i 10% yn ddangosydd cyntaf o ran a yw'r Busnes a Gofnodwyd yn ennill elw masnachol.<sup>171</sup> Mae cyflawni cyfradd elw fasnachol yn dangos bod y Busnes a Gofnodwyd yn gynaliadwy yn ariannol, h.y. mae modd ei ariannu'n fasnachol. Os nad oedd disgwyl i'r Busnes a Gofnodwyd gyrraedd EBIT o 5% o leiaf o fewn cyfnod estynedig, neu os nad oedd unrhyw obaith rhesymol y byddai'n gwneud o leiaf 5%, yna ni fyddem yn disgwyl i'r Busnes a Gofnodwyd fod yn gynaliadwy'n ariannol.
- 4.5 Ar ben hynny, rydym yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys cynlluniau busnes a rhagolygon llif arian, i asesu gallu (i) y Grŵp Perthnasol (IDS a'i holl is-gwmnïau uniongyrchol ac anuniongyrchol), a (ii) y Post Brenhinol (is-gwmni IDS a'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig), i fodloni eu rhwymedigaethau ariannol ac i barhau i fod mewn sefyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol yn y tymor byr i ganolog yn ogystal â'r tymor hirach.
- 4.6 Rydym wedi defnyddio'r dull monitro ariannol rydym wedi'i nodi uchod ers mis Mawrth 2012. Rydym wedi adolygu ac ymgynghori'n gyhoeddus ar ei fod yn addas i'r diben ar wahanol adegau ers hynny. Rydym wedi diweddarau rhai manylion am y dull gweithredu ar hyd y ffordd, gan gynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arnom drwy ein gofynion adrodd ariannol rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae prif egwyddorion y dull monitro a nodir uchod wedi aros yn addas i'r diben.
- 4.7 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn poeni mwy a mwy am berfformiad a sefyllfa ariannol y Post Brenhinol. Rydym wedi nodi'r newidiadau yn strwythur y grŵp IDS (yn enwedig gwahanu cwmnïau GLS oddi wrth y Post Brenhinol)<sup>172</sup> yn ogystal â'r newid posibl yn ei berchnogaeth ar ôl y datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r cais diweddar gan EP Group i'w gymryd drosodd.<sup>173</sup> Mae angen i ni ddeall sut mae'r newidiadau hyn wedi

---

<sup>170</sup> Rydym yn defnyddio EBIT fel metrig elw ar werthiant yn hytrach na metrig elw ar asedau sy'n gyffredin mewn diwydiannau rheoledig eraill fel telegyfathrebiadau a dŵr. Y prif reswm yw bod y Post Brenhinol yn fusnes llafurddwys, ac nid yn fusnes sy'n defnyddio llawer o asedau. Mae hynny'n golygu nad yw'r metrig elw ar asedau yn briodol nac yn ymarferol i'r Post Brenhinol.

<sup>171</sup> Cafodd ein hadolygiad diweddaraf o'r ystod EBIT 5-10% ei gynnal yn ystod ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaethau Post 2022. Fe wnaethom ystyried proffidioldeb nifer o ddarparwyr gwasanaeth cyffredinol yn Ewrop a oedd yn diwallu ein meini prawf i fod yn gymharydd da dros gyfnod. Mae manylion ein hadolygiad ar gael yn [Atodiad 8 Adolygiad 2022 o Reoliadau'r Gwasanaethau Post](#).

<sup>172</sup> Ar 28 Mehefin 2021, cafodd y cwmni a elwir bellach yn IDS Holdco (a oedd yn cynnwys yr is-gwmni GLS) ei drosglwyddo o'r Post Brenhinol i IDS. Ar 31 Awst 2021, cafodd y Post Brenhinol ei drosglwyddo i IDS Holdco. Ar hyn o bryd, mae'r Post Brenhinol a GLS yn is-gwmnïau i IDS Holdco sy'n is-gwmni i IDS. Gweler [Nodyn 6 i Ddatganiadau Ariannol Cyfunol 2021-22](#).

<sup>173</sup> Mae'n bosibl y bydd IDS yn cael ei gymryd drosodd gan EP UK Bidco (EP). Ym mis Mehefin 2024, cafodd cyfranddallwyr IDS gynnig o £3.70 fesul cyfranddaliad am holl gyfalaf cyfranddaliadau IDS (y Cynnig). Roedd hyn ar ôl gwneud cynnig cychwynnol o £3.20 ar 9 Ebrill 2024. Mae IDS wedi datgan bod y "Bwrdd yn argymhell yn unfrydol bod Cyfranddallwyr yn derbyn y Cynnig". Ar 19 Rhagfyr 2024 roedd Swyddfa'r Cabinet wedi cymeradwyo'r trafodiad o dan Ddeddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol 2021. Ers hynny, cafwyd caniatâd hefyd gan y Comisiwn Ewropeaidd a'r Pwyllgor ar Fuddsoddiad Tramor yn yr Unol Daleithiau, ond mae rhagor

effeithio ar y Post Brenhinol, a sut gallai effeithio arno yn y dyfodol, fel y DUSP, yn ogystal â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Mewn ymateb i'r datblygiadau hyn, rydym wedi bod yn gwneud mwy o weithgareddau monitro ac yn canolbwyntio ymhellach ar y meysydd sydd, yn ein barn ni, â risg uwch nag o'r blaen, gan gynnwys sefyllfa ariannol y Post Brenhinol a chymorth ariannol parhaus gan IDS.

## Perfformiad ariannol presennol y gwasanaeth cyffredinol

---

### Perfformiad ariannol

- 4.8 Yn Adroddiad Monitro Post 2023/24, rydym yn nodi canlyniadau ein gwaith monitro ar berfformiad ariannol y Post Brenhinol yn 2023/24. Roedd y Post Brenhinol wedi gwneud colled, gydag EBIT o -£458m sef cyfradd EBIT -6.3% am y Busnes a Gofnodwyd.<sup>174</sup> Roedd hyn yn deillio o gynnydd mewn costau yn rhannol oherwydd y dyfarniad tâl y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf 2023.<sup>175</sup> Roedd cynnydd bach mewn refeniw ar draws parseli a llythyrau ond fe wnaethom nodi nad oedd y Post Brenhinol wedi cyflawni'r gyfran o'r farchnad parseli a oedd ganddo cyn y streiciau diwydiannol yn 2022. Mae'r gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau hefyd wedi bod yn ffactor allweddol yn yr heriau perfformiad mae'r Busnes a Gofnodwyd yn eu hwynebu – roedd nifer y llythyrau gyda chyfeiriad atynt yn y DU wedi gostwng 9.0% yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- 4.9 Mae'r gyfradd EBIT o -6.3% yn is o lawer na'r ystod 5-10% rydym yn ei ystyried yn arwydd o elw masnachol. Mewn gwirionedd, mae'r Busnes a Gofnodwyd wedi methu sicrhau elw yn yr ystod hon ers blwyddyn ariannol 2015/16 (gweler Ffigur 4.2 isod). Mae'r patrwm EBIT wedi bod yn disgyn ers y flwyddyn ariannol honno (gan ddiystyru'r hwb mewn elw a fu o ganlyniad i bandemig Covid-19).

---


o wiriadau rheoleiddiol eto i'w gwneud. Wrth i'r adolygiadau hyn gael eu cynnal, mae'r amserlen i'r cyfranddalwyr dderbyn y Cynnig wedi cael ei rhewi. Mae IDS wedi datgan y "disgwylir y bydd y Cynnig yn dod yn Ddiamod neu y bydd yn cael ei ddatgan yn Ddiamod yn chwarter cyntaf 2025". Os bydd y trafodiad yn cael ei gwblhau, mae'n debygol y bydd mynediad IDS a'r Post Brenhinol at gyfalaf yn newid. Dywedodd EP yn y ddogfen gynnig y gallai IDS elwa o "fynediad mwy hyblyg at gyfalaf buddsoddi". Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau'n glir oni bai a phan fydd y pryniant wedi'i gwblhau. Gweler IDS, 2024, Ch1 [Diweddariad Masnachu hyd at Ddiwedd Mehefin 2024](#), tudalen 3; IDS, 2 Awst 2024, [Diweddariad ar Amserlen y Cynnig](#), tudalen 2; IDS, 26 Mehefin 2024, [Cynnig Arian a Argymhellir ar gyfer IDS PLC gan EP UK Bidco Limited](#).

<sup>174</sup> Ffigurau 2023/24 yn cael eu cyflwyno ar sail 52 wythnos.

<sup>175</sup> Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 6% fel rhan o'r Cytundeb Twf, Trawsnewid ac Adfer Busnes gyda'r CWU. IDS, 2024. [Adroddiad Blynyddol IDS 2023/24](#), tudalen 64.



**Ffigur 4.2: EBIT y Busnes a Gofnodwyd**



*Ffynhonnell: Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol y Post Brenhinol, datganiadau heb eu harchwilio gan y Post Brenhinol a dadansoddiad Ofcom. \*Ffigurau wedi'u haddasu i 52-wythnos*

- 4.10 Cyhoeddodd IDS ei ganlyniadau ar gyfer y trydydd chwarter (mis Ebrill i fis Rhagfyr 2024) y flwyddyn ariannol bresennol ar 15 Ionawr 2025, a oedd yn dangos bod perfformiad y Post Brenhinol wedi gwella o'i gymharu â 2023/24. Roedd pethau wedi gwella oherwydd cynnydd mewn refeniw o ganlyniad i berfformiad llythyrau cryfach. Roedd perfformiad parseli hefyd wedi gwella a oedd hefyd wedi cyfrannu at ragor o refeniw, ond roedd hyn oherwydd yr adferiad parhaus o ran cyfran y farchnad ar ôl y streic. Mae IDS yn disgwyl y bydd y Post Brenhinol yn dychwelyd i weithredu'n broffidiol yn 2024/25.<sup>176</sup> Fodd bynnag, mae angen gwella llawer mwy er mwyn cael EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn ôl i'r ystod 5-10%.
- 4.11 Fel sy'n cael ei esbonio uchod, nid yw'r Post Brenhinol wedi sicrhau EBIT o 5% ers 2015/16, ond mae wedi parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol. Mae'r grŵp IDS wedi dangos ei gefnogaeth barhaus i'r Post Brenhinol yn ei gyhoeddiadau cyhoeddus, ac mae wedi nodi'r rhagolygon i weddnewid y busnes a dychwelyd i lefel EBIT sy'n gynaliadwy'n ariannol.

## Effeithlonrwydd

- 4.12 Yn yr Adroddiad Monitro Post, rydym hefyd yn ystyried yr arbedion effeithlonrwydd y dywedodd y Post Brenhinol eu bod wedi'u cyflawni sef 2% am y flwyddyn ariannol 2023/24.<sup>177</sup> Fe wnaethom nodi, gan ddefnyddio ein methodoleg ein hunain, y byddem yn ailddatgan hynny i 0.4% (0.6% pe bai'n cyfrifo costau trafodiadau post). Mae'r ddau ffigur

<sup>176</sup> IDS, 15 Ionawr 2025. [Diweddariad Masnachu'r Trydydd Chwarter](#)

<sup>177</sup> Mae'r arbedion effeithlonrwydd a adroddir yn seiliedig ar y metrig PVEO sy'n rhoi mesur cyffredinol o effeithlonrwydd drwy ddadgyfuno symudiadau cost blynyddol i bedwar sbardun; "Pris" (neu chwyddiant), "Niferoedd", "Effeithlonrwydd" ac "Arall" (sy'n gysylltiedig ag eitemau nad ydynt yn ailadrodd)". Rydym yn rhagnodi'r rheolau i'r dull hwn yn ein [Canllaw Cyfrifyddu Rheoleiddiol \(RAG\)](#), paragraff 8.83

hyn yn is na'r cynnydd roedd y Post Brenhinol yn disgwyl ei gyflawni at ei darged i gyrraedd 9% o arbedion effeithlonrwydd erbyn 2027/28.<sup>178</sup>

- 4.13 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi aros o'r farn nad yw'r Post Brenhinol wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y byddem yn ei ddisgwyl i wella effeithlonrwydd. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaethau Post yn 2022 i fynnu bod y Post Brenhinol yn darparu mwy o dryloywder am ei gynnydd gydag effeithlonrwydd. Fe wnaethom gyflwyno gofyniad adrodd rheoleiddiol i'r Post Brenhinol gyhoeddi ei dargedau effeithlonrwydd pum mlynedd, am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2023, ac wedyn yn flynyddol i roi gwybod am ei gynnydd yn erbyn y targedau hynny.<sup>179</sup> Fel rydym hefyd yn ei esbonio yn ein Hadolygiad yn 2022, rydym yn dal i fod o'r farn bod cymhellion masnachol i'r Post Brenhinol wella effeithlonrwydd ac na fyddai rhagor o reoleiddio yn hyrwyddo effeithlonrwydd.<sup>180</sup>
- 4.14 Pe bai'r Post Brenhinol yn cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd 9% llawn yna byddai hyn yn gwella EBIT y Busnes a Gofnodwyd, a bydd sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn elfen hanfodol o sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Fodd bynnag, ar sail canlyniadau 2023/24 a'n dadansoddiad mewnol, nid yw hyd yn oed cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd 9% llawn erbyn 2027/28 yn debygol o fod, ar ei ben ei hun, yn ddigon i'r Busnes a Gofnodwyd gyflawni EBIT yn yr ystod o 5-10%.

## Casgliad

- 4.15 Er bod sefyllfa ariannol a pherfformiad y Busnes a Gofnodwyd wedi bod yn gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r busnes yn dal i wynebu nifer o heriau ar y ffordd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- 4.16 Rydym yn asesu effaith diwygio'r USO yn Adrannau 5 a 6 yn ogystal ag effaith y diwygiadau i'r rhwymedigaeth mynediad yn Adran 7 o'r ddogfen hon, ac yn nodi ein cynigion i ddiwygio yn yr adrannau hynny. Er mwyn cyfrannu at ein hasesiad o'r effaith, rydym yn egluro isod sut gallai diwygio'r gwasanaeth cyffredinol roi rhagor o hyblygrwydd gweithredol i'r Post Brenhinol er mwyn sicrhau arbedion cost net sylweddol. Mae'n debyg y byddai'r arbedion cost net hyn yn cael eu gwireddu ar ôl ystyried y newidiadau refeniw tebygol a achosir gan y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol a gwasanaethau cysylltiedig eraill. Mae'n bosibl i arbedion cost net diwygio'r USO a diwygio'r rhwymedigaeth mynediad arwain at gynnydd mawr yn EBIT y Busnes a Gofnodwyd a chynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol wedi'i ddiwygio.
- 4.17 Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn dangos y byddai cyflawni EBIT yn yr ystod o 5-10% yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Er y byddai angen i'r Post Brenhinol allu gwireddu'n llawn yr arbedion cost net y byddai diwygio yn eu galluogi, rhaid iddo hefyd sicrhau twf sylweddol

---

<sup>178</sup> IDS, 30 Mehefin 2023, [Disgwyliad cronus pum mlynedd ar gyfer PVEO a chynhyrchiad](#).

<sup>179</sup> IDS, 30 Mehefin 2023, [Disgwyliad cronus pum mlynedd ar gyfer PVEO a chynhyrchiad](#).

IDS, [2023/24 Perfformiad blynyddol cronus WIPGH a PVEO](#)

<sup>180</sup> Ofcom, 2023 [Datganiad ar y newidiadau i ofyniad adrodd rheoleiddiol y Post Brenhinol](#).

mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau'n effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd yn sylweddol drwy drawsnewid ei rwydwaith a'i addasu i'r newidiadau o ran niferoedd y llythyrau a'r newidiadau llwyth gwaith y bydd y tueddiadau hyn yn arwain atynt. Mae angen i'r holl ddarnau uchod gael eu rhoi ar waith er mwyn cynyddu'r siawns y bydd y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hirach.

- 4.18 Mae gennym drefn fonitro, a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad ariannol ac effeithlonrwydd y Busnes a Gofnodwyd yn ofalus. Rydym yn trafod ein camau nesaf yn Adran 9 y ddogfen hon.

## Deinameg costau a refeniw diwygio rheoliadau

---


- 4.19 Rydym yn cynnig newid y ffordd rydym yn rheoleiddio'r Post Brenhinol mewn tri maes (gweler Adrannau 5, 6 a 7). Yn fras, rydym yn cynnig newid manyleb yr USO i ganiatáu i lythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon ar batrwm bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (a rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn); yn ail, diwygio'r targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau USO; ac, yn drydydd, newid rheoleiddio mynediad er mwyn iddo gyd-fynd â'r newidiadau i bost Ail Ddosbarth.
- 4.20 Rydym yn disgwyl i'r newidiadau hyn alluogi'r Post Brenhinol i newid ei weithrediadau er mwyn iddo allu gweithredu gyda sylfaen gost fwy effeithlon a llai yn y dyfodol. Mae'n debygol hefyd y bydd rhai effeithiau negyddol o ran refeniw wrth i nifer y llythyrau leihau oherwydd rhai o'r newidiadau hyn (efallai na fydd cynnydd mewn prisiau yn cael eu gwrthbwyso'n llawn). Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn disgwyl effaith net gadarnhaol sylweddol a allai ganiatáu i'r Post Brenhinol weithredu a darparu'r USO a gwasanaethau post swmp ar lefel is o gostau a fyddai o fudd i ddefnyddwyr yn y pen draw. Rydym yn nodi isod ein dadansoddiad o'r ddeinameg costau a refeniw hon. Mae hyn yn sail i'n hasesiad o effaith ein cynigion diwygio yn Adrannau 5, 6 a 7.

## Newidiadau i strwythur danfon yr USO

### Arbedion costau danfon

- 4.21 Costau llafur gweithrediadau danfon y Post Brenhinol yw'r rhan fwyaf o gyfanswm costau'r Busnes a Gofnodwyd. Felly, gwneud arbedion yn y rhan hon o'r busnes sy'n cael yr effaith fwyaf ar ei sefyllfa ariannol. Dyma hefyd faes y busnes mae gofynion penodol yr USO yn effeithio fwyaf arno.
- 4.22 Wrth ddanfon llythyrau, mae cost gyffredinol danfon un llythyr i dŷ a danfon pum llythyr i'r un tŷ bron yr un fath. Mae hyn yn golygu ei bod yn llawer mwy effeithlon danfon llawer o bost ar unwaith na danfon yr un faint o bost dros sawl trip ar wahân.
- 4.23 Y ffaith hon yw'r hyn sy'n gyrru'r berthynas costau allweddol yn rhwydwaith danfon y Post Brenhinol: y 'gyfradd galwadau', sef y berthynas rhwng faint o bost sydd i'w ddanfon mewn ardal a chyfran yr holl bwyntiau danfon mae'n rhaid teithio iddynt ar ddiwrnod penodol. Nid yw'r berthynas hon yn llinol, sy'n golygu wrth ychwanegu rhagor o bost i ardal danfon, mae nifer y triapiau sydd eu hangen yn tyfu ond ar gyfran lai na'r cynnydd yn nifer y post. Mewn rhai achosion, bydd angen danfon y post ychwanegol i eiddo sydd eisoes â phost i'w ddanfon iddo, a bydd hyn yn cael ei wneud heb gost ychwanegol bron.

**Ffigur 4.3: Darlun o'r berthynas cyfradd galwadau**



*Ffynhonnell: Ofcom*

- 4.24 Gan fod nifer y llythyrau wedi gostwng dros y degawdau diwethaf, ac ar yr un pryd mae nifer y cyfeiriadau wedi cynyddu, y berthynas hon yn y gyfradd galwadau hon sydd wedi codi'r costau uned. Efallai fod gweithwyr post wedi arfer danfon llawer o eitemau drwy'r rhan fwyaf o flychau llythyrau roedden nhw'n ymweld â nhw, ond erbyn hyn maent yn llawer mwy tebygol o fod yn anfon un neu ddwy eitem. Ar ben hynny, lle byddent yn arfer danfon i'r mwyafrif helaeth o dai ar stryd bob dydd, maent bellach yn ymweld â dim ond ffracsiwn ac yn gorfod teithio ymhellach rhwng pob un. Mae'r naill ffactor a'r llall wedi codi cost cyfartalog anfon llythyr.
- 4.25 Yng ngoleuni hyn, mae cynllun moderneiddio'r Post Brenhinol yn cynnig danfon llythyrau Ail Ddosbarth a phost swmp heb flaenoriaeth yn llai aml, gan barhau i ddarparu gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol chwe diwrnod yr wythnos ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf.<sup>181</sup> Byddai caniatáu i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml, e.e. bob yn ail ddiwrnod o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn (h.y. danfon 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, yn hytrach na'r amserlen bresennol o chwe diwrnod yr wythnos), yn galluogi'r Post Brenhinol i arbed llawer iawn o gostau. Byddai'n golygu bod modd cyfuno post dros ddau ddiwrnod, gan gynyddu'r eitemau cyfartalog fesul aelwyd a dod â rhai o'r arbedion maint yn ôl a gollwyd o'r cyfnod pan roedd nifer y llythyrau'n uwch o lawer. Dyma elfen arbed costau bwysicaf ein cynigion neu ein diwygiadau, ac yn Adran 5 rydym yn asesu effaith newid o'r fath, gan gynnwys a fyddai'n diwallu anghenion defnyddwyr.

---

<sup>181</sup> Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd ddanfon eitemau cofrestredig ac wedi'u hyswirio, a llythyrau rhyngwladol, chwe diwrnod yr wythnos.

## Effeithiau refeniw

- 4.26 Mae danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml hefyd yn effeithio ar gost danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf. O dan y strwythur danfon arfaethedig, byddai diwrnodau lle nad yw llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon mewn ardal ond bod dal angen danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf. Felly, byddai angen danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf ochr yn ochr â pharseli a fyddai hefyd yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Fel rydym yn egluro yn Adran 5, mae'r dull hwn yn cyd-fynd â newidiadau arfaethedig y Post Brenhinol i'w weithrediadau.
- 4.27 Mae'r danfon hyn yn tueddu i fod yn llai effeithlon na danfon llythyrau llawn, gan fod llai o eitemau fesul cartref ac mae'n rhaid teithio'n bellach rhwng cartrefi. Mae ystyriaethau logistaidd gwahanol hefyd ar gyfer llwybrau danfon sy'n seiliedig ar barseli yn bennaf na'r rheini sy'n seiliedig ar lythyrau yn bennaf. Er enghraifft, gellir danfon parseli'n fwyaf effeithlon yn y rhan fwyaf o ardaloedd gydag un gweithiwr post mewn fan, tra gall llythyrau yn yr ardaloedd hynny gael eu danfon yn fwy effeithlon gyda dau weithiwr mewn fan neu ar droed gan ddefnyddio troli. A phopeth arall yn gyfartal, byddai hyn yn tueddu i gynyddu cost uned danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf.
- 4.28 O dan model danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, gallai felly fod yn fwy cost-effeithiol cael llai o lythyrau Dosbarth Cyntaf yn gyffredinol, er mwyn sicrhau nad ydynt yn amharu'n ormodol at y llwybrau danfon parseli ar ddiwrnodau danfon llythyrau nad ydynt yn Ail Ddosbarth. Gallai mynd ati'n fwriadol i leihau'r niferoedd olygu codi prisiau eitemau Dosbarth Cyntaf, gydag effaith gadarnhaol ar refeniw fesul-uned ar gyfran y niferoedd Dosbarth Cyntaf mae'r Post Brenhinol yn eu cadw yn dilyn unrhyw gynydd mewn prisiau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddai'r enillion refeniw cronus yn cael eu gwrthbwysu gan lai o refeniw o golli niferoedd Dosbarth Cyntaf, a llai o refeniw ychwanegol oherwydd rhywfaint o ostyngiad yn y niferoedd Ail Ddosbarth oherwydd newidiadau i amserlen danfon y dosbarth hwn o lythyr.

## Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yr USO

- 4.29 Mae rhwydweithiau post yn wynebu pob math o bethau amrywiol ac ar hap, a allai effeithio ar lefel ansawdd y gwasanaeth a gaiff defnyddwyr. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:
- Yr amrywiaeth dyddiol yn nifer a math yr eitemau sy'n cael eu postio mewn ardal benodol;
  - Amrywiad tymhorol yn faint o eitemau sy'n cael eu postio ar draws y rhwydwaith;
  - Tarfu ar swyddogaethau trafndiaeth a logisteg oherwydd y tywydd;
  - Tarfu ar lafur oherwydd salwch ac effeithiau eraill; ac
  - Amodau traffig yn amrywio o ddydd i ddydd.
- 4.30 Mae lliniaru'r risgiau hyn yn aml yn arwain at gostau ychwanegol, er enghraifft efallai y bydd angen cyflogi mwy o staff parhaol neu asiantaeth i sicrhau bod digon o weithlu ar gael i ddelio â llwyth gwaith cyfnodau prysur neu brinder staff annisgwyl, neu fod ganddynt amserlenni prosesu sy'n cynnwys rhywfaint o amser sbâr i'w ddefnyddio mewn amgylchiadau arbennig o wael sy'n achosi tagfeydd ar adeg benodol.
- 4.31 Mae targedau uwch yn gofyn am lai o oddefiant o ran oedi a tharfu, ac felly'n cynyddu costau lliniaru'r risgiau uchod. I'r gwrthwyneb, mae targedau is yn lleihau maint y costau lliniaru risg. Yn enwedig gyda lefelau targed uchel, gall newidiadau cymharol fach i

berfformiad arwain at oblygiadau cost sylweddol. Byddem felly'n disgwyl y byddai targedau is yn golygu y gallai'r Post Brenhinol weithredu am gost gyffredinol is. Mae'r lefelau targed nid yn unig yn effeithio ar gostau ond oherwydd yr angen busnes i adennill costau, maent hefyd yn effeithio ar brisiau. Bydd costau uwch ynghlwm wrth dargedau uwch, ac mae'n debyg y byddai angen eu hadennill drwy brisiau uwch.

- 4.32 Mae ein cynigion ar gyfer newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth wedi'u nodi yn Adran 6.

## **Newidiadau i'r rhwymedigaeth mynediad**

- 4.33 Yn 2023/24, anfonwyd 9bn o llythyrau. O hyn, mae post swmp yn cynrychioli 5.7 biliwn o eitemau, neu 63% o'r cyfanswm. Gan fod y cynhyrchion hyn nad ydynt yn rhai USO yn cael eu danfon ochr yn ochr â'r gwasanaethau USO, mae angen i unrhyw newidiadau i'r strwythur danfon cynnyrch USO gael eu hadlewyrchu hefyd yn yr amodau rydym yn eu gosod ar gyfer cynnyrch swmp a mynediad y Post Brenhinol er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a'r arbedion costau gorau posibl. Pe bai'n rhaid darparu'r cynnyrch hyn nad ydynt yn rhai USO yn amlach na llythyrau USO, yna ni fyddai modd gwireddu'r rhan fwyaf o'r arbedion posibl sy'n gysylltiedig â newidiadau i strwythur danfon yr USO, gan y byddai'r rhan fwyaf o lwybrau danfon llythyrau yn dal i gael eu hanfon allan bob dydd. Felly, rydym yn credu bod angen asesu newidiadau i'r rhwymedigaeth mynediad wrth ystyried unrhyw newidiadau i strwythur danfon yr USO.

- 4.34 Mae ein cynigion i newid yr Amod USPA i gefnogi ein cynigion eraill wedi'u nodi yn Adran 7.

## **Casgliad dros dro**

- 4.35 Credwn y gellid gwireddu arbedion net sylweddol drwy ddiwygio ein rheoliadau. Yn adrannau canlynol y ddogfen hon rydym yn trafod yn fanwl ein cynigion ar gyfer pob un o'r tair prif elfen, sef newid pa mor aml bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon, newid targedau ansawdd gwasanaeth, a newid y rhwymedigaeth mynediad. Mae Adran 8 yn nodi ein dadansoddiad o'r cynigion hyn, a'n disgwyliad o arbedion net.

# 5. Newidiadau arfaethedig i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth

## Pwrpas yr adran hon

Yn yr adran hon rydym yn nodi cynigion i newid pa mor aml caiff llythyrau Ail Ddosbarth eu danfon. Rydym yn egluro beth fyddai'r newidiadau'n ei olygu'n ymarferol, gan gynnwys casglu a phrosesu eitemau Ail Ddosbarth.

Rydym wedyn yn asesu effeithiau posibl y cynigion hyn yn erbyn ein hamcanion polisi, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth sydd gennym ar (i) anghenion rhesymol defnyddwyr post, a (ii) cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Rydym yn nodi ein safbwyntiau dros dro ar gymesuredd y cynigion ac yn egluro ein newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau perthnasol.

## Yn fyr

- Mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn ar ddyfodol yr USO, cyflwynodd y Post Brenhinol gynllun moderneiddio ar sail cynnig i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener), gan roi'r gorau i ddanfon yr eitemau hyn ar ddydd Sadwrn.
- Rydym wedi adolygu cynnig y Post Brenhinol ac wedi gwneud rhagor o waith i ddeall sut byddai'r model danfon newydd arfaethedig yn gweithredu'n ymarferol, a'r goblygiadau posibl i ddefnyddwyr post ac i'r Post Brenhinol. Mae hyn wedi ein galluogi i lunio barn dros dro y byddai'r newidiadau'n gyfiawn ac yn gymesur.
- Mae ein dadansoddiad o'r dystiolaeth yn awgrymu bod lle i wneud newidiadau i'r USO a pharhau i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Yn benodol, byddai danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn llai aml a rhoi'r gorau i'w danfon ar ddydd Sadwrn yn dal i olygu bod modd diwallu anghenion defnyddwyr yn gyffredinol.
- Rydym hefyd yn credu y bydd gwneud y newidiadau hyn, fel rhan o'n cynigion ar gyfer pecyn cyffredinol o ddiwygio rheoleiddio'r post, yn lliniaru'r risg y bydd y gwasanaeth cyffredinol yn dod yn ariannol anghynaliadwy. Byddai'n creu'r potensial i'r Post Brenhinol leihau ei sylfaen gostau drwy roi mwy o hyblygrwydd iddo o ran sut mae'n gweithredu.
- Rydym yn amcangyfrif y byddai ein pecyn cyfan o gynigion diwygio, gan gynnwys danfon llythyrau USO Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adran hon, yn galluogi'r Post Brenhinol i wireddu arbedion cost net o £250m i £425m ym mlwyddyn ariannol 2025/26. Rydym o'r farn y dylai hyn olygu bod defnyddwyr yn elwa o gynnydd llai mewn prisiau nag y byddai pe bai manyleb bresennol yr USO yn cael ei chadw, ac, yn fwy sylfaenol, o ostyngiad yn y risg i'r USO ei hun.
- Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r rhwymedigaethau danfon a chasglu ar gyfer gwasanaethau Dosbarth Cyntaf neu barseli, ac mae'r Post Brenhinol yn

bwriadu parhau i gasglu a danfon yr eitemau hyn chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn).

- Mae'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd o ddelio ag eitemau Ail Ddosbarth a pha mor aml cânt eu danfon yn rhan o becyn diwygio cyffredinol ynghyd â newidiadau arfaethedig i'r targedau ansawdd gwasanaeth a reoleiddir ar gyfer post USO (gweler Adran 6) ac i reoleiddio post mynediad (gweler Adran 7).

## Cyflwyniad

---

- 5.1 Roedd ein Cais am Fewnbwn yn nodi tystiolaeth bod angen diwygio'r gwasanaeth cyffredinol er mwyn iddo gyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr a'i fod yn gallu parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.<sup>182</sup> Roeddem felly wedi nodi nifer o opsiynau posibl ar gyfer ail-ddylunio'r USO ac wedi gofyn am farn rhanddeiliaid arnynt.
- 5.2 Fel y nodwyd yn ein Cais am Fewnbwn ac Adran 3 ar anghenion defnyddwyr post, mae data rydym wedi'i gael a'i weld drwy ein gwaith monitro parhaus ar y farchnad bost, gan gynnwys o'n hymchwil defnyddwyr, yn dangos bod y ffordd mae pobl yn defnyddio gwasanaethau post wedi newid, gyda llai o llythyrau'n cael eu hanfon a mwy o barseli. Mae ein dadansoddiad o'r dystiolaeth yn dangos bod y ddibyniaeth ar wasanaethau post yn lleihau i lawer o ddefnyddwyr, ond mae pobl a busnesau bach a chanolig yn credu y bydd wastad angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau post i anfon llythyrau. Pan fyddant yn anfon ac yn derbyn llythyrau, mae ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Nid oes ar ddefnyddwyr angen danfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos ond o bryd i'w gilydd bydd arnynt angen gwasanaeth cyflymach y diwrnod canlynol sydd ar gael chwe diwrnod yr wythnos.
- 5.3 Ar ôl asesu'r farchnad bost bresennol yn erbyn anghenion rhesymol defnyddwyr, ein casgliad dros dro yw bod marchnad llythyrau'r DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr yn gyffredinol, ac yn rhagori arnynt yn achos amllder danfon (gweler Adran 3). Gallai rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau post nad yw'n cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr arwain at bobl yn talu prisiau uwch na'r angen oherwydd y costau uwch i'r Post Brenhinol o ran darparu gwasanaeth sy'n fwy na'r angen.
- 5.4 Ar ben hynny, mae mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu gwasanaethau nad oes eu hangen ar ddefnyddwyr yn ychwanegu at risgiau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fel y nodir yn Adran 4, dros y blynyddoedd diwethaf rydym yn poeni mwy a mwy am gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol a gallu'r Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth effeithlon yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod risg gynyddol y bydd y gwasanaeth cyffredinol presennol yn dod yn anghynaliadwy yn ariannol, sy'n bygwth danfon post yr USO yn barhaus.
- 5.5 Gan mai'r Post Brenhinol yw'r unig gwmni post sydd â rhwydwaith cenedlaethol o un pen i'r llall, gallai'r risg i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol hefyd effeithio ar ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai USO (e.e. post swmp). Post swmp, sy'n cael ei anfon gan sefydliadau mawr (e.e. gwasanaethau cyhoeddus a busnesau), yw'r rhan fwyaf

---

<sup>182</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn](#).



o'r holl llythyrau ac mae'n cael ei ddanfôn chwe diwrnod yr wythnos ochr yn ochr â llythyrau un eitem gan ddefnyddio rhwydwaith yr USO. Mae post swmp yn cyfrif am gyfran sylweddol o refeniw'r Post Brenhinol ac felly'n cefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Fel arfer, mae llawer o'r llythyrau mae defnyddwyr yn eu hystyried yn rhai pwysig iawn, fel biliau, apwyntiadau meddygol neu fudd-daliadau a chyfriflenni ariannol, yn cael eu hanfon gan ddefnyddio gwasanaethau post swmp. Felly, mae'n bwysig bod rhwydwaith post cenedlaethol yn parhau i fod ar waith i ddanfôn y llythyrau hyn.

- 5.6 Yng ngoleuni ein hasesiad o anghenion defnyddwyr, ac yn dilyn ein hasesiad o'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn a'r dystiolaeth a ddaeth i law, rydym yn dal o'r farn bod angen diwygio'r gwasanaeth cyffredinol er mwyn iddo gyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr a chefnogi cynaliadwyedd ariannol yn well. Rydym hefyd o'r farn bod y risgiau i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol yn bwysig o ystyried sefyllfa ariannol bresennol y Post Brenhinol, a bod felly angen diwygio ar frys. Gallai cael set ormodol a chostus o ofynion ar y Post Brenhinol hefyd gyfyngu ar allu'r Post Brenhinol i fuddsoddi ac i arloesi i wella dewis a phrofiad defnyddwyr a defnyddio'i weithlu ac adnoddau eraill yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol.
- 5.7 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ystod o opsiynau ar gyfer newid yr USO a archwiliwyd gennym yn ein Cais am Fewnbwn. Mae hefyd yn rhoi trosolwg byr o awgrymiadau eraill a gyflwynwyd gan ymatebwyr ar gyfer diwygio'r USO, gan gynnwys cynnig y Post Brenhinol i newid pa mor aml y danfonir llythyrau Ail Ddosbarth. Rydym yn egluro pam rydym wedyn wedi canolbwyntio ein hasesiad ar newid amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth fel un o brif elfennau diwygio rheoleiddio.
- 5.8 Rydym yn egluro sut bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu trin o dan y newidiadau arfaethedig ac effaith bosibl hynny ar ddefnyddwyr post a'r Post Brenhinol, gan ystyried y dystiolaeth sydd gennym ar anghenion defnyddwyr post (fel y nodir yn Adran 3) a chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol (fel y nodir yn Adranau 4 ac 8).
- 5.9 Rydym yn egluro pam rydym yn credu bod y newidiadau arfaethedig yn gyfiawn ac yn gymesur. Rydym hefyd yn egluro sut rydym yn bwriadu rhoi'r newidiadau ar waith drwy newid y Gorchymyn a'r Amod DUSP perthnasol, a sut rydym yn credu bod y cynigion yn bodloni'r profion cyfreithiol perthnasol i wneud newidiadau o'r fath.

## Trefniadau presennol yr USO

---

- 5.10 Mae gofynion sylfaenol yr USO wedi'u nodi yn Adran 2. At ddibenion yr adran hon, ac er mwyn rhoi'r newidiadau arfaethedig yn eu cyd-destun, dyma nodweddion allweddol yr USO presennol sydd fwyaf perthnasol:
- Casglu a danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn).<sup>183</sup>

---

<sup>183</sup> Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd gasglu a danfon eitemau cofrestredig ac wedi'u hyswirio, a llythyrau rhyngwladol, chwe diwrnod yr wythnos.

- Y gofyniad i ddanfon eitemau Dosbarth Cyntaf o fewn un diwrnod gwaith ar ôl postio, ac eitemau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl postio.<sup>184</sup> Mae diwrnod gwaith yn golygu bob diwrnod ar wahân i ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus.

## Rydym wedi edrych ar amrywiaeth o opsiynau i ddiwygio'r USO

---

- 5.11 Roedd ein Cais am Fewnbwn yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau posibl i addasu manyleb yr USO ac yn ystyried eu goblygiadau tebygol ar anghenion defnyddwyr ac ar gyllid y Post Brenhinol.
- 5.12 Roedd yr opsiynau posibl hyn yn dibynnu ar gadw'r Post Brenhinol yn ddarparwr gwasanaeth cyffredinol a chynnal egwyddorion craidd yr USO (cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf). Roeddent yn seiliedig ar ein hymchwil i anghenion defnyddwyr, tueddiadau yn y farchnad a phrofiadau diwygio mewn gwledydd eraill. Roeddem yn cydnabod bod gennym y pŵer i weithredu rhai opsiynau ond nid rhai eraill, er enghraifft byddai rhai yn galw am newid deddfwriaeth sylfaenol.
- 5.13 Fe wnaethom ystyried y gallai'r ddau brif opsiwn canlynol arwain at USO sy'n cyd-fynd yn nes ag anghenion pobl am lythyrau a helpu i sicrhau dyfodol y gwasanaeth:
- a) Gwneud newidiadau i'r cynnyrch Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth a busnes presennol fel bod y rhan fwyaf o lythyrau'n cael eu danfon drwy wasanaeth arafach sy'n cymryd hyd at dri diwrnod neu fwy, gyda gwasanaeth diwrnod canlynol yn dal ar gael ar gyfer unrhyw lythyrau brys; a
  - b) Lleihau nifer y diwrnodau danfon a gynigir o'r ymrwymiad chwe diwrnod yr wythnos presennol i bump neu dri.
- 5.14 Rydym hefyd yn nodi dau opsiwn posibl arall yn fyr: (a) gwneud newidiadau i'r targedau ansawdd gwasanaeth presennol yn unig; a (b) rhoi cymhorthdal i'r USO presennol. Ein safbwyntiau cychwynnol oedd y byddai ein prif opsiynau'n cael eu ffafrio yn lle'r opsiynau eraill.
- 5.15 Fe wnaethom ofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein hasesiad o'r angen i ystyried newidiadau i'r USO ac ar yr opsiynau roeddem wedi'u nodi, gan gynnwys eu heffaith debygol.

---

<sup>184</sup> Cyfrifir amseroedd llwybro gan ddechrau o'r "dyddiad casglu tybiedig". Dyma'r diwrnod postio pan fydd yr eitem yn cael ei phostio ar ddiwrnod pan fydd yn rhaid casglu cyn yr amser casglu olaf o'r man mynediad lle mae'n cael ei rhoi (fel blwch post neu swyddfa bost). Pan fydd yr eitem yn cael ei phostio ar ddiwrnod pan nad oes angen casglu, neu ar ôl yr amser casglu olaf o'r pwynt mynediad perthnasol, y dyddiad casglu tybiedig fydd y diwrnod canlynol pan fydd angen casglu (e.e. ystyrir bod eitem sy'n cael ei phostio ar ddydd Sul yn cael ei chasglu ar ddydd Llun, cyn belled nad yw dydd Llun yn ŵyl gyhoeddus). Er hwylustod, yn y ddogfen hon rydym yn cyfeirio at y dyddiad casglu tybiedig fel y diwrnod y caiff yr eitem ei phostio.

## Trosolwg o'r ymatebion i'r opsiynau yn y Cais am Fewnbwn

---

- 5.16 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr (a'r cyfranogwyr yn ein digwyddiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori) yn cydnabod bod y ffordd mae pobl a busnesau yn defnyddio llythyrau wedi newid ac yn derbyn y bydd hyn yn galw am newid yr USO i sicrhau ei fod yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn ddibynadwy. Fodd bynnag, roedd barn yr ymatebwyr am yr opsiynau a gyflwynwyd gennym yn gymysg.
- 5.17 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn derbyn y byddai caniatáu danfon yn arafach neu'n llai aml, yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar yr amod bod opsiwn ar gyfer y diwrnod canlynol yn dal i fod ar gael. Teimlai llawer y dylai'r opsiwn diwrnod canlynol hwn barhau i gynnwys danfon ar ddydd Sadwrn.
- 5.18 O ran amllder danfon, dadleuodd rhai y byddai danfon llythyrau bum niwrnod yr wythnos yn ddigon i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, cyn belled â bod y gwasanaeth yn ddibynadwy, ond bod unrhyw ostyngiad pellach i dri diwrnod neu un diwrnod yr wythnos yn llai derbyniol. Mewn senario pum diwrnod, roedd ymatebwyr o'r diwydiant cardiau cyfarch a chyhoeddwyd cylchgronau wythnosol yn awyddus i gynnal y ddarpariaeth ar ddydd Sadwrn a chael gwared ar ddydd Llun, ac roedd llawer o ymatebwyr eraill yn dweud mai dileu dydd Sadwrn (yn hytrach na diwrnod o'r wythnos) fyddai'n cael yr effaith leiaf arnyn nhw.
- 5.19 Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn poeni'n arw am ddiwygio'r USO ac nid oeddent yn derbyn bod angen gwneud hynny. Roeddent yn dadlau y byddai newidiadau'n cael effaith niweidiol ar eu gwaith neu'n rhoi rhai grwpiau o ddefnyddwyr dan anfantais, e.e. pobl hŷn neu bobl nad oeddent ar-lein. Yn hytrach, roeddent yn dadlau y dylai'r Post Brenhinol ganolbwyntio ar wella dibynadwyedd, dod yn fwy effeithlon a/neu gynnal y gwasanaeth cyffredinol gyda chynnyrch neu wasanaethau newydd.
- 5.20 Roedd nifer fach o ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gymhorthdal neu fecanwaith cyllido i gyfrannu at gostau net darparu'r USO ac yn awgrymu y dylem ei ystyried ymhellach, naill ai fel trefniant interim cyn gwneud diwygiadau neu yn y tymor hirach.<sup>185</sup> I'r gwrthwyneb, dywedodd rhai ymatebwyr na fyddai cymhorthdal USO yn briodol, yn enwedig yng ngoleuni record effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaeth gwael y Post Brenhinol.<sup>186</sup>
- 5.21 Pwysleisiodd rhai cyrff defnyddwyr bod angen casglu tystiolaeth ychwanegol e.e. rhagor o ymchwili i anghenion defnyddwyr grwpiau penodol (rydym wedi'i wneud wedyn – gweler Adran 3 ar ein hasesiad o anghenion defnyddwyr) a chynnal dadansoddiad pellach cyn ystyried opsiynau ar gyfer diwygio.<sup>187</sup>

---

<sup>185</sup> [3<], [Blackburn and District Trades Union Council](#), [CFH Docmail Limited](#), [Citipost Mail](#), [Electoral Management Board for Scotland](#), [Post Brenhinol](#), [Spike Publications](#), [UKMail](#), [Unite CMA](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>186</sup> [Ymateb The Greeting Card Association](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>187</sup> [Cyngor ar Bopeth](#), [y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl](#), [Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon \(CCNI\)](#), [Consumer Scotland](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

- 5.22 Roedd rhai ymatebwyr wedi cyflwyno opsiynau gwahanol i ddiwygio, fel edrych ar gyfleoedd i ehangu'r gwasanaeth parseli, uno'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth presennol fel mai dim ond gwasanaeth D+2 sydd yn yr USO, a newid y gwasanaeth Ail Ddosbarth i wasanaeth D+5 arafach.<sup>188</sup>

## Roedd ymateb y Post Brenhinol yn cynnwys cynllun i newid amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth

- 5.23 Yn ymateb y Post Brenhinol i'n Cais am Fewnbwn, cyflwynodd gynllun i foderneiddio a oedd yn cynnwys cynnig allweddol ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth (a llythyrau post swmp nad ydynt yn flaenoriaeth fel sy'n cael eu trafod yn Adran 7) bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos a rhoi'r gorau i ddanfon yr eitemau hynny ar ddydd Sadwrn. Cyflwynodd yr achos y byddai newid o'r fath yn arwain at arbedion cost sylweddol a fyddai'n helpu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.<sup>189</sup>
- 5.24 Rydym o'r farn y byddai model danfon arfaethedig y Post Brenhinol ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn arwain at lai o newidiadau i'r USO o'i gymharu â'r prif opsiynau a nodwyd gennym yn ein Cais am Fewnbwn i leihau'r diwrnodau danfon ar gyfer pob llythyr neu i arafu cyflymder y rhan fwyaf o lythyrau, ac awgrymiadau eraill a gyflwynwyd gan ymatebwyr fel uno'r gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth presennol neu arafu'r gwasanaeth Ail Ddosbarth ymhellach.
- 5.25 Rydym hefyd yn nodi y gellid gweithredu cynnig y Post Brenhinol yn gyflymach nag opsiynau i newid gofynion sylfaenol yr USO, a fyddai'n golygu bod angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Rydym hefyd yn rhoi pwys arbennig ar y cynigion a gyflwynwyd gan y Post Brenhinol gan ei fod yn y sefyllfa orau i wybod, o ystyried ei adnoddau, pa newidiadau sylweddol i'w fodel gweithredu y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod rhesymol ac mewn ffordd gost-effeithiol. Am yr holl resymau hyn, ac o ystyried yr angen brys i ystyried diwygio, rydym wedi canolbwyntio ar ystyried newid amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth fel un o'r prif elfennau i ddiwygio'r USO.

## Nid ydym yn ystyried newid pa mor aml caiff parseli na llythyrau Dosbarth Cyntaf eu danfon

- 5.26 Byddai model arfaethedig danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos y Post Brenhinol yn berthnasol i lythyrau Ail Ddosbarth yr USO, ac i wasanaethau post swmp nad ydynt yn flaenoriaeth (fel sy'n cael eu drafod yn Adran 7); byddai amllder danfon post Dosbarth Cyntaf a gwasanaethau parseli USO yn aros yr un fath.<sup>190</sup>

---

<sup>188</sup> [Pwyllgor Cyngori'r Alban \(ACS\)](#), [Cambrian Model Rail](#), [Y Gynghair Cefn Gwlad](#), [Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu \(CWU\)](#), [Fulprint Ltd](#), [Pitney Bowes](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>189</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>190</sup> Nid ydym chwaith yn ystyried unrhyw newidiadau i'r rhwymedigaeth casglu a danfon ar gyfer llythyrau USO eraill, fel y rheini sy'n cael eu hanfon gan ddefnyddio Danfon Arbennig wedi'i Warantu erbyn 1pm a llythyrau rhyngwladol. Byddai'r llythyrau hyn yn dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol yn adran 31 o'r Ddeddf.

- 5.27 Fel y nodwyd yn ein hasesiad o anghenion defnyddwyr yn Adran 3, dim ond o bryd i'w gilydd mae angen gwasanaethau danfon y diwrnod canlynol (fel Dosbarth Cyntaf) gan nad yw'r rhan fwyaf o lythyrau a anfonir yn rhai brys, ond mae defnyddwyr yn gwerthfawrogi bod gwasanaethau o'r fath ar gael ar gyfer yr achlysuron prin lle mae angen anfon neu dderbyn eitemau ar frys. Byddai'r Post Brenhinol yn diwallu'r angen hwn drwy gadw ei wasanaeth Dosbarth Cyntaf presennol lle byddai eitemau'n dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.
- 5.28 O ran parseli, mae nifer y parseli wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn cyferbyniad â nifer y llythyrau sydd wedi gostwng. Roedd ein Cais am Fewnbwn yn nodi ein tystiolaeth ymchwil bod pobl yn anfon ac yn derbyn llai o lythyrau tra bod parseli'n dod yn bwysicach ac yn cael eu hystyried yn wasanaeth hanfodol, gyda disgwyliadau cynyddol o ran hwylustod a chyflymder danfon. Fel y nodir yn Adran 3, rydym o'r farn bod y farchnad bresennol yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau parseli, ac nid ydym yn credu bod anghysondeb rhwng anghenion defnyddwyr a'r farchnad barseli bresennol.

## Rydym wedi canolbwyntio ar asesu'r newidiadau arfaethedig i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth


---

- 5.29 Rydym wedi adolygu cynigion y Post Brenhinol er mwyn deall sut byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu trin o dan ei fodel arfaethedig i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Ar hyn o bryd, mae llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu casglu, eu prosesu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn).
- 5.30 Roedd ymateb y Post Brenhinol i'n Cais am Fewnbwn yn amlinellu ei gynigion ar gyfer newidiadau i amlder danfon llythyrau Ail Ddosbarth tra byddai casgliadau o flychau post yn parhau chwe diwrnod yr wythnos. Mae'r Post Brenhinol hefyd wedi dweud y byddai angen newid sut mae eitemau Ail Ddosbarth yn cael eu prosesu er mwyn gweithredu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.<sup>191</sup>
- 5.31 Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd yr ymdrinnir â llythyrau Ail Ddosbarth fel a ganlyn:
- Byddai pob llythyr Ail Ddosbarth yn cael ei ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Byddai hyn yn cael ei gylchdroi yn ôl y llwybr danfon yn wythnosol. Er enghraifft:
    - > Yn ystod wythnos 1, byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i bwyntiau danfon ar lwybr A ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener, a byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i'r pwyntiau danfon ar lwybr B ddydd Mawrth a dydd Iau.
    - > Yn ystod wythnos 2, byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i bwyntiau danfon ar lwybr A ddydd Mawrth a dydd Iau, a byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon i'r pwyntiau danfon ar lwybr B ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.

---

<sup>191</sup> Negeseuon e-bost y Post Brenhinol dyddiedig 18 Medi ac 16 Hydref 2024 mewn ymateb i gwestiynau Ofcom.

**Ffigur 5.1: Enghraifft o amserlen arfaethedig danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth**



- Ni fyddai'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu, prosesu na danfon eitemau llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn.** Byddai unrhyw lythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio ar ddydd Sadwrn yn cael eu hystyried yn rhai sy'n cael eu hanfon ddydd Llun (neu ddydd Mawrth os yw'r dydd Llun yn wyl gyhoeddus), felly byddai'r gwaith o gyfrifo'r amser llwybro D+3 yn dechrau ar ddydd Llun.<sup>192</sup> Byddai llythyrau Ail Ddosbarth sydd i fod i gael eu danfon ar ddydd Sadwrn yn cael eu danfon ar y dydd Llun canlynol yn lle hynny (neu ddydd Mawrth os yw'r dydd Llun yn wyl gyhoeddus). Ni fyddai dydd Sadwrn yn cael ei gynnwys fel diwrnod gwaith mwyach er mwyn cyfrifo amseroedd llwybro.

5.32 Byddai'r model arfaethedig danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn golygu y gallai unrhyw eitemau llythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn gyrraedd diwrnod yn ddiweddarach na nawr ac y byddent yn dal i gwrdd â'r amser penodol ar gyfer danfon o fewn tri diwrnod gwaith i'w postio.<sup>193</sup>

<sup>192</sup> Byddai hyn hefyd yn wir ar gyfer unrhyw lythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu postio ar ôl amser casglu olaf y pwynt mynediad ar ddydd Gwener.

<sup>193</sup> Mae llythyrau Ail Ddosbarth a anfonir ar ddydd Mercher i fod i gael eu danfon ar ddydd Sadwrn ar hyn o bryd. O dan ein cynigion, byddent yn cael eu danfon ar y diwrnod danfon nesaf, sef dydd Llun gan nad yw dydd Sul yn ddiwrnod danfon.

**Tabl 5.2: Tabl i ddangos y diwrnod danfon disgwylidig presennol a'r diwrnod danfon disgwylidig yn y dyfodol ar ôl y diwrnod postio os bydd y newidiadau arfaethedig i'r amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu rhoi ar waith.**

Diwrnod postio	Dyddiad danfon disgwylidig ar hyn o bryd	Dyddiad danfon disgwylidig yn y dyfodol
Dydd Llun	Dydd Iau	Dydd Iau
Dydd Mawrth	Dydd Gwener	Dydd Gwener
Dydd Mercher	Dydd Sadwrn	Dydd Llun
Dydd Iau	Dydd Llun	Dydd Mawrth
Dydd Gwener	Dydd Mawrth	Dydd Mercher
Dydd Sadwrn	Dydd Mercher	Dydd Iau
Dydd Sul	Dydd Iau	Dydd Iau

5.33 Byddai'r model danfon arfaethedig hefyd yn golygu, o'i gymharu â chael tri chyfle i ddanfôn unrhyw lythyr Ail Ddosbarth ar amser fel sy'n wir ar gyfer y Post Brenhinol ar hyn o bryd, y byddai ganddo un neu ddau o gyfleoedd danfon o dan y model arfaethedig danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, yn dibynnu ar yr amserlen danfon ar gyfer y derbynnydd. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ddanfôn llythyrau Ail Ddosbarth bob dydd chwe diwrnod yr wythnos, gallai eitem a gesglir ddydd Llun gael ei danfon ar ddydd Mawrth, dydd Mercher neu ddydd Iau i fodloni'r gofyniad amser llwybro D+3. O dan y model danfon arfaethedig, byddai llythyr Ail Ddosbarth a fyddai'n cael ei gasglu ddydd Llun yn cael dau gyfle danfon i gyrraedd o fewn yr amser llwybro D+3 ar gyfer cyfeiriadau sy'n derbyn danfoniadau ar ddydd Mawrth a dydd Iau yr wythnos honno, neu un cyfle danfon ar gyfer cyfeiriadau sy'n derbyn danfoniadau ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yr wythnos honno, gan y byddai angen ei danfon ddydd Mercher er mwyn ei danfon erbyn D+3 (byddai dydd Gwener yn D+4). Pan nad yw eitem Ail Ddosbarth wedi cael ei danfon o fewn y gofyniad amser llwybro D+3 oherwydd methiant ar y llwybr danfon, [X].<sup>194</sup>

5.34 Os caiff ei roi ar waith, mae'r Post Brenhinol wedi dweud y byddai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn arwain at nifer o newidiadau gweithredol:

a) **Danfôn:** Byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon ar lwybrau cerdded bob yn ail ddiwrnod o'r wythnos. Gan y byddai'n dal yn rhaid iddo ddanfôn post Dosbarth Cyntaf chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn), byddai unrhyw lythyr Dosbarth Cyntaf yn cael eu danfon ochr yn ochr â llythyrau Ail Ddosbarth ar lwybrau

<sup>194</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

cerdded ar y diwrnodau danfon Ail Ddosbarth, ond byddant fel arall yn cael eu danfon mewn faniau ochr yn ochr â pharseli ar ddiwrnodau pan na fydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon.<sup>195</sup>

- b) **Casglu ar ddydd Sadwrn:** Er na fyddai dydd Sadwrn yn cael ei gyfrif fel diwrnod casglu llythyrau Ail Ddosbarth mwyach, yn ymarferol mae'r Post Brenhinol yn bwriadu i gasgliadau weithredu'r mor aml â nawr, h.y. byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn dal i gael eu casglu o bwytiau mynediad ar ddydd Sadwrn at ddibenion effeithlonrwydd gan y byddai'n dal yn rhaid iddo gasglu a phrosesu eitemau Dosbarth Cyntaf ar ddydd Sadwrn.<sup>196</sup>
- c) **Casglu wrth ddanfon:** Ar hyn o bryd, mae casgliadau o rai pwyntiau mynediad (h.y. blychau post) yn digwydd yn ystod neu yn syth ar ôl rowndiau danfon. O dan y diwygiadau arfaethedig, mae'r Post Brenhinol yn dal i fwriadu casglu o'r pwyntiau mynediad hyn chwe diwrnod yr wythnos.
- d) **Prosesu:** Er na fyddai dydd Sadwrn yn ddiwrnod prosesu ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth mwyach, dywedodd y Post Brenhinol y gallai'n ymarferol barhau i brosesu'r eitemau hyn gan ddibynnu ar arbedion effeithlonrwydd gweithredol.<sup>197</sup> Byddai llythyrau Ail Ddosbarth (sy'n cael eu didoli gan beiriant) yn cael eu hanfon i'r swyddfa danfon dim ond ar y diwrnodau pan fydd y cyfeiriad sy'n cael ei wasanaethu gan y swyddfa danfon i fod i dderbyn eitemau Ail Ddosbarth (h.y. bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos).<sup>198</sup> Bydd llythyrau eraill, megis llythyrau Ail Ddosbarth sy'n cael eu didoli â llaw, yn cael eu hanfon i'r swyddfeydd danfon bob dydd.

## Asesu effaith y cynnig i newid amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth

---

- 5.35 Ceir asesiad isod o effaith y newidiadau i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod. I wneud hyn, rydym wedi cynnal asesiad dros dro i ystyried a fyddai'r cynigion yn cyd-fynd â'n hamcanion polisi. Rydym wedyn yn ystyried pa mor gymesur yw'r cynigion yn gyffredinol er mwyn dod i farn dros dro ynghylch a ydynt yn gyfiawn ac yn gymesur o ran yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni.
- 5.36 Fel sy'n cael ei nodi yn Adran 2, ein hamcanion yw rhoi fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar waith a fydd yn hyrwyddo'r canlyniadau canlynol:
  - a) Arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy wasanaeth cyffredinol sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr;
  - b) Cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol;
  - c) Cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel; a
  - d) Hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post.
- 5.37 Mae ein hasesiad yn yr adran hon yn canolbwyntio ar effeithiau'r newidiadau arfaethedig i symud i'r model danfon o ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr

---

<sup>195</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024, tudalen 42.

<sup>196</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024, tudalen 42.

<sup>197</sup> Neges e-bost y Post Brenhinol dyddiedig 16 Hydref 2024 mewn ymateb i gwestiynau Ofcom.

<sup>198</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024, tudalen 42.



wythnos. Mae hyn yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, y newidiadau i wasanaethau mynediad rydym yn disgwyl y byddai'r Post Brenhinol yn eu gwneud pe baem yn gweithredu'r cynigion i ddanfôn llythyrau Ail Ddosbarth. Yn Adran 7, rydym yn ystyried agweddau penodol y newidiadau arfaethedig i wasanaethau mynediad ar y sefydliadau a'r busnesau sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.

## Effaith ar ddefnyddwyr post

- 5.38 Rydym yn ystyried effeithiau'r cynigion ar ganlyniadau defnyddwyr, gan ystyried y dystiolaeth sydd gennym ar anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post yn y DU a'n hasesiad ynghylch a yw'r farchnad llythyrau bresennol yn diwallu'r anghenion hynny fel y nodir yn Adran 3. Rydym hefyd yn ystyried yr effaith ar is-grwpiau o ddefnyddwyr post, e.e. y rhai sy'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu ar wasanaethau post.
- 5.39 I grynhoi, canfu ein hasesiad o anghenion rhesymol defnyddwyr yn Adran 3 fod ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth llythyrau sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn rheolaidd. Byddant wastad angen defnyddio gwasanaethau post i anfon ac i dderbyn llythyrau ac yn y disgwyl y dylai llythyrau gyrraedd o fewn cyfnod rhesymol. Er mai pur anaml mae defnyddwyr yn ystyried bod cyflymder danfon yn hollbwysig gan nad yw'r rhan fwyaf o lythyrau a anfonir yn rhai brys, mae arnynt angen gwasanaeth danfon y diwrnod canlynol o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth ar wasanaethau post i anfon llythyrau wedi gostwng ac nid oes angen i'r rhan fwyaf o lythyrau maent yn eu hanfon ac yn eu derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Yn gyffredinol, mae defnyddwyr yn ystyried bod danfon ar ddydd Sadwrn yn llai pwysig. Mae bod pris anfon post yn fforddiadwy ac yn gyffredinol (h.y. mae un pris yn mynd i unrhyw le) yn bwysig iawn i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr hefyd.
- 5.40 Ar ôl asesu'r farchnad llythyrau bresennol yn erbyn yr anghenion hyn, ein casgliad dros dro yn Adran 3 yw bod y farchnad bresennol i lythyrau yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr wrth eu hystyried yn gyffredinol, ac yn rhagori arnynt yng nghyd-destun pa mor aml caiff llythyrau eu danfon.

## Amlder danfon

- 5.41 Mae tystiolaeth o'n hasesiad o anghenion defnyddwyr yn Adran 3 yn dangos y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr post o ran amlder danfon yn parhau i gael eu diwallu gyda'r newidiadau arfaethedig. Er enghraifft, canfu ein dadansoddiad o ymchwil defnyddwyr fod angen gwasanaeth rheolaidd ar ddefnyddwyr ond nad oes angen i'r rhan fwyaf o'r llythyrau maent yn eu hanfon a'u derbyn gael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Mewn gwirionedd, byddai anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cael eu diwallu wrth ddanfôn pump, neu hyd yn oed dri, diwrnod yr wythnos, gyda'r angen i ddanfôn ar ddydd Sadwrn yn is o lawer. Roedd hyn yn cael ei weld yn llai pwysig o'i gymharu â dibynadwyedd, fforddiadwyedd ac agweddau eraill ar y gwasanaeth. Gwelsom hefyd nad yw cyflymder fel arfer yn ffactor hollbwysig ar gyfer y rhan fwyaf o lythyrau a anfonir, ond o bryd i'w gilydd mae ar ddefnyddwyr angen gwasanaeth y diwrnod canlynol ar gyfer rhai eitemau.
- 5.42 Fel y nodir yn Adran 3, rydym o'r farn bod y farchnad bresennol ar gyfer gwasanaethau llythyrau yn rhagori ar anghenion defnyddwyr o ran amlder danfon gan ei bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ar hyn o bryd ddarparu gwasanaeth chwe diwrnod yr wythnos ar gyfer ei

wasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Er y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth yn golygu y byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, rydym o'r farn y byddai anghenion defnyddwyr yn dal i gael eu diwallu gan y byddai'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf yn dal yn wasanaeth chwe diwrnod yr wythnos ac y byddai ar gael ar gyfer yr achlysuron prin lle mae angen i ddefnyddwyr anfon eitemau â blaenoriaeth.

### Cyflymder a dibynadwyedd gwasanaethau

- 5.43 Fel y nodwyd uchod, byddai'r bwriad i roi'r gorau i gasglu, prosesu a danfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn yn golygu y gallai rhai eitemau sy'n cael eu postio ar ddydd Mercher i ddydd Sadwrn gyrraedd un diwrnod gwaith yn hwyrach na nawr. Mae ein tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn dal yn dderbyniol ac yn diwallu anghenion defnyddwyr. Yn benodol, canfu ein hymchwil fod dibynadwyedd a sicrwydd bod eitemau sy'n cael eu danfon o fewn cyfnod rhesymol yn bwysicach o lawer i ddefnyddwyr na chyflymder danfon. Rydym wedi nodi pwysigrwydd dibynadwyedd i ddefnyddwyr yn ein cynigion i newid targedau ansawdd gwasanaeth i gymell mwy o sicrwydd a dibynadwyedd ar gyfer eitemau sydd wedi methu'r dyddiad pan roeddent i fod i gael eu danfon (gweler Adran 6).
- 5.44 Canfu ein hymchwil hefyd nad oedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr fel arfer angen llythyrau Ail Ddosbarth i gyrraedd cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl eu hanfon, e.e. nid oeddent yn anfon y math o lythyr roedden ni wedi gofyn amdano, roeddent yn defnyddio Dosbarth Cyntaf, yn dweud y byddai 4-5 diwrnod gwaith yn dderbyniol, neu na fyddai'n bwysig pe bai'n cymryd mwy na 5 diwrnod gwaith i'w danfon.<sup>199</sup>

### Fforddiadwyedd a phrisiau unffurf

- 5.45 O'n hymchwil defnyddwyr, rydym yn gwybod bod cefnogaeth gref gan ddefnyddwyr i wasanaethau post fod ar gael am bris sy'n fforddiadwy ac yn unffurf. Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn nodi'n gyson bod cost anfon llythyrau a fforddiadwyedd yn bwysig.<sup>200</sup>
- 5.46 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 4, er mwyn gwireddu maint llawn yr arbedion costau sy'n deillio o ddiwygio'r USO, mae'r Post Brenhinol angen i'r rhan fwyaf o lythyrau gael eu danfon ar y model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn golygu bod y Post Brenhinol angen i rywfaint o lythyrau Dosbarth Cyntaf symud i Ail Ddosbarth, ac efallai bydd yn defnyddio prisiau fel ffordd o gyflawni hyn. Rydym felly'n disgwyl y bydd prisiau Dosbarth Cyntaf yn codi yn y dyfodol.
- 5.47 Fel rhan o'n hadolygiad diweddaraf o'r cap ar bost Ail Ddosbarth, fe wnaethom asesu fforddiadwyedd gwasanaethau cyffredinol nad ydynt yn rhwym i'r cap diogelu, gan gynnwys gwasanaethau Dosbarth Cyntaf. Daethom i'r casgliad bod Dosbarth Cyntaf yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar hyn o bryd gan fod ein hymchwil yn dangos mai pur anaml y byddai angen i ddefnyddwyr ddefnyddio Dosbarth Cyntaf, fel yr angen i anfon eitemau ar

---

<sup>199</sup> Wrth eithrio'r rhai a ddywedodd y byddent yn defnyddio gwasanaeth Dosbarth Cyntaf.

<sup>200</sup> BMG, Ionawr 2025, [Ymchwil Anghenion Defnyddwyr Post 2024](#), sleid 19.

frys.<sup>201</sup> O ystyried y diffyg defnydd hwn, ac argaeledd y gwasanaeth Ail Ddosbarth am bris is, gwelsom nad oedd pris Dosbarth Cyntaf llythyrau yn anfforddiadwy.

- 5.48 Heb ddiwygio'r USO rydym yn disgwyl y byddai'n rhaid i'r Post Brenhinol godi prisiau llythyrau Dosbarth Cyntaf i raddau mwy ac yn amlach er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau uned. Er ein bod yn disgwyl i brisiau barhau i godi hyd yn oed os bydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith, rydym yn credu y byddai'r cynnydd hwn yn debygol o fod yn llai yn y tymor hir nag y byddai pe na bai unrhyw newidiadau i'r USO. Y rheswm am hyn yw y gallai'r arbedion cost o'r diwygio leihau cyfanswm costau danfon a byddai'r costau fesul uned yn codi'n llai cyflym wrth i nifer y llythyrau ostwng. O'r herwydd, ni fyddai cymaint o gymhelliant i godi'r pris.
- 5.49 Serch hynny, rydym yn ymwybodol o bryderon am fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf. Byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth symud ymlaen, yn enwedig mewn perthynas â sut yr effeithir ar wahanol grwpiau defnyddwyr. Byddwn yn ystyried fforddiadwyedd ymhellach fel rhan o ail gam ein gwaith ar ddiwygio'r USO pan fyddwn yn disgwyl cael dealltwriaeth gliriach o effaith unrhyw ddiwygiadau ar brisiau Dosbarth Cyntaf. Os oes gennym dystiolaeth i awgrymu y byddai'n briodol ymyrryd ar brisiau, yna byddwn yn llunio cynigion i wneud hynny.
- 5.50 Rydym hefyd yn gwybod bod defnyddwyr post yn teimlo bod prisiau cyffredinol yn bwysig ac yn deg. Ni fyddai unrhyw newidiadau i'r dull 'un pris i bobman' o dan y newidiadau arfaethedig i amllder danfon Ail Ddosbarth.

### **Effaith ar fathau penodol o ddefnyddwyr**

- 5.51 Fel y soniwyd yn Adran 3, rydym yn nodi o'n hymchwil yn 2024 bod rhai defnyddwyr yn poeni am effaith danfon yn llai aml ar lythyrau pwysig.
- 5.52 Canfu ein hymchwil fod anfonwyr a derbynwyr llythyrau meddygol, a derbynwyr llythyrau sy'n ymwneud â gofal iechyd, budd-daliadau neu gyllid yn fwy tebygol o ddweud na fyddai llythyrau Ail Ddosbarth a phost busnes safonol sy'n cymryd diwrnod yn hirach i'w danfon yn diwallu eu hanghenion ac y byddai'n achosi niwed neu anawsterau sylweddol iddynt. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod masnachwyr ar-lein sy'n defnyddio'r gwasanaeth llythyrau i anfon eitemau maent wedi'u gwerthu (ac fel eu prif ffynhonnell incwm) yn fwy tebygol o ddweud y byddai danfon yn llai aml yn golygu na fyddai gwasanaethau post yn diwallu eu hanghenion mwyach. Fodd bynnag, canfu ein dadansoddiad pellach o'r rhesymau a roddwyd ganddynt dros eu hatebion y byddai'r newid yn arwain at anhwylustod yn hytrach nag unrhyw niwed difrifol.
- 5.53 Rydym hefyd o'r farn y byddai unrhyw niwed posibl yn debygol o fod yn is oherwydd na fyddai pob llythyr Ail Ddosbarth yn cyrraedd yn hwyrach na nawr o dan y cynigion, e.e. byddai eitemau sy'n cael eu postio ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Sul yn cael eu danfon ar yr un diwrnod â nawr, tra gallai eitemau sy'n cael eu postio ar ddydd Mercher i ddydd Sadwrn gyrraedd diwrnod yn hwyrach. Ar ben hynny, mae'r mathau o lythyrau roedd defnyddwyr yn poeni amdanynt yn ein hymchwil yn cael eu hanfon yn gyffredinol gan sefydliadau mawr sy'n defnyddio gwasanaethau post swmp. Mae'n bosibl i'r sefydliadau

---

<sup>201</sup> Ofcom, 2024. [Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth 2024](#), paragraff 5.135-5.136.

hyn addasu eu hymddygiad postio os ydynt yn gallu gwneud hynny, er enghraifft, drwy newid eu harferion busnes i anfon eitemau'n gynharach a/neu anfon rhai eitemau drwy ddefnyddio gwasanaethau cyflymach lle bo hynny'n bosibl. Byddai dewis o gynnyrch post swmp yn dal ar gael i'r sefydliadau hyn, a fydd yn gallu dewis y cynnyrch mwyaf priodol os oes angen y llythyrau maen nhw'n eu hanfon i gyrraedd defnyddwyr yn gynt neu ar ddiwrnod penodol, neu efallai byddan nhw'n dewis anfon yr eitemau'n gynharach os ydyn nhw'n gallu gwneud hynny.<sup>202</sup>

- 5.54 Rydym hefyd wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar grwpiau o ddefnyddwyr mae eu hamgylchiadau neu eu nodweddion yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu ar wasanaethau post. Mae'r grwpiau hyn yn ddefnyddwyr heb fynediad i'r rhyngwyd, defnyddwyr â symudedd cyfyngedig, defnyddwyr mewn lleoliadau gwledig, a defnyddwyr hŷn. Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil er bod y grwpiau hyn o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post, i'r rhan fwyaf o grwpiau roedd eu anghenion danfon llythyrau yn debyg i ddefnyddwyr 'nodweddiadol' o ran eu bod yn blaenoriaethu dibynadwyedd, a fforddiadwyedd ac nad oedd cyflymder danfon yn hollbwysig yn aml. Rydym felly o'r farn, yn y rhan fwyaf o achosion, y byddai anghenion y grwpiau hyn yn dal i gael eu diwallu gan y newidiadau arfaethedig i gwmpas yr USO, ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r effaith fod yn fwy i nifer fach o ddefnyddwyr yn y grwpiau hyn nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu oherwydd eu bod yn dibynnu mwy ar bost fel ffordd o gyfathrebu ac mae cyflymder danfon post heb flaenoriaeth yn arbennig o bwysig iddynt.

### Effaith ar fusnesau bach a chanolig

- 5.55 Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil fod anghenion defnyddwyr post busnesau bach a chanolig yn cyd-fynd yn agos â defnyddwyr preswyl o ran pwysigrwydd danfon nwyddau yn ystod yr wythnos, argaeledd gwasanaeth diwrnod canlynol, dibynadwyedd a fforddiadwyedd post. Felly, rydym o'r farn y byddai effaith y cynigion yn debyg yn gyffredinol i'r ddwy set o ddefnyddwyr.
- 5.56 Roedd rhai meysydd lle'r oedd ein hymchwil yn canfod bod barn defnyddwyr busnesau bach a chanolig ychydig yn wahanol i farn defnyddwyr preswyl. Yn benodol, mae busnesau bach a chanolig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mynnu bod biliau/anfonebau'n cyrraedd o fewn tridiau i'w postio wrth ddefnyddio post Ail Ddosbarth; ond yn llai tebygol o ddweud bod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig.
- 5.57 Rydym felly'n cydnabod y gall effaith y cynigion ar rai defnyddwyr busnesau bach a chanolig fod ychydig yn wahanol i ddefnyddwyr preswyl, yn enwedig busnesau bach a chanolig sy'n anfon mwy o eitemau a/neu fwy o eitemau sy'n sensitif i amser. Mae'n bosibl y bydd danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn cael mwy o effaith ar ymddygiad postio rhai busnesau bach a chanolig, yn enwedig pan fydd arnynt angen i eitem gyrraedd ar ddiwrnod penodol, oherwydd gallai hyn olygu bod yn rhaid iddynt ad-drefnu eu prosesau mewnol er mwyn anfon eitemau'n gynharach a/neu newid i anfon rhai eitemau gan ddefnyddio gwasanaeth cyflymach i ddiwallu eu hanghenion busnes. I'r gwrthwyneb, mae'n debyg y byddai busnesau bach a chanolig yn addasu i beidio

---

<sup>202</sup> Gweler Adran 7 i weld trafodaeth ar wasanaethau mynediad D+2.

â chael llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn yn haws na defnyddwyr preswyl gan nad yw llawer o fusnesau'n gweithredu ar ddydd Sadwrn.

- 5.58 Rydym o'r farn y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig yn gallu addasu i'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd y bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu trin, ar yr amod bod gwasanaethau Dosbarth Cyntaf a gwasanaethau blaenoriaeth eraill fel Danfon Arbennig 1pm yn parhau i fod yn rhan o'r USO a bod yn rhaid eu danfon chwe diwrnod yr wythnos gan gynnwys ar ddydd Sadwrn, sy'n cyd-fynd â'n cynigion. Bydd y gwasanaethau cyflymach hyn yn parhau i ddarparu ar gyfer y galw am ddanfôn eitemau brys a danfon ar ddydd Sadwrn. Fel y nodwyd uchod, rydym yn gwybod am bryderon am fforddiadwyedd Dosbarth Cyntaf a byddwn yn parhau i fonitro hyn ac rydym yn cynllunio rhagor o waith i ystyried opsiynau i sicrhau fforddiadwyedd parhaus gwasanaethau USO (gweler Adran 9). Gallai rhai ddefnyddwyr addasu drwy newid eu hymddygiad postio, er enghraifft, postio pethau'n gynharach os ydynt yn gallu gwneud hynny os oes arnynt angen i eitemau gyrraedd o fewn amserlen benodol. Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd manteision diwygio'r USO yn drech na'r effeithiau hyn.

## Yr effaith ar wasanaethau mynediad

- 5.59 Byddai'r model danfon amgen arfaethedig bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos hefyd yn debygol o arwain at rai newidiadau i wasanaethau mynediad. Gan y byddai'r Post Brenhinol yn dechrau danfon post â mynediad D+2 ar yr un sail â llythyrau Dosbarth Cyntaf, byddai sylfaen gost y gwasanaethau hyn yn cynyddu. Felly, rydym yn disgwyl y byddai pris gwasanaethau mynediad D+2 yn cynyddu i adlewyrchu hyn, yn ogystal â chymell niferoedd i symud i wasanaeth mynediad arafach, gan alluogi'r Post Brenhinol i wireddu maint llawn yr arbedion costau o'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Er mwyn cefnogi'r newid hwn mewn niferoedd, mae'r Post Brenhinol yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth mynediad newydd D+3 (ar sail fasnachol), i ddanfôn o dan y model newydd ochr yn ochr â llythyrau Ail Ddosbarth. Rydym yn edrych yn fanylach ar effeithiau'r newidiadau hyn ac yn ystyried a ddylid rheoleiddio gwasanaeth mynediad D+3 newydd, yn Adran 7.

## Effaith ar gynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol

- 5.60 Dylai cwmpas y gwasanaeth cyffredinol adlewyrchu anghenion rhesymol defnyddwyr post. Mae darparu'r gwasanaeth cyffredinol yn gosod cyfyngiadau ar hyblygrwydd masnachol a gweithredol y Post Brenhinol sy'n effeithio ar ei sylfaen gostau. Ar ben hynny, mae gofynion yr USO yn effeithio ar sut mae'r Post Brenhinol yn danfon llythyrau nad ydynt yn rhai USO, sef y rhan fwyaf o lythyrau ac sy'n cynnwys yr eitemau llythyrau sydd bwysicaf i ddefnyddwyr. Mae'r gofynion hyn hefyd yn effeithio ar y costau a gaiff y Post Brenhinol wrth ddanfôn post. Os bydd cwmpas yr USO yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, mae'n rhoi costau ar y Post Brenhinol nad oes modd eu cyfiawnhau ac, mewn ymgais i adennill y costau hyn, byddai'n arwain at brisiau uwch nag y byddai'n digwydd fel arall i ddefnyddwyr post, ar gyfer eitemau USO ac eitemau nad ydynt yn rhai USO. Bydd unrhyw fanteision posibl USO sy'n fwy na'r angen i ddefnyddwyr yn cael eu gwrthbwysu'n sylweddol gan y costau hyn a phrisiau uwch cysylltiedig, a'r risgiau i gynaliadwyedd ariannol cyffredinol y gwasanaeth cyffredinol.

- 5.61 Rydym o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol i'r Post Brenhinol a fyddai'n ei helpu i reoli ac i arbed costau'n fwy effeithiol. Er enghraifft, dylai'r model danfon llythyrau bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos olygu bod y Post Brenhinol yn gallu newid o ddanfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth o 6 diwrnod i 2.5 diwrnod, gan arbed ar nifer y llwybrau danfon bob wythnos. Byddai manyleb USO is, yn cydfynd ag anghenion rhesymol defnyddwyr, yn lleihau'r cymhelliant i'r Post Brenhinol gynyddu prisiau yn fwy nag y byddai'n ei wneud heb y diwygiad arfaethedig. Ynghyd â'n hatebion rheoleiddio, fel y cap diogelu ar lythyrau Ail Ddosbarth a llythyrau mawr, bydd hyn yn helpu i gynnal fforddiadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Byddai codi llai ar brisiau a/neu eu codi'n llai am o fudd i bob defnyddiwr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod cost a fforddiadwyedd anfon llythyrau yn bwysig ac maent yn fodlon derbyn llai o wasanaethau yn hytrach na chodi prisiau.
- 5.62 Yn Adran 4 rydym o'r farn y gallai newid cwmpas yr USO arwain at arbedion net sylweddol a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Yn Adran 8, rydym yn asesu effaith ariannol y newidiadau arfaethedig ar gynaliadwyedd ariannol darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol. Rydym yn amcangyfrif y byddai ein pecyn cyfan o gynigion diwygio, gan gynnwys danfon llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adran hon, yn rhoi mwy o hyblygrwydd masnachol a gweithredol i'r Post Brenhinol i wireddu arbedion cost net posibl o £250m i £425m ym mlwyddyn ariannol 2025/26. Pe bai hyn yn cael ei gyflawni, byddai'n gwella perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn sylweddol a byddai'n gwneud cyfraniad pwysig at gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae gan USO sy'n fwy na'r angen gostau sy'n llawer mwy na'r manteision, ac o ystyried perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n peri risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol cyffredinol y gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol.
- 5.63 Rydym yn credu y byddai gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol yn parhau i fod o fudd i bawb sy'n defnyddio'r post drwy gyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a thwf economaidd drwy ddull dibynadwy o gyfathrebu a logisteg. Byddai o fudd arbennig i rai grwpiau o ddefnyddwyr sy'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn dibynnu mwy ar wasanaethau post fel ffordd o gyfathrebu, er nad yw dibyniaeth o reidrwydd yn golygu mwy o ddefnydd neu wahaniaeth yn y math o wasanaeth post sydd ei angen.
- 5.64 Byddai gwasanaeth cyffredinol sy'n cyd-fynd yn nes ag anghenion y defnyddwyr ac sydd â chostau is yn cyfrannu at dwf cynhyrchiant ac yn cefnogi'r Post Brenhinol i sicrhau mwy o effeithlonrwydd gan ei fod yn caniatáu i'r Post Brenhinol ddyrannu adnoddau'n well i ddiwallu anghenion ei gwsmeriaid yn hytrach na chynnal adnoddau drud dros ben nad oes eu hangen.
- 5.65 Byddem yn monitro cynnydd y Post Brenhinol o ran cyflawni'r arbedion cost net a amcangyfrifir o ddiwygio'r USO i weld a fyddai'r manteision yn cael eu gwireddu.

## **Effaith ar gymhellion ar y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid**

- 5.66 Fel sy'n cael ei esbonio uchod, rydym o'r farn y gallai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos arwain at arbedion cost sylweddol. Dylai hynny roi'r Post Brenhinol mewn gwell sefyllfa i wella ei berfformiad cyffredinol o ran ansawdd gwasanaeth. Fodd bynnag,

rydym yn cydnabod y gallai'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ei gwneud hi'n anoddach i'r Post Brenhinol gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol sef bod 98.5% o bost Ail Ddosbarth yn cael ei ddanfôn o fewn tri diwrnod gwaith (D+3). Ar ben hynny, ac fel y soniwyd yn Adran 2, mae'r Post Brenhinol wedi datgan na all gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol ar gyfer post Dosbarth Cyntaf am gost resymol. Felly, rydym o'r farn bod angen adolygu'r targedau ansawdd gwasanaeth perthnasol fel rhan o'r pecyn o ddiwygio'r USO (gweler y cynigion ar dargedau ansawdd gwasanaeth yn Adran 6).

## Effaith ar arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post

- 5.67 Byddai gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol yn helpu'r Post Brenhinol i barhau i weithredu'r rhwydwaith ar y cyd sy'n darparu'r holl wasanaethau eraill nad ydynt yn rhai USO, fel post busnes a pharseli cyfrifon. Byddai hefyd yn rhoi hyblygrwydd masnachol a gweithredol ychwanegol i'r Post Brenhinol i wneud mwy o arloesi gweithredol a masnachol a chyflwyno gwasanaethau a manylebau newydd a allai fod o fudd i ddefnyddwyr. Er enghraifft, gallai alluogi'r Post Brenhinol i drawsnewid ei rwydwaith ac addasu ei hun yn well i newidiadau yn y galw (h.y. twf mewn parseli a dirywiad mewn llythyrau) fel ailddylunio ei rwydwaith yn fwy effeithiol ar gyfer parseli a chyfrannu'n llawn at y farchnad parseli gystadleuol. Mae'n debygol y bydd hyn yn hyrwyddo twf economaidd ac o fudd i'r gymdeithas ehangach, oherwydd i bob pwrpas y Post Brenhinol yw'r unig ddarparwr danfon y filltir olaf ar gyfer llythyrau busnes ac mae ganddo gyfran sylweddol o'r farchnad parseli sy'n tyfu.
- 5.68 Rydym yn ystyried effaith diwygio'r USO ar gystadleuaeth mynediad ar wahân yn Adran 7.

## Ein casgliadau dros dro

---

- 5.69 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac wedi asesu effeithiau ein cynigion i newid pa mor aml caiff llythyrau Ail Ddosbarth eu danfon. I wneud hynny, rydym wedi ystyried effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar ddefnyddwyr preswyl (gan gynnwys is-grwpiau o ddefnyddwyr) a defnyddwyr busnesau bach a chanolig fel anfonwyr a derbynwyr post un eitem a hefyd fel derbynwyr post swmp. Rydym hefyd wedi ystyried yr effeithiau ar y Post Brenhinol o ran cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol ac effeithlonrwydd.
- 5.70 Rydym yn credu bod y newidiadau arfaethedig yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, a fydd yn ei dro o fudd i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i'r economi ehangach.
- 5.71 Rydym yn dod i'r casgliad dros dro y byddai'r cynigion yn cyd-fynd â'n hamcanion polisi, fel y nodir yn Adran 2, i sicrhau y byddai fframwaith rheoleiddio diwygiedig yn:
- a) **Arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy wasanaeth cyffredinol sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr.** Rydym wedi ystyried tystiolaeth ein hymchwil i anghenion rhesymol defnyddwyr. Rydym yn dod i'r casgliad y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr post yn dal i gael eu diwallu mewn perthynas â chyflymder ac amllder danfon, dibynadwyedd a chost gwasanaethau post gan y byddai'r newidiadau arfaethedig yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr yn gyffredinol ac y byddent at ei gilydd ond yn achosi rhywfaint o anhwylostod i'r rhai a ddywedodd na fyddai eu

hanghenion yn cael eu diwallu. Rydym hefyd yn nodi y byddai Dosbarth Cyntaf yn dal i gynnig danfon y diwrnod canlynol, chwe diwrnod yr wythnos, ar gyfer yr achlysuron hynny pan fydd angen i ddefnyddwyr anfon eitemau brys. Rydym o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig hefyd yn cyd-fynd â'r pwysigrwydd mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei roi ar fforddiadwyedd gwasanaethau post. Mae ein hymchwil wedi canfod yn gyson mai fforddiadwyedd yw un o'r nodweddion gwasanaeth pwysicaf i ddefnyddwyr. Nodwn fod nifer fach o ddefnyddwyr yn poeni y byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu neu y byddent yn achosi niwed neu anawsterau sylweddol iddynt. Fodd bynnag, canfu ein dadansoddiad pellach fod llawer yn dweud y byddai'r newid yn arwain at anhwylostod yn hytrach nag unrhyw niwed difrifol. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl y byddai defnyddwyr yn gallu addasu i'r newidiadau arfaethedig yn gyffredinol, gydag effaith gyfyngedig iawn, os o gwbl, arnynt.

- b) **Cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol.** Rydym wedi asesu effaith ein pecyn arfaethedig o ddiwygio ar gynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol. Rydym yn amcangyfrif y dylai ein pecyn cyfan o gynigion diwygio, gan gynnwys danfon llythyrau USO Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adran hon, roi hyblygrwydd masnachol a gweithredol i'r Post Brenhinol i wireddu arbedion cost net posibl o £250m i £425m ym mlwyddyn ariannol 2025/26 (gweler Adran 8). Ein casgliad yw y dylai diwygio alluogi'r Post Brenhinol i leihau ei gostau danfon, wrth gymharu â'r hyn y byddent fel arall ac, o'r herwydd, mae'n gyfraniad pwysig at gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fodd bynnag, nodwn na fydd y diwygio hwn ei hun yn ddigon i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol (gweler Adran 8).
- c) **Cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid.** Rydym o'r farn y gallai'r model danfon llythyrau Ail Ddosbarth a phost swmp heb flaenoriaeth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, alluogi arbedion cost sylweddol. Dylai hynny roi'r Post Brenhinol mewn gwell sefyllfa i wella ei berfformiad cyffredinol o ran ansawdd gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y byddai'r model danfon arfaethedig ei gwneud hi'n anoddach i'r Post Brenhinol gyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol ar gyfer post Ail Ddosbarth. Rydym yn nodi ein cynigion i newid targedau perthnasol fel rhan o'r gwaith cyffredinol o ddiwygio'r USO yn Adran 6.
- d) **Hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post.** Rydym yn credu y byddai'r cynnig i ddiwygio'r USO, drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol o ran sut mae defnyddio ei adnoddau, yn galluogi'r Post Brenhinol i wneud datblygiadau arloesol mwy gweithredol a masnachol i gystadlu'n fwy effeithiol yn y farchnad parseli, a fyddai o fudd i ddefnyddwyr. Byddai hefyd yn galluogi'r Post Brenhinol i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol a allai arwain at fwy o gapasiti iddo arloesi. Rydym yn ystyried effaith diwygio'r USO ar gystadleuaeth mynediad ar wahân yn Adran 7.

5.72 Gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ein barn dros dro yw bod manteision y newidiadau arfaethedig i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth, a chostau a risgiau posibl peidio â gweithredu, yn drech nag unrhyw gostau neu effeithiau niweidiol sy'n deillio o'r cynigion. Felly, rydym yn credu bod y model danfon bob yn ail diwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth fel y disgrifir yn yr adran hon yn gyfiawn ac yn gymesur.

5.73 Rydym yn credu ei bod yn annhebygol y gallwn wneud llawer mwy o dan y fframwaith rheoleiddio presennol (gan gynnwys y cynigion eraill rydym wedi'u gwneud mewn perthynas ag ansawdd gwasanaeth (gweler Adran 6) a rheoleiddio mynediad (gweler Adran



7) i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth cyffredinol. Wrth i'r farchnad llythyrau barhau i ddirywio, efallai bydd angen adolygu manyleb yr USO eto yn y dyfodol, er ein bod yn nodi y byddai unrhyw newidiadau sylweddol pellach yn debygol o olygu newid deddfwriaeth.

## Newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol

---

- 5.74 Er mwyn gweithredu'r newidiadau i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth fel nad oes angen eu casglu, eu prosesu na'u danfon ar ddydd Sadwrn, rydym yn cynnig gwneud y diwygiadau canlynol i'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol:
- a) Cynnwys diffiniadau newydd ar gyfer "llythyrau blaenoriaeth a llythyrau eraill", sy'n golygu llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill (fel llythyrau cofrestredig ac wedi'u hyswirio a rhyngwladol), a "llythyrau safonol", sy'n golygu llythyrau Ail Ddosbarth, gan gynnwys llythyrau safonol a llythyrau mawr;
  - b) Addasu'r diffiniad o "ddiwrnod gwaith" fel ei fod yn golygu dydd Llun i ddydd Sadwrn (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau eraill, a rhwng dydd Llun a dydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Gan fod amseroedd llwybro danfon yn cael eu cyfrifo ar sail "diwrnodau gwaith", mae'r newid hwn yn golygu y byddai dydd Sadwrn yn dal i gael ei gyfrif ar gyfer amseroedd llwybro llythyrau Dosbarth Cyntaf, ond nid ar gyfer amseroedd llwybro Ail Ddosbarth; ac
  - c) Addasu'r rhwymedigaethau danfon a chasglu fel bod:
    - i) Llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill yn dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn; a
    - ii) Byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu casglu bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, a'u danfon ar unrhyw ddiwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Byddai'r newid hwn i'r gwasanaeth danfon Ail Ddosbarth yn caniatáu i llythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos, ond mae'r gofyniad bod llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon gydag amser llwybro D+3 yn golygu y byddai angen danfon llythyrau Ail Ddosbarth o leiaf ddwywaith yr wythnos. Yn ymarferol, byddai'r newidiadau hyn yn caniatáu model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.
- 5.75 Rydym hefyd yn cynnig gwneud rhai mân ddiwygiadau, gan gynnwys ychwanegu diffiniadau ar gyfer "llythyr" a "phēcyn post", a dileu cyfeiriadau at y Deyrnas Unedig fel gwlad yn yr UE.
- 5.76 Mae Atodiad A7 yn nodi asesiad effaith rheoleiddiol Ofcom ar gyfer addasu'r Gorchymyn. Mae Atodlen 1 i Atodiad A7 yn cynnwys copi o'r Gorchymyn wedi'i farcio i ddangos ein haddasiadau arfaethedig, ac mae Atodlen 2 yn cynnwys testun arfaethedig yr offeryn statudol drafft sy'n addasu'r Gorchymyn.

## Profion cyfreithiol

- 5.77 Rydym wedi bodloni gofynion y Ddeddf<sup>203</sup> i wneud cynigion i addasu'r Gorchymyn gan ein bod wedi cynnal asesiad o'r graddau mae'r farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau post yn y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr post (gweler Adran 3). Ar ben hynny, mae ein casgliad dros dro o'n hasesiad o anghenion defnyddwyr yn dangos, hyd yn oed gyda'r newid arfaethedig i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth, y byddai anghenion rhesymol defnyddwyr yn dal i gael eu diwallu.
- 5.78 Byddai ein diwygiadau arfaethedig i'r Gorchymyn yn bodloni adran 30(2) o'r Ddeddf, sy'n mynnu bod y gwasanaeth cyffredinol yn cynnwys pob un o'r gwasanaethau a nodir yn adran 31 o leiaf. Byddai Dosbarth Cyntaf yn dal i fodloni gofynion sylfaenol danfon a chasglu llythyrau o leiaf unwaith bob dydd Llun i ddydd Sadwrn. Fel yr amlinellir uchod, nid ydym yn cynnig newid y rhwymedigaethau danfon a chasglu ar gyfer parseli.
- 5.79 Fel y nodwyd yn ein hasesiad o'r effaith uchod, rydym wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael wrth ystyried yr effeithiau ar ddefnyddwyr ac ar y Post Brenhinol. Ein barn dros dro yw y byddai'r newidiadau arfaethedig i danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn gyfiawn ac yn gymesur. Rydym hefyd o'r farn bod y cynigion yn cyd-fynd â'n dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac yn adran 29 o'r Ddeddf.

## Newidiadau arfaethedig i Amod 1 y DUSP

---

- 5.80 Rydym hefyd yn cynnig gwneud y diwygiadau canlynol i Amod 1 y DUSP. Mae'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Gwasanaeth Post Cyffredinol fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 5.74 uchod, ac rydym yn disgwyl iddynt gael yr un effaith:
- Cynnwys diffiniadau newydd ar gyfer "llythyrau blaenoriaeth a llythyrau eraill", sy'n golygu llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill (fel llythyrau cofrestredig ac wedi'u hyswiro a rhyngwladol), a "llythyrau safonol", sy'n golygu llythyrau Ail Ddosbarth;
  - Addasu'r diffiniad o "ddiwrnod gwaith" fel ei fod yn golygu dydd Llun i ddydd Sadwrn (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau eraill, a rhwng dydd Llun a dydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth; ac
  - Addasu'r rhwymedigaethau danfon a chasglu fel bod llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau USO eraill yn dal i gael eu casglu a'u danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn; a bydd llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu casglu bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, a'u danfon ar unrhyw ddiwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener.
- 5.81 Rydym hefyd yn cynnig gwneud rhai mân ddiwygiadau, fel dileu cyfeiriadau at y Deyrnas Unedig fel gwlad yn yr UE.
- 5.82 Mae Atodiad A8 yn cynnwys hysbysiad statudol o gynnig Ofcom i addasu Amod 1 y DUSP. Mae Atodlen 1 i Atodiad A8 yn gopi o Amod 1 y DUSP wedi'i farcio i ddangos ein

---

<sup>203</sup> Adran 30(3) o'r Ddeddf.

haddasiadau arfaethedig, ac mae Atodlen 2 yn cynnwys tabl sy'n nodi ein haddasiadau arfaethedig mewn fformat hygrych.

## Profion cyfreithiol

- 5.83 Rydym o'r farn bod y profion cyfreithiol yn y Ddeddf<sup>204</sup> yn cael eu bodloni, gan fod yr addasiadau i Amod 1 y DUSP yn angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaeth a nodir yn y Gorchymyn yn cael ei ddarparu – h.y. y gwasanaeth llythyrau Ail Ddosbarth (safonol) – yn unol â'r safonau a nodir yno.
- 5.84 Rydym hefyd yn ystyried ein haddasiadau arfaethedig i fodloni'r profion cyfreithiol ym mharagraff (1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, gan eu bod:
- **Yn gyfiawn yn wrthrychol:** Am y rhesymau a nodir yn yr adran hon, byddai'r newid i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn dal i ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr post, ac yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion defnyddwyr a gwybodaeth gan randdeiliaid.
  - **Ddim yn gwahaniaethu'n ormodol:** Byddai'r newidiadau i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn berthnasol i'r Post Brenhinol fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig a byddent yn effeithio ar bob anfonwr a derbynnydd llythyrau Ail Ddosbarth a phob pwynt danfon yn y DU. Er ein bod yn cydnabod y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio mwy ar rai grwpiau o ddefnyddwyr, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, rydym o'r farn y byddai'r gwasanaeth cyffredinol yn dal i ddiwallu anghenion defnyddwyr yn gyffredinol a bod y manteision cyffredinol i ddefnyddwyr post yn drech nag unrhyw effaith ychwanegol ar rai grwpiau.
  - **Yn gymesur mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Mae sawl opsiwn ar gyfer diwygio'r USO, a byddai pob un yn dod â lefelau gwahanol o fanteision, gan gynnwys gwahanol lefelau o arbedion costau. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth ar anghenion defnyddwyr a barn rhanddeiliaid ar opsiynau i ddiwygio, ac rydym wedi asesu effaith ein cynigion. Ar sail hyn, rydym yn credu bod ein cynigion yn gymesur gan y dylent alluogi'r Post Brenhinol i wneud arbedion costau sylweddol, a ddylai yn ei dro gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac arwain at fanteision i ddefnyddwyr. Dylid parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr yn gyffredinol a dylai unrhyw effeithiau ar ddefnyddwyr fod yn gyfyngedig ac wedi'u gwrthbwysu gan fanteision tymor hir diwygio.
  - **Yn dryloyw mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Mae'r adran hon yn egluro'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth ac effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar ddefnyddwyr post. Mae'r addasiadau arfaethedig i'r Gorchymyn ac i Amod 1 y DUSP wedi'u hesbonio uchod ac maent wedi'u nodi'n glir yn Atodiad A7 ac A8 yr ymgynghoriad hwn.

---

<sup>204</sup> Adran 36(3).

- 5.85 Rydym yn credu bod ein cynigion yn cyd-fynd â'n dyletswyddau yn adran 29 o'r Ddeddf, gan y dylent gyfrannu at barhau i ddarparu gwasanaeth cyffredinol drwy gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a'i effeithlonrwydd.
- 5.86 Rydym hefyd o'r farn bod ein cynigion yn cyd-fynd â'n dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, gan y dylent hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â'r post drwy helpu i gefnogi parhau i ddarparu gwasanaeth cyffredinol ac arwain at gynnydd llai mewn prisiau yn y dyfodol nag y byddai'n digwydd heb ddiwygio'r USO.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

---

### **Cwestiwn 5.1**

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r asesiad effaith ar newid pa mor aml caiff llythyrau Ail Ddosbarth eu danfon er mwyn i'r eitemau hynny gael eu danfon bob yn ail ddiwrnod o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac na fyddai'n rhaid eu casglu, eu prosesu na'u danfon ar ddydd Sadwrn? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich barn.

## 6. Newidiadau arfaethedig i dargedau ansawdd gwasanaeth yr USO

### Pwrpas yr adran hon

Yn yr adran hon rydym yn nodi'r cynigion i addasu'r targedau ansawdd gwasanaeth y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd gyda gwasanaethau'r USO.

### Yn fyr

- Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth penodol, gan gynnwys y prif dargedau mewn perthynas â danfon post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn brydlon. Nid yw safon isel y gwasanaeth mae pobl a busnesau wedi'i gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dderbyniol, ac rydym wedi cymryd camau mewn perthynas â methiannau'r Post Brenhinol, gan roi cosb ariannol o £10.5m yn fwyaf diweddar am danberfformiad yn 2023/24. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol yn ofalus, ac ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau gorfodi pellach gan gynnwys cosbau ariannol sylweddol os byddwn yn gweld nad yw'n cymryd camau ystyrlon i wella.
- Rydym o'r farn ei bod yn bwysig gwahanu'r cwestiwn am y camau mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cymryd i wella pethau, o ystyried pa dargedau sy'n briodol i farchnad bost sy'n newid, yng nghyd-destun USO wedi'i ddiwygio. Cafodd y targedau presennol eu gosod bron i ddau ddegawd yn ôl, ac mae'r farchnad bost wedi newid yn fawr ers hynny ac mae'r ffordd mae pobl yn ei ddefnyddio wedi esblygu. Mae'r newidiadau hyn wedi'i gwneud yn anoddach, ac yn ddrutach fesul eitem o bost, i gynnal perfformiad ar lefelau uchel o ansawdd gwasanaeth. Gan ein bod nawr yn ystyried newid manyleb yr USO, gan gynnwys y goblygiadau o ran perfformiad ansawdd gwasanaeth, mae'n briodol ein bod yn asesu a yw'r targedau'n dal yn briodol. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r profiad rhyngwladol, gan fod llawer o wledydd tebyg wedi addasu i newidiadau yn neinameg y farchnad drwy adolygu a diweddarau eu targedau rheoleiddio.
- Wrth asesu'r set o dargedau, rydym wedi cael ein harwain gan yr amcanion a nodir yn Adran 2, sef sut gall targedau arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy ddiwallu anghenion rhesymol defnyddwyr, cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol, a chymhell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod bod defnyddwyr yn gyffredinol yn blaenoriaethu dibynadwyedd a fforddiadwyedd dros gyflymder, ac yn yr un modd yn cydnabod y gall newidiadau cymharol fach i dargedau ansawdd gwasanaeth arwain at oblygiadau cost sylweddol. Rydym wedi ystyried yr adborth gan randdeiliaid i'n Cais am Fewnbwn, y newidiadau a awgrymodd y Post Brenhinol i'r targedau, a ffynonellau eraill o dystiolaeth sydd ar gael fel data perfformiad yn y gorffennol yn ogystal â thargedau ac arferion tebyg mewn gwledydd eraill.

- Rydym yn cynnig tri newid i dargedau Dosbarth Cyntaf: targed cenedlaethol D+1 diwygiedig o 90% yn unol â'r newidiadau yn y farchnad bost; targed ardal cod post D+1 o 87% i gefnogi gwasanaeth cyffredinol a chyfartal; a tharged post hwyr D+3 newydd o 99.5% i sicrhau dibynadwyedd. Rydym yn cynnig dau newid i dargedau Ail Ddosbarth: targed D+3 cenedlaethol wedi'i addasu, sef 95%, i adlewyrchu'r newid arfaethedig i ddanfôn llythyrau Ail Ddosbarth bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos; a tharged post hwyr D+5 newydd sef 99.5%, i sicrhau dibynadwyedd.
- Gyda'i gilydd, rydym o'r farn y dylai targedau sylfaenol ychydig yn is ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, ynghyd â thargedau post hwyr newydd, roi mwy o ffocws ar y canlyniadau mae defnyddwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf, gan gynnwys dibynadwyedd a fforddiadwyedd, a dylent fod o fewn cyrraedd y Post Brenhinol er eu bod yn heriol wrth gymharu â safonau rhyngwladol.

## Cefndir

### Nodau targedau ansawdd gwasanaeth yr USO

- 6.1 Mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cyrraedd set o dargedau perfformiad ansawdd gwasanaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau USO. Mae'r targedau'n adlewyrchu nodweddion sylfaenol yr USO, fel prydlondeb, dibynadwyedd, cyffredinolrwydd a hygyrchedd. Mae'r nodweddion hyn yn bwysig i unigolion a busnesau ledled y DU.
- 6.2 Mae'r set hon o dargedau yn rhan bwysig o gymell y Post Brenhinol i ddarparu ei wasanaethau yn unol â manyleb y gwasanaeth cyffredinol, ac felly o ran sicrhau manteision i ddefnyddwyr o USO sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Mae'r targedau hefyd yn helpu i roi tryloywder i ddefnyddwyr post am berfformiad y Post Brenhinol, gan gefnogi unigolion a busnesau i ddeall natur y gwasanaethau maent yn eu defnyddio.
- 6.3 Er bod pob targed yn fetrig unigol y gellir mesur ac asesu agweddau ar berfformiad yn ei erbyn, fel pecyn mae'r targedau'n atgyfnerthu ei gilydd. Mae cyfuniadau o dargedau ar gasglu, darparu a gwasanaethau penodol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cymhellion o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer gwasanaeth o ansawdd uchel. Mewn rhai achosion, mae targedau lluosog yn bodoli i'r un gwasanaeth, gan gynnwys Dosbarth Cyntaf fel y nodir yn Nhabl 6.1 isod. Yn gyffredinol, pwrpas hyn yw cymell y cydbwysedd cywir o ganlyniadau gwahanol. Gyda'i gilydd, mae'r targedau'n pennu fframwaith perfformiad cyffredinol ar gyfer cynnal y Post Brenhinol.
- 6.4 Dim ond i wasanaethau'r USO mae'r targedau'n berthnasol. Er nad ydym yn rheoleiddio targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai USO, mae post mynediad yn rhwym wrth safonau y cytunwyd arnynt yn fasnachol ac a negodwyd rhwng y Post Brenhinol a chwmnïau mynediad. Mae'n berthnasol nodi bod post mynediad (a phost swmp arall) yn cael ei ddanfôn drwy'r un rhwydwaith â gwasanaethau USO, sy'n golygu bod penderfyniadau gweithredol a wneir i gyrraedd targedau'r USO hefyd yn debygol o effeithio ar berfformiad danfôn post mynediad (a phost swmp arall). Rydym yn trafod ansawdd gwasanaeth yng nghyd-destun post mynediad ymhellach yn Adran 7 ar ein newidiadau arfaethedig i'r rhwymedigaeth mynediad.

## Targedau ansawdd gwasanaeth presennol

6.5 Mae'r Post Brenhinol wedi gorfod cyflawni rhwymedigaethau perfformiad ers 2001, gyda'r set bresennol o dargedau ar waith ers 2005/06, ac yn berthnasol i berfformiad o ran cyflymder disgwylidig danfon, gweithgareddau casglu, cwblhau llwybrau danfon, yn ogystal â pherfformiad ar draws ardaloedd cod post y DU. Mae Ofcom wedi goruchwyllo'r targedau, fel y'u diffinnir yn amod 1 y DUSP, ers i ni ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r post yn 2011.<sup>205</sup>

Tabl 6.1. Targedau ansawdd gwasanaeth yn amod 1 y DUSP

Targed	Manyleb
Casglu	Y Post Brenhinol i wasanaethu o leiaf 99.9% o'r pwyntiau mynediad cyhoeddus, bob dydd pan fo angen casglu.
Danfon	Y Post Brenhinol i gwblhau o leiaf 99.9% o'r holl lwybrau danfon bob dydd pan fo angen danfon.
Danfon Dosbarth Cyntaf (i)	Y Post Brenhinol i ddanfon o leiaf 93% o eitemau Dosbarth Cyntaf o fewn un diwrnod gwaith i'w casglu ar sail genedlaethol (DU).
Danfon Dosbarth Cyntaf (ii)	Mae'r Post Brenhinol hefyd yn rhwym wrth darged ardal cod post ar wahân sy'n golygu bod yn rhaid iddo ddanfon 91.5% o bost Dosbarth Cyntaf o fewn un diwrnod gwaith i'w gasglu ym mhob ardal cod post yn y DU ar wahân i HS, KW a CE (118 o 121 ardal cod post yn y DU).
Danfon Ail Ddosbarth	Y Post Brenhinol i ddanfon o leiaf 98.5% o eitemau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith i'w casglu ar sail genedlaethol.
Danfon Arbennig wedi'i Warantu (SDG) erbyn 1pm	Y Post Brenhinol i ddanfon o leiaf 99% o eitemau Danfon Arbennig erbyn 1pm y diwrnod gwaith canlynol ar sail genedlaethol.

6.6 Mae'r targedau hyn yn ystyrlon ac yn gyraeddadwy oherwydd eu bod o dan 100%, gan gydnabod bod rhai digwyddiadau siŵr o effeithio ar berfformiad danfon, ac y gallent fod y tu hwnt i reolaeth resymol y Post Brenhinol. I ddangos beth mae'r targedau hyn yn ei olygu'n ymarferol, byddai targed o 90% ar gyfer danfon yn golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon 9 eitem o bob 10 yn brydlon, gan ganiatáu i 1 eitem o bob 10 gael ei danfon yn hwyr (h.y. ar ôl y dyddiad danfon targed).

6.7 Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol fonitro ei berfformiad yn genedlaethol yn erbyn y targedau hyn gan ddefnyddio methodoleg profi briodol ac adrodd ar ei berfformiad i Ofcom, i gyrff eiriolaeth defnyddwyr, ac i'r cyhoedd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhai targedau cyfredol yn cael eu mesur gan arolwg post ar raddfa fawr a gomisiynir yn annibynnol gydag eitemau prawf yn cael eu hanfon drwy gydol y flwyddyn, a chanlyniadau'n cael eu dilysu

<sup>205</sup> Tabl 1 o [Amod 1 y DUSP](#) sy'n nodi safonau domestig, targedau perfformiad a rhwymedigaethau monitro.

gan archwilydd trydydd parti. Mae targedau eraill yn cael eu mesur ar sail data mae'r Post Brenhinol yn ei gofnodi, ac yna bydd archwilydd annibynnol yn ei wirio.

- 6.8 Mae'r Post Brenhinol yn cyhoeddi diweddariad ar ei berfformiad bob chwarter yn ei 'Adroddiadau Ansawdd Gwasanaeth',<sup>206</sup> yn ogystal â drwy gyhoeddi crynodeb blynyddol. Rhaid i'r Post Brenhinol gyrraedd y targedau drwy gydol y 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth bob blwyddyn.<sup>207</sup> Os na fydd y Post Brenhinol yn cyrraedd y targedau, gallwn agor ymchwiliad ac ystyried cymryd camau gorfodi. Mae rhwymedigaethau adrodd hefyd yn rhoi tryloywder i ddefnyddwyr am berfformiad y Post Brenhinol yn erbyn y set o dargedau.
- 6.9 Mae'r targedau'n berthnasol i llythyrau ac i barseili. Mae'r targedau perfformiad cenedlaethol, er enghraifft y prif dargedau ar gyfer danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, yn mesur cyfartaledd llwyddiant y Post Brenhinol o ran danfon eitemau post sampl ar amser. Mae perfformiad yr eitemau sampl hyn wedyn yn cael ei bwysoli'n ystadegol yn ôl yr arferion gorau safonol, er mwyn adlewyrchu gwir gyfran y llythyrau a'r parseili sy'n cyfrif am y niferoedd a welir yn rhwydwaith y Post Brenhinol, yn ogystal â ffactorau eraill i sicrhau bod y cyfartaleddau'n cynrychioli gwir berfformiad y Post Brenhinol.
- 6.10 Mewn cyd-destun rhyngwladol, mae gan y DU dargedau mwy heriol na gwledydd Ewropeaidd tebyg. Mae hyn yn cynnwys lefelau'r prif dargedau ar gyfer danfon Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Er bod gan rai gwledydd dargedau uwch ar gyfer gwasanaethau cyffredinol, mae poblogaeth neu ddaearyddiaeth y gwledydd hyn yn tueddu i fod yn llai, neu mae eu patrwm o ran defnyddio'r post yn wahanol iawn. Mae gan y DU hefyd rwymedigaethau mwy heriol ar gyfer perfformiad lleol ledled y DU, gan nad oes gan y rhan fwyaf o wledydd darged PCA sy'n berthnasol i berfformiad danfon Dosbarth Cyntaf ym mhob ardal cod post. Fel y nodwyd yn ein Cais am Fewnbwn, lle mae gwledydd tebyg wedi diwygio eu manylebau USO, mae addasiadau fel arfer wedi cael eu gwneud i dargedau ansawdd gwasanaeth.<sup>208</sup>

## Perfformiad y Post Brenhinol hyd yma

- 6.11 Yn y cyfnod rhwng cyflwyno'r lefelau targed presennol yn 2005/6, ac hyd at 2019/20, i raddau helaeth roedd y Post Brenhinol wedi cynnal lefelau ansawdd gwasanaeth a oedd naill ai'n cyrraedd y targedau, neu'n agos at y targedau, gyda rhai eithriadau.<sup>209</sup> Fodd bynnag, yn 2020/21, roedd pandemig Cofid-19 wedi tarfu ar wasanaethau'r Post Brenhinol, gan arwain at ostyngiad sylweddol a sydyn yn ansawdd y gwasanaeth. Cafodd hyn ei ddilyn gan weithredu diwydiannol a oedd hefyd wedi cael effaith fawr ar berfformiad. Mae problemau gyda pherfformiad wedi parhau. Yn wahanol i'r perfformiad cymharol sefydlog cyn 2019/20, mae perfformiad y Post Brenhinol ers 2020/21 wedi disgyn yn is o lawer na'r

---

<sup>206</sup> Y Post Brenhinol, 2024. [Adroddiadau Ansawdd Gwasanaeth](#).

<sup>207</sup> Mae eithriad yn berthnasol i gyfnod y Nadolig, fodd bynnag mae DUSP 1.10.5 yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi gwybod i Ofcom ac i'r cyrrff eiriolaeth defnyddwyr ac yn cyhoeddi, ddim hwyrach na dau fis ar ôl diwedd pob cyfnod Nadolig, ei berfformiad yn ystod cyfnod y Nadolig hwnnw.

<sup>208</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn](#), tudalen 51

<sup>209</sup> Mae hyn yn cynnwys cosb o £1.5m a roddwyd i'r Post Brenhinol yn 2018/19 am berfformiad a oedd 1.5% yn is na'r targed Dosbarth Cyntaf.



lefelau targed, gyda llai na 75% o bost Dosbarth Cyntaf yn cael ei ddanfôn ar amser mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, yn erbyn targed o 93%.

- 6.12 Rydym yn dal i boeni bod ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn dal yn is o lawer na'r lefelau cyn y pandemig, ac nad oes digon o gamau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r methiant a sbarduno gwelliant cyson. Gan gydnabod y camau annigonol neu aneffeithiol mae'r Post Brenhinol wedi'u cymryd i liniaru problemau gyda pherfformiad ansawdd gwasanaeth, fe wnaethom roi dirwy o £5.6m am 2022/23, lle mai dim ond 73.7% o bost Dosbarth Cyntaf, a 90.7% o bost Ail Ddosbarth, a ddanfônwyd ar amser.<sup>210</sup> Yn fwy diweddar, roeddem wedi rhoi cosb ariannol o £10.5m mewn perthynas â pherfformiad yn 2023/24, gan gydnabod bod y Post Brenhinol wedi methu gwella'n sylweddol ac yn barhaus yn ogystal â'r niwed i ddefnyddwyr, o ystyried mai dim ond 74.5% o bost Dosbarth Cyntaf a 92.4% o bost Ail Ddosbarth a ddanfônwyd ar amser.<sup>211</sup>
- 6.13 Mae'r Post Brenhinol wedi dweud bod gwella ansawdd gwasanaeth yn flaenoriaeth ac mae wedi nodi cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. O dan y cynllun hwn, uchelgais y Post Brenhinol fu lleihau tanberfformiad yn raddol. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn nodi metrigau eilaidd, y mae'r Post Brenhinol wedi dechrau adrodd am ei berfformiad arnynt ar gyfer eitemau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth sydd wedi methu eu prif darged (mae perfformiad ar eitemau hwyr fel rhain hefyd yn cael eu galw yn bost hwyr). Yn unol â hynny, roeddent wedi gosod nod i ddanfôn o leiaf 95% o eitemau Dosbarth Cyntaf o fewn dau diwrnod (h.y. un diwrnod ar ôl y diwrnod pan roedd yr eitem i fod i gyrraedd), a 99% o eitemau Ail Ddosbarth o fewn pum diwrnod gwaith (h.y. dau ddiwrnod ar ôl y diwrnod pan roedd yr eitem i fod i gyrraedd), ym mis olaf y flwyddyn ariannol hon.<sup>212</sup> Cefnogir ei gynllun gan fuddsoddiad o [£] degau o filiynau isel yn 2024/25 a bydd yn canolbwyntio ar welliannau i ystod o strwythurau a phrosesau sefydliadol.<sup>213</sup> Rydym yn falch bod y Post Brenhinol yn nodi llwybr strwythuredig i wella, a darparu rhagor o dryloywder am bost hwyr. Byddwn yn parhau i fonitro eu cynnydd yn agos fel y nodir yn ein Hadroddiad Monitro'r Post 2023/24.<sup>214</sup>
- 6.14 Fodd bynnag, o ystyried y digwyddiadau cychwynnol, gan gynnwys pandemig Covid-19, a hyd a lled y methiannau parhaus yn y blynyddoedd diwethaf, credwn ei bod yn bwysig ystyried ar wahân y camau y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cymryd i fynd i'r afael â'i danberfformiad presennol o safbwynt pa dargedau ansawdd gwasanaeth sydd fwyaf priodol i'r farchnad bost yng nghyd-destun USO diwygiedig.
- 6.15 Gan feddwl am ansawdd gwasanaeth yn y tymor hirach, rydym yn cydnabod bod y farchnad bost wedi bod yn newid yn araf, mewn ffyrdd mawr, dros yr ugain mlynedd bron ers i'r targedau presennol gael eu gosod. Fel sy'n cael ei ddisgrifio yn Adrannau 2 a 3, mae'r ffordd mae'r post a gwasanaethau cyfathrebu'n cael eu defnyddio'n wahanol heddiw, canlyniad

---

<sup>210</sup> Ofcom, 2023. [Ymchwiliad i berfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn 2022/23](#).

<sup>211</sup> Ofcom, 2024. [Ymchwiliad i berfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn 2023/24](#).

<sup>212</sup> Y Post Brenhinol, 2024. [Ch1 2024/25 Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth a Chwynion Chwarterol](#), tudalen 1.

<sup>213</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024

<sup>214</sup> Ofcom, 2024. [Adroddiad monitro'r post – gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2023-24](#).

hynny yw bod nifer y llythyrau wedi bod yn gostwng yn strwythurol, mae nifer y parseli wedi cynyddu, ac mae nifer y pwyntiau danfon wedi tyfu.

- 6.16 Ar ben hynny, rydym yn cydnabod, mewn ymateb i'r farchnad sy'n newid, bod y Post Brenhinol wedi bod yn gwneud newidiadau tymor hir i'w weithrediadau, sydd hefyd wedi effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae ymdrechion i sicrhau enillion effeithlonrwydd drwy wella cynhyrchiant yn hanfodol i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Maent hefyd yn gadarnhaol i ddefnyddwyr i'r graddau eu bod yn osgoi trosglwyddo gormod o gostau i bobl ac i fusnesau drwy godi prisiau. Fodd bynnag, mae mentrau effeithlonrwydd wedi lleihau'r byffer o adnoddau sydd ar gael i ddelio ag amrywiadau annisgwyl yn faint o bost sydd i'w brosesu a'i ddanfon, mwy na [3<].<sup>215</sup> Mae hyn yn golygu, wrth i nifer yr eitemau post amrywio, bod llai o adnoddau segur mewn cyfnodau lle mae'r niferoedd yn isel, ond mae hefyd yn golygu, pan fydd cynnydd yn nifer yr eitemau post, bod llai o adnoddau ar gael i brosesu ac i ddanfon mwy o bost, a allai gyfrannu at oedi a methu targedau. Ar yr un pryd, mae'r Post Brenhinol wedi bod yn addasu'r ffordd mae ei rwydwaith trafniadaeth yn defnyddio gwahanol ddulliau teithio i symud post o amgylch y wlad, gan ddefnyddio llai ar awyrennau a threnau, a symud at drafniadaeth ffordd arafach ond mwy dibynadwy.
- 6.17 Yn benodol, rydym o'r farn bod y tueddiadau tymor hirach hyn yn berthnasol i'n hystyriaeth o briodoldeb y targedau ansawdd gwasanaeth presennol, gan ein bod yn disgwyl eu bod yn debygol o gyfrannu at ei gwneud yn anoddach cyflawni targedau ansawdd gwasanaeth uchel yn gyson am gost resymol, ac rydym yn disgwyl i'r tueddiadau hyn barhau.

## Safbwyntiau rhanddeiliaid am ansawdd y gwasanaeth

---

### Adborth cyffredinol i'n Cais am Fewnbwn gan rhanddeiliaid

- 6.18 Roedd llawer o'r ymatebwyr i'n Cais am Fewnbwn wedi mynegi pryderon am berfformiad gwael diweddar y Post Brenhinol, dywedodd rhai rhanddeiliaid bod rhesymau gweithredol wedi cyfrannu at hyn. Dywedodd un rhanddeiliad fod heriau staffio ac adnoddau'r Post Brenhinol, gan gynnwys prinder staff a chyfraddau isel o ran cadw staff, wedi arwain at argyfwng mewn perfformiad.<sup>216</sup> Dywedodd nifer o rhanddeiliaid mai'r rheswm am y perfformiad gwael oedd y patrymau tymor hirach yn y farchnad bost gan gynnwys newidiadau yng nghyfran y llythyrau a'r parseli sy'n creu'r cyfansymiau, gan nodi'r cynnydd yn nifer y parseli a'r amheuaeth o flaenoriaethu parseli dros ddanfon llythyrau.<sup>217</sup>
- 6.19 Gan edrych ymlaen, i raddau helaeth roedd sylwadau'r rhanddeiliaid yn adlewyrchu'r newid ym mlaenoriaethau defnyddwyr. Pwysleisiodd nifer o rhanddeiliaid bwysigrwydd dibynadwyedd, gyda llawer yn gweld dibynadwyedd a'r sicrwydd bod y post yn cyrraedd yn

---

<sup>215</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024

<sup>216</sup> [Ymateb Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>217</sup> [Greeting Cards Association](#), [Strategic Mailing Partnership](#) a [Caroline Lucas AS](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

ffactorau allweddol, gan eu hystyried yn aml yn bwysicach na chyflymder danfon.<sup>218</sup> Er enghraifft, nododd Whistl fod ei arolwg wedi canfod bod ychydig dros hanner (52%) o'i gleientiaid yn dweud mai dibynadwyedd y gwasanaeth oedd y ffactor pwysicaf a'i fod yn fwyaf tebygol o ddylanwadu ar niferoedd y post yn y dyfodol.<sup>219</sup>

- 6.20 Er bod nifer o randdeiliaid yn sôn am heriau cyrraedd lefelau targed ansawdd gwasanaeth, nid oeddent o'r farn bod lleihau'r targedau presennol yn opsiwn atyniadol, gan nodi pryderon am erydu hyder defnyddwyr ymhellach.<sup>220</sup> Ar ben hynny, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod angen gwneud mwy i wella dibynadwyedd. Dywedodd rhai y byddai targedau post hwyr yn helpu i wella dibynadwyedd ac yn darparu mwy o wybodaeth am raddfa'r oedi.<sup>221</sup>
- 6.21 Dywedodd rhanddeiliaid eraill fod yn rhaid gwella lefelau ansawdd y gwasanaeth wrth newid y patrymau danfon presennol.<sup>222</sup> Roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio'n benodol bod angen gwella dibynadwyedd a bod angen mwy o hyder yn ansawdd y gwasanaeth.<sup>223</sup>

## Safbwyntiau penodol gan randdeiliaid am ansawdd y gwasanaeth

- 6.22 Roedd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu ac Unite CMA yn dweud bod angen addasu'r targedau, sy'n seiliedig yn hanesyddol ar farchnad llythyrau gan fwyaf, er mwyn ystyried y newid o lythyrau i barseli. Roedd Unite CMA yn cydnabod bod gostwng y targed Dosbarth Cyntaf i 90% yn ddull gweithredu ymarferol.<sup>224</sup>
- 6.23 Fel rhan o'i gynnig i newid manyleb yr USO, awgrymodd y Post Brenhinol y newidiadau canlynol i dargedau ansawdd gwasanaeth i adlewyrchu newidiadau strwythurol yn neinameg y farchnad bost, a'i farn gyfatebol na all gyrraedd y targedau presennol am gost resymol.<sup>225</sup>
- Gostwng y targed cenedlaethol i ddanfon Dosbarth Cyntaf o fewn un diwrnod o 93% i 90%.
  - Dileu'r targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf, neu fel arall ei ostwng o 91.5% i 86% o bost sy'n cael ei ddanfon o fewn un diwrnod ym mhob ardal cod post, gyda chaniatâd ychwanegol i fethu mewn chwe ardal cod post bob blwyddyn, ar wahân i'r eithriad presennol ar gyfer tair ardal cod post benodol sy'n anodd eu cyrraedd.
  - Gostwng y targed cenedlaethol i ddanfon Ail Ddosbarth o fewn tridiau o 98.5% i 95%.
  - Cyflwyno targedau post hwyr newydd, sef bod 96% o bost Dosbarth Cyntaf yn cael ei ddanfon cyn pen deuddydd, a bod 99% o bost Ail Ddosbarth yn cael ei ddanfon cyn pen

---

<sup>218</sup> [Ffederasiwn y Busnesau Bach](#), [Swyddfa'r Post](#) ac [Immediate Media](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>219</sup> [Whistl UK Limited](#) ymateb i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>220</sup> [Greeting Cards Association](#), [Germinal GB](#), [Ffederasiwn y Busnesau Bach](#), [Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, Thortful](#), [Twizler](#) ac [Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>221</sup> [Ymateb Cyngor ar Bopeth](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>222</sup> [Mail Users Association](#), [Action with Communities in Rural England](#), [CFH Docmail Limited](#) a [Credit Services Association](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>223</sup> [Ymateb Action with Communities in Rural England](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>224</sup> [Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu](#) ac [Unite CMA](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>225</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

pum niwrnod. Yn dilyn hynny, diwygiodd y Post Brenhinol ei gynnig i ffafrio'r targed o ddanfôn 99% o'r post o fewn pum diwrnod ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.<sup>226</sup>

- e) Ailystyried ceisiadau blaenorol i newid y targed danfôn, sef newid o fesur llwybrau danfôn sy'n cael eu cwblhau i fesur pwyntiau danfôn sy'n cael eu gwasanaethu, ac ymestyn cyfnod eithrio'r Nadolig i gynnwys 'Wythnos Prynu Ar-lein'.<sup>227</sup>

## Ymchwil ar ddewisiadau defnyddwyr o ran targedau ansawdd gwasanaeth

- 6.24 Dylai targedau ansawdd gwasanaeth gefnogi manteision i ddefnyddwyr o USO sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr a ddisgrifiwyd yn Adran 3. Er ein bod yn gallu deall dewisiadau ac arferion defnyddwyr post ar lefel uchel, mae profi dewisiadau penodol defnyddwyr ar lefelau targed ansawdd gwasanaeth yn fwy heriol, ac mae ymwybyddiaeth o'r targedau perthnasol, yn ogystal â manylion lefelau perfformiad y Post Brenhinol, yn isel yn gyffredinol. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad diweddar y Post Brenhinol a'i dargedau presennol yn debygol o ychwanegu at anhawster asesu dewisiadau defnyddwyr o ran lefelau targed penodol.
- 6.25 Yn gyffredinol, mae dewisiadau a disgwyliadau defnyddwyr wedi esblygu yn ystod y cyfnod ers gosod y targedau presennol. Mae defnyddwyr yn gwerthfawrogi elfen dibynadwyedd yr USO yn fawr, ac mae ein tystiolaeth o ymchwil i anghenion defnyddwyr ac ymatebion rhanddeiliaid yn dangos bod defnyddwyr yn aml yn blaenoriaethu'r agwedd hon yn hytrach na'r cyflymder a'r amllder danfôn. Canfu ein hymchwil yn 2024 fod 88% o ddefnyddwyr yn dweud ei bod yn bwysig bod llythyrau a chardiau'n cael eu danfôn yn brydlon. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymchwil 2023 a 2020 a ganfu fod 88% ac 87% o ddefnyddwyr, yn y drefn honno, yn dweud ei bod yn bwysig iddyn nhw eu bod yn gallu bod yn hyderus bod 90% o llythyrau a chardiau yn cael eu danfôn yn brydlon.<sup>228</sup>
- 6.26 Rydym yn deall bod dal angen i ddefnyddwyr fod yn sicr eu bod yn cael ansawdd gwasanaeth uchel, yn benodol yng nghyd-destun y newidiadau i'r USO a allai olygu bod llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfôn yn llai aml. Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2020 fod defnyddwyr yn gyffredinol yn llai parod i dderbyn gofynion ansawdd gwasanaeth is, yn enwedig pe bai agweddau eraill ar y gwasanaeth yn cael eu cwtdogi.<sup>229</sup> Mae hyn yn cyd-fynd ag ymatebion i'r Cais am Fewnbwn sy'n dangos bod ar ddefnyddwyr eisiau gweld ansawdd gwasanaeth ac atebolrwydd y Post Brenhinol yn gwella er mwyn bod yn ddibynadwy, yn enwedig yng nghyd-destun cwtdogi ar y gwasanaeth Ail Ddosbarth.
- 6.27 Prin yw'r dystiolaeth sydd gennym fod dewisiadau defnyddwyr yn amrywio'n sylweddol rhwng lefelau ansawdd gwasanaeth, ac fel y nodwyd uchod mae anawsterau o ran profi dewisiadau penodol. Yn ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr yn 2020, gwelsom y byddai gostwng i 90% ar gyfer post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn diwallu anghenion 97% o

---

<sup>226</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwytodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>227</sup> Mae'r 'Wythnos Prynu Ar-lein' yn gyfnod pan fydd manwerthwyr ar-lein yn cynnig disgownt ar eu cynnyrch. Fel rheol mae'n mynd o 'Ddydd Gwener Gwario' ddiwedd mis Tachwedd hyd at ddechrau mis Rhagfyr.

<sup>228</sup> Yonder, 2023. [Ymchwil Arolwg Defnyddwyr ar Bost](#), tudalen 9

<sup>229</sup> Ymchwil Jigsaw, 2020. [Anghenion Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#), tudalen 36

ddefnyddwyr preswyl, gostyngiad o 1 pwynt canran o anghenion 98% o ddefnyddwyr preswyl sy'n cael eu diwallu gan y lefel darged bresennol. Roedd 91% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig yn teimlo y byddai'r targed is o 90% yn diwallu eu hanghenion. Byddai gostyngiad o 80% yn diwallu anghenion 95% o ddefnyddwyr preswyl a 90% o fusnesau bach a chanolig.<sup>230</sup> Canfu ymchwil fwy diweddar a gomisiynwyd gan y Post Brenhinol yn 2024 mai dim ond ychydig iawn o wahaniaeth a wnaeth gwahaniaethau rhwng targedau i farn defnyddwyr ynghylch pa mor dderbyniol yw gwasanaethau Dosbarth Cyntaf.<sup>231</sup>

- 6.28 Mae lefelau ansawdd uwch yn golygu bod angen mwy o fuddsoddiad, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau cyflymach fel Dosbarth Cyntaf sy'n gofyn am fwy o adnoddau ac sy'n caniatáu llai o hyblygrwydd ar gyfer oedi. Mae gwella ansawdd gwasanaeth hefyd yn ddutach ar lefelau perfformiad uwch, er enghraifft, mae gwella o 90% i 95% yn llawer drutach na gwella o 70% i 75%. Mewn rhai achosion, mae cost ansawdd uwch yn golygu bod yn rhaid i gwmnïau post godi prisiau er mwyn cynnal eu gweithrediadau. Rydym yn gwybod o'n hymchwil bod fforddiadwyedd, ynghyd â dibynadwyedd, yn un o'r agweddau pwysicaf ar yr USO. Mae gennym rywfaint o dystiolaeth o sut mae defnyddwyr yn gweld y cyfaddawdu rhwng ansawdd a fforddiadwyedd. Er enghraifft, canfu ein hymchwil anghenion defnyddwyr yn 2020 fod defnyddwyr yn teimlo bod gostwng y targedau ansawdd gwasanaeth i 90% yn cyfateb i gynnydd o 1-5c mewn prisiau, o ran sut roedd hynny'n effeithio ar eu parodrwydd i dalu.<sup>232</sup> Yn ôl ymchwil fwy diweddar a gomisiynwyd gan y Post Brenhinol yn 2024, roedd barn defnyddwyr ynghylch pa mor dderbyniol oedd gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn ymateb yn llai i newidiadau mewn ansawdd nag i newidiadau mewn pris.<sup>233</sup> Gallai hyn ddangos bod defnyddwyr yn fwy parod i dderbyn gwasanaeth o ansawdd is na chynnydd mewn prisiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi i wella ansawdd.

## Ein hasesiad o newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth

---

- 6.29 Roedd Ofcom wedi adolygu rhwymedigaethau ansawdd gwasanaeth ddiwethaf fel rhan o'n Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaethau Post yn 2022.<sup>234</sup> Bryd hynny, roedd rhanddeiliaid wedi codi pryderon am berfformiad y Post Brenhinol, gan nodi'n benodol nad oedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Ar yr un pryd, cawsom nifer o gynigion, gan gynnwys gan y Post Brenhinol, ar gyfer mân newidiadau technegol i nifer o dargedau gan gynnwys addasiad ystadegol i'r targed ardal cod post ar gyfer Dosbarth Cyntaf, newid i fethodoleg y targed cwblhau danfon, a dileu Eithriad y Nadolig. Adeg ein hadolygiad yn 2022, dywedodd

---

<sup>230</sup> Ofcom, 2020, [Adolygiad o anghenion defnyddwyr post](#), tudalen 70-71

<sup>231</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>232</sup> Cyfrifiadau Ofcom o Jigsaw Market Research (Jigsaw, 2020. [Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#))

<sup>233</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>234</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post](#).

y Post Brenhinol ei fod yn cefnogi'r holl brif dargedau ansawdd gwasanaeth a oedd yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio. Ni wnaethom asesu lefelau'r targedau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, a chanfu ein hasesiad manwl o gynigion penodol ar gyfer targedau eraill na fyddai'r newidiadau o fudd i ddefnyddwyr.

- 6.30 Mae maint yr heriau sy'n wynebu'r USO wedi dod yn fwy amlwg ers hynny, fel y nodwyd yn ein hadroddiad monitro post yn 2022/23<sup>235</sup> a'n Cais am Fewnbwn. Er mai ein safbwynt cychwynnol yn ein Cais am Fewnbwn oedd nad oedd gostwng targedau ansawdd gwasanaeth yn opsiwn deniadol ar ei ben ei hun, fe wnaethom hefyd ddweud, pe bai manyleb danfon yr USO yn cael ei newid, y byddai angen i ni adolygu ein fframwaith ansawdd gwasanaeth.<sup>236</sup>
- 6.31 Rydym o'r farn ei bod yn gyfiawn asesu a oes modd ailgydbwysu'r targedau er mwyn cyflawni eu rôl yn y ffordd orau fel rhan o'r USO wedi'i ddiwygio. Mae hyn yn cydnabod y cyd-destun o ostyngiad yn nifer y llythyrau ac felly costau uned uwch i ddanfon, yr esblygiad yn sut mae'r post yn cael ei ddefnyddio a disgwyliadau cysylltiedig bod yr USO yn canolbwyntio mwy ar ddibynadwyedd a fforddiadwyedd na chyflymder, a sefyllfa ariannol y Post Brenhinol. Yn benodol, mae hyn yn golygu asesu'r targedau yn erbyn yr amcanion a ddisgrifir yn Adran 2, fel bod targedau'n arwain at fanteision i ddefnyddwyr, yn cefnogi effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac yn cymell gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys ystyried gostwng targedau lle gellir taro cydbwysedd mwy cymesur rhwng yr amcanion hyn wrth symud ymlaen. Mae hefyd yn cynnwys ystyried sut gellid cyflwyno targedau post hwyr newydd er mwyn cyflawni amcanion penodol yn well. Rydym yn dal yn glir bod angen gwasanaeth o ansawdd uchel ar ddefnyddwyr gan y Post Brenhinol, ac nid bwriad ystyried newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yw delio â methiannau diweddar y Post Brenhinol yn hyn o beth.

## Targedau Dosbarth Cyntaf

### Targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf D+1 diwygiedig yn unol â newidiadau yn y farchnad

- 6.32 Rydym o'r farn bod cyfiawnhad dros asesu a yw'r targed presennol o fynnu bod 93% o bost Dosbarth Cyntaf yn cael ei ddanfon y diwrnod gwaith canlynol (D+1) yn dal yn briodol ac yn gymesur o ystyried: (i) yr esblygiad yn anghenion defnyddwyr a'r cyfaddawd rhwng canlyniadau, (ii) newidiadau yn nodweddion y farchnad bost, a (iii) sefyllfa ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Yn yr is-adran hon rydym yn ystyried a allai addasu'r targed arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr a chyfrannu at USO sy'n fwy cynaliadwy.

### Esblygiad yn anghenion defnyddwyr a'r cyfaddawd rhwng canlyniadau

- 6.33 Er bod ar ddefnyddwyr yn ddelfrydol eisiau bod eu post yn cael ei ddanfon, yn gyflym, yn ddibynadwy ac am bris rhesymol, mae cyfaddawdu anochel rhwng y nodweddion hyn yn ymarferol, a gall targedau ansawdd gwasanaeth chwarae rhan wrth gymell canlyniadau cytbwys er budd defnyddwyr. Mae lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gyrraedd targedau

---

<sup>235</sup> Ofcom, 2023. [Adroddiad monitro'r post – gwasanaethau post yn y flwyddyn ariannol 2022/23](#)

<sup>236</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Cais am Fewnbwn](#), tudalen 70

ansawdd gwasanaeth yn un ffactor sy'n gyrru prisiau ac, ar unrhyw lefel o fuddsoddiad mewn ansawdd gwasanaeth, mae'r Post Brenhinol yn wynebu cyfaddawdu o ran sut mae'n defnyddio adnoddau. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawd rhwng buddsoddi mewn cyrraedd y targed o 93% ar gyfer danfon ar y diwrnod canlynol, neu fuddsoddi mewn danfon eitemau sydd wedi methu eu targed cychwynnol (h.y. post hwyr). Mae'r targed presennol o 93% yn cymell blaenoriaethu danfon cyfran uchel iawn o bost yn gyflym y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, mae hyn wedi costio'n sylweddol i'r Post Brenhinol – er ei fod wedi methu cyrraedd ei dargedau – ac mae'n debygol hefyd y bydd angen canolbwyntio llai ar ddanfon eitemau'n gyson sydd wedi methu'r targed diwrnod canlynol, gan arwain at oedi hirach ac anoddach ei ragweld.

- 6.34 Gallai'r targed presennol o 93% hefyd gyfrannu at gynnydd uwch mewn prisiau yn y dyfodol nag y byddai'n digwydd fel arall, oherwydd bod angen i'r Post Brenhinol adennill costau perfformio ar y lefel hon. Fel enghraifft, mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif y gallai'r cynnydd mewn prisiau gwasanaethau Dosbarth Cyntaf sy'n ynghlwm wrth gostau gwella ansawdd gwasanaeth o 90% i 93%, fod yn sylweddol, oddeutu [X] fesul stamp Dosbarth Cyntaf.<sup>237</sup> Er ei bod yn ymddangos bod hwn yn amcangyfrif rhesymol o'r cynnydd angenrheidiol mewn prisiau pe bai angen codi refeniw o stampiau Dosbarth Cyntaf yn unig, gallai mecanweithiau eraill i godi refeniw olygu cynnydd llai mewn prisiau.
- 6.35 Yn wahanol i'r cydbwysedd sy'n cael ei daro gan y targed presennol, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn yr is-adran flaenorol ar ddewisiadau defnyddwyr yn awgrymu bod defnyddwyr yn blaenoriaethu fforddiadwyedd ac yn gweld cynnydd mewn prisiau yn llai derbynol na gostyngiadau yn lefel y targed ar gyfer danfon y diwrnod canlynol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod defnyddwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r sicrwydd y bydd eu pecynnau'n cael eu danfon o fewn amser rhesymol, gan gynnwys y disgwyliad y bydd eitemau post sydd wedi methu eu targedau cychwynnol yn cael eu danfon yn brydlon ac yn gyson. Gallai hyn awgrymu nad yw'r lefel darged bresennol yn cymell cydbwysedd o ganlyniadau defnyddwyr sy'n cyd-fynd â dewisiadau defnyddwyr.

### Newidiadau yn nodweddion y farchnad bost

- 6.36 Mae'r farchnad bost wedi newid yn sylweddol ers gosod y targed o 93% yn 2005. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Post Brenhinol yn gwasanaethau rhagor o bwyntiau danfon, ar yr un pryd â danfon llai o llythyrau a mwy o barseli. Yn benodol, mae'r gostyngiad yn nifer y llythyrau a'r gostyngiad mewn cyfraddau galw<sup>238</sup> wedi golygu bod effaith amrywiadau annisgwyl mewn niferoedd – mewn geiriau eraill, anwadalrwydd y niferoedd – yn fwy ac yn anoddach ei reoli. Mae effaith yr ansefydlogrwydd hwn ar rwydwaith y Post Brenhinol wedi cynyddu ymhellach wrth iddo geisio gwneud arbedion effeithlonrwydd sy'n gwella cynhyrchiant ond yn lleihau'r byffer adnoddau sydd ar gael i ddelio â chynnydd yn y galw. Mae parseli hefyd yn gyfran gynyddol o'r niferoedd cyffredinol, ac mae angen mwy o adnoddau i'w danfon na llythyrau, sy'n golygu ei bod hi'n ddrutach cyrraedd yr un lefelau

---

<sup>237</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>238</sup> Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 4, mae cyfraddau galw yn golygu cyfran y cyfeiriadau ar lwybr lle mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu neu ddanfon.

perfformiad. Nid yw'r sefyllfa yn y DU yn unigryw, ac mae llawer o wledydd tebyg wedi diwygio eu trefniadau USO sydd wedi cynnwys diwygio eu targedau ansawdd gwasanaeth.

- 6.37 Rydym o'r farn bod y newidiadau hyn i'r farchnad ac i weithrediadau'r Post Brenhinol wedi golygu nad yw'r baich sy'n gysylltiedig â chyrraedd y lefelau targed presennol bellach yn adlewyrchu cyd-destun y farchnad pan osodwyd y targed. Gallai gostyngiad pellach yn nifer y llythyrau Dosbarth Cyntaf gynyddu'r costau a geir i reoli anwadalrwydd.

### Arwyddocâd cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cyffredinol

- 6.38 Yng nghyd-destun y newidiadau hyn yn y farchnad, mae'r costau sy'n gysylltiedig â chyrraedd y targed presennol o 93% ar gyfer Dosbarth Cyntaf wedi dod yn fwy sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Yn gyffredinol, nid yw'r costau hyn yn tyfu'n llinol gyda newidiadau i'r niferoedd, gan fod rheoli ansefydlogrwydd yn dod yn fater mwy gyda niferoedd is. Mae'n debyg bod hyn wedi golygu, wrth i'r niferoedd ostwng, ei bod hi'n anoddach gwireddu arbedion maint a'i bod yn ddrutach rheoli ansefydlogrwydd. Yn rhannol o ganlyniad i hynny, mae costau uned cyrraedd lefelau perfformiad targed wedi cynyddu ers 2005/6.
- 6.39 Ar ben hynny, nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ansawdd gwasanaeth yn cynyddu'n llinol gyda newidiadau i lefelau targed, gan fod angen mwy o byffer adnoddau i gyflawni lefelau perfformiad uchel, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau'r diwrnod canlynol fel Dosbarth Cyntaf sydd â phrin dim hyblygrwydd o ran oedi. Rydym yn cydnabod bod cost gynyddol gwella perfformiad yn codi'n sylweddol ar lefelau perfformiad uwch, sy'n arwydd o lai o elw ar fuddsoddiad. I ddangos hyn, mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif bod angen buddsoddi £20-30m i wella o 77% i 82.5%, a buddsoddiad pellach o £60-80m y flwyddyn i wella i 90%, a bod angen buddsoddiad ychwanegol o £120-180m y flwyddyn i wella o 90% i 93%<sup>239</sup>. Byddai angen i'r Post Brenhinol ysgwyddo'r costau buddsoddi hyn mewn ansawdd ar ffurf elw is, ond mae hefyd yn debygol y byddai'n rhaid i gyfran o'r costau hyn gael ei hadennill gan ddefnyddwyr, drwy godi prisiau. O ystyried sefyllfa ariannol tymor byr y Post Brenhinol, gallai'r buddsoddiad cronus olygu bod llawer o'r arian sydd ar gael gan y Post Brenhinol yn cael ei ddefnyddio.<sup>240</sup>

### Ein hasesiad a'n casgliadau dros dro

- 6.40 Gan ystyried y dystiolaeth uchod ar yr esblygiad yn anghenion defnyddwyr, newidiadau yn nodweddion y farchnad bost, a goblygiadau targedau i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, rydym o'r farn nad yw'r targed presennol o 93% bellach yn taro'r cydbwysedd cywir i ddefnyddwyr ac ystyried goblygiadau cost darparu USO a bennir yn y ffordd hon.
- 6.41 Rydym felly wedi asesu opsiynau eraill i'r targed Dosbarth Cyntaf D+1 gan gynnwys 90%, 85%, ac 80%. Wrth wneud hyn, rydym wedi cael ein harwain gan yr amcanion polisi a nodir yn Adran 2, sef sut y gallai lefel targed newydd arwain at fanteision i ddefnyddwyr, cefnogi

---

<sup>239</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>240</sup> Y Post Brenhinol, 2025. Adroddiad a Datganiadau Ariannol Blyneddol, ar gael yn: [Tŷ'r Cwmnïau](#)



effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, a chymell gwasanaeth o ansawdd uchel.

- a) **90%** - Byddai'r opsiwn hwn yn ostyngiad o dri phwynt canran yn lefel y targed. Mae cynsail rhyngwladol i darged ar y lefel hon ar gyfer gwasanaethau'r diwrnod canlynol. Mae'r gwledydd Ewropeaidd sydd â thargedau o 90% neu uwch yn tueddu i fod yn llai o lawer neu'n llai tebyg fel arall i'r DU, ac felly byddai targed o 90% yn uwch na thargedau mewn gwledydd eraill mwy tebyg.<sup>241</sup> Oherwydd y cynnydd graddol yn y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau lefelau uchel o ansawdd gwasanaeth, byddai gostwng y targed o 93% i 90% yn lleihau'n sylweddol y lefel ddisgwyliedig o fuddsoddiad i gyrraedd y targed, o £120-180m y flwyddyn.<sup>242</sup> Mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn, cynigiodd y Post Brenhinol lefel darged o 90%, a fyddai'n adlewyrchu'n well realiti ei sefyllfa weithredol a masnachol, ac yn helpu i gefnogi gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol. Mae hefyd yn rhagweld y gallai liniaru'r angen i godi prisiau yn sylweddol, [X] y gallai fod ei angen fel arall i adennill y buddsoddiadau i gyrraedd y targed presennol o 93%. Gallai targed o 90% hefyd olygu bod y Post Brenhinol yn gallu aildargedu buddsoddiad at ddanfôn post yn gyson ac yn ddibynadwy, gan gynnwys ar gyfer eitemau sydd wedi methu eu targed cychwynnol, a danfôn mewn ardaloedd anoddach eu cyrraedd. Yn y ffyrdd hyn, gallai targed o 90% gefnogi gwell cydbwysedd o ran canlyniadau i ddefnyddwyr o ran pris a hyder wrth ddanfôn o fewn cyfnod rhesymol, ar yr un pryd â chynnal lefel darged uchel iawn ar gyfer danfôn y diwrnod canlynol.
- b) **85%** - Byddai'r opsiwn hwn yn ostyngiad o wyth pwynt canran yn y targed. Mae cynsail o wledydd tebyg i'r DU sy'n gweithredu gwasanaethau'r diwrnod canlynol gyda'r lefel darged hon.<sup>243 244</sup> Byddai'n lleihau faint o fuddsoddiad y byddai'n ei ddisgwyl i gyrraedd y targed o £180m-£260m y flwyddyn o'i gymharu â'r lefel darged bresennol. [X].<sup>245</sup> Gallai'r lefel darged hon roi mwy o hyblygrwydd i addasu i ostyngiadau yn y niferoedd yn y dyfodol, i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac i gyfyngu ar y buddsoddiad mewn ansawdd gwasanaeth y byddai angen i'r Post Brenhinol ei wneud. I ddefnyddwyr, gallai gostwng faint o fuddsoddiad y byddai'n ei ddisgwyl helpu i liniaru maint cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol, yn ogystal â galluogi buddsoddiad mwy cynaliadwy mewn canlyniadau eraill fel perfformiad post hwyr neu gyfyngu ar amrywiaeth daearyddol mewn perfformiad. Wedi dweud hynny, rydym yn nodi bod ansicrwydd ynghylch i ba raddau mae defnyddwyr ar hyn o bryd yn gweld bod 85% yn ansawdd digon uchel yng

---

<sup>241</sup> Cullen International, 2024: Mae'r gwledydd eraill sydd â tharged o 90% ar gyfer gwasanaethau'r diwrnod canlynol yn cynnwys Portiwgal, Latfia, ac Estonia. At ei gilydd, mae'r gwledydd sydd â thargedau dros 90%, fel Gwlad Belg, yn tueddu i fod â gwahaniaethau yn eu nodweddion daearyddol, economaidd a/neu ddemograffig sy'n berthnasol i berfformiad ansawdd gwasanaeth.

<sup>242</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>243</sup> Frontier Economics, 2023: Pan roedd Ffrainc yn cynnig gwasanaeth Dosbarth Cyntaf, eu targed ar gyfer danfôn y diwrnod canlynol oedd 85%. Mae Ffrainc wedi disodli'r gwasanaeth papur diwrnod canlynol hwn gyda gwasanaeth digidol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ysgrifennu llythyr ar wefan La Poste a'i fod yn cael ei argraffu a'i ddanfôn y diwrnod canlynol.

<sup>244</sup> Cullen International, 2024: Mae gwledydd eraill fel Lithwania yn cynnal y lefel darged hon ar gyfer eu gwasanaethau diwrnod canlynol.

<sup>245</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

nghyd-destun Dosbarth Cyntaf, yn ogystal â'r graddau y gallai'r lefel ansawdd hon gyfrannu at symud oddi wrth Ddosbarth Cyntaf.

- c) **80%** - Byddai'r opsiwn hwn yn ostyngiad o 13 pwynt canran. Byddai'n golygu bod y DU yn cyd-fynd â rhai gwledydd Ewropeaidd eraill fel yr Almaen neu'r Eidal sydd wedi dewis y lefel darged hon ar gyfer D+1.<sup>246</sup> Gallai gyfateb i leihau faint o fuddsoddiad y byddai'n ei ddisgwyl i gyrraedd y targed £200m-£290m y flwyddyn o'i gymharu â'r lefel darged bresennol. O safbwynt defnyddwyr, roedd ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr yn 2020 wedi profi barn defnyddwyr ar darged damcaniaethol o 80% ac wedi canfod y byddai'n diwallu anghenion 95% o ddefnyddwyr preswyl, a 90% o fusnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, roedd defnyddwyr o'r farn bod targed o 80% yn cyfateb i gynnydd mewn prisiau o hyd at 25c, gan ddangos effaith fwy o lawer ar eu parodrwydd i dalu am wasanaeth nad yw cystal.<sup>247</sup> Ar ben hynny, wrth i lefelau ansawdd gwasanaethau ddisgyn, mae mwy o ddefnyddwyr yn debygol o ddefnyddio dulliau cyfathrebu eraill. Mae hyn yn dangos, ar lefel darged o 80%, nad yw anghenion y defnyddwyr hyn bellach yn cael eu diwallu orau gan wasanaethau Dosbarth Cyntaf. Byddai hefyd yn lleihau refeniw, gan waethygu effeithiau'r gostyngiad mewn niferoedd ar anwadalrwydd mewn ffyrdd sy'n ei gwneud yn anoddach cyflawni lefelau perfformiad uchel yn gyson. Yn 2020, roeddem wedi amcangyfrif y gallai gostwng i 80% wneud i bobl ddefnyddio dulliau eraill a allai wrthbwysu'r arbedion cost ac, yn ymarferol, gallai newid o'r fath leihau proffidoldeb.<sup>248</sup> Ar ben hynny, rydym yn poeni y byddai hyn yn golygu parhad lefel ansawdd sy'n debyg i berfformiad diweddar y Post Brenhinol, er enghraifft roedd wedi cyflawni 79.1% yn ystod chwarter cyntaf 2024/25.

- 6.42 Ar y sail hon, ein hasesiad yw bod yr opsiynau o 90% neu 85% yn ddewisiadau amgen posibl a allai daro cydbwysedd gwell na'r targed presennol o 93%, ac nad yw targed o 80% yn debygol o fod yn briodol.
- 6.43 Ein cynnig yw newid y targed Dosbarth Cyntaf presennol i fynnu bod 90% o'r post yn cael ei ddanfôn o fewn un diwrnod gwaith (D+1). Credwn y byddai hyn yn alinio'r targed yn well er budd defnyddwyr mewn ffyrdd maent yn eu gwerthfawrogi, ac yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, o'i gymharu â chynnal y targed presennol. Rydym hefyd yn nodi bod y Post Brenhinol wedi cynnig y gallai gyrraedd y lefel hon yn weithredol ac yn fasnachol. Gallai lleihau'r targed ymhellach (e.e. i 85%) wneud y lefel yn fwy addas i'r dyfodol gan y byddai'n costio llai ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol. Byddai hefyd yn cyd-fynd â gwledydd eraill tebyg yn Ewrop.
- 6.44 Gydag unrhyw ostyngiad i'r targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf presennol, byddem yn disgwyl i'r Post Brenhinol ailffocysu ei ymdrechion i ddarparu gwasanaeth dibynadwy iawn yn unol â'r canlyniadau mae defnyddwyr yn eu gwerthfawrogi, gan gynnwys perfformiad gwell mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, a pherfformiad post hwyr mwy cyson. Rydym yn trafod cymell perfformiad daearyddol a phost hwyr mewn is-adrannau dilynol.

---

<sup>246</sup> Cullen International, 2024.

<sup>247</sup> Cyfrifiadau Ofcom o Jigsaw Market Research (Jigsaw, 2020. [Ymchwil Defnyddwyr Post y DU: Adroddiad Ymchwil Meintiol](#))

<sup>248</sup> Ofcom, 2020. [Adolygiad o anghenion defnyddwyr post](#) tudalen 73

## Ail-osod targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf D+1 i gefnogi gwasanaeth cyfartal

- 6.45 Ar hyn o bryd, yn ogystal â'r targed cenedlaethol i ddanfôn 93% o bost Dosbarth Cyntaf D+1 rhaid i'r Post Brenhinol ddanfôn o leiaf 91.5% o bost Dosbarth Cyntaf o fewn un diwrnod gwaith ym mhob un o'r ardaloedd cod post y DU.<sup>249</sup> Nod y targed hwn yw sicrhau bod gwasanaeth cyfartal a chyffredinol ar gael ledled y DU drwy gyfyngu ar faint yr amrywiad mewn ansawdd mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Heb darged o'r fath, byddai mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol orgyflawni mewn rhai ardaloedd i gydbwysu tanberfformiad mewn ardaloedd eraill, tra'n dal i gyrraedd y targed cenedlaethol o 93%. Yn 2022 roeddem wedi adolygu'r targed PCA ac wedi cadarnhau ei rôl yn cymhell gwasanaeth o ansawdd uchel ledled y DU, gan gynnwys mewn ardaloedd anoddach eu cyrraedd.<sup>250</sup>
- 6.46 Yng ngoleuni ein gostyngiad arfaethedig i'r targed cenedlaethol, byddai cynnal y targed presennol o 91.5% ar gyfer PCA, mewn gwirionedd, yn parhau i ddal y Post Brenhinol i lefel uwch o berfformiad cyffredinol na'r targed cenedlaethol, ac felly'n tansilio amcanion ein cynnig. Felly, rydym o'r farn y byddai angen ailosod y targed PCA ar lefel is hefyd, yn gymesur â'r lefel genedlaethol ddiwygiedig. Yn benodol, mae angen inni ystyried a ddylid cynnal y gwahaniaeth presennol o 1.5 pwynt canran rhwng y targedau cenedlaethol a'r targedau PCA, neu a oes rhesymau dros ehangu'r gwahaniaeth rhwng y ddau darged hyn wrth ostwng y targed cenedlaethol.
- 6.47 At ei gilydd, mae canlyniadau PCA unigol yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol mewn unrhyw gyfnod penodol, gyda rhai'n gorgyflawni ac eraill yn tanberfformio. Mae hyn oherwydd bod cyfran sylweddol o'r methiannau a'r oedi sy'n cyfrannu at berfformiad ansawdd gwasanaeth yn deillio o ddigwyddiadau ar hap fel tarfu oherwydd y tywydd neu drafnidiaeth sy'n digwydd yn annibynnol mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae modd cynllunio ar gyfer y digwyddiadau hyn yn gyffredinol, a'u lliniaru drwy gynyddu'r byffer o adnoddau sydd ar gael i ddelio â tharfu ar hap, ond mae'n anoddach rhagweld pryd yn union a ble yn union byddant yn digwydd. Effaith gronnus nifer fawr o'r hap-ddigwyddiadau annibynnol hyn yw bod gan y rhan fwyaf o PCAs ganlyniadau sy'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol, gyda llai o PCAs yn tanberfformio'n sylweddol neu'n tanberfformio.
- 6.48 Yn gyffredinol, mae canlyniadau PCAs unigol mewn unrhyw flwyddyn benodol yn tueddu i gael eu dosbarthu'n eang fel arfer. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad daearyddol ar hap nifer o ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad ansawdd gwasanaeth. Fel rhan o'r fframwaith ansawdd gwasanaeth, er bod y targed cenedlaethol ar gyfer Dosbarth Cyntaf yn gosod lefel gyffredinol o berfformiad disgwylidig, rôl y targed PCA felly yw sicrhau bod y Post Brenhinol yn ymdrechu i gyfyngu ar amrywiant y dosbarthiad hwn i raddau rhesymol, yn ogystal â pheidio â gadael i rai ardaloedd danberfformio'n gyson.
- 6.49 Mae data hanesyddol yn dangos yn y blynyddoedd lle mae'r perfformiad cenedlaethol wedi bod yn is, fod y bwch yn fwy rhwng y PCAs sy'n perfformio waethaf a'r PCAs sy'n

---

<sup>249</sup> Ac eithrio tair ardal cod post - Hebrides, Kirkwall, a Lerwick – sydd wedi cael eu heithrio o'r targed oherwydd eu natur anghysbell. Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn yr ardaloedd hyn er mwyn bod yn dryloyw.

<sup>250</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post](#), tudalen 98-99

perfformio orau.<sup>251</sup> Mae hyn yn golygu, mewn blynyddoedd o'r fath, bod perfformiad rhai PCAs yn dirywio ymhellach, o'i gymharu â'r PCAs sy'n perfformio'n well, o'i gymharu â blynyddoedd pan fo'r perfformiad cenedlaethol yn uwch.

- 6.50 Yng nghyd-destun ein cynnig i newid y targed cenedlaethol, rydym yn disgwyl y byddai gwahaniaeth ychydig yn fwy rhwng y PCAs sy'n perfformio waethaf a'r PCAs sy'n perfformio orau, wrth gymharu â senario lle'r oedd y targed cenedlaethol presennol yn cael ei gyrraedd. Mae llawer o gostau cyflawni perfformiad uchel yn ymwneud â lliniaru effaith digwyddiadau niweidiol ar hap, drwy gynnwys byffer yn y system a dileu swyddi pan fydd pethau'n mynd o chwith. Byddem yn disgwyl i'r mathau o arbedion cost sy'n gysylltiedig â pherfformiad cenedlaethol is olygu bod PCAs unigol ychydig yn fwy agored i ddigwyddiadau ar hap sy'n effeithio ar ansawdd perfformiad eu gwasanaeth. Yn fwy cyffredinol, mae effaith hapddigwyddiadau ar berfformiad hefyd yn fwy ar lefel PCA nag ydyw ar lefel genedlaethol, oherwydd bod llai o gyfuno perfformiad ac oherwydd bod y ffactorau sy'n achosi amrywiadau mewn perfformiad yn gyffredinol yn anoddach eu rhagweld a'u rheoli ar lefelau mwy lleol.
- 6.51 Felly, nid ydym yn credu bod cadw'r bwlch presennol o 1.5 pwynt canran rhwng y targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf a'r targed PCA yn briodol yng nghyd-destun gostwng y targed cenedlaethol. Yn ymarferol rydym yn disgwyl y bydd y gost o gynnal y lefel hon o berfformiad PCA yn cyfyngu ar i ba raddau y bydd modd gwireddu manteision newid y targed cenedlaethol. Ar ben hynny, gallai fynd y tu hwnt i rôl y targed PCA presennol o ran cyfyngu ar amrywiadau daearyddol, ac i bob pwrpas gallai ddod yn brif darged rhwymol ar gyfer ansawdd Dosbarth Cyntaf, sy'n gofyn am lefel uwch o berfformiad cenedlaethol na 90%.
- 6.52 O ystyried hyn, ac o ystyried deinameg perfformiad PCA a nodir uchod, rydym wedi ystyried sut mae ailosod y targed PCA mewn perthynas â'r amcanion a nodir yn Adran 2. Mae hyn yn cynnwys cefnogi canlyniadau i ddefnyddwyr sef cael gwasanaeth cyfartal ledled y DU, cynaliadwyedd ariannol y buddsoddiadau disgwyliedig yn ansawdd y gwasanaeth cyffredinol, a rôl y targed PCA i gefnogi gwasanaeth cyffredinol o ansawdd uchel.
- a) Ein man cychwyn yw amcangyfrif dosbarthiad canlyniadau PCA gan dybio bod y perfformiad cenedlaethol yn agos at ein targed cenedlaethol arfaethedig o 90%. Ar sail dosbarthiad y canlyniadau PCA blynyddol pan roedd y Post Brenhinol agosaf at berfformiad cenedlaethol o 90%, byddem yn disgwyl i bron pob un (dros 99.7%) o'r PCAs gyflawni neu ragori ar 86%.<sup>252</sup> Mae'r Post Brenhinol wedi cynnig, felly, y gellid ailosod y targed PCA i'r lefel hon (86%) i adlewyrchu'r targed cenedlaethol o 90%, gyda goddefeb ychwanegol ar gyfer methiant chwe PCA mewn unrhyw flwyddyn benodol. Fodd bynnag, rydym o'r farn na fyddai'r lefel hon, ar ei phen ei hun, yn darged effeithiol i gymell y Post Brenhinol i gyfyngu ar raddfa'r amrywiadau lleol mewn perfformiad, gan

---

<sup>251</sup> Dadansoddiad Ofcom o berfformiad PCAs rhwng 2012/13 a 2023/24 a gyhoeddwyd gan y Post Brenhinol.

<sup>252</sup> Mae gwyrriad safonol yn mesur gwasgariad dosbarthiad. Mae'r amcangyfrif hwn, ar sail dadansoddiad o berfformiad PCA a gyhoeddwyd gan y Post Brenhinol rhwng 2012/13 a 2023/24, yn adlewyrchu'r egwyddor ystadegol y dylai 99.7% o ddata ddod o fewn tri gwyrriad safonol y naill ochr i gymedr y dosbarthiad. Rydym yn amcangyfrif bod tri gwyrriad safonol yn 3.9% ar sail data hanesyddol pan roedd y perfformiad tua 90% yn genedlaethol.

y byddem yn disgwyl i bob PCA gael perfformiad ar y lefel hon. Ar ben hynny, o ystyried lefel hyder wrth fesur a gorfodi'r targed PCA i fynd i'r afael â thanberfformiad, mae'n debygol na fyddai'r opsiwn hwn yn ddigon heriol ar sail data perfformiad yn y gorffennol.<sup>253</sup>

- b) Yn unol ag amcan targed y PCA sef cynnal cydraddoldeb y gwasanaeth cyffredinol, rydym o'r farn, er mwyn bod yn ystyrlon, y dylid gosod y targed ar lefel fwy heriol nag y byddai'n cael ei osod dim ond ar sail dadansoddiad ystadegol o berfformiad PCA yn y gorffennol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod digon o gymhellant i osgoi methiannau cyson neu barhaus mewn ardaloedd penodol ac mae'n cyd-fynd â'n dull gorfodi, gan gynnwys defnyddio cyfyngau hyder. Rydym o'r farn y byddai symud un y cant i fyny o'n man cychwyn ystadegol o 86% i 87% yn gosod terfyn ystyrlon ar amrywiad lleol ac yn cynrychioli ymrwymiad i ddefnyddwyr ynghylch gwasanaeth cyffredinol a chyfartal. Byddai hyn yn gosod y targed PCS tri phwynt canran yn is na'r targed cenedlaethol arfaethedig o 90%, a byddai'n cydbwysu rhwng cyfyngu ar danberfformiad a pheidio â mynd i gostau anghymesur.

- 6.53 Gan ystyried deinameg perfformiad PCA, rôl y targed PCA fel targed ategol i'r targed cenedlaethol sylfaenol ar gyfer Dosbarth Cyntaf, a'n hamcanion polisi, rydym yn cynnig ailosod targed PCA sy'n mynnu bod **87% o eitemau'n cael eu danfon o fewn un diwrnod gwaith (h.y. D+1)** ym mhob ardal cod post yn y DU ar wahân i HS, KW, ac AE. Gan fod y cynnig hwn yn adlewyrchu ein targed cenedlaethol arfaethedig o 90% ar gyfer Dosbarth Cyntaf, os byddwn yn ystyried targed cenedlaethol amgen, byddai angen i ni ailasesu targed PCA cyfrannol yn unol â'r egwyddorion a nodir uchod.
- 6.54 Yn ogystal ag ailosod lefel y targed PCA, yn ei ymateb i'r Cais am Fewnbwn mae'r Post Brenhinol wedi cynnig, yn achos targed PCA is, y dylai hefyd gael caniatâd i fethu mewn chwe PCA mewn unrhyw flwyddyn benodol. Credwn y gallai'r oddefeb hon olygu na fyddai'r targed yn ddigon heriol yn gyffredinol, ac yn benodol nid yw'n cymell digon ar y Post Brenhinol i fynd i'r afael â thanberfformiad cyson mewn ardaloedd penodol gan y gellid caniatâu i'r un PCAs fethu bob blwyddyn. Felly, nid ydym yn cynnig ychwanegu goddefebau ychwanegol ar gyfer PCAs i fethu'r targed PCA ar y lefel newydd, ac nid ydym chwaith yn gwneud unrhyw newidiadau i'r eithriad presennol i'r targed hwn ar gyfer tri PCA anghysbell, a fydd yn parhau i gael eu monitro ar wahân. Yn unol â'r arferion presennol, byddwn yn monitro perfformiad pob PCA unigol yn ofalus ac ni fyddwn yn oedi cyn ymgysylltu â'r Post Brenhinol am danberfformiad er mwyn osgoi methiannau cyson neu barhaus sy'n arwain at wasanaeth gwael mewn ardaloedd cod post penodol.

### Targed post hwyr Dosbarth Cyntaf D+3 newydd i gefnogi dibynadwyedd a sicrwydd

- 6.55 Rydym yn gwybod bod dibynadwyedd danfon yn flaenoriaeth allweddol i ddefnyddwyr, ac yn bwysicach na chyflymder i lawer o ddefnyddwyr. Mae cael sicrwydd am sut bydd post yn

---

<sup>253</sup> Mae perfformiad PCA yn cael ei fesur ar sail sampl o bost yn hytrach nag arsylwi perfformiad yr holl eitemau post, ac felly mae canlyniadau ansawdd gwasanaeth yn amcangyfrifon â chyfyngau hyder cysylltiedig (yn hanesyddol mae'r rhain wedi amrywio rhwng  $\pm 1\%$  a  $\pm 2\%$  ar gyfer canlyniadau PCAs unigol). Pan fyddwn yn gorfodi'r targed PCA, rydym yn ystyried beth allai'r perfformiad uchaf fod wedi bod, gan ystyried terfyn uchaf y cyfwng hyder.

cael ei ddanfôn yn gyson yn mynd y tu hwnt i ddeall a fydd post yn cael ei ddanfôn ar y dyddiad targed. Mae hefyd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r ffenestr pan fydd eitem o bost yn debygol o gyrraedd, gan ei bod yn anochel bod rhywfaint o bost yn cael ei ddanfôn yn gynnar, a rhywfaint yn hwyr. Mae gwneud y ffenestr hon mor gul a rhagweladwy â phosibl yn rhannau pwysig o sicrhau gwasanaeth dibynadwy.

- 6.56 Er bod y targedau ansawdd gwasanaeth presennol yn mesur cyfran y post sy'n cyrraedd yn ôl y fanyleb (h.y. ar amser), nid ydynt yn rhoi unrhyw dryloywder i ddefnyddwyr nac yn cymhell y Post Brenhinol mewn perthynas ag eitemau sydd wedi methu eu targed. Ar sail wirfoddol, mae'r Post Brenhinol wedi dechrau adrodd ar ei berfformiad ar fetrigau penodol post hwyr ers dechrau 2024/25, ac mae wedi cynnig ychwanegu targedau post hwyr at y fframwaith ansawdd gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio.
- 6.57 Mae llawer o wledydd eraill tebyg wedi cyflwyno targedau ategol er mwyn mesur y post hwyr a chymhell darparwyr gwasanaeth cyffredinol i ddarparu gwasanaeth dibynadwy ar gyfer eitemau sydd wedi methu eu prif darged, gan leihau hyd yr oedi, a rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr am ddibynadwyedd.<sup>254 255</sup>
- 6.58 Byddai cyflwyno targed post hwyr ar gyfer Dosbarth Cyntaf yn cyflawni sawl diben. Rydym o'r farn y byddai'n cefnogi canlyniadau gwell i ddefnyddwyr drwy gymhell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth dibynadwy a chyson ar gyfer eitemau sydd wedi methu eu targed danfon cychwynol, drwy gymryd camau i leihau graddfa ac amllder yr oedi. Ar yr un pryd, byddai ychwanegu at y targedau presennol fel hyn yn rhoi haen ychwanegol o hyder i ddefnyddwyr y bydd post hwyr yn cael ei ddanfôn yn gyson o fewn cyfnod penodol. Mae hyn yn ffordd o ailgydbwysu'r set o dargedau ymhellach at y canlyniadau mae defnyddwyr yn eu gwerthfawrogi.
- 6.59 Mae angen lefel darged uchel ar gyfer y targed post hwyr ategol hwn er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr a chymhell perfformiad. Rydym o'r farn, er mwyn gwireddu manteision y targed hwn, y dylid ei osod mewn ffordd fel y dylid cofnodi bron pob post, tra gallai lefelau targed is (e.e. 95%) olygu gwahaniaethau mwy ymylol rhwng lefel y targedau sylfaenol ac ategol, a thrwy hynny llai o hyder defnyddwyr a chymhelliant gwannach. Dylai'r diwrnod y mesurir y post hwyr (e.e. D+3 neu D+5) hefyd adlewyrchu cyfnod rhesymol, gan gydbwysu'r angen i gyfyngu ar raddfa'r oedi i bobl ac i fusnesau, gan sicrhau ar yr un pryd ei bod yn bosibl i'r Post Brenhinol ddanfôn i lefel darged uchel i gefnogi hyder defnyddwyr. Rydym wedi ystyried nifer o opsiynau o ran sut mae cydbwysu'r canlyniadau hyn:
- a) **96% ar D+2:** Mae'r Post Brenhinol wedi cynnig y dylai'r targed post hwyr ar gyfer Dosbarth Cyntaf fod yn 96% ar D+2 yng nghyd-destun targed diwygiedig o 90% D+1 ar gyfer Dosbarth Cyntaf. Rydym yn cydnabod bod yr opsiwn hwn yn cynnwys elfennau a fyddai'n gadarnhaol i ddefnyddwyr. Yn benodol, dim ond diwrnod ar ôl y prif darged fyddai'n cael ei bennu ar gyfer targed post hwyr D+2, ac felly byddai'n cymhell y Post Brenhinol i gyfyngu ar oedi hir drwy geisio danfon unrhyw eitemau sydd wedi methu'r

---

<sup>254</sup> Cullen International, 2024.

<sup>255</sup> Sylwch: Mae targedau post hwyr hefyd wedi bod yn rhan o gyfundrefnau rheoleiddio blaenorol ar gyfer gwasanaethau post yn y DU, e.e. cyn 2005, roedd angen danfon 99.9% o bost o fewn tri diwrnod gwaith i'w brif darged.

prif darged ar y diwrnod canlynol. Ar y llaw arall, byddai'r lefel darged o 96% yn golygu, o'r 10% o bost a fyddai'n cael methu'r targed cychwynnol sef D+1 byddai tua hanner (4%, sef y gwahaniaeth rhwng 96% a 100%) hefyd yn cael colli'r targed post hwyr sef D+2 ac wedyn heb darged cysylltiedig ar gyfer danfon. O safbwynt hyder defnyddwyr a sicrwydd danfon, mae'r lefel 96% felly'n debygol o fod yn annigonol o uchel, gan y byddai llawer o eitemau o hyd a allai lithro drwodd ac nid yw'n rhoi unrhyw arwydd erbyn pryd y dylid danfon yr eitemau hyn.

- b) **99.5% ar D+2:** Ail opsiwn fyddai ystyried agwedd D+2 cynnig y Post Brenhinol, ac ystyried lefel darged uwch, fel 99.5%. Rhaid i'r Post Brenhinol eisoes gyrraedd targed o 99.5% ar gyfer pecynnau post y bernir eu bod yn cael eu danfon ar draws gwasanaethau USO (heb amser penodol), a byddai hyn yn cyd-fynd â lefel yr ôl-stop hwnnw. Byddai hyn yn cynnal manteision ceisio cyfyngu ar raddfa'r oedi, yn ogystal â chofnodi bron pob eitem bost. Fodd bynnag, yng nghyd-destun perfformiad blaenorol y Post Brenhinol o bost Dosbarth Cyntaf D+2 byddai cyflawni'r lefel hon yn debygol o arwain at gostau gweithredol ar raddfa a allai achosi cynnydd mewn prisiau yn groes i fuddiannau defnyddwyr, a allai fod yn llai tebygol o gael eu cyflawni, neu ddod â risgiau ychwanegol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- c) **99.5% ar D+3:** Trydydd opsiwn fyddai ystyried lefel darged uchel sef 99.5% ar gyflymder danfon ychydig yn arafach sef D+3. Er bod gan rai gwledydd yn Ewrop dargedau post hwyr D+2 ar gyfer gwasanaethau'r diwrnod canlynol, yn fwy cyffredin, mae'r targedau ategol hyn yn D+3.<sup>256</sup> Byddai hyn yn golygu y byddai'r targed post hwyr yn ddau ddiwrnod gwaith ar ôl y prif darged sef danfon y diwrnod canlynol, gan roi cyfle ychwanegol i geisio ail-ddanfon. Yn y cyd-destun hwn, gallai daro cydbwysedd mwy cymesur na'r ddau opsiwn blaenorol, drwy gyfyngu ar oedi i ddau ddiwrnod gwaith, cefnogi lefel darged uchel fel bod defnyddwyr yn hyderus y dylid danfon bron pob post yn y ffenestr hon, heb wynebu costau mor sylweddol y gellid eu trosglwyddo i ddefnyddwyr neu greu risgiau eraill. Byddai hefyd yn cyd-fynd â chyflymder Ail Ddosbarth D+3, er mwyn i ddefnyddwyr allu elwa o ddanfon post Dosbarth Cyntaf hwyr yn ddim hwyrach na'r fanyleb Ail Ddosbarth.
- d) **99% ar D+5:** Mae'r Post Brenhinol hefyd wedi cynnig y gellid gosod lefel darged o 99% ar D+5. Yn wahanol i'r fanyleb diwrnod canlynol ar gyfer Dosbarth Cyntaf, byddai'r targed hwn yn rhoi pedwar diwrnod gwaith ychwanegol i'r Post Brenhinol ddanfon post wedi'i oedi, a byddai'n golygu y gellid danfon post Dosbarth Cyntaf hwyr yn arafach na phost Ail Ddosbarth.

6.60 Gan ystyried yr holl ffactorau uchod, ac yng nghyd-destun ein cynnig ar gyfer targed diwygiedig D+1 o 90%, ein cynnig yw cyflwyno targed post hwyr ar gyfer post Dosbarth Cyntaf a fyddai'n mynnu bod **99.5% o eitemau'n cael eu danfon o fewn tri diwrnod gwaith**

---

<sup>256</sup> Cullen International, 2024: Mae'r gwledydd sydd â thargedau ategol D+2 ar gyfer gwasanaethau D+1 yn cynnwys Awstria a'r Almaen (tan 2025). Mae'r gwledydd sydd â thargedau ategol D+3 gyfer gwasanaethau D+1 yn cynnwys Ffrainc (tan 2023), Gwlad Belg, Iwerddon, Lithwania, Estonia, Portiwgal (tan 2024).

**(h.y. D+3).**<sup>257</sup> Ar sail perfformiad yn y gorffennol, mae hyn yn adlewyrchu lefel y dibynadwyedd a ddarparodd y Post Brenhinol i ddefnyddwyr yn 2019/20, gan gydnabod y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol i'r Post Brenhinol o ran sut mae cyflawni'r lefel hon o wasanaeth yng ngoleuni ein bwriad i leihau'r targed cenedlaethol D+1.<sup>258</sup> I'r graddau y gall yr hyblygrwydd gweithredol hwn arwain at arbed costau, rydym yn disgwyl y byddai hyn yn cefnogi gwell canlyniadau i ddefnyddwyr drwy osgoi trosglwyddo costau i bobl ac i fusnesau. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â thargedau post hwyr gwledydd eraill yn Ewrop, gan roi'r DU ar frig yr ystod o wledydd tebyg.<sup>259</sup>

- 6.61 Er ein bod yn disgwyl y byddai manteision i gyflwyno targed post hwyr, rydym yn credu y byddai'n chwarae rôl ategol, ac y byddai'r targed ar gyfer danfon D+1 yn unol â'r fanyleb yn parhau i fod yn brif darged y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol fod yn atebol iddo mewn perthynas â Dosbarth Cyntaf. Mae defnyddwyr yn disgwyl bod post yn cael ei ddanfôn ar amser, yn gyfnewid am yr hyn maent wedi'i dalu. Diben y targed post hwyr felly yw ategu'r prif darged, gan gymhell y Post Brenhinol i gyfyngu ar raddfa'r oedi a rhoi gwell sicrwydd i ddefnyddwyr o'r ffenestr danfon ar gyfer eitemau post. Serch hynny, rydym o'r farn y byddai targed post hwyr mae'r Post Brenhinol yn ei gyflawni yn dod â budd sylweddol i ddefnyddwyr drwy roi hyder y byddai eu llythyrau Dosbarth Cyntaf yn cael eu danfon yn brydlon, yn ogystal â helpu i drwsio'r difrod i hyder sydd wedi codi oherwydd perfformiad gwael y Post Brenhinol o ran ansawdd gwasanaeth.

## Targedau Ail Ddosbarth

### Targed Ail Ddosbarth D+3 wedi'i addasu i adlewyrchu'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos

- 6.62 Rydym yn cydnabod y gallai'r diwygiadau arfaethedig i ddanfôn llythyrau Ail Ddosbarth ei gwneud hi'n anoddach cyrraedd y targed ansawdd gwasanaeth presennol sef danfon 98.5% o bost Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith (h.y. D+3), ac rydym felly wedi ystyried a yw'n briodol cynnal y lefel hon. Fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol, rydym yn cynnig diwygiadau i'r fanyleb danfon llythyrau Ail Ddosbarth gan ein bod yn credu y byddai'r newidiadau hyn yn hyrwyddo canlyniadau gwell o ran manteision i ddefnyddwyr yn ogystal â chefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Er y gallai fod yn bosibl i'r Post Brenhinol liniaru effaith y diwygiadau hyn ar ansawdd gwasanaeth drwy fuddsoddi rhagor mewn ansawdd gwasanaeth Ail Ddosbarth, rydym yn cydnabod y byddai buddsoddiad o'r fath o reidrwydd yn lleihau'r arbedion cost a ragwelir, ac y gallai fod yn wrthgynhyrchiol i'r amcanion polisi o gefnogi canlyniadau i ddefnyddwyr a chynaliadwyedd ariannol, fel yr amlinellir yn Adran 2.

---

<sup>257</sup> Gan fod y cynnig hwn yn adlewyrchu ein targed cenedlaethol arfaethedig D+1 o 90% ar gyfer Dosbarth Cyntaf, os byddwn yn ystyried targed cenedlaethol amgen, byddai angen i ni ailasesu targed post hwyr cymesur yn unol â'r egwyddorion a nodir uchod.

<sup>258</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>259</sup> Cullen International, 2024: Mae hyn yn cynnwys Iwerddon, 99.5% D+3, Ffrainc 99% D+3 (tan 2023), Gwlad Belg 97% D+3 (llythyrau Dosbarth Cyntaf) a 97% D+2 (parseli), a'r Almaen 99% D+4 (o 2025).



- 6.63 Yn ymarferol, byddai symud i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, heb ddanfon ar ddydd Sadwrn, yn lleihau nifer y cyfleoedd sydd gan y Post Brenhinol i geisio danfon llythyrau Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith i'w casglu. Fel y disgrifir yn Adran 5, mae'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn golygu y byddai pob cyfeiriad danfon yn cael ei wasanaethu bob yn ail ddiwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener, gyda phatrwm bob yn ail wythnos rhwng danfon ar ddydd Llun, dydd Mercher, dydd Gwener, a danfon ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Gan ddibynnu ar ba bryd y bydd llythyr Ail Ddosbarth yn cael ei bostio, a phatrwm danfon cyfeiriad y derbynnydd, byddai'r Post Brenhinol naill ai'n cael un cyfle danfon ar D+2, neu gyfleoedd danfon ar D+1 a D+3. Ar hyn o bryd, mae'r Post Brenhinol yn cael tri chyfle i ddanfon (h.y. ar D+1, D+2, a D+3), felly byddai'r newid i'r model danfon yn golygu bod ganddynt un, neu ddau yn llai o gyfleoedd i ddanfon unrhyw lythyr Ail Ddosbarth penodol.
- 6.64 Byddai disgwyl i'r gostyngiad hwn mewn cyfleoedd danfon effeithio ar berfformiad y Post Brenhinol, gan wneud y targedau Ail Ddosbarth presennol yn anoddach i'w cyflawni i bob pwrpas. Efallai y bydd yn rhaid danfon rhai llythyrau yn gynt nag y byddai'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn defnyddio'r unig gyfle i ddanfon llythyrau ar D+2. Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai modd cyflymu'r holl lythyrau a fyddai'n cael eu danfon ar hyn o bryd ar D+3 er mwyn eu prosesu a'u bod yn barod i'w danfon ar D+2. Yn yr achosion hyn, lle nad oedd modd danfon llythyrau ar D+2 i'r pwyntiau danfon gofynnol, byddai'r rhain yn cael eu gohirio tan D+4, ac felly byddent yn cael eu danfon yn hwyr.
- 6.65 Yn fwy cyffredinol, byddai mwy o ddibyniaeth ar ddanfon eitemau'n llwyddiannus lle mae gan y Post Brenhinol gyfleoedd i wneud hynny, a byddai effaith unrhyw fethiannau'n cael ei dwysáu. Ar gyfer eitemau y byddai dim ond un cyfle i'w danfon cyn y targed D+3, byddai'r risg hon yn arbennig o ddifrifol. Ar gyfer eitemau eraill, byddai'r patrwm danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn golygu y byddai post sy'n cael ei brosesu ar D+2 yn cael ei ddal yn ôl i'w ddanfon ar D+3. Yn yr achos hwn, mae hi hefyd yn debyg y bydd mwy o ddibyniaeth ar gwblhau'r danfon yn llwyddiannus ac effaith gysylltiedig uwch unrhyw fethiannau ar D+3.<sup>260</sup>
- 6.66 Mae goblygiad ychwanegol i'r newid i'r fanyleb danfon yn effeithio ar gyfrifo amseru'r llwybr, sy'n cael ei ddefnyddio i fesur ansawdd y gwasanaeth. Fel y nodir yn Adran 5, rydym yn cynnig bod casgliadau'n gweithredu'r un mor aml ag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o dan y newidiadau arfaethedig, y dyddiad casglu tybiedig ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth a pharseli a dderbynnir ar ddydd Sadwrn fydd dydd Llun, fel arall byddai'n rhaid i'r Post Brenhinol brosesu llythyrau o'r fath yn llawn ar ddydd Sadwrn a allai beryglu rhai o fanteision y diwygio. At ddibenion cyfrifo amseru'r llwybr, a thrwy hynny fesur ansawdd y gwasanaeth, byddai hyn yn golygu ar gyfer eitemau sy'n cael eu postio rhwng dydd Mercher a dydd Sadwrn, y byddai'r ffenestr D+3 ar gyfer danfon ar amser yn dechrau ac yn gorffen un diwrnod yn ddiweddarach nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd (gweler Tabl 5.2 yn Adran 5).

---

<sup>260</sup> Mae hyn yn golygu, o dan y fanyleb bresennol, efallai na fydd methu danfon llythyr ar ddiwrnod penodol yn golygu bod y llythyr yn cael ei ddanfon yn hwyr, gan fod cyfleoedd i geisio ail-ddanfon. Fodd bynnag, o dan y model arfaethedig i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, lle mae llai o gyfleoedd i ddanfon llythyrau - dim ond un cyfle o fewn amserlen D+3 mewn rhai achosion - byddai methu cyflawni yn fwy tebygol o olygu bod y llythyr yn cael ei ddanfon yn hwyr.

- 6.67 Gan ddefnyddio'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos gyda data perfformiad y gorffennol, mae'r Post Brenhinol wedi cynhyrchu amcangyfrif bras o'r effaith ar ansawdd cyffredinol y gwasanaeth sydd: (1) yn ystyried y newidiadau i (a) cyfrifo'r dyddiadau casglu a (b) y newidiadau i'r dyddiadau danfon ar gyfer y model newydd; ond (2) nid yw'n ystyried bod effaith y newidiadau yn dibynnu ar lwyddo i ddanfon lle mae'r cyfle'n bodoli. Gallai hyn olygu y gallai danamcangyfrif yr heriau posibl o symud i'r model danfon newydd. Mae cyfyngiadau pellach y dadansoddiad effaith ystadegol yn cynnwys materion cynrychioliadol gyda data perfformiad y gorffennol, sy'n cyflwyno ansicrwydd pellach, gan gynnwys y potensial i'r effeithiau ar ansawdd gwasanaeth fod yn fwy o lawer na'r hyn a ragwelwyd.
- 6.68 Gan ystyried y ffynonellau hyn o ansicrwydd, ynghyd ag amcangyfrif y Post Brenhinol o'r effaith sylfaenol o symud i amserlen danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, sef rhwng 1% a 3% yn llai o bost Ail Ddosbarth yn cael ei ddanfon ar D+3,<sup>261</sup> ein hasesiad dros dro yw y byddai cynnal y targed presennol o 98.5% yn anghymesur ac yn wrthgynhyrchiol yng nghyd-destun ein diwygiadau arfaethedig i'r USO ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth.
- 6.69 Ein cynnig yw newid y targed presennol i **fynnu bod 95% o'r eitemau'n cael eu danfon o fewn tri diwrnod gwaith (h.y. D+3)**. Byddai hyn yn adlewyrchu effeithiau tebygol symud i'r model danfon diwygiedig ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth, gan gynnal gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyffredinol i ddefnyddwyr ar yr un pryd. Yn ei ymateb i'r Cais am Fewnbwn, cefnogodd y Post Brenhinol opsiwn o darged diwygiedig o 95% ar gyfer post Ail Ddosbarth D+3 fel sy'n briodol ar gyfer ei fodel danfon newydd ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Gan y byddai'r newid hwn yn adlewyrchu'r newid gweithredol i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod, rydym yn disgwyl i hyn gefnogi amcan polisi cyffredinol o wireddu gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol, a chyflawni manteision USO i ddefnyddwyr yn well yn unol ag anghenion defnyddwyr. O ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am ddewisiadau defnyddwyr, rydym o'r farn bod targed o 95% yn cynrychioli gwasanaeth o ansawdd uchel. Wrth gymharu â gwledydd tebyg, mae 95% yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd, a dweud y gwir mae'n uwch na llawer o wledydd eraill yn Ewrop.<sup>262</sup>

### Targed post hwyr Ail Ddosbarth D+5 newydd i gefnogi dibynadwyedd a sicrwydd

- 6.70 Rydym yn cydnabod bod llawer o'r rhesymau dros gynnig targed post hwyr ar gyfer Dosbarth Cyntaf hefyd yn berthnasol i Ail Ddosbarth, sef fel ffordd o ailgydbwyso cymhellion i ddarparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel drwy leihau hyd yr oedi. Ar ben hynny, o ymchwil defnyddwyr ac ymatebion i'n Cais am Fewnbwn, rydym yn deall bod rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi rhagor o sicrwydd am ansawdd gwasanaeth yng nghyd-destun y danfon yn llai aml, fel y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Am y rhesymau hyn, rydym wedi asesu a allai cyflwyno targed post hwyr ar gyfer Ail

---

<sup>261</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>262</sup> Cullen International, 2024: Mae hyn yn cyd-fynd â tharged D+3 yr Almaen o 95%, a tharged Ffrainc ar gyfer ei gwasanaeth D+3 tra roedd yn gweithredu, ac yn uwch na gwledydd eraill Ewrop gan gynnwys (85% ar gyfer llythyrau D+3 Norwy, 85% ar gyfer llythyrau D+3 Gwlad Pwyl, a 93% ar gyfer llythyrau D+3 Sbaen).

Ddosbarth gyflawni'r amcanion a nodir yn Adran 2 fel rhan o fframwaith rheoleiddio diwygiedig.

- 6.71 Mae'r Post Brenhinol hefyd wedi cydnabod gwerth targed post hwyr ar gyfer Ail Ddosbarth, ac wedi cynnig targed o 99% ar gyfer D+5. Ein hasesiad dros dro yw bod D+5 yn ddyddiad briodol i bennu'r targed post hwyr. Byddai'r amserlen danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn cyfyngu ar gyfleoedd danfon oherwydd y byddai llythyrau Ail Ddosbarth yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod. Un o oblygiadau hyn fyddai, os na fyddai eitem yn cael ei danfon erbyn y trydydd diwrnod gwaith ar ôl ei chasglu (h.y. D+3), ni fyddai'r Post Brenhinol bob amser yn ceisio ail-ddanfon ar y diwrnod gwaith nesaf yn ystod yr wythnos (h.y. D+4). I'r gwrthwyneb, erbyn y pumed diwrnod gwaith ar ôl casglu (h.y. D+5), byddai pob eitem sydd wedi methu'r targed D+3 wedi cael o leiaf un cyfle ychwanegol i gael ei danfon. O'r herwydd, rydym o'r farn mai D+5 yw'r dyddiad cynharaf priodol i osod targed post hwyr i gymell lleihau oedi ar gyfer eitemau sydd wedi methu'r targed cychwynnol. Rydym o'r farn na fyddai dyddiad targed hwyrach (e.e. D+7 neu D+9) yn darparu targed digon heriol yn unol â'r amcan o sicrhau'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr drwy leihau'r oedi.
- 6.72 Fel y nodwyd, mae'r Post Brenhinol wedi cynnig y dylai'r targed post hwyr newydd ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth fod yn 99% ar D+5. Fel y nodwyd mewn perthynas â Dosbarth Cyntaf, dylai'r targed post hwyr gofnodi bron pob post er mwyn rhoi cymhelliant a rhoi hyder i ddefnyddwyr y bydd eu post nad yw'n flaenoriaeth yn cael ei ddanfon yn amserol. Credwn fod 99.5% yn darged mwy priodol yn hyn o beth. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd cael targedau post hwyr sy'n cyd-fynd ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn arwain at fanteision posibl o ran dealltwriaeth a hyder defnyddwyr. Rydym o'r farn bod cael targed cyson o 99.5% yn ei le ddau ddiwrnod gwaith ar ôl y prif dargedau presennol yn cefnogi'r nod hwn. Ein cynnig felly yw cyflwyno targed post hwyr Ail Ddosbarth sy'n **mynnu bod 99.5% o eitemau'n cael eu danfon o fewn pum diwrnod gwaith (h.y. D+5).**

## Ein newidiadau arfaethedig i dargedau ansawdd gwasanaeth

---

### Fframwaith wedi'i ddiweddarau

- 6.73 Yn gryno, rydym yn cynnig y newidiadau canlynol i'r targedau ansawdd gwasanaeth mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu cyrraedd mewn perthynas â gwasanaethau USO:
- Y targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf i fynnu bod 90% o eitemau'n cael eu danfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1).
  - Y targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf i fynnu bod 87% o eitemau'n cael eu danfon y diwrnod canlynol (h.y. D+1) ym mhob un o'r 118 ardal cod post yn y DU.
  - Targed post hwyr Dosbarth Cyntaf newydd i fynnu bod 99.5% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen tri diwrnod (h.y. D+3).
  - Y targed Ail Ddosbarth i fynnu bod 95% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen tri diwrnod (h.y. D+3).
  - Targed Ail Ddosbarth newydd i fynnu bod 99.5% o eitemau'n cael eu danfon cyn pen pum diwrnod (h.y. D+5).

- 6.74 Rydym wedi cynnig y newidiadau hyn gan ystyried sut mae'r farchnad bost wedi newid ers gosod y targedau presennol bron i ddau ddegawd yn ôl, yn ogystal â'r dystiolaeth sydd ar gael ar ddewisiadau a blaenoriaethau defnyddwyr y post a goblygiadau tebygol targedau i ddefnyddwyr ac i'r Post Brenhinol. Yn ein barn ni, mae'r newidiadau hyn, gyda'i gilydd, yn hyrwyddo'r amcanion polisi a nodir yn Adran 2, sef y byddai'r set hon o dargedau arfaethedig yn cefnogi manteision USO diwygiedig i ddefnyddwyr yn unol ag anghenion defnyddwyr, y byddai'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac yn hollbwysig y byddai'n cymell gwasanaeth dibynadwy ac o ansawdd uchel.

## Newidiadau arfaethedig i Amod 1 y DUSP

- 6.75 Er mwyn rhoi'r cynigion a nodir uchod ar waith, rydym yn cynnig addasu Tabl 1 yn Amod 1 Y DUSP.
- 6.76 Mae Atodiad A8 yn cynnwys hysbysiad statudol o'n newidiadau arfaethedig i Amod 1 y DUSP. Mae Atodlen 1 i Atodiad A8 yn gopi o Amod 1 y DUSP wedi'i farcio i ddangos ein haddasiadau arfaethedig, ac mae Atodlen 2 yn cynnwys tabl sy'n nodi'r addasiadau arfaethedig mewn fformat hygyrch.

## Profion cyfreithiol

- 6.77 Yn unol ag adran 36(3) o'r Ddeddf, rydym o'r farn bod angen addasu'r targedau ansawdd gwasanaeth a nodir yn Amod 1 y DUSP fel y disgrifir uchod er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth a nodir yn y Gorchymyn yn cael eu darparu.<sup>263</sup>
- 6.78 Wrth asesu'r cyfaddawd sy'n gysylltiedig â newid targedau ansawdd gwasanaeth amrywiol, rydym wedi ystyried sut mae'r set o dargedau yn gweithredu fel fframwaith i ddal gwasanaethau a gweithrediadau'r Post Brenhinol yn atebol ar y cyd. Yn ein barn ni, mae'r set hon o newidiadau yn bodloni'r profion cyfreithiol i newid amodau'r DUSP fel y nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 6 y Ddeddf, fel a ganlyn:
- 6.79 **Yn gyfiawn yn wrthrychol:** Rydym o'r farn bod y dystiolaeth rydym wedi'i hamlinellu yn cyfiawnhau ailgydbwysu'r set o dargedau ansawdd gwasanaeth, gan gynnwys y newidiadau mawr i weithrediad y farchnad llythyrau, arwyddocâd y costau uwch sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cyffredinol, ac anghenion defnyddwyr. Wrth asesu'r diwygiadau arfaethedig i'r targedau presennol, yn ogystal â chyflwyno targedau post hwyr newydd, rydym wedi ystyried y cydbwysedd rhwng y dystiolaeth sydd ar gael ar gostau ac anghenion defnyddwyr yn ogystal â dadansoddiad ystadegol o berfformiad yn y gorffennol a chymariaethau rhyngwladol. Yn achos y targed cenedlaethol sylfaenol D+1 a'r targed PCA cysylltiedig ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, mae modd cyfiawnhau gostyngiadau cymedrol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol ar yr un pryd â sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, gan adlewyrchu'r cydbwysedd mae'n rhaid ei gael rhwng fforddiadwyedd prisiau, sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel, a dibynadwyedd. Rydym o'r farn bod newid y targed D+3 ar gyfer Ail Ddosbarth yn addasiad cymesur i'r model newydd ar gyfer danfon llythyrau Ail Ddosbarth, gan gynnal safon uchel i ddefnyddwyr ar yr un pryd. Mae ein

---

<sup>263</sup> Adran 36(3) o'r Ddeddf.

cynigion i gyflwyno targedau post hwyr newydd ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr o ran dibynadwyedd, gan fynd i'r afael â bwlch mewn cymhelliant a sicrhau y bydd bron pob post yn cael ei ddanfon o fewn amser rhesymol.

- 6.80 **Yn gymesur mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Rydym wedi ystyried a disgrifio'r ffordd y gallai targedau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth sy'n aros ar y lefelau presennol arwain at gostau anghymesur i'r Post Brenhinol, a allai yn y pen draw arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr ac ychwanegu at y risgiau i gynaliadwyedd yr USO. Rydym o'r farn bod ein newidiadau arfaethedig yn gymesur o ran eu bod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yn canlyniadau i ddefnyddwyr – gan sicrhau gwasanaeth post dibynadwy a fforddiadwy o ansawdd uchel (gan gydnabod efallai y bydd rhywfaint o gyfaddawdu rhwng y rhain) – a'r baich ar y Post Brenhinol.
- 6.81 **Ddim yn gwahaniaethu'n ormodol:** Rydym o'r farn nad yw'r cynigion ar gyfer newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth yn gwahaniaethu'n ormodol gan fod addasiadau i amodau'r DUSP ond yn berthnasol i'r Post Brenhinol. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd am effeithiau dosbarthiadol y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer Ail Ddosbarth, a'r targed Ail Ddosbarth is. Rydym yn gwybod bod targedau is yn gyffredinol yn caniatáu ar gyfer mwy o amrywiaeth mewn perfformiad ar lefel leol. Byddwn yn parhau i fonitro amrywiadau daearyddol yn agos wrth i'r Post Brenhinol brofi'r model danfon arfaethedig, a byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau gwasanaeth cyffredinol a chyfartal. Rydym hefyd o'r farn y dylai diwygio'r targed PCA ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, a chyflwyno targedau post hwyr ar gyfer post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth sy'n fwy cyfartal ar draws y DU.
- 6.82 **Tryloyw:** Rydym wedi nodi ein rhesymeg mewn perthynas â'r dull gweithredu cyffredinol rydym wedi'i fabwysiadu wrth gyflwyno newidiadau arfaethedig i'r set o dargedau, yn ogystal â phob un o'r newidiadau unigol rydym yn eu cynnig, yn y ddogfen ymgynghori hon.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

### Dosbarth Cyntaf:

#### **Cwestiwn 6.1**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i osod targed perfformiad cenedlaethol Dosbarth Cyntaf D+1 i 90%? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.

#### **Cwestiwn 6.2**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i osod targed perfformiad D+1 PCA Dosbarth Cyntaf 3% yn is na'r targed cenedlaethol (h.y. bod y targed PCA yn 87% i gyd-fynd â'n targed cenedlaethol arfaethedig o 90%)? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.

#### **Cwestiwn 6.3**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno targed post hwyr Dosbarth Cyntaf newydd sef D+3 i 99.5%? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.

### Ail Ddosbarth:

#### **Cwestiwn 6.4**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i osod targed perfformiad Ail Ddosbarth D+3 i 95%? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.

#### **Cwestiwn 6.5**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno targed post hwyr Ail Ddosbarth newydd sef D+5 i 99.5%? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.

# 7. Newidiadau arfaethedig i'r amod mynediad

## Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn nodi ein cynigion i newid y rhwymedigaeth ar y Post Brenhinol i gynnig mynediad i'w rwydwaith post.

## Yn fyr

- Post swmp yw'r rhan fwyaf o'r llythyrau a anfonir heddiw, h.y. y llythyrau a anfonir gan sefydliadau mawr megis banciau, adrannau'r llywodraeth, y GIG neu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw post swmp yn rhan o'r USO.
- Mae'r Post Brenhinol yn cynnig ei wasanaethau post swmp ei hun ar sail fasnachol, ond rydym hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol (drwy Amod Mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol (Amod USPA)) yn cynnig mynediad i'w rwydwaith i gwmnïau post eraill er mwyn iddynt allu cynnig gwasanaethau post swmp sy'n cystadlu. Rhaid i'r Post Brenhinol hefyd gynnig mynediad yn uniongyrchol i ddefnyddwyr post mawr (gyda'i gilydd. Mae'r post sy'n cael ei anfon drwy wasanaethau mynediad (a elwir yn 'bost mynediad') yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r farchnad post swmp.
- Mae angen model danfon wedi'i ddiweddarau ar gyfer llythyrau USO a phost mynediad er mwyn i'r Post Brenhinol gyflawni'r arbedion cost yn sgil diwygio.
- Rydym yn cynnig rheoleiddio'r gwaith o ddanfon gwasanaethau mynediad D+3 newydd o dan yr Amod USPA, a fydd yn ceisio danfon llythyrau o fewn tri diwrnod yn ystod yr wythnos ar ôl cael eu casglu gan yr anfonwr o dan yr un model danfon bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos â'r un sy'n cael ei gynnig ar gyfer llythyrau Ail Ddosbarth. Rydym yn credu y bydd y newid arfaethedig hwn yn parhau i ganiatáu marchnad gystadleuol ddynamig ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.
- Rydym yn cynnig rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn ar gyfer gwasanaethau mynediad D+5, er mwyn gallu danfon y post hwn o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos.
- Yng nghynllun y Post Brenhinol ar gyfer diwygio, roedd yn cynnig cael gwared â'r gwasanaethau mynediad D+2 presennol o gael eu rheoleiddio. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gweld achos dros gael gwared ar fynediad D+2 o'r Amod USPA, gan nad ydym yn credu bod y farchnad wedi newid eto mewn ffordd a fyddai'n cyfiawnhau hyn. Ond, byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn. Rydym yn cynnig diweddarau gwasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol ar gyfer rheoli'r wasgfa ar elw mynediad D+2.
- Rydym hefyd yn gwneud cynigion i wella tryloywder o ran ein hasesiad o'r rheolaeth wasgu elw ar wasanaethau mynediad, sut rydym yn diffinio gwasanaethau mynediad yn yr Amod USPA, a sut dylai'r Post Brenhinol gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth am fynediad D+3.

## Cyflwyniad

---


- 7.1 O ran yr Amod USPA, mae Ofcom yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad i'w rwydwaith post i drydydd partïon, gan gynnwys cwmnïau post eraill a sefydliadau sy'n defnyddio llawer o bost, er mwyn iddynt allu defnyddio ei wasanaethau danfon llythyrau'r filltir olaf. Mae hyn yn galluogi'r cwmnïau post hyn i gasglu post swmp gan fusnesau a sefydliadau eraill, ei dddoli, a'i ddsbarthu i ganolfannau post am i mewn ("IMC")<sup>264</sup> y Post Brenhinol o lle mae'n cael ei ddanfôn i unigolion ac i sefydliadau (gweler Ffigur 7.1 isod). Mae defnyddwyr post mawr sydd â mynediad hefyd yn gallu didoli eu post eu hunain a'i ddsbarthu i IMC y Post Brenhinol i'w ddanfôn. Rydym yn galw hyn yn 'bost mynediad'. Mae'r post mynediad hwn yn sicrhau bod defnyddwyr post mawr yn elwa o gystadleuaeth pris a gwasanaeth wrth gasglu a didoli post ar yr un pryd â gallu manteisio ar sefyllfa unigryw'r Post Brenhinol o ran danfon llythyrau. Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig ei wasanaethau post swmp ei hun i fusnesau ac i sefydliadau drwy ei gangen manwerthu, Royal Mail Retail. Nid yw'r gwasanaethau manwerthu hyn yn cael eu rheoleiddio ac maent yn cystadlu'n uniongyrchol am gwsmeriaid â chwmnïau mynediad.
- 7.2 Mae post swmp, gan gynnwys post mynediad a phost manwerthu'r Post Brenhinol ei hun, yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r holl bost. Yn 2023/24, anfonwyd 9 biliwn o lythyrau. O hyn, mae post swmp yn cynrychioli 5.7 biliwn o eitemau, neu 63% o'r cyfanswm. Gyda 4.8bn o lythyrau, mae post mynediad yn cynrychioli 83% o lythyrau post swmp.

---

<sup>264</sup> Mae 'Canolfan Post am i Mewn' neu 'IMC' yn golygu'r rhan o'r ganolfan bost lle mae'r gweithgareddau'n ymwneud â'r prosesau didoli terfynol i ddanfôn post (yn nalgylch y ganolfan bost honno) a dderbynnir o'r rhan ymhellach i fyny ffrwd rhwydwaith y Post Brenhinol, neu gan gwmnïau post eraill, i'r cyfeiriadau terfynol. Mae rhan ymhellach i fyny ffrwd rhwydwaith y Post Brenhinol yn cynnwys y prosesau sy'n ymwneud â chasglu a ddsbarthu post i Ganolfannau Post am i Mewn.



**Ffigur 7.1: Cadwyn gwerth gwasanaeth post, gan gynnwys post o un pen i'r llall a phost mynediad**



7.3 Mae'r Post Brenhinol yn defnyddio'r un rhwydwaith i ddanfôn post swmp fel post un eitem sy'n cael ei anfon gan ddefnyddio gwasanaethau USO, ac mae'n rhaid iddo ddanfôn post mynediad o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. O ystyried hyn, a bod y rhan fwyaf o'r llythyrau sy'n cael eu hanfon yn bost swmp, byddai'r cynigion yn Adran 5 yr ymgynghoriad hwn ond yn galluogi'r Post Brenhinol i weithredu model danfon wedi'i foderneiddio ar gyfer lleiafrif o'r llythyrau yn y farchnad, gan gyfyngu ar yr arbedion costau sy'n bosibl drwy ddiwygio. Er mwyn sicrhau bod arbedion costau diwygio – a'r manteision i ddefnyddwyr drwy brisiau is yn y tymor hir – yn ystyrlon, mae angen i'r Post Brenhinol hefyd allu danfon y rhan fwyaf o bost swmp o dan y model arfaethedig i ddanfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Yn unol â hynny, mae'r adran hon yn asesu effaith newidiadau i reoleiddio mynediad a fyddai'n cefnogi'r canlyniad hwn, ac mae'n nodi ein cynigion ar i addasu'r Amod USPA.

## Y farchnad post swmp

7.4 Yn yr adran hon, rydym yn nodi sut mae'r farchnad post swmp yn gweithredu a sut mae post mynediad yn gweithredu yn y farchnad post swmp.

### Post Swmp

7.5 Mae post swmp yn cyfeirio at ystod o wasanaethau a ddarperir i anfonwyr llawer iawn o bost, fel arfer sefydliadau fel y GIG, asiantaethau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a banciau. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu prasio ar ddisgownt sylweddol i gynnyrch llythyrau safonol a stampiau llythyrau mawr, gyda'r disgowntiau'n adlewyrchu'r niferoedd mawr sy'n cael eu hanfon a'r ffordd mae'r post wedi cael ei gyflwyno gan gwsmeriaid post swmp neu gwmnïau mynediad, ymysg ffactorau eraill.

7.6 Mae gwasanaethau post swmp fel arfer ar gael i gwsmeriaid naill ai drwy gynigion manwerthu'r Post Brenhinol ei hun, neu drwy ddefnyddio cwmni mynediad fel sy'n cael ei esbonio ymhellach isod. Rydym yn defnyddio'r term 'post swmp' i sôn am yr holl bost sy'n

cael ei anfon naill ai gan ddefnyddio cynigion manwerthu'r Post Brenhinol neu gan gwmni mynediad.

- 7.7 O'r gweithdai a gynhaliodd Ofcom gyda defnyddwyr post mawr yn 2019 ac yn 2020, rydym yn deall, er bod defnyddwyr mawr yn rhagweld y byddant yn defnyddio llai o bost yn y dyfodol, nad yw mathau eraill o gyfathrebu yn gallu cymryd eu lle yn llwyr. Mae rhai cwsmeriaid i ddefnyddwyr mawr yn dal i ffafrio gael biliau a chyfriflenni drwy'r post. Dywedodd llawer o ddefnyddwyr mawr wrthym hefyd fod prisiau, ansawdd gwasanaeth, cyflymder a/neu dracio yn ffactorau pwysig a oedd yn sail i'w penderfyniadau ynghylch faint o bost i'w anfon.<sup>265</sup> Mae hyn yn cyd-fynd â'r math o ymateb a gawsom gan ddefnyddwyr gwasanaethau post mawr yn ein Cais am Fewnbwn.<sup>266</sup>

## Post mynediad

- 7.8 Mae post mynediad yn golygu post sy'n cael ei gasglu a'i ddioli gan barti ar wahân i'r Post Brenhinol, cyn ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol i'w ddanfon (yn gyffredinol yn y Ganolfan Post am i mewn yn unol â Ffigur 7.1 uchod). Gallai hyn fod yn gwmni post arall, neu'r cwsmer ei hun, yn dibynnu ar y cytundeb penodol sydd ar waith.<sup>267</sup> Rydym yn galw unrhyw barti sydd â mynediad yn 'gwmni mynediad'. Mae cwmnïau mynediad yn gwneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol i ddanfon post i gwsmeriaid ar sail telerau safonol.
- 7.9 Mae adran manwerthu'r Post Brenhinol, Royal Mail Retail, yn cystadlu â chwmnïau mynediad i ddarparu gwasanaethau post swmp. Gan fod gan y Post Brenhinol rwydwaith cenedlaethol o ganolfannau post a swyddfeydd danfon, mae'n elwa o arbedion maint sylweddol wrth ddanfon post, gan ei wneud yn fwy effeithlon yn y 'fylltir olaf'. Oherwydd y byddai'r 'fylltir olaf' yn ddrud iawn i gwmnïau mynediad ei efelychu, rydym yn mynnu bod y Post Brenhinol yn rhoi mynediad i'w rwydwaith i gefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp. Mae ein trefn reoleiddio yn ceisio diogelu cwmnïau mynediad rhag ymddygiad gwrth-gystadleuol a allai ddeillio o safle cryf y Post Brenhinol yn y gadwyn gyflenwi post, er enghraifft drwy fynnu ei fod yn: darparu mynediad ar delerau, amodau a ffioedd teg a rhesymol;<sup>268</sup> cydymffurfio â rheolaeth i atal gwasgfa prisiau ar wasanaethau mynediad gorfodol;<sup>269</sup> a chyhoeddi gwybodaeth o'r fath sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn bod yn dryloyw am ansawdd gwasanaeth ei wasanaethau mynediad ymhellach i lawr y ffrwd.<sup>270</sup>
- 7.10 Ar hyn o bryd, mae'r Amod USPA yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig dau fath o wasanaeth mynediad ar gyfer llythyrau, ac mae'r naill a'r llall yn cynnwys danfon o ddydd Llun i ddydd Sadwrn:

---

<sup>265</sup> Ofcom, 2020. [Ymgynghoriad: Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol](#) tudalen 11

<sup>266</sup> PPA ac [NHS England](#) ymatebion i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>267</sup> Rydym yn nodi bod amrywiaeth o ffyrdd i brosesu post mynediad a'i drosglwyddo i'r Post Brenhinol i'w ddanfon – hynny yw, drwy gwmnïau mynediad, drwy gytundebau asiantaeth neu drwy drefniadau Mynediad Uniongyrchol i Gwsmeriaid (CDA).

<sup>268</sup> Amod 3 USPA.

<sup>269</sup> Amod 6.1 USPA.

<sup>270</sup> Amod 8.1 USPA.

a) **Gwasanaethau mynediad D+2**

Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gynnig mynediad yn ei IMCs ar gyfer Llythyrau a chynhyrchion Llythyrau Mawr 'D+2', er mwyn galluogi cwmnïau mynediad i gynnig gwasanaethau sy'n ceisio danfon post o fewn dau ddiwrnod gwaith (neu'n ddiweddarach) ar ôl casglu'r post oddi wrth yr anfonwr. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn y diwrnod ar ôl i'r post gyrraedd ei rwydwaith oherwydd, yn unol â thabl 7.1, D yw'r diwrnod mae'r cwmni mynediad yn casglu'r post gan yr anfonwr.<sup>271</sup>

b) **Gwasanaethau mynediad D+5**

Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd gynnig mynediad yn ei IMCs ar gyfer cynnyrch Llythyrau 'D+5', er mwyn galluogi cwmnïau mynediad i gynnig gwasanaethau sy'n ceisio danfon post o fewn pum niwrnod gwaith (neu'n ddiweddarach) ar ôl casglu'r post oddi wrth yr anfonwr. Unwaith eto, D yw'r diwrnod mae'r cwmni mynediad yn casglu'r post gan yr anfonwr, fel bod llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn cael eu danfon yn ymarferol o fewn pedwar diwrnod gwaith ar ôl trosglwyddo i'r IMC.<sup>272</sup>

**Tabl 7.1: manyleb gwasanaethau mynediad**

	D	D+1	D+2	D+3	D+4	D+5
Gwasanaethau mynediad D+2	Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad	Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol	Y Post Brenhinol yn danfon y post			
Gwasanaethau mynediad D+5	Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad	Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon gweddill y post

7.11 Mae'r Post Brenhinol hefyd yn cynnig mynediad parseli a llythyrau mynediad D+1 (h.y. y diwrnod canlynol), ond nid yw'r rhain yn cael eu rheoleiddio ac maent yn seiliedig ar delerau masnachol.

<sup>271</sup> Gall cwmni mynediad gasglu post oddi wrth ei gwsmeriaid ond ddim ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol ar y diwrnod canlynol. Mewn sefyllfa o'r fath, mae D yn parhau i fod y diwrnod y cesglir y post ac felly byddai'r cwmni mynediad yn darparu gwasanaeth 'hwyrach na D+2' i'w gwsmeriaid.

<sup>272</sup> Yn yr un modd â D+5, efallai na fydd cwmni mynediad yn trosglwyddo'r post i'r Post Brenhinol y diwrnod ar ôl iddo ei gasglu gan ei gwsmeriaid. Byddai felly'n darparu gwasanaeth 'hwyrach na D+5' i'w gwsmeriaid.

## Niferoedd a refeniw mynediad

---

- 7.12 Yn 2023-24, gwasanaethau mynediad D+2 oedd y rhan fwyaf o'r farchnad mynediad gyda 2.9 biliwn o lythyrau (61%) o gyfanswm o 4.8 biliwn o lythyrau mynediad, ac roedd gwasanaethau D+5 yn cynrychioli 1.9 biliwn (39%). Fodd bynnag, cododd y niferoedd D+5 52%, a disgynnodd y niferoedd D+2 25% yn y flwyddyn hon, gyda niferoedd cyffredinol post mynediad yn disgyn o 5.1 biliwn i 4.8 biliwn. Er gwaethaf y gostyngiad yn niferoedd y post mynediad, roedd refeniw mynediad y Post Brenhinol wedi cynyddu ychydig o £1.5 biliwn i £1.6 biliwn, oherwydd y cynnydd mewn prisiau mae'n debyg.
- 7.13 Rydym wedi cael gwybodaeth gan y Post Brenhinol sy'n dangos bod niferoedd mynediad D+5 yn cynrychioli 49% o'r holl lythyrau mynediad yn y pedwar chwarter llawn diweddaraf yr oedd ganddo ddata ar eu cyfer,<sup>273</sup> sy'n dangos bod y patrwm yn parhau o symud i ffwrdd o fynediad D+2 i D+5. Rydym yn disgwyl mai rhan o'r rheswm dros hyn yw oherwydd bod galw am bost rhatach gydag amser danfon hirach. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod bod rhai defnyddwyr post mawr yn newid i wasanaethau mynediad D+5 o ganlyniad i sensitifrwydd prisiau a phryderon am ansawdd gwasanaeth.

## Ymatebion y Post Brenhinol a'r gwasanaethau mynediad arfaethedig

---

- 7.14 Fel y nodir yn Adran 2, mae ymateb y Post Brenhinol i'r Cais am Fewnbwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer y newidiadau mae'n credu sydd eu hangen i wasanaethau mynediad fel rhan o'i gynllun i foderneiddio'r gwasanaeth cyffredinol. Nod y newidiadau i fynediad oedd ceisio sicrhau bod danfon post mynediad yn cyd-fynd â'r model arfaethedig i ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer llythyrau USO Ail Ddosbarth. Ar lefel uchel, awgrymodd y Post Brenhinol y dylid cyflwyno gwasanaethau mynediad D+3 newydd – gyda'r nod o ddanfon post o fewn tri diwrnod gwaith yn yr wythnos ar ôl casglu'r post oddi wrth yr anfonwr – a rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn o fynediad D+5. Byddai'r ddau wasanaeth hyn wedyn yn cael eu danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel llythyrau Ail Ddosbarth. Roedd yn cynnig y byddai'r gwasanaeth D+3 newydd yn disodli'r gwasanaeth D+2 sydd eisoes yn bodoli.
- 7.15 Nod cynigion y Post Brenhinol yw symud y rhan fwyaf o lythyrau, gan gynnwys llythyrau mynediad ac USO Ail Ddosbarth, i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod gyda'r nod o gynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau. Drwy ddanfon llythyrau mynediad ac USO gyda'i gilydd ar yr un amserlen bob yn ail ddiwrnod, roedd y Post Brenhinol yn dadlau y gallai gyfuno gwerth dau ddiwrnod o bost ar un llwybr, gan dorri costau fesul uned<sup>274</sup> a chefnogi prisiau is i ddefnyddwyr. Mae'r Post Brenhinol yn credu bod yr hyblygrwydd hwn yn bwysig o ystyried mai post mynediad yw'r rhan fwyaf o'r holl bost, a heb allu cysoni'r gwaith o ddanfon gwasanaethau mynediad â llythyrau Ail Ddosbarth, mae'n peryglu cymhlethdodau

---

<sup>273</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>274</sup> Ymateb y [Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024, tudalen 43-44.

gweithredol a chostau sefydlog uwch. Rydym yn cyflwyno pob un o newidiadau arfaethedig y Post Brenhinol i'r rhwymedigaeth mynediad yn fanylach isod.

## Cynnig i gyflwyno gwasanaethau mynediad D+3 a newid manyleb gwasanaethau mynediad D+5

---

- 7.16 Fel y nodir uchod, byddai newidiadau arfaethedig y Post Brenhinol yn golygu y gallai ddanfôn llythyrau USO Ail Ddosbarth a gwasanaethau mynediad D+3 a D+5 o dan y model danfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Er nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, rydym yn disgwyl y byddai'r Post Brenhinol yn ceisio cysoni ei opsiynau post manwerthu Ail Ddosbarth ac Economi<sup>275</sup> i gyd-fynd â'r USO a phost mynediad, gan ganiatáu iddo symud cymaint o bost â phosibl i fodel bob yn ail ddiwrnod.
- 7.17 Gan y byddai gwasanaethau mynediad D+3 yn cael eu cynnig o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol, byddent ar gael ar gais rhesymol; ar delerau, amodau a ffioedd teg a rhesymol; ac yn amodol ar y mesurau diogelu eraill yn yr Amod USPA sy'n berthnasol ar hyn o bryd i fynediad D+2 a D+5. Byddem hefyd yn asesu p'un ai ddylid gosod rheolaeth wasgu elw ar D+3 ai peidio.
- 7.18 Ar 28 Hydref 2024, cyhoeddodd y Post Brenhinol yn gyhoeddus ei fod yn dechrau pleidleisio gyda'i gwsmeriaid mynediad ar gyflwyno gwasanaethau mynediad D+3 ar sail fasnachol (h.y. heb ei rheoleiddio) cyn unrhyw newidiadau i'r Amod USPA. Yn y cyhoeddiad hwnnw, rhoddodd fanylebau technegol ar gyfer y gwasanaeth D+3 a nododd ei fod yn disgwyl i'r gwasanaeth fod yn weithredol o ddyddiad unrhyw newid rheoleiddiol. Fodd bynnag, nodwn fod y Post Brenhinol wedi rhoi gwybod i'w gwsmeriaid am bwysigrwydd gwireddu'r arbedion cost sy'n deillio o fodel danfôn newydd bob yn ail ddiwrnod, ac y byddai'n debygol o geisio lansio gwasanaethau D+3 beth bynnag fyddai canlyniad ymgynghoriad Ofcom ar ddiwygio.<sup>276</sup>

## Cynnig i ddadreoleiddio gwasanaethau mynediad D+2

---

- 7.19 Fel rhan o'i gynllun i foderneiddio, cynigiodd y Post Brenhinol na ddylai fod yn rhaid iddo gynnig y gwasanaethau mynediad D+2 presennol mwyach. Yn ei ymateb i'r Cais am Fewnbwn, soniodd am gost uchel fesul uned danfôn post mynediad D+2 ac roedd yn cynnig dileu'r gwasanaethau o'r rheoliadau er mwyn iddo allu rhoi'r gorau i'w cynnig a symud y mwyafrif helaeth o bost mynediad D+2 i D+3. Gan y byddai hyn yn golygu y byddai'r Post Brenhinol yn danfôn y rhan fwyaf o bost swmp o dan y model danfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, byddai hyn yn ei alluogi i fanteisio i'r eithaf ar arbedion costau diwygio. Fodd bynnag, yn dilyn hynny, mae wedi dweud ei fod yn bwriadu parhau i gynnig mynediad D+2 i'w ddanfôn o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio, er mwyn diwallu'r galw parhaus a rhoi amser i gwmnïau mynediad

---

<sup>275</sup> Nod y Post Brenhinol yw danfôn post manwerthu Ail Ddosbarth 2-3 diwrnod gwaith ar ôl ei gasglu a phost manwerthu Economi 6 diwrnod gwaith ar ôl ei gasglu.

<sup>276</sup> Y Post Brenhinol. [Royal Mail Wholesale - Royal Mail's proposal for the introduction of a D+3 service - voting commences today](#) [cyrchwyd 24 Ionawr 2025].

drosglwyddo i wasanaethau mynediad arafach gan barhau i symud y rhan fwyaf o bost mynediad D+2 i D+3.<sup>277</sup>

- 7.20 Mae'r Post Brenhinol wedi pwysleisio y byddai costau fesul uned danfon post mynediad ar D+2 yn uchel iawn ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth D+3 a'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Byddai angen danfon post D+2 ochr yn ochr â llythyrau Dosbarth Cyntaf drwy sianel danfon faniau drutach ar y diwrnodau hynny lle nad oedd angen danfon Ail Ddosbarth drwy'r patrwm danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Felly, mae'r Post Brenhinol wedi dweud na ddylid rheoleiddio D+2 er mwyn iddo fod yn rhydd i reoli'r niferoedd mynediad sy'n aros ar D+2 drwy gael hyblygrwydd llawn o ran prisiau, neu allu rhoi'r gorau i gynnig y gwasanaeth yn llwyr os oes angen. Barn y Post Brenhinol, a nodwn yn fanylach isod, yw y byddai parhau i reoleiddio mynediad D+2 yn golygu bod y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny'n aros yn uwch yn hirach, gan effeithio o bosibl ar ei allu i wireddu arbedion costau o'r diwygio. Roedd hefyd yn dadlau na ddylai fod unrhyw bryderon o ran cystadleuaeth yn deillio o ddadreoleiddio D+2, ac ystyried bod y farchnad mynediad yn gweithio'n dda.<sup>278</sup>

## Asesiad o'n cynigion

---

- 7.21 Yn yr adran hon, rydym yn asesu a ddylid:
- Cyflwyno gwasanaethau mynediad D+3 i'r Amod USPA;
  - Diwygio manyleb danfon gwasanaethau mynediad D+5; a
  - Dadreoleiddio gwasanaethau mynediad D+2.
- 7.22 Rydym hefyd yn ystyried amrywiaeth o faterion ategol i gefnogi ein cynigion.

## Gwasanaethau mynediad D+3

---

- 7.23 O dan wasanaethau mynediad D+3 newydd, D fyddai'r diwrnod y bydd cwmni mynediad yn casglu post gan ei gwsmer, a D+1 fyddai'r diwrnod y bydd y gweithredwr yn cwblhau'r broses o drosglwyddo'r post<sup>279</sup> i'r Post Brenhinol yn yr IMC. Oherwydd byddai post D+3 yn cael ei ddanfon ochr yn ochr â llythyrau Ail Ddosbarth o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, byddai cyfran o'r post D+3 yn cael ei ddanfon ar D+2 a'r gweddill ar D+3, yn dibynnu ar ba bryd roedd y derbynydd yn disgwyl i lythyrau Ail Ddosbarth gael eu danfon i'w gyfeiriad. Er enghraifft:
- Ar gyfer pwyntiau danfon **llwybr A**, byddai llythyrau Ail Ddosbarth a phost mynediad D+3 yn cael eu danfon ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.
  - Ar gyfer pwyntiau danfon **llwybr B**, byddai llythyrau Ail Ddosbarth a phost mynediad D+3 yn cael eu danfon ddydd Mawrth a dydd Iau.

---

<sup>277</sup> Y Post Brenhinol. 6 Rhagfyr 2024. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.

<sup>278</sup> Y Post Brenhinol. 6 Rhagfyr 2024. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.

<sup>279</sup> Dyma'r adeg pan fydd y Post Brenhinol yn casglu a/neu'n derbyn post gan gwmni mynediad. Fel y nodir uchod, mewn gwirionedd, gall trosglwyddo i'r Post Brenhinol ddigwydd yn hwyrach na'r diwrnod ar ôl i'r cwmni mynediad gasglu'r post oddi wrth yr anfonwr.

- c) Gan na fyddai dydd Sadwrn yn ddiwrnod danfon, byddai'r amllder danfon yn newid bob wythnos ar gyfer llwybr A a llwybr B i sicrhau bod y danfon yn gyfartal dros gyfnod o bythefnos i lwybr A a llwybr B.

7.24 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 5 ym mharagraff 5.31, byddai cwsmeriaid llwybr A a llwybr B yn dal i dderbyn llythyrau Dosbarth Cyntaf a llythyrau eraill (fel rhai cofrestredig a rhyngwladol) bob dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Ar ddiwrnodau pan ddisgwylir danfon llythyrau Ail Ddosbarth, byddai post Dosbarth Cyntaf yn cael ei ddanfôn ar hyd llwybrau cerdded ynghyd â llythyrau Ail Ddosbarth. Ar ddiwrnodau pan na ddisgwylir danfon post Ail Ddosbarth, byddai'r Post Brenhinol yn danfon post Dosbarth Cyntaf mewn fan, gyda pharseli.

**Tabl 7.2 – Sut byddai gwasanaethau mynediad D+3 yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd**

	D	D+1	D+2	D+3	D+4	D+5
Gwasanaethau mynediad D+2	Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad	Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol	Y Post Brenhinol yn danfon y post			
Gwasanaethau mynediad D+3	Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad	Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol	Y Post Brenhinol yn danfon post mynediad i X% o'r pwyntiau danfon	Y Post Brenhinol yn danfon post mynediad i weddill y pwyntiau danfon		
Gwasanaethau mynediad D+5	Y cwsmer yn rhoi'r post i'r cwmni mynediad	Y cwmni mynediad yn rhoi'r post i'r Post Brenhinol	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon y post neu'n oedi cyn danfon	Y Post Brenhinol yn danfon gweddill y post

7.25 Felly, o dan y cynigion, byddai rhywfaint o bost yn cael ei ddanfôn y diwrnod ar ôl trosglwyddo, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a byddai rhai'n cael eu danfon ddiwrnod yn hwyrach. Rydym yn rhagweld y byddai canran y post sy'n cael ei ddanfôn yn unol â manyleb D+2 a manyleb D+3 yn amrywio dros amser, gan ddibynnu ar faint o bost sy'n cael ei ddanfôn ar unrhyw wythnos benodol.

## Asesiad effaith

- 7.26 Rydym yn ystyried effaith rheoleiddio gwasanaeth mynediad D+3 isod, er mwyn cyfrannu at ein cynigion ar y mater hwn. Mae ein hasesiad yn cymharu effaith rheoleiddio gwasanaeth o'r fath â gwneud dim. Mae'n tybio y byddai danfon llythyrau Ail Ddosbarth yn symud i batrwm bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos fel y cynigir yn adran 5 yr ymgynghoriad hwn. Mae hefyd yn tybio y byddai'r Post Brenhinol yn parhau i gynnig y ddau wasanaeth mynediad presennol sy'n cael eu rheoleiddio, sef D+2 a D+5.

### Mae'r Post Brenhinol yn debygol o gynnig gwasanaeth mynediad D+3 p'un a oes rhaid iddo wneud hynny ai peidio

- 7.27 Mae rhyddid i'r Post Brenhinol gynnig gwasanaethau mynediad ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio. Fel sy'n cael ei egluro uchod ym mharagraff 7.18, mae'r Post Brenhinol wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac paratoi i gyflwyno gwasanaeth mynediad D+3, i'w ddanfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Cawn ar ddeall bod y Post Brenhinol yn bwriadu bwrw ymlaen i gyflwyno'r gwasanaeth hwn p'un ai ydym yn ei rheoleiddio ei peidio.
- 7.28 Y rheswm am hyn yw bod cyflawni'r arbedion cost a ragwelir yn sgil diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn dibynnu ar y rhan fwyaf o lythyrau, gan gynnwys llythyrau USO a phost swmp, yn symud i'r model danfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. O'r herwydd, pe bai danfôn llythyrau Ail Ddosbarth yn cael ei ddiwygio ond bod y Post Brenhinol yn parhau i ddanfôn post mynediad chwe diwrnod yr wythnos, ni fyddai'r arbedion cost a ragwelir yn cael eu gwireddu.
- 7.29 Felly, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r Post Brenhinol yn parhau i gynnig dim ond y gwasanaethau mynediad D+2 a D+5 mae'r Amod USPA yn eu mynnu ar hyn o bryd, ond yn hytrach y byddai'n cyflwyno gwasanaeth mynediad D+3. Felly, mae gweddill ein hasesiad yn ystyried effaith rheoleiddio mynediad D+3, o'i gymharu â sefyllfa lle mae'r Post Brenhinol yn cynnig D+3 ar sail fasnachol heb ei rheoleiddio.

### Rydym yn poeni am yr effeithiau ar yr ecosystem mynediad os nad ydym yn rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+3

- 7.30 Heb ymgorffori mynediad D+3 yn yr Amod USPA, byddai cwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid yn cadw'r dewisiadau cynnyrch rheoledig sydd ganddynt ar hyn o bryd (D+2 a D+5) a byddai ganddynt hefyd yr opsiwn o ddefnyddio'r gwasanaeth mynediad D+3 newydd ar delerau masnachol.
- 7.31 Rydym yn disgwyl y byddai'r Post Brenhinol yn cynyddu pris mynediad D+2 i adlewyrchu ei sylfaen gostau uwch ac i gymell symud i wasanaeth mynediad arafach, rhatach (er y byddai'n dal yn rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolaeth gwasgu elw rheoleiddiol). Rydym felly'n disgwyl y byddai niferoedd mawr yn symud o D+2 i D+3, yn enwedig y rheini sy'n cael eu hanfôn gan gwsmeriaid sy'n fwy sensitif i brisiau ond sy'n llai sensitif i amser. O'r herwydd, mae'n debygol y byddai llawer iawn o bost mynediad y tu allan i unrhyw fesurau diogelu rheoleiddiol pe na bai D+3 yn cael ei rheoleiddio.
- 7.32 Rydym yn poeni am allu'r Post Brenhinol i niweidio cystadleuaeth yn y farchnad post swmp yn y sefyllfa hon, oherwydd ei safle yn y farchnad gyfanwerthu berthnasol (ymhellach i lawr y ffrwd) a'i strwythur fertigol integredig, a allai ei alluogi i gadw llawer iawn o gwsmeriaid sy'n ffafrio D+3 iddo'i hun. Gallai gyflawni hyn drwy gynnig mynediad D+3 ar delerau ac amodau llai ffafriol na'i weithrediadau ei hun ymhellach i fyny'r ffrwd. Er enghraifft, gallai



sicrhau ei fod yn gallu danfon ei wasanaethau D+3 manwerthu ei hun yn unol â manyleb gwasanaeth mynediad D+3 ac yna prisio ei wasanaethau manwerthu ar lefel sy'n achosi gwasgfa elw. Ar ben hynny, heb reoleiddio mynediad, mae perygl y bydd y Post Brenhinol yn gwrthod darparu mynediad at ddibenion mynediad D+3 ymhellach i lawr y ffrwd yn y dyfodol ond yn parhau i ddarparu ei wasanaethau swmp manwerthu D+3 ei hun.

- 7.33 Ac ystyried yr uchod, rydym o'r farn y byddai'n briodol rheoleiddio mynediad D+3 i gefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp. Rydym yn gosod ein cynigion ar gyfer cwmpas y rheoleiddio hwnnw o baragraff 7.49 isod.

### **Nid ydym yn disgwyl y bydd newid o D+2 i D+3 yn effeithio'n sylweddol ar ddefnyddwyr, ac rydym yn disgwyl y bydd rheoleiddio D+3 yn arwain at fanteision iddyn nhw**

- 7.34 Fel sy'n cael ei amlinellu uchod, byddem yn disgwyl i wasanaethau mynediad D+3 ddod yn fewnbwn pwysig i gwmnïau mynediad yn y dyfodol, gan ddisodli gwasanaethau mynediad D+2 fel y math 'safonol' o fynediad dros amser. Felly, rydym wedi ystyried sut gallai rheoleiddio manyleb danfon D+3 lle mae'r fanyleb danfon yn cynnwys danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, effeithio ar gwmnïau mynediad, defnyddwyr post mawr a defnyddwyr terfynol.
- 7.35 Bydd yr effaith yn dibynnu i raddau helaeth ar sut mae defnyddwyr mawr yn addasu i D+3, ac a oes arnyn nhw neu eu defnyddwyr angen gwasanaeth cyflymach neu ddanfon ar ddydd Sadwrn. Yn dilyn ein Cais am Fewnbwn, roeddem wedi ymgysylltu â defnyddwyr post mawr ac rydym yn nodi isod enghreifftiau o sut gallai symud i wasanaeth mynediad D+3 bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos effeithio arnyn nhw.
- 7.36 Dywedodd un sefydliad ariannol wrthym y byddai cynyddu'r codiadau i brisiau mynediad ar gyfer D+2 yn arwain at ddefnyddio mwy o e-bost neu symud i wasanaeth arafach fel D+5. Felly, os gweithredir y cynigion, rydym o'r farn y gallai rhywfaint o bost drosglwyddo i wasanaethau mynediad D+3. O ran llythyrau sy'n cael eu symud i D+3, dywedodd yr un sefydliad ariannol hwnnw wrthym ei fod yn anfon cardiau banc a rhifau pin ar wahân yn y post am resymau diogelwch ac os caiff post ei ohirio mae mwy o bosibilrwydd y gallai'r llythyrau fod yn y rhwydwaith ar yr un pryd. Dywedodd wrthym hefyd fod eglurder ynghylch pryd bydd llythyrau'n cael eu danfon yn dod yn bwysicach o dan D+3 oherwydd ei fod yn cynllunio adnoddau canolfannau galwadau o amgylch yr ohebiaeth cwsmeriaid sy'n cael ei hanfon drwy'r post.<sup>280</sup> Rydym yn trafod cynigion ar gyfer tryloywder o ran perfformiad danfon D+3 o baragraff 7.54 isod.
- 7.37 Roeddem hefyd wedi ymgysylltu ag adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys un sy'n anfon llawer iawn o bost. Mae'r rhan fwyaf o'r niferoedd sy'n cael eu hanfon gan yr adran hon ar hyn o bryd ar wasanaethau mynediad D+2, a chawn ar ddeall y byddai cyfran sylweddol o'r niferoedd hyn yn debygol o symud i wasanaethau mynediad D+3 pe bai ein cynigion yn cael eu rhoi ar waith. Nodwn fod yr adran ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau manwerthu swmp Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol (gydag amser llwybro diwrnod canlynol) ar gyfer

---

<sup>280</sup> HSBC. 25 Tachwedd 2024. Ymateb i'n cais drafft am wybodaeth.

post brys. Er nad yw'n cael ei reoleiddio, cawn ar ddeall y byddai'r Post Brenhinol yn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn.<sup>281</sup>

- 7.38 Mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn, codwyd pryderon am ddanfon llythyrau'r GIG yn hwyrach, ac roedd lleiafrif (12% a 15% yn y drefn honno) o'r cyfranogwyr yn ein hymchwil i anghenion defnyddwyr yn 2024, yn unol â pharagraff 3.76, yn dweud na fyddai newidiadau i wasanaethau a oedd yn golygu y gellid danfon llythyrau busnes safonol ddiwrnod yn hwyrach ac na fyddent yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn mwyach yn diwallu eu hanghenion o ran cael llythyrau apwyntiadau gofal iechyd a chanlyniadau profion meddygol. Felly, rydym wedi ystyried yn ofalus unrhyw effaith ar y GIG yn anfon llythyrau meddygol at gleifion. Yn yr un modd â mathau eraill o ddefnyddwyr mawr, rydym o'r farn y bydd y GIG yn debygol o fod yn gost sensitif ac felly mae niferoedd sylweddol yn debygol o symud i wasanaethau mynediad D+3.
- 7.39 Ar y cyrion, rydym yn cydnabod y gallai symud o fynediad D+2 i D+3 arwain at glaf yn cael gwybod am apwyntiad neu ganlyniadau profion ddiwrnod yn hwyrach. Mae a fyddai hyn yn creu anawsterau i dderbynwyr fel methu apwyntiadau neu gynyddu'r straen i gleifion yn dibynnu ar sut mae'r GIG yn penderfynu anfon ei bost, ac yn enwedig ei allu i reoli postio llythyrau postio i ystyried y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Nodwn fod trafodaethau parhaus wedi bod gydag Ymddiriedolaethau'r GIG a chyrrff canolog sy'n anfon llythyrau yn nodi'r ystod o opsiynau o ran cynnyrch y gellid eu defnyddio i fodloni gwahanol ofynion sy'n sensitif o ran amser.<sup>282</sup> I gydnabod pwysigrwydd y post hwn, cawn ar ddeall gan y Post Brenhinol wrthi'n datblygu ateb penodol ar gyfer llythyrau'r GIG a anfonir drwy ei wasanaeth manwerthu ei hun neu gan gwmnïau mynediad. Mae hyn yn god bar y GIG ar lythyrau'r GIG ac mae'n golygu, os bydd tarfu cenedlaethol neu leol, y gallai post y GIG gael ei adnabod a'i dynnu o beiriannau didoli'r Post Brenhinol ac yna ei drosglwyddo i swyddfa ddanfon i'w ddanfon fel blaenoriaeth. [X].<sup>283</sup> Byddai'r atebion hyn yn darparu ôl-stop ansawdd gwasanaeth ar gyfer llythyrau gofal iechyd pwysig a dylent alluogi Ymddiriedolaethau'r GIG i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau a achosir drwy symud i wasanaeth arafach. Maent hefyd yn enghraifft o sut gall y farchnad ymateb i anghenion defnyddwyr mawr penodol nad ydynt efallai'n cael eu diwallu gan wasanaethau presennol yn y farchnad post swmp sy'n cael ei rheoleiddio a ddim yn cael ei rheoleiddio.
- 7.40 Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen i bostwyr mawr ailystyried rhai o'r amserlenni maent wedi'u gosod iddynt eu hunain i ddefnyddio gwasanaeth llythyrau nad yw'n danfon ar ddydd Sadwrn, ac sy'n golygu y bydd rhai llythyrau'n cyrraedd diwrnod yn hwyrach nag ar hyn o bryd. Gallai hyn gynnwys addasu pan fydd post yn cael ei roi yn y system i sicrhau ei fod yn dal i gyrraedd y derbynnydd yn yr amser y byddai'n ei ddisgwyl. Lle bo angen, gallai postwyr mawr hefyd ddewis gwasanaeth cyflymach sy'n danfon ar ddydd Sadwrn i ddiwallu eu hanghenion, er ein bod yn cydnabod y byddai gwasanaeth o'r fath yn ddrutach.
- 7.41 At ei gilydd, mae ein dadansoddiad yn awgrymu na fyddai symud o'r gwasanaeth mynediad D+2 presennol i wasanaeth newydd D+3 bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn cael

---

<sup>281</sup> Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). 25 Tachwedd 2024. Ymateb i'n cais drafft am wybodaeth.

<sup>282</sup> Y Post Brenhinol, 23 Hydref 2024 cyflwyniad i Ofcom, 23 Hydref 2024. sleid 32.

<sup>283</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

unrhyw effaith sylweddol ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, yn rhannol oherwydd y gallai'r defnyddwyr hynny wneud addasiadau i'w gweithrediadau, ac y byddent yn dal i allu cael gafael ar wasanaethau cyflymach pan fo angen.

- 7.42 Nodwn fod defnyddwyr post mawr yn ymateb i anghenion a galw derbynwyr neu ddefnyddwyr terfynol unigol. Ym mharagraff 3.64 mae ein hymchwil anghenion defnyddwyr yn 2019 yn dangos y byddai danfon bum neu dri diwrnod yr wythnos yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Gwyddom hefyd o'n hymchwil 2024 ym mharagraff 3.72, pe na bai llythyrau busnes safonol yn cael eu danfon ar ddydd Sadwrn, bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dweud na fyddai'n cael fawr o effaith arnynt neu y byddai'n anghyfleus ond na fyddai'n achosi problem fawr. Gan fod defnyddwyr mawr yn ymateb i anghenion eu defnyddwyr, mae hyn yn awgrymu mai cymharol gyfyngedig fyddai'r effaith ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn sgil symud y rhan fwyaf o bost mynediad i D+3.
- 7.43 Oherwydd y byddai rheoleiddio mynediad D+3 yn cefnogi cystadleuaeth yn y farchnad mynediad, rydym yn disgwyl y byddai'n rhoi manteision i ddefnyddwyr post mynediad drwy gadw prisiau'n gystadleuol a hyrwyddo arloesedd a datblygu gwasanaethau. Byddai mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad D+3 hefyd yn cynyddu'r dewis. Fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod, rydym yn rhag-weld y byddai rheoleiddio D+3 yn ei wneud yn gynnyrch mwy deniadol, gan gefnogi'r niferoedd sy'n symud o D+2 i D+3. Byddai hyn yn cefnogi gallu'r Post Brenhinol i gyflawni'r holl arbedion cost posibl yn sgil diwygio, gan leihau ei gostau cyffredinol ac felly maint y cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol, a fyddai'n rhoi manteision i ddefnyddwyr mawr a chwmnïau mynediad na fyddai'n codi fel arall o bosibl pe na fyddai gwasanaethau mynediad D+3 yn cael ei reoleiddio.

### **Rydym yn disgwyl y gallai cynnwys gwasanaethau mynediad D+3 o fewn yr Amod USPA hyrwyddo ei ddefnydd a chyflawni arbedion cost net**

- 7.44 Er mwyn i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos weithio, mae'r Post Brenhinol wedi egluro bod angen iddo leihau nifer y llythyrau diwrnod canlynol er mwyn iddo allu cyfuno mwy o bost i'w ddanfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos – sy'n cynnwys llythyrau USO Dosbarth Cyntaf a phost mynediad D+2 – ac yn lle hynny cludo'r rhan fwyaf o'i niferoedd ar gynnyrch Ail Ddosbarth a mynediad D+3 neu D+5 (a'i bost swmp Royal Mail Retail cyfatebol ei hun).<sup>284</sup> Byddai'r cynhyrchion hyn yn caniatáu i'r Post Brenhinol ddal post yn ôl nes bydd llwybr cerdded yn danfon i'r cyfeiriad hwnnw, sef bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos o dan y diwygiadau. Byddai hyn yn lleihau nifer yr ymweliadau sy'n ofynnol i gyfeiriad unigol bob wythnos, gyda mwy o eitemau'n cael eu danfon ar bob ymweliad.
- 7.45 Mae'r Post Brenhinol wedi awgrymu y byddai graddfa'r arbedion cost net a sicrheir drwy symud i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn dibynnu ar y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau mynediad D+3 newydd.<sup>285</sup> Mewn ymateb i gyflwyno'r gwasanaeth newydd a'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, efallai bydd angen i gwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid newid y ffordd maen nhw'n paratoi ac yn

---

<sup>284</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>285</sup> Y Post Brenhinol, 9 Rhagfyr 2024. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.

cyflwyno'r post i rwydwaith danfon y Post Brenhinol. Efallai y bydd y defnyddwyr hyn yn wyladwrus am wneud y buddsoddiadau i wireddu'r newidiadau hyn pe gallai'r Post Brenhinol dynnu'r gwasanaeth yn ôl unrhyw bryd neu ei brisio mewn ffordd a oedd yn eithrio cwmnïau mynediad, byddai'r ddau yn bosibl heb reoleiddio D+3. Felly, byddai rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+3 newydd yn debygol o roi mwy o sicrwydd i'r defnyddwyr hyn am hirhoedledd y gwasanaethau hyn a natur deg, resymol ac anwahaniaethol eu prisiau. Mae hyn, yn ei dro, yn fwy tebygol o arwain at fabwysiadu'r gwasanaethau hyn ac at y Post Brenhinol yn cyflawni mwy o'r arbedion cost net mae'n eu rhagweld o symud i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Mae'n bosibl y bydd disgwyl i gyflawni'r arbedion cost net hyn gadw prisiau'n is nag y byddent fel arall, tra'n diwallu anghenion defnyddwyr. Gellir disgrifio hyn fel rhyw fath o effeithlonrwydd mae'r gwaith o reoleiddio mynediad yn D+3 yn cyfrannu ato neu, o leiaf, nad yw'n ei danseilio.

- 7.46 Ar ben hynny, dylai rheoleiddio mynediad D+3 barhau i gefnogi cystadleuaeth rhwng y Post Brenhinol a chwmnïau mynediad, a ddylai gyfrannu at leihau costau'r gwasanaethau hyn yn uwch yn y rwydwaith i ddefnyddwyr yn ogystal â chyfrannu at arloesi a datblygu gwasanaethau ymhellach i fyny'r ffrwd.

## Casgliad dros dro ynghylch a ddylid rheoleiddio mynediad D+3

- 7.47 Gan ystyried yr uchod i gyd, rydym yn dod i'r casgliad dros dro y byddai rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth a fyddai'n deillio o beidio â rheoleiddio D+3. Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn gael rhywfaint o effaith pe bai llawer iawn o bost D+2 yn symud i opsiynau D+3, ac rydym yn disgwyl y byddai hynny'n fwy tebygol pe byddai D+3 yn cael ei reoleiddio, nid ydym yn disgwyl y byddai'n cael unrhyw effaith fawr ar ddefnyddwyr post mawr ac rydym yn nodi y byddai cynhyrchion post swmp eraill yn dal ar gael. Rydym o'r farn y dylai mewn gwirionedd roi manteision i ddefnyddwyr gwasanaethau mynediad – fel prisiau is sy'n deillio o gystadleuaeth a chostau is i'r Post Brenhinol – na fyddent efallai'n digwydd heb reoleiddio. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd rheoleiddio mynediad D+3 yn arwain at fwy o hyder i ddefnyddwyr fuddsoddi yn eu systemau er mwyn gallu defnyddio gwasanaethau mynediad D+3 ac y dylai hyn, yn ei dro, gyfrannu at y Post Brenhinol yn cyflawni'r arbedion cost net a ragwelir o'r symud arfaethedig i fodel danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Yn y pen draw, gallai hyn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr drwy leihau'r cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol a galluogi'r Post Brenhinol i ddefnyddio ei adnoddau am gost is ar yr un pryd â diwallu anghenion defnyddwyr.
- 7.48 Ar ôl dod i'r casgliad dros dro y byddai'n briodol cyflwyno gwasanaeth mynediad D+3 i'r Amod USPA, rydym yn nodi isod ein cynigion ar gwmpas y rheoleiddio, gan gynnwys y mesurau diogelu rydym yn cynnig eu gosod.

## Hyd a lled y gwasanaeth mynediad D+3

### Nid yw gwasanaethau mynediad D+3 yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd

- 7.49 Ar hyn o bryd, mae'r Amod USPA yn diffinio 'Mynediad D+2' fel mynediad at rwydwaith post darparwr y gwasanaeth cyffredinol yn yr IMC at ddibenion darparu gwasanaethau manwerthu sy'n ceisio danfon llythyrau ddau ddiwrnod gwaith (neu'n hwyrach) ar ôl i'r

anfonwr eu casglu. Dyma sut mae mynediad D+2 wedi cael ei ddisgrifio ers i'r Amod USPA gael ei osod am y tro cyntaf ar y Post Brenhinol ym mis Mawrth 2012.<sup>286287</sup>

- 7.50 Fe wnaethom ystyried a oedd y geiriad 'neu'n hwyrach' yn y diffiniad o 'Mynediad D+2' yn yr Amod USPA yn golygu cyflwyno a rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+3. Daethom i'r farn nad yw'n gwneud hynny. Byddai gwasanaethau mynediad D+3 yn wahanol iawn i wasanaethau mynediad D+2 a byddem yn disgwyl iddynt gael marchnad ar wahân. Y rheswm am hynny yw y byddai gwasanaethau mynediad D+3 yn cael eu danfon yn unol â model bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos y Post Brenhinol gyda llythyrau Ail Ddosbarth, tra bo mynediad D+2 yn wasanaeth chwe diwrnod a fydd yn fwy costus – ac felly'n ddrutach – i'w ddanfon. O'r herwydd, pe bai'r cynigion hyn, yn amodol ar ymgynghoriad a'n hasesiad isod, yn cael eu rhoi ar waith, byddem yn rheoleiddio tair marchnad mynediad: Mynediad D+2, mynediad D+3 a mynediad D+5.

### Rydym yn cynnig defnyddio'r Amod USPA i Lythyrau a Llythyrau Mawr D+3

- 7.51 Mae'r rhwymedigaeth bresennol i ddanfon mynediad D+2 yn berthnasol i Lythyrau a Llythyrau Mawr.<sup>288</sup> Mae'r rhwymedigaeth i ddanfon mynediad D+5 yn berthnasol i Lythyrau'n unig. Y rheswm am hyn yw y byddai cynnwys Llythyrau Mawr wedi bod yn aneconomaidd pan wnaethom gyflwyno gwasanaethau mynediad D+5 newydd yn 2021, gan nad oedd peiriannau didoli'r Post Brenhinol yn gallu gohirio Llythyrau Mawr.<sup>289</sup>
- 7.52 Fel sy'n cael ei egluro uchod ym mharagraff 7.31, rydym yn disgwyl y byddai llawer iawn o lythyrau'n symud o D+2 i D+3 os byddem yn rhoi ein cynigion ar waith. Er mwyn cefnogi cwsmeriaid sy'n symud rhwng y gwasanaethau hyn, rydym o'r farn y dylai mynediad D+3 hefyd fod yn berthnasol i Lythyrau a Llythyrau Mawr. Yn 2021, nid oedd y Post Brenhinol yn gallu gohirio Llythyrau Mawr drwy ddefnyddio ei beiriannau dilyniannu; cawn ar ddeall nad yw'r sefyllfa hon wedi newid. Fodd bynnag, cawn ar ddeall bod y Post Brenhinol yn cynnig gohirio Llythyrau Mawr D+3 â llaw yn y swyddfa danfon er mwyn gallu eu danfon o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod.<sup>290</sup> O'r herwydd, rydym yn cynnig y dylai'r gwasanaeth mynediad D+3 sy'n cael ei reoleiddio fod yn berthnasol i Lythyrau ac i Lythyrau Mawr.
- 7.53 Rydym yn derbyn bod hyn yn golygu y gallai'r Post Brenhinol hefyd gynnig mynediad D+5 ar gyfer gwasanaethau Llythyrau Mawr drwy ohirio'r eitemau hynny â llaw yn y swyddfa danfon. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw alw am y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd. Felly, nid ydym yn cynnig ymestyn ein trefn reoleiddio i gynnwys Llythyrau Mawr ar

---

<sup>286</sup> Ofcom, 2012. [Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol](#), tudalen 142.

<sup>287</sup> Cyn y datganiad hwnnw ym mis Mawrth 2012, cyn ei integreiddio i Ofcom, cynhaliodd Ofcom ddadansoddiad o farchnadoedd post. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, canfuwyd bod yna farchnad llythyrau D+1 a D+2 a marchnad llythyrau hwyrach na D+2. Yn ei hanfod, roedd yn diffinio marchnadoedd llythyrau yn ôl y rhai i'w danfon y diwrnod canlynol a'r rhai i'w danfon yn hwyrach na'r diwrnod canlynol.

<sup>288</sup> Mae "llythyrau" yn golygu unrhyw eitem hyd at 240mm o hyd, 165mm o led, a 5mm o drwch, ac sy'n pwyso dim mwy na 100g. Mae "Llythyrau Mawr" yn golygu unrhyw eitem sy'n fwy na llythyr a hyd at 353mm o ran hyd, 250mm o ran lled, a 25mm o ran trwch, ac sy'n pwyso dim mwy na 750g.

<sup>289</sup> Ofcom, 2021. [Datganiad: Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol](#) tudalennau 28-29.

<sup>290</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

gyfer mynediad D+5, ond byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn a byddwn yn ystyried ymyrryd os yw'n ymddangos bod achos dros wneud hynny.

## Gofynion adrodd ar berfformiad danfon

- 7.54 Mae'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos yn golygu y byddai cyfran o'r post mynediad D+3 yn cael ei ddanfôn D+2 a'r gweddill ar D+3 yn unol â Thabl 7.2 uchod.
- 7.55 Rydym wedi ystyried yn ofalus pa wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen ar gwsmeriaid mynediad D+3 i ddewis ar sail gwybodaeth am brynu'r gwasanaethau hyn ac i gyfrannu at drafodaethau'r diwydiant ar y targedau ansawdd gwasanaeth priodol, y cynllun dylunio a'r cynllun iawndal ar gyfer y gwasanaethau. Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gydymffurfio â gofynion adrodd mewn perthynas â mynediad D+5.<sup>291</sup> Felly, rydym wedi ystyried a ddylai'r un gofynion neu ofynion tebyg fod yn berthnasol i fynediad D+3, o ystyried y gellid danfon y ddau wasanaeth dros nifer o ddiwrnodau yn hytrach nag ar ddiwrnod penodol fel D+2. Byddai'r wybodaeth, pe baem yn dyblygu'r gofynion adrodd sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau mynediad D+5, yn cynnwys y canlynol i gyd:
- Ffigur adrodd cyffredinol ar gyfer ansawdd gwasanaeth D+3, sy'n mesur faint o eitemau sy'n cael eu danfon erbyn D+3 ar draws y diwydiant, ac a gyhoeddir bob chwarter a bob blwyddyn. Rydym yn disgwyl y gallai hyn helpu defnyddwyr i ddeall pa mor dda mae'r gwasanaeth wedi bod yn cyflawni yn unol â'r fanyleb, a chyfrannu at drafodaethau'r diwydiant.
  - Adroddiadau ansawdd gwasanaeth D+3 ar gyfer cwmnïau mynediad unigol a/neu gwsmeriaid post (a ddarperir ar sail unigol), sy'n nodi perfformiad gwirioneddol eu post eu hunain, sy'n cynnwys mesur cyffredinol o'r post a ddanfônir erbyn D+3 a dadansoddiad o'r post a ddanfônir ar D+2 a D+3. Rydym yn disgwyl y gallai hyn eu helpu i fonitro eu gwasanaeth eu hunain, er mwyn llywio penderfyniadau am brynu a dewis cynnyrch yn y dyfodol.
  - Dadansoddiad sydd ar gael i'r cyhoedd o'r perfformiad danfon ar ddiwrnod D+3 i bob eitem, gan fesur faint o eitemau sy'n cael eu danfon ar D+2 a D+3. Nid ydym yn disgwyl i'r dosbarthiad hwn fod yn union 50/50 ac rydym yn cydnabod y gall amrywio yn ôl gwahanol ffactorau (gan gynnwys proffil post unigol, nifer y post, adeg o'r flwyddyn, ac ati). Gallai darparu'r wybodaeth hon alluogi darpar gwsmeriaid i wneud dewisiadau mwy gwybodus am eu defnydd o'r gwasanaeth, drwy allu gweld y perfformiad cyfartalog gwirioneddol. Byddai hefyd yn rhoi pwynt cyfeirio i helpu defnyddwyr mynediad D+3 gweithredol i ddeall sut mae eu post yn cael ei ddanfôn o'i gymharu â'r farchnad gyfan.
- 7.56 Yn wahanol i'r gwasanaethau D+2 presennol, ni fyddai gan gwmnïau mynediad D+3 na defnyddwyr mawr un diwrnod y byddent yn gwybod y byddai eu post yn cael ei ddanfôn i'r defnyddiwr terfynol ar ôl ei roi yn yr IMC. Rydym o'r farn y gallai darparu'r wybodaeth hon alluogi cwmnïau mynediad i gael sgysiau mwy gwybodus gyda'r Post Brenhinol am ansawdd gwasanaeth, ac y byddai'n caniatáu i ddefnyddwyr post mawr wneud

---

<sup>291</sup> Gweler Amod 8 USPA.

penderfyniadau mwy gwybodus am y gwasanaethau maent yn eu prynu. [8<],<sup>292</sup> rydym o'r farn y dylai'r rheoliadau fynnu bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu gan fod mynediad at ddata a gwybodaeth am ddanfon, fel y nodir uchod, yn ffactorau pwysig o ran sicrhau bod cyflwyno gwasanaethau mynediad D+3 yn arwain at fanteision i gwmnïau mynediad a defnyddwyr gwasanaethau mynediad. Rydym yn disgwyl y byddai angen rhywfaint o amser paratoi ar y Post Brenhinol i ddatblygu ei systemau i adrodd ar berfformiad danfon mynediad D+3. Rydym felly'n cynnig ei fod yn dechrau adrodd bob chwarter mewn perthynas â'r ail chwarter blwyddyn ariannol llawn ar ôl i'r rhwymedigaethau ddod i rym, ac yn flynyddol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl i'r rhwymedigaethau ddod i rym.

## Prisio gwasanaethau mynediad D+3

- 7.57 Oherwydd sefyllfa monopoli'r Post Brenhinol, rydym wedi bod yn poeni ers tro byd am y risgiau i gystadleuaeth yn y farchnad post swmp os nad oedd gennym ryw fath o reoleiddio prisiau. Pan wnaethom ni ddechrau rheoleiddio'r post yn 2011, yn hytrach na rheolaethau prisio uniongyrchol, fe wnaethom osod prawf gwasgu elw ex-ante ar fynediad D+2 i atal y Post Brenhinol rhag codi tâl am ei wasanaethau manwerthu ar lefel debyg neu is na'r tâl mae'n ei godi gan gwmnïau mynediad ymhellach i lawr y ffrwd am fynediad cyfatebol i'w rwydwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod prisiau'n aros ar lefel sy'n caniatáu i gwmnïau mynediad effeithlon gystadlu'n effeithiol.<sup>293</sup> Fe wnaethom gymhwyso'r rheolaeth gwasgu elw hon i fynediad D+5 adeg ei gyflwyno yn 2021.<sup>294 295</sup>
- 7.58 Fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 7.32 uchod, un o'r rhesymau rydym yn cynnig rheoleiddio mynediad D+3 yw'r risg y bydd y Post Brenhinol yn gosod prisiau gwrth-gystadleuol os na chaiff ei reoleiddio. Mae gan y Post Brenhinol bŵer sylweddol yn y farchnad bost ymhellach i lawr y ffrwd ac, fel sy'n cael ei egluro uchod, mae perygl y gallai wahaniaethu rhwng ei brisiau manwerthu a'i brisiau cyfanwerthol a fyddai'n golygu na fyddai cystadleuydd yr un mor effeithlon yn y farchnad ymhellach i lawr y ffrwd i wneud digon o elw i gystadlu'n effeithiol.
- 7.59 Ar ôl sefydlu'r risg ddamcaniaethol o wasgfa ar elw, roeddem wedyn wedi ystyried lle gallai hyn ddigwydd yn ymarferol drwy nodi gwasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol sy'n debyg neu'n cyfateb i'r gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig. Oherwydd bod y gwasanaethau mynediad a manwerthu hyn yn debyg rydym o'r farn eu bod yn cystadlu'n uniongyrchol, ac felly ceir risg o wasgu elw.
- 7.60 At ddibenion yr Amod USPA, rydym yn cyfeirio at y gwasanaethau manwerthu cyfatebol hyn gan y Post Brenhinol fel Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol.<sup>296</sup> Yn lle hynny, byddai llawer o'r Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+2, fel y nodir ar hyn o

---

<sup>292</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>293</sup> Ofcom, 2012. [Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol](#), tudalen 8.

<sup>294</sup> Amod 6 USPA.

<sup>295</sup> Ofcom, 2021. [Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol](#) tudalennau 29-33.

<sup>296</sup> Gweler Amod 6.8 USPA.

bryd yn Amod 6 USPA, yn cael eu danfon yn unol â manyleb debyg i'r fanyleb ar gyfer mynediad D+3, gan gynnwys cael eu danfon i amser llwybro tebyg a hefyd o dan y model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Felly, rydym o'r farn, o dan ein cynigion, y byddai'r rhestr bresennol o Wasanaethau Manwerthu Perthnasol D+2 yn cystadlu'n uniongyrchol â gwasanaethau mynediad D+3 ac y byddai risg o wasgfa ar elw rhwng y gwasanaethau manwerthu a chyfanwerthu hyn.

### **Rydym yn cynnig defnyddio rheolaeth gwasgfa elw ar gyfer gwasanaethau mynediad D+3**

- 7.61 Pwrpas y rheolaeth bresennol ar y wasgfa ar elw o dan USPA 6 yw atal y Post Brenhinol rhag manteisio ar ei sefyllfa fonopoli a chymryd rhan mewn arferion gwasgu elw mewn perthynas â darparu gwasanaethau mynediad D+2 a D+5, gan gefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad. Mae'r rheolaeth yn ceisio atal prisiau mynediad rhag bod yn rhy uchel a/neu brisiau manwerthu yn rhy isel fel nad yw elw cwmnïau mynediad yn ddigon i'w galluogi i gystadlu'n effeithiol â gwasanaethau manwerthu swmp y Post Brenhinol. Y drefn ex-ante hon yw ein dull hirsefydlog o reoleiddio prisiau yn y farchnad mynediad, yn hytrach na rheolaethau prisiau ffurfiol neu drefn ôl-brisio ex-post.
- 7.62 Mae'r rheolaeth gwasgu elw yn cynnwys dau brawf (y prawf basged a'r prawf contract), mae'n rhaid eu cynnal ar ddechrau pob blwyddyn ariannol a'u diweddarau bob chwarter. Rhaid i'r profion ddefnyddio'r refeniw a'r costau a ragwelir, oherwydd mae Amod 6 USPA yn mynnu bod gan y Post Brenhinol ddisgwyliad rhesymol ei fod yn pasio'r profion yn y flwyddyn ariannol honno. Er mwyn asesu cydymffurfiad â'r rheolaeth gwasgu elw, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyfrifo'r refeniw perthnasol ymhellach i fyny'r ffrwd ar gyfer y cynnyrch o fewn cwmpas Amod 6 USPA fel y gwahaniaeth rhwng refeniw manwerthu o un pen i'r llall a refeniw perthnasol y cynnyrch ymhellach i lawr y ffrwd.<sup>297</sup> Mae'r refeniw perthnasol ymhellach i lawr y ffrwd yn cael ei gyfrifo drwy dybio bod y refeniw fesul uned ymhellach i lawr y ffrwd ar gyfer cynhyrchion Amod 6 USPA yn gyfartal â phrisiau eu cynnyrch mynediad cyfatebol (fel petai'r Post Brenhinol yn codi tâl arno'i hun am y cynnyrch mynediad i gynnig gwasanaethau manwerthu).
- 7.63 Rydym wedi canfod bod risg o wasgu elw mewn perthynas â mynediad D+3, fel sy'n cael ei egluro uchod. Rydym o'r farn bod y risg hon yn cyfateb i'r risgiau a nodwyd gennym wrth osod rheolaeth ar fynediad D+2 a D+5, ac nid ydym wedi nodi unrhyw reswm pam na fyddai dull tebyg o reoleiddio prisiau yn briodol nac yn rhesymol ar gyfer gwasanaethau mynediad D+3. Mae ein hamcanion o ran prisiau yr un fath â'r rhai gyda'r gwasanaethau D+2 a D+5 presennol, sef atal strategaethau prisio gwrthgystadleuol gan y Post Brenhinol ar ei opsiynau manwerthu a chyfanwerthu lle ceir risg o wasgu elw. O'r herwydd, rydym ynn cynnig y dylai'r gwasanaethau mynediad D+3 newydd fod yn ddarostyngedig i'r un prawf o dan y rheolaeth gwasgu elw ag a nodir yn awr yn Amod 6 USPA.
- 7.64 Roeddem hefyd wedi ystyried opsiynau eraill ar gyfer rheoleiddio prisiau fel rheolaethau prisiau ffurfiol neu drefn brisio ex-post. Roeddem o'r farn na fyddai gosod rheolaethau

---

<sup>297</sup> Ar ôl hynny, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyflwyno rhagolygon a gwybodaeth ariannol go iawn yn chwarterol sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio â'r prawf basged. Rhaid iddo hefyd roi manylion unrhyw gontractau pwrpasol newydd yr ymrwymwyd iddynt sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r prawf contract.



prisiau ar y Post Brenhinol yn rhesymol ac y byddai'n gosod baich agored ac anghyfiawn ar hyn o bryd ar ei ryddid masnachol, gan y byddai'n golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol osod prisiau mynediad D+3 ar lefel benodol. Fe wnaethom nodi yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaethau Post yn 2022 ein bod yn credu y byddai gosod rheolaethau prisiau yn debygol o arwain at fanteision ychwanegol cyfyngedig a chostau a risgiau uwch o bosibl,<sup>298</sup> ac rydym yn ystyried bod y rhesymeg hon yn berthnasol yma. Nid ydym yn credu bod trefn brisio ex-post, lle rydym yn dadansoddi prisiau'r Post Brenhinol drwy edrych yn ôl, yn briodol ychwaith, gan ei bod yn cyfyngu ar y mesurau diogelu amser real ar gyfer cwmnïau mynediad.

- 7.65 Yn ogystal â'r rhesymau uchod, gallai arwain at ddryswch am ein trefn brisio pe baem yn dechrau trefn brisio newydd a phenodol ar gyfer llythyrau mynediad D+3.

### **Yn amodol ar rai newidiadau, rydym yn cynnig y dylid asesu'r wasgfa ar elw D+3 yn erbyn y Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol presennol ar gyfer y rheolaeth mynediad D+2**

- 7.66 Fel y trafodwyd uchod, rydym yn cynnig rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+ 3 a dod â'r Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol cyfatebol o dan y rheolaeth gwasgu elw yn Amod 6 USPA. Rydym hefyd wedi cydnabod y bydd y rhestr bresennol o wasanaethau manwerthu sydd wedi'u rhestru ar gyfer mynediad D+2 yn cyfateb i fynediad D+3 ar ôl y diwygiadau arfaethedig.
- 7.67 Ar lefel dechnegol, rydym yn cynnig tynnu rhai cynhyrchion penodol, fel llythyrau OCR a llythyrau o didoli uchel, o'r rhestr o Wasanaethau Manwerthu Perthnasol gan fod y Post Brenhinol wedi rhoi gwybod i ni eu bod yn hen gynnyrch nad yw'n eu cynnig mwyach.<sup>299</sup>
- 7.68 Rydym wedi sefydlu bod risg o wasgu elw yng nghyswllt gwasanaethau mynediad a manwerthu D+3, ac y byddai'r risg hon yn bodoli rhwng gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig a'r gwasanaethau manwerthu presennol sydd wedi'u rhestru o dan y Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol D+2. Y rheswm am hyn yw y byddai'r gwasanaethau manwerthu hynny yn debycach i wasanaethau mynediad D+3 na D+2 ar ôl y diwygiadau arfaethedig. Felly, rydym yn cynnig y dylai ein Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+3 gynnwys y cynnyrch mae'r Post Brenhinol yn parhau i'w cynnig, sef y rheini a fydd yn cael eu haddasu i fodloni ei fodel danfon bob yn ail ddiwrnod. Ni fyddem yn cynnwys yr hen gynnyrch nad yw'r Post Brenhinol yn eu cynnig mwyach ar sail manwerthu. Mae'r rhestr ddiweddaraf o wasanaethau ar gael yn Atodlenni 1 a 2 i Atodiad A9 yr ymgynghoriad hwn.

## **Rhwymedigaethau mynediad D+3 ategol**

- 7.69 Mae effeithiolrwydd cystadleuaeth yn y farchnad post swmp ymhellach i fyny'r ffrwd yn dibynnu ar ganiatáu mynediad ar delerau ac amodau nad ydynt yn rhoi cwmnïau mynediad dan anfantais i wasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol.

---

<sup>298</sup> Ofcom, 2022. [Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post 2022](#), tudalen 251.

<sup>299</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

- 7.70 Er mwyn cefnogi'r canlyniad hwn ar gyfer mynediad D+2 a D+5, rydym yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad ar delerau ac amodau teg a rhesymol ac nad ydynt yn gwahaniaethu'n ormodol. Rydym hefyd yn gosod mesurau diogelu eraill sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer gweithredwyr post a defnyddwyr gwasanaethau post i wneud cais am gontractau mynediad neu amrywiadau i gontractau presennol; gofynion hysbysu a chyhoeddi; a gwybodaeth sy'n ymwneud ag ansawdd gwasanaeth. Mae'r gofynion ychwanegol hyn yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu cwmnïau mynediad a hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol, a rhoi digon o hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol o ran sut mae'n rheoli ei fusnes.
- 7.71 Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylem ddefnyddio'r un amodau i fynediad D+3, ac rydym o'r farn bod yr amddiffyniadau hyn yn rhan o'r mesurau diogelu angenrheidiol i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad mynediad.
- 7.72 Felly, rydym yn cynnig gosod y gofynion canlynol ar y Post Brenhinol mewn perthynas â mynediad D+3:
- darparu mynediad D+3 ar delerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol (Amod 3 USPA);
  - mabwysiadu proses resymol, dryloyw ac amserol i gwmnïau mynediad wneud ceisiadau am gontractau mynediad (neu amrywiadau i gontractau mynediad presennol) (Amod 4 USPA);
  - peidio â gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn unrhyw bersonau penodol neu yn erbyn disgrifiad o bersonau mewn perthynas â materion mynediad, a chyfyngu ar ddefnyddio gwybodaeth a geir mewn cysylltiad â rhoi mynediad (Amod 5 USPA);
  - rhoi digon o rybudd am newidiadau i delerau ac amodau safonol i gwmnïau mynediad (Amod 7 USPA); a
  - chyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth ar gyfer ei wasanaethau mynediad (Amod 8 USPA).
- 7.73 Rydym yn cynnig rhoi'r cynigion hynny ar waith drwy wneud yr addasiadau arfaethedig i'r Amod USPA fel y nodir yn yr hysbysiad statudol a gyhoeddwyd yn Atodiad A9.

## Gwasanaethau mynediad D+5

---

- 7.74 Fel yr amlinellwyd uchod, er mwyn gwireddu arbedion costau diwygio yn llawn, rhaid i'r Post Brenhinol allu danfon y rhan fwyaf o lythyrau bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys llythyrau D+5, a oedd yn cynrychioli 39% o'r farchnad post mynediad yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rydym felly'n asesu effaith addasu'r rhwymedigaeth mynediad D+5 bresennol i roi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn.

## Asesiad effaith

- 7.75 Cafodd gwasanaethau mynediad D+5 eu cyflwyno ar ôl ymgynghoriad yn 2021. Maent yn cael eu cynnig gan y Post Brenhinol i gwmnïau mynediad, a all yn eu tro eu cynnig i'w cwsmeriaid, fel cynnyrch 'economi'. Mae'r gwasanaethau o fudd i sefydliadau sy'n defnyddio llawer o bost a defnyddwyr terfynol gan eu bod yn rhatach na gwasanaethau mynediad D+2. Maent hefyd o fudd i'r Post Brenhinol gan fod gwasanaethau mynediad D+5

yn caniatáu iddo ohirio danfon post a lleihau nifer yr ymweliadau sydd eu hangen i gyfeiriad unigol bob wythnos, gyda mwy o eitemau'n cael eu danfon ar bob ymweliad.

- 7.76 Mae gwasanaethau D+5 yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r farchnad mynediad gyfan, fel y nodir ym mharagraff 7.13. Mae'n amlwg felly bod gwasanaethau mynediad D+5 wedi dod yn bwysicach i gwmnïau mynediad ac i'w cwsmeriaid sy'n gwerthfawrogi gwasanaeth rhatach ond arafach.
- 7.77 Rydym wedi ystyried a fyddai modd i ni adael rheoleiddio mynediad D+5 heb ei newid. Byddai hynny'n golygu y byddai gwasanaethau mynediad D+5 yn dal i gael eu darparu chwe diwrnod yr wythnos. Rydym yn credu y byddai hyn yn ychwanegu cymhlethdod at fodel danfon bob yn ail ddiwrnod y Post Brenhinol, gan fynnu ei fod yn gweithredu system a fyddai'n ei alluogi i ddanfon post D+5 ar ddydd Sadwrn mewn faniau, ochr yn ochr â phost blaenoriaeth fel Dosbarth Cyntaf. Byddai hyn yn lleihau'r arbedion y gallai eu gwneud drwy gyfuno'r post i ddanfon i gyfeiriad yn llai aml yn yr wythnos, gan danseilio ei allu i gynyddu'r arbedion cost net posibl yn sgil diwygio a'r manteision canlyniadol i ddefnyddwyr.
- 7.78 Rydym felly wedi ystyried effaith rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn ar gyfer mynediad D+5. Fe wnaethom egluro wrth gyflwyno mynediad D+5 ein bod yn disgwyl i gwsmeriaid y gwasanaethau newydd fod yn rhai sy'n llai sensitif o ran amser ac nad oes angen sicrwydd o ran y diwrnod danfon (h.y. cwsmeriaid sy'n barod i dderbyn ffenestr ddanfon fwy/ansicr am bris is), ac rydym yn disgwyl i hyn barhau. Yn wir, ers cyflwyno gwasanaethau mynediad D+5 nid ydynt erioed wedi honni eu bod yn cynnig manyleb danfon sy'n gallu gwarantu danfon ar ddiwrnod penodol.<sup>300</sup> Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd rhoi'r gorau i ddanfon mynediad D+5 ar ddydd Sadwrn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth hwnnw.
- 7.79 O ran yr effaith ar ddefnyddwyr terfynol, canfu ein hymchwil ddiweddaraf fod danfon llythyrau yn ystod yr wythnos yn bwysig i 80% o ddefnyddwyr preswyl ac 82% o fusnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, ystyriwyd bod danfon ar ddydd Sadwrn yn llai pwysig: dim ond 57% o ddefnyddwyr preswyl a 35% o ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig a ddywedodd fod danfon ar ddydd Sadwrn yn bwysig. Sut bynnag, byddai opsiynau yn dal ar gael yn y farchnad i ddanfon llythyrau ar ddydd Sadwrn i unrhyw ddefnyddwyr mawr mae angen hynny ar eu defnyddwyr, er ein bod yn cydnabod bod opsiynau o'r fath yn debygol o fod yn ddrutach.

## Casgliad dros dro

- 7.80 Gan ystyried yr uchod i gyd, rydym yn cynnig tynnu danfon ar ddydd Sadwrn o'r fanyleb ar gyfer mynediad D+5. Rydym o'r farn bod cyfiawnhad dros yr effaith gyfyngedig, os o gwbl, ar ddefnyddwyr mynediad D+5 a'u defnyddwyr terfynol yn sgil cael gwared ar ddanfon ar ddydd Sadwrn, oherwydd effaith sylweddol bosibl ei gynnal ar allu'r Post Brenhinol i wireddu'r arbedion costau o ganlyniad i ddiwygio, a'r buddion i ddefnyddwyr sy'n deillio o'r arbedion hynny, fel cynnydd is mewn prisiau.

---

<sup>300</sup> Ofcom, 2021. [Datganiad: Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol](#) tudalen 24.

## Gwasanaethau mynediad D+2

---

### Mae'r Post Brenhinol wedi cynnig dadreoleiddio mynediad D+2

- 7.81 Fel sy'n cael ei amlinellu uchod, cynnig y Post Brenhinol ar gyfer diwygio'r rhwymedigaeth mynediad yw disodli mynediad D+2 gyda D+3. Y rheswm am hyn yw bod y Post Brenhinol yn credu bod angen i'r mwyafrif helaeth o lythyrau newid i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos er mwyn gwireddu'r arbedion costau'n llawn yn sgil diwygio. P'un ai yw post mynediad D+2 yn dal i gael ei reoleiddio ai peidio, yn weithredol byddai'n cael ei drin yr un fath â llythyrau Dosbarth Cyntaf mewn rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol diwygiedig, sy'n cael ei ddanfôn chwe diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn golygu y byddai'n gostus iawn cadw niferoedd D+2 ar eu lefel bresennol neu'n agos i'w lefel bresennol.<sup>301</sup> Mae'r Post Brenhinol wedi dadlau y byddai parhau i reoleiddio D+2 yn cyfyngu ar ei hyblygrwydd masnachol ac felly ei allu i gymell niferoedd i symud, er enghraifft drwy brisiau.
- 7.82 Fel y nodir ym mharagraff 7.19, pe baem yn dadreoleiddio mynediad D+2 yna mae'r Post Brenhinol wedi cynnig y byddai'n parhau i gynnig y gwasanaeth ar sail fasnachol yn unol â'i fanyleb danfon gyfredol o chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Cawn ar ddeall bod y Post Brenhinol, ar ôl ymgynghori â'i gwsmeriaid, wedi dod i'r farn y byddai cynnig mynediad D+2 yn rhoi dewis ychwanegol i ddefnyddwyr mynediad wrth iddynt benderfynu a yw'r berthynas pris/ffenstr danfon yn dal i weithio iddyn nhw. Mae wedi dweud y byddai hefyd yn rhoi mwy o amser i gwsmeriaid drosglwyddo i wasanaeth mynediad arall.<sup>302</sup> Mae wedi dadlau na ddylid rheoleiddio D+2 fel nad yw'n cael ei gyfyngu o ran sut gall brisio'r gwasanaeth i gymell cwsmeriaid i symud i fynediad D+3 neu D+5. Mae hefyd wedi dweud y byddai'n hoffi gallu rhoi'r gorau i gynnig y gwasanaeth yn ôl os oes angen, er enghraifft pe bai'r niferoedd ar y gwasanaeth yn aros yn rhy uchel ei bod hi'n anodd gwireddu maint llawn yr arbedion cost posibl.<sup>303</sup>
- 7.83 Rydym yn deall pryderon y Post Brenhinol, a bod yr arbedion cost o ddiwygio yn dibynnu ar nifer y llythyrau sy'n symud i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Yng ngoleuni sefyllfa'r Post Brenhinol, rydym wedi ystyried isod a oes achos dros gael gwared ar reoleiddio o fynediad D+2.

### Mae'n bosibl y bydd cryn alw o hyd am fynediad D+2 ar ôl unrhyw ddiwygio, o leiaf yn y tymor byr

- 7.84 Rydym yn cydnabod y gallai newid i fodel danfon newydd fod yn anodd ac yn cymryd llawer o amser i rai defnyddwyr mynediad, a allai fod angen cyfnod o addasu wrth iddynt ystyried sut mae addasu eu gweithrediadau a pharhau i ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid. Er

---

<sup>301</sup> Dywedodd y Post Brenhinol wrthym, ar sail ei waith modelu mae'n disgwyl i niferoedd y llythyrau diwrnod canlynol (USO a heb fod yn USO) ddisgyn 75% (o [3<] o lythyrau'n flynyddol nawr i oddeutu [3<] o lythyrau'n flynyddol) i leihau'r risg o beidio â gwireddu arbedion cost. Mae niferoedd diwrnod canlynol yn cynnwys post USO Dosbarth Cyntaf, post rhyngwladol, post swmp manwerthu Dosbarth Cyntaf, a phost mynediad D+2.

<sup>302</sup> Y Post Brenhinol, 24 Tachwedd 2024. Cyflwyniad i Ofcom ar ddull gweithredu ar gyfer cynnyrch mynediad D+2 a D+3.

<sup>303</sup> Y Post Brenhinol, 6 Rhagfyr 2024. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.

enghraifft, dywedodd y Gymdeithas Cyhoeddwyr Proffesiynol wrthym y byddai terfynau amser tynn i argraffu ac anfon post ar gyfer cyhoeddwyr arbenigol yn golygu na fyddai modd rheoli'r broses o drosglwyddo'r post ar unwaith i fynediad D+3 ac y byddai danfon chwe diwrnod yr wythnos, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn, yn dal yn bwysig.<sup>304</sup> Roedd gan y Comisiwn Etholiadol bryderon tebyg ynghylch sensitifrwydd amser a nododd yn benodol bryderon am ddyddiadau cau statudol i anfon post y mae amser yn hanfodol iddo fel pleidleisiau post, a fydd weithiau'n mynd drwy gwmni mynediad.<sup>305</sup>

- 7.85 O'r wybodaeth a rannwyd â ni gan gwmnïau mynediad, rydym yn nodi bod un cwsmer mawr yn y sector cyhoeddus wedi treialu defnyddio gwasanaeth D+5 ar gyfer rhywfaint o'i bost ond ei fod yn anhapus â'r cyflymder danfon ac felly wedi symud yn ôl i D+2.<sup>306</sup> Rydym hefyd yn nodi bod rhai cwsmeriaid mynediad wedi codi pryderon am yr anallu i symud i wasanaethau D+3 oherwydd rheoliadau sy'n benodol i'w sector.<sup>307</sup>
- 7.86 Rydym yn deall bod y pryderon hyn wedi cael eu codi gan gwsmeriaid mynediad yn eu trafodaethau â'r Post Brenhinol, a bod hyn yn rhan o'r rheswm pam y byddai'n parhau i gynnig mynediad D+2 ar sail fasnachol. Ar ben hynny, cawn ar ddeall y byddai'r Post Brenhinol hefyd yn parhau i gynnig D+2 gan fod rhai defnyddwyr mynediad wedi dweud eu bod yn dymuno parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw, er y byddai prisiau'n codi, gan na fyddai gwasanaeth arafach yn bodloni eu gofynion.<sup>308</sup>
- 7.87 Er ein bod yn disgwyl, yn y pen draw, y byddai llawer o lythyrau'n symud i fynediad D+3, ar hyn o bryd ni allwn ragweld yn sicr, sut byddai'r farchnad yn ymateb i'r ffaith y byddai'n cyflwyno mynediad D+3 a chynnydd ym mhris D+2. Am y rhesymau uchod, fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'n debygol y byddai galw o hyd am fynediad D+2 am gyfnod o leiaf ar ôl i unrhyw ddiwygiad gael ei roi ar waith. Rydym yn poeni y gallai dadreoleiddio D+2 nawr olygu bod llawer iawn o lythyrau heb yr amddiffyniadau rheoleiddio sylfaenol yn yr Amod USPA, a allai gael effaith negyddol ar ddefnyddwyr post mynediad ac amharu ar eu gallu i reoli'r broses o newid i wasanaeth mynediad gwahanol.

### **Rydym yn poeni am yr effaith bosibl ar gystadleuaeth yn sgil dadreoleiddio mynediad D+2**

- 7.88 Mae ein gwaith rheoleiddio wedi cyflawni ac yn parhau i gyflawni'r nod o hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp, fel sy'n amlwg gan mai post mynediad yw'r rhan fwyaf o bost swmp.
- 7.89 Er ein bod yn cydnabod bod yr arbedion cost sy'n deillio o ddiwygio yn dibynnu ar bod digon o lythyrau'n symud i ddanfon o dan y model bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos, rhaid cyflawni hyn mewn ffordd sy'n parhau i hyrwyddo cystadleuaeth. Rydym wedi egluro uchod bod ansicrwydd ynghylch sut byddai'r farchnad yn ymateb i'n cynigion ar fynediad, ond bod

---

<sup>304</sup> Cyfarfod rhwng Ofcom a'r Gymdeithas Cyhoeddwyr Proffesiynol. 10 Hydref 2024.

<sup>305</sup> Cyfarfod rhwng Ofcom a'r Comisiwn Etholiadol. 28 Tachwedd 2024.

<sup>306</sup> Ymateb Whistl i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 13 Rhagfyr 2024.

<sup>307</sup> Ymateb Citipost i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 13 Rhagfyr 2024.

<sup>308</sup> Y Post Brenhinol, 6 Rhagfyr 2024. Cyflwyniad i Ofcom ar D+2.

y dystiolaeth yn awgrymu y gallai llawer iawn aros ar fynediad D+2 ar ôl unrhyw ddiwygio, o leiaf yn y tymor byr. O'r herwydd, rydym o'r farn bod y rhesymau dros reoleiddio mynediad D+2 yn debygol o barhau i fod yn berthnasol wrth i'r farchnad ymateb i unrhyw ddiwygiadau. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â'r risg o gynnig mynediad D+2 ar delerau llai ffafriol nag unrhyw wasanaethau manwerthu cyfatebol, ac o wasgu elw ar bris y gwasanaeth. Er y byddai'r Post Brenhinol yn parhau i gynnig mynediad D+2 ar sail fasnachol, pe na bai'n rhaid iddo gan reoliadau, gallai'r Post Brenhinol roi'r gorau i gynnig y gwasanaeth unrhyw bryd (yn amodol ar unrhyw gytundeb contract), a nodwn ei fod wedi nodi hyn fel rheswm dros ddadreoleiddio'r gwasanaeth. Rydym o'r farn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod D+2 yn dal i gael ei gynnig, o leiaf wrth i gwsmeriaid mynediad addasu i farchnad mynediad wedi'i haddasu.

- 7.90 O ystyried yr uchod i gyd, ar hyn o bryd nid ydym o'r farn bod achos dros roi'r gorau i reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2. Rydym yn nodi'n benodol yr ansicrwydd am sut byddai'r farchnad yn ymateb i gyflwyno mynediad D+3, y tebygolrwydd y byddai llawer iawn yn dal i fod ar fynediad D+2 yn y tymor byr ar ôl diwygio, yr effaith bosibl ar ddefnyddwyr a'r risgiau i gystadleuaeth yn sgil dadreoleiddio D+2.
- 7.91 Fodd bynnag, rydym yn deall pryderon y Post Brenhinol y gallai parhau i reoleiddio mynediad D+2 leihau'r niferoedd sy'n symud i wasanaeth arafach ac felly gallai olygu nad yw'n gallu gwireddu'r arbedion cost llawn sy'n deillio o ddiwygio.<sup>309</sup> Rydym hefyd yn cydnabod y gallai costau uwch i'r Post Brenhinol olygu cynnydd uwch mewn prisiau i ddefnyddwyr yn y tymor hirach. Byddwn felly'n parhau i adolygu'r mater hwn, gan gynnwys sut mae'r farchnad yn datblygu yn dilyn unrhyw ddiwygio, a byddwn yn dal yn agored i ailystyried a ddylid rheoleiddio mynediad D+2 os bydd ffactorau'n codi sy'n awgrymu nad yw'n briodol gwneud hynny mwyach. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd niferoedd D+2 yn gostwng i lefel lle nad yw'n gymesur mwyach i reoleiddio'r gwasanaeth. Fel arall, mae'n bosibl y daw tystiolaeth i'r amlwg bod lefel y niferoedd D+2 yn cael cymaint o effaith ar allu'r Post Brenhinol i gyflawni'r arbedion cost o'n diwygiadau arfaethedig, ac ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, y dylem ailystyried a yw'r cydbwysedd cywir yn cael ei daro gyda'r angen i ddiogelu defnyddwyr a chystadleuaeth.
- 7.92 Yn y cyfamser, fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai cymhellion i gwsmeriaid symud i fynediad D+3, gan gynnwys rheoleiddio'r gwasanaeth sy'n ei wneud yn opsiwn mwy deniadol (fel y mae paragraff 7.43 uchod yn egluro), ac oherwydd y byddai'r Post Brenhinol yn cynyddu pris mynediad D+2. O ran y mater olaf hwn, rydym wedi ystyried dyfodol rheoleiddio prisiau ar gyfer D+2 o ystyried ein cynnig ar ddefnyddio'r rheolaeth wasgu elw ar gyfer mynediad D+3. Dyma ein cynigion.

## Prisio gwasanaethau mynediad D+2

- 7.93 O dan Amod 6 USPA, rydym yn gosod rheolaeth wasgu elw ar bris mynediad D+2 i atal y Post Brenhinol rhag manteisio ar ei statws monopoli a chymryd rhan mewn arferion prisio gwrth-gystadleuol. Mae'r rheolaeth hon yn rhestru nifer o wasanaethau manwerthu'r Post

---

<sup>309</sup> Y Post Brenhinol, 6 Rhagfyr 2024. Cyflwyniad ar D+2.

Brenhinol – sy'n cael eu galw yn Wasanaethau Manwerthu Perthnasol – sydd, yn ein barn ni, yn ddigon tebyg neu'n cyfateb i fynediad D+2 ac felly'n peri risg o wasgfa ar elw.

- 7.94 Fel sy'n cael ei egluro ym mharagraffau 7.57-7.68, rydym yn cynnig defnyddio rheolaeth gwasgfa elw ar gyfer gwasanaethau mynediad D+3. O ystyried yr hyn sy'n debyg yn eu manyleb o ran amlder a chyflymder danfon, rydym o'r farn y byddai'r Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol presennol ar gyfer y rheolaeth D+2 yn dod yn debycach i fynediad D+3 o dan ein cynigion, fel y byddai risg o wasgfa ar o elw ar fynediad D+3 mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny. O'r herwydd, rydym yn cynnig y dylai'r gwasanaethau hyn ddod yn Wasanaethau Manwerthu Perthnasol ar gyfer y rheolaeth D+3.
- 7.95 O ganlyniad, rydym wedi asesu a oes dal risg o wasgfa ar elw ar fynediad D+2 ac, os felly, yng nghyswllt pa rai o wasanaethau manwerthu'r Post Brenhinol. Pe baem yn rhoi ein cynigion ar waith, yna byddai'r gwasanaethau mynediad D+2, yn ôl eu manyleb danfon, yn debycach i wasanaethau manwerthu swmp Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac rydym yn deall y byddai ganddynt sylfaen gostau debyg gan y byddent hefyd yn cael eu danfon ar faniau ar ddiwrnodau lle nad oes llwybr cerdded wedi'i drefnu. Er bod gan y gwasanaethau manwerthu Dosbarth Cyntaf amser llwybro'r diwrnod canlynol, rydym o'r farn bod hyn yn debyg iawn i fynediad D+2 gan ei bod yn rhaid i'r Post Brenhinol ddanfôn post D+2 y diwrnod ar ôl i gwmni mynediad ei roi yn yr IMC.
- 7.96 Felly, rydym wedi dod i'r casgliad cychwynnol y gallai fod risg gwasgu elw rhwng mynediad D+2 am bris newydd a'r gwasanaethau swmp manwerthu Dosbarth Cyntaf. Er nad yw'r cynhyrchion hyn yn cyfateb yn llwyr i'w gilydd, rydym o'r farn ei bod yn debygol y byddent yn cael eu hystyried yn gynhyrchion post swmp premiwm ac y byddent yn cystadlu i raddau sylweddol. O'r herwydd, heb reolaeth gwasgu elw, gallai'r Post Brenhinol brisio ei opsiynau manwerthu Dosbarth Cyntaf ar lefel lle byddai cwsmeriaid mynediad D+2 yn cael eu cymell i symud i'r gwasanaethau manwerthu hynny.
- 7.97 O'r herwydd, ein casgliad dros dro yw y gallai mynediad D+2 fod yn destun gwasgfa elw mewn perthynas â gwasanaethau manwerthu Dosbarth Cyntaf, ac y dylai barhau felly o fewn rheolaeth gwasgu elw lle mai gwasanaethau manwerthu Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol yw'r Gwasanaethau Manwerthu Perthnasol. Byddai'r rheolaeth gwasgu elw arfaethedig yn gweithio yn yr un ffordd â'r rheolaethau presennol ac felly byddai'n rhaid i'r Post Brenhinol osod ei ffioedd ar ddisgwyliad rhesymol y byddent yn cydymffurfio â'r rheolaeth. Er ein bod yn cydnabod y gallai fod rhywfaint o ansicrwydd o ran rhagweld ar adeg o newid i'r farchnad, ni ddylai'r risg o ansicrwydd atal y rheolaeth rhag gweithio o ystyried bod ein dull gweithredu yn seiliedig ar ddisgwyliad rhesymol y Post Brenhinol y bydd yn cydymffurfio â'r rheolaeth.
- 7.98 Rydym yn cydnabod bod angen digon o hyblygrwydd masnachol ar y Post Brenhinol i gymell cwsmeriaid i symud i D+3, gan gynnwys prisio D+2 er mwyn gwireddu'r arbedion cost llawn sy'n deillio o ddiwygio. Rydym yn cydnabod ei bryder y gallai parhau i reoleiddio prisiau D+2 olygu y byddai'n ei chael hi'n anodd cymell niferoedd i symud. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid ydym yn credu y byddai bod yn ddarostyngedig i'r rheolaeth gwasgu elw arfaethedig yn golygu na fyddai gan y Post Brenhinol ddigon o le i brisio ei wasanaethau mynediad D+2 arfaethedig ar lefel sy'n dderbyniol yn fasnachol ym marn y Post Brenhinol. Ar ben hynny, byddai rheoleiddio prisiau mynediad D+2 yn fanteisiol i gwmnïau mynediad a defnyddwyr mawr, a all fod yn hyderus ein bod yn monitro risgiau gwasgu elw ac yn gwarchod rhag i'r

Post Brenhinol ddefnyddio strategaethau prasio gwrth-gystadleuol. Felly, rydym o'r farn y byddai cael rheolaeth gwasgu elw ar D+2 yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi digon o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol a diogelu cwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid.

- 7.99 Yn Atodiad A9, rydym yn cynnig pennu bod Mailmark Post Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol a llythyrau busnes arferol a llythyrau hysbysebu a llythyrau Mawr, Llythyrau Mawr 24 y Post Brenhinol a chardiau pleidleisio'r Post Brenhinol yn Wasanaethau Manwerthu Perthnasol ar gyfer mynediad D+2. Y rheswm am hynny yw ein bod, fel sy'n cael ei egluro uchod, yn ystyried bod gan y llythyrau manwerthu hynny nodweddion prosesu a danfon mewnol a fyddai'n debyg iawn i Lythyrau D+2 a llythyrau Mawr gwasanaethau mynediad o dan ein cynigion.

## Materion eraill sy'n ymwneud â'r Amod USPA

---

- 7.100 Yn ystod ein hasesiad o newidiadau posibl i'r Amod USPA, rydym wedi dod yn ymwybodol o faterion eraill sy'n ymwneud â mynediad, gan gynnwys drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Rydym wedi ystyried y materion hyn isod.

### Prisiau mynediad

- 7.101 Yn ystod ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn dilyn y Cais am Fewnbwn, awgrymodd y Fforwm Cystadleuaeth Post (MCF) y dylai Ofcom, yn ogystal â'r rheolaeth gwasgu elw, ystyried cyflwyno mesurau diogelu newydd i greu bwlch rhwng post mynediad a chynnyrch manwerthu'r Post Brenhinol<sup>310</sup> a rheolaethau prisiau ar lefel cynnyrch ar wasanaethau penodol.<sup>311</sup>
- 7.102 Yn ein Hadolygiad o Reoleiddio Gwasanaethau Post yn 2022, fe wnaethom egluro nad oeddem yn credu bod angen cap pris ar ffioedd mynediad y Post Brenhinol.<sup>312</sup> Fe wnaethom ddweud bod rhoi hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol o ran prisiau yn bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Wrth i'r dirywiad gostyngiad yn nifer y llythyrau barhau, mae cost uned danfon llythyrau yn cynyddu. Rydym yn dal o'r farn bod caniatáu'r rhyddid masnachol i'r Post Brenhinol fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys drwy brisio ei wasanaethau mynediad, yn dal yn ffordd bwysig i'r Post Brenhinol fynd i'r afael â'r heriau i gynaliadwyedd ariannol.
- 7.103 Mae gennym ddyletswyddau cyfreithiol ychwanegol wrth osod rheolaethau prisiau, gan gynnwys ei bod yn ymddangos i ni y gallai'r Post Brenhinol bennu a chynnal prisiau ar lefel eithriadol o uchel gyda chanlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr post. Wrth ddadansoddi a yw hyn yn wir ar hyn o bryd, roeddem wedi ystyried sut mae cystadleuaeth yn gweithio yn y farchnad mynediad. Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae gennym ddata llawn ar eu cyfer, rydym yn amcangyfrif bod cyfran mynediad o'r farchnad llythyrau post swmp wedi tyfu o 84% yn 2021/22 i 86% yn 2023/24.<sup>313</sup> Mae hyn yn awgrymu bod ein gwaith rheoleiddio presennol yn cefnogi cystadleuaeth yn y farchnad post swmp. Yng ngoleuni gwybodaeth o'r

---

<sup>310</sup> MCF, Awst 2024. Cyflwyniad i Ofcom.

<sup>311</sup> MCF, Awst 2024. Cyflwyniad i Ofcom.

<sup>312</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post](#), tudalen 249.

<sup>313</sup> Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi fel rhan o'n [gofynion adrodd rheoleiddiol](#).



fath, nid yw'n ymddangos i ni fod trefn brisio'r Post Brenhinol yn cael canlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr post. Felly, nid ydym wedi nodi unrhyw bryderon cystadleuaeth uniongyrchol a fyddai'n cyfiawnhau ymyrryd ymhellach ar brisiau.

## Tryloywder rheoli'r wasgfa ar elw

- 7.104 Fel yr amlinellwyd uchod, rhaid i'r Post Brenhinol anfon gwybodaeth i Ofcom am y rheolaeth gwasgu elw bob blwyddyn a phob chwarter. Mae hyn yn cynnwys rhagolygon ex-ante, canlyniadau ex-post go iawn a chontractau. Rydym yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd, yn asesu a gydymffurfir â'r rheolaeth gwasgu elw, yn adolygu newidiadau newydd i gontractau ac, os yw'n briodol, yn gofyn rhagor o gwestiynau i'r Post Brenhinol.
- 7.105 Er ein bod yn asesu'r wybodaeth a adroddwyd i ni fel y nodir uchod, nid yw hyn yn cael ei nodi'n allanol. Rydym yn gwybod bod rhai rhanddeiliaid yn poeni nad yw ein dull gweithredu presennol felly'n ddigon tryloyw. Ein safbwynt blaenorol oedd, pe baem yn credu bod sail i agor ymchwiliad i gydymffurfiaid y Post Brenhinol â'r rheolaeth gwasgu elw (ar sail ei sylwadau neu oherwydd anghydfod neu gŵyn a ddygwyd gan drydydd parti), byddai hyn yn cael ei wneud yn gyhoeddus drwy Fwletin Gorfodi Ofcom.<sup>314</sup> Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y broses bresennol yn golygu efallai mai ychydig iawn o ddealltwriaeth a gwelededd sydd gan y farchnad o sut mae Ofcom yn asesu cydymffurfiaid y Post Brenhinol â'r rheolaeth gwasgu elw. Rydym yn cydnabod, o dan ein cynigion, y byddai tri math o wasanaethau mynediad yn destun rheolaeth gwasgu elw a allai fod yn fwy cymhleth ac felly'n cyfyngu rhagor ar ddealltwriaeth y cyhoedd o'r farchnad o ran a yw'r Post Brenhinol yn cydymffurfio â'r rheolaeth.
- 7.106 Rydym yn credu y byddai cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiadau rydym yn eu cynnal yn rhoi mwy o hyder i'r farchnad bost ein bod ni'n gwirio'n rheolaidd bod y Post Brenhinol yn cydymffurfio â'r rheolaeth gwasgu elw. Felly, drwy ein Hadroddiad Monitro Post blynyddol, rydym yn bwriadu rhoi sylwadau ynghylch a yw'r Post Brenhinol, ar sail ei gyflwyniadau i ni yn ystod y flwyddyn ariannol, wedi cydymffurfio â'r prawf gwasgu elw. Pe baem yn canfod nad oedd y Post Brenhinol yn cydymffurfio â'r rheolaeth, byddai'r broses yn parhau fel y nodir uchod.

## Ansawdd gwasanaethau

- 7.107 Ar hyn o bryd mae'r fframwaith rheoleiddio yn mynd i'r afael ag ansawdd gwasanaethau mynediad drwy alluogi defnyddwyr i fonitro'r ffordd mae'r Post Brenhinol yn danfon eitemau ar ôl eu rhoi yn y rhwydwaith, i gefnogi'r trefniadau contractiol sy'n cynnwys y targedau perfformiad sydd gan gwmnïau mynediad gyda'r Post Brenhinol, yn hytrach na drwy ddefnyddio rheoleiddio mwy rhagnodol i osod targedau perfformiad penodol.
- 7.108 Felly, mae Amod 8 USPA yn ei golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol gyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion sicrhau tryloywder am ansawdd y gwasanaeth mae'n ei ddarparu mewn perthynas â mynediad D+2 a D+5. Mewn perthynas â'i wasanaethau mynediad D+5, mae'n rhaid i'r Post Brenhinol hefyd adrodd yn gyhoeddus ar y gyfran o bost sy'n cael ei ddanfôn ar D+2, D+3, D+4 a D+5. Mae'r Post Brenhinol yn

---

<sup>314</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post](#), tudalen 256.

cyflawni'r gofyniad hwn drwy gyhoeddi ei 'Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth a Chwynion'<sup>315</sup> bob chwarter, yn ogystal â chyhoeddi crynodeb blynyddol ychwanegol.

- 7.109 Mae'r Post Brenhinol a chwmnïau mynediad hefyd wedi cytuno ar gyfres o dargedau ansawdd gwasanaeth drwy gytundeb contract. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn 95% ar gyfer post mynediad D+2 ac yn 97.5% ar gyfer post mynediad D+5. Mae cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol wedi cytuno ar lefelau ar wahân, sy'n golygu ei bod yn rhaid i'r Post Brenhinol dalu iawndal os nad ydynt yn cael eu bodloni. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r targedau ansawdd gwasanaeth a'r iawndal am fynediad yn annibynnol ar y targedau ansawdd gwasanaeth rydym wedi'u gosod ar gyfer gwasanaethau USO, fel sy'n cael ei drafod yn adran 6.

### Effaith y cynigion uchod ar ein trefn ansawdd gwasanaeth

- 7.110 Rydym yn gwybod y gallai'r cynnig i ddanfôn post mynediad D+3 a D+5 bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ychwanegu mwy o ansicrwydd i gwmnïau mynediad a'u cwsmeriaid ynghylch pa bryd y bydd llythyrau'n cael eu danfôn i'r gyrchfan dan sylw. Rydym yn deall, pan fydd llythyr yn methu cwrdd â'i amser llwybro targed, na fydd yn cael ei ddanfôn yn awtomatig ar y diwrnod gwaith nesaf, ond ar y diwrnod nesaf yn yr wythnos y mae disgwyl danfôn llythyrau ar hyd y llwybr cerdded. Fodd bynnag, [§<].<sup>316</sup>
- 7.111 I ddangos hyn, tybiwch bod llythyr mynediad D+3 i fod i gael ei ddanfôn erbyn dydd lau ar wythnos benodol. Amserlen danfôn llwybr cerdded y cyfeiriad hwnnw yr wythnos honno yw dydd Mawrth a dydd lau, ond nid yw'r llythyr yn cael ei ddanfôn ar amser. Ni fyddai'n cael ei ddanfôn ddydd Gwener, gan nad yw'r llwybr cerdded yn danfôn i'r cyfeiriad y diwrnod hwnnw, ac ni fydd yn cael ei ddanfôn ddydd Sadwrn gan nad yw hynny'n ddiwrnod danfôn o dan ein cynigion ar gyfer mynediad D+3. Mae hynny'n golygu y byddai'r llythyr yn cael ei ddanfôn ar y cynharaf ar y dydd Llun canlynol, pan fydd y llwybr cerdded yn danfôn nesaf i'r cyfeiriad. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, nodwn [§<], er ei bod yn annhebygol y bydd modd dileu'r risg yn llwyr.
- 7.112 Awgrymodd un cwmni mynediad fod y cynnydd yn y nifer sy'n mabwysiadu Mailmark ar draws gwasanaethau llythyrau yn golygu bod gan y Post Brenhinol fynediad at ddata gwell. Mae gan llythyrau Mailmark god bar wedi'i argraffu sy'n cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch o le daw llythyr a lle mae'n mynd. Byddai darparu'r data hwn i gwmnïau mynediad, gyda mwy o oruchwyliaeth ar daith llythyr drwy'r Post Brenhinol, yn caniatáu i gwmnïau mynediad amcangyfrif yn well pryd bydd post yn cael ei ddanfôn, gan gynnwys os bydd yn methu ei amser llwybro targed. Awgrymwyd y byddai hyn yn arbennig o fuddiol i ymgyrchoedd a sefydliadau sy'n dyrannu adnoddau eraill ynghylch pryd bydd post yn cael ei ddanfôn.<sup>317</sup> Heb wybodaeth o'r fath mae hi'n anoddach i'r busnesau hynny gynllunio.
- 7.113 Roedd sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn y farchnad post swmp hefyd o'r un farn. Awgrymwyd, pe bai Ofcom yn gwneud cynigion i ddiwygio'r gwasanaeth cyffredinol a'r

---

<sup>315</sup> Post Brenhinol, [Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth a Chwynion Chwarterol \(internationaldistributionsservices.com\)](https://internationaldistributionsservices.com) Ch4 2023/2. tudalen 9

<sup>316</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

<sup>317</sup> [ymateb](#), tudalen 5.

rhwymedigaeth mynediad, y dylai fod gofyniad i'r Post Brenhinol rannu rhagor o wybodaeth am ddanfon.<sup>318</sup> Awgrymwyd yn benodol y gallai'r Post Brenhinol wella'r adroddiadau mae'n eu rhoi i gwmnïau mynediad ar ddata Mailmark er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i gwsmeriaid o ba bryd mae post yn debygol o gyrraedd cwsmer.<sup>319</sup>

- 7.114 Ar hyn o bryd, mae gan y Post Brenhinol ddau opsiwn i gwsmeriaid sydd am ddefnyddio data i gael gwell dealltwriaeth o daith eu heitemau sy'n cael eu hanfon: opsiwn mwy dwys, sy'n llawn data o'r enw Mailmark Direct Data ac opsiwn lefel crynodeb i gwsmeriaid sydd angen defnyddio gwybodaeth Mailmark yn ysgafnach, a elwir yn adroddiadau PDF Mailmark.
- Mae Mailmark Direct Data yn rhoi mynediad i gwsmeriaid sy'n postio eu post Mailmark ar lefel eitem. Nid yw'r data'n ddata 'amser real', ac mae'r statws danfon yn seiliedig ar sganiau didoli cyn i'r post gyrraedd y swyddfa danfon.
  - Mae adroddiadau PDF Mailmark yn rhoi crynodeb data o eManifest<sup>320</sup> drwy ddarlun gweledol o sganio data. Mae'r wybodaeth ar gael drwy wefan y Post Brenhinol. Mae'r adroddiadau'n rhoi trosolwg cyflym o gyfanswm niferoedd eManifest a sut mae post yn perfformio o ran y prosesu a'r danfon a ragwelir.<sup>321</sup>
- 7.115 Dim ond dyddiad danfon a ragwelir sydd ar gael gan yr atebion a amlinellir uchod. Ar ôl sganio drwy ddidoli, ychydig iawn o oruchwyliaeth sydd gan ddefnyddwyr mawr rhwydwaith y Post Brenhinol ynghylch a yw eu post wedi cyrraedd swyddfa danfon,<sup>322</sup> wedi mynd allan ar lwybr cerdded, neu wedi cael ei ddanfon.
- 7.116 Ein barn gychwynnol yw y bydd gan gwmnïau mynediad a defnyddwyr post mawr sy'n trosglwyddo i wasanaethau mynediad D+3 lai o sicrwydd ynghylch pryd bydd eu post yn cael ei ddanfon. Rydym wedi cael tystiolaeth, y cyfeirir ati ym mharagraff 7.36 uchod, y byddai'r cynigion yn ei gwneud yn anoddach i rai defnyddwyr post mawr gynllunio eu gweithrediadau busnes a gallai hyn gael effaith negyddol ar eu defnydd o'r post.
- 7.117 Fodd bynnag, rydym yn derbyn y gallai rheoleiddio i fynnu rhannu data gymryd amser a mynnu buddsoddiad ar ran y Post Brenhinol. Yn ein trafodaethau â'r Post Brenhinol, mae wedi awgrymu y byddai ymestyn adroddiadau Mailmark y tu hwnt i'w fanyleb bresennol yn anghymesur. Er enghraifft, dywedodd y byddai sganio wrth ddanfon yn cymryd amser, yn llafur-ddwys ac yn gost-ddwys.<sup>323</sup>
- 7.118 Ein barn gychwynnol yw na fyddai mynnu bod pob llythyr Mailmark yn cael ei sganio cyn ei bostio mewn pwynt cyfeiriad yn gymesur â'r buddion sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddai'n ei

---

<sup>318</sup> [Ymateb CFH](#) i Gais am Fewnbwn 2024, tudalen 3.

<sup>319</sup> [Ymateb y Gymdeithas Defnyddwyr Post](#) i Gais am Fewnbwn 2024, tudalen 3.

<sup>320</sup> Mae eManifest yn cyfeirio at y manifest electronig sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am swp o eitemau post sy'n cael eu hanfon drwy wasanaeth Mailmark y Post Brenhinol. Mae'n cysylltu codau bar Mailmark ar eitemau unigol o bost â manylion postio penodol fel gwybodaeth am yr anfonwr, math o bost, a niferoedd.

<sup>321</sup> Y Post Brenhinol, 20 Mehefin 2024. Cyflwyniad i Ofcom.

<sup>322</sup> Y depo post lleol lle mae post busnes neu breswyl yn cael ei ddanfon ohono ac o le gellir casglu eitemau heb eu danfon.

<sup>323</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.

gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol fuddsoddi'n sylweddol mewn systemau, a allai leihau unrhyw arbedion cost y byddai'r Post Brenhinol yn eu cyflawni drwy ddiwygio. Yn bwysig, rydym yn nodi bod y Post Brenhinol eisoes wedi datblygu'r adroddiadau Mailmark presennol er budd ei gwsmeriaid a'i weithrediadau danfon ei hun heb fod hynny'n ofynnol o dan reoliadau, ac y byddai'n agored i'r Post Brenhinol a'i gwsmeriaid gytuno ar adroddiadau ychwanegol ar sail fasnachol. Rydym hefyd yn nodi [324]. Gan ystyried popeth, rydym yn credu y byddai ehangu ein gwaith rheoleiddio i gynnwys system adrodd Mailmark y Post Brenhinol ei hun yn anghymesur ar hyn o bryd.


## Gorfodaeth ac iawndal ansawdd gwasanaeth

- 7.119 Oherwydd perfformiad gwael y Post Brenhinol o ran ansawdd gwasanaeth ar draws yr USO a phost mynediad yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae galw wedi bod ar Ofcom i osod gofynion llymach ar y Post Brenhinol mewn perthynas ag ansawdd gwasanaeth mynediad. Er enghraifft, roedd un awgrym gan yr MCF yn cynnwys goruchwyllo ac ymchwilio'n well i ansawdd gwasanaeth mynediad, targed uwch i fynediad na tharged yr USO Ail Ddosbarth ac Ofcom yn cyhoeddi fformiwla cosbau sy'n benodol gysylltiedig â methiannau ansawdd gwasanaeth gan y Post Brenhinol.<sup>324</sup>
- 7.120 Rydym wedi ystyried a oes achos dros ailystyried ac o bosibl gynyddu'r gofynion ar y Post Brenhinol mewn perthynas ag ansawdd gwasanaeth. Fel rhan o'r asesiad hwn, rydym wedi ystyried a allai gosod targedau perfformiad penodol ar gyfer gwasanaethau USO ond dim post mynediad gymell y Post Brenhinol i flaenoriaethu post USO. Os felly, efallai y byddwn yn ystyried bod rheswm dros ymyrryd.
- 7.121 Rydym wedi cymharu perfformiad ansawdd gwasanaeth post USO Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, a phost mynediad D+2 a D+5. Fel sy'n cael ei ddangos yn ffigur 7.2 isod, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod cyfran uwch o lythyrau mynediad D+2 yn cael eu danfon ar amser na phost Dosbarth Cyntaf (gan gynnwys llythyrau a pharseli), a bod mwy o lythyrau mynediad D+5 yn cael eu danfon ar amser na phost Ail Ddosbarth. Mae hyn yn awgrymu, er y gallai fod yn haws neu'n anoddach i'r Post Brenhinol fodloni amseroedd llwybro gwahanol y gwasanaethau hyn, nad yw'n gwahaniaethu rhwng nac yn blaenoriaethu danfon eitemau sy'n cael eu hanfon gan ddefnyddio unrhyw un ohonynt. Er enghraifft, pe bai post USO yn cael ei flaenoriaethu ar draul post mynediad mewn cyfnodau prysur, byddem yn disgwyl gweld bod y blwch rhwng perfformiad ansawdd gwasanaeth post Dosbarth Cyntaf a gwasanaethau mynediad D+2 yn mynd yn llai neu'n croesi, ond nid yw hynny'n wir.

---

<sup>324</sup> MCF, Awst 2024. Cyflwyniad i Ofcom.

**Ffigur 7.2: Ansawdd gwasanaeth a gyflawnir gan y Post Brenhinol ar gyfer gwasanaethau mynediad a gwasanaethau USO**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o adroddiadau cwynion ac ansawdd gwasanaeth chwarterol y Post Brenhinol.*

- 7.122 O ystyried y diffyg tystiolaeth bod y Post Brenhinol yn blaenoriaethu danfon post USO dros bost mynediad, nid ydym yn argyhoeddedig bod achos dros osod goruchwyliaeth fwy ffurfiol ar ymrwymadau'r Post Brenhinol mewn perthynas ag ansawdd gwasanaeth mynediad. Beth bynnag, petaem, er enghraifft, yn gosod targedau perfformiad y gellir eu gorfodi ar y Post Brenhinol, nid oes sicrwydd y byddai ymyriad o'r fath yn gymhelliant gwell i gyflawni gwasanaeth post mynediad o ansawdd uchel. Gan fod y Post Brenhinol yn danfon post USO a mynediad drwy ddefnyddio'r un rhwydwaith, mae'n annhebygol y bydd unrhyw anawsterau o ran danfon eitemau ar amser yn unigryw i bost mynediad. Caiff hyn ei ategu gan y dystiolaeth bod lefelau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cynnyrch USO a chynnyrch mynediad yn dilyn patrymau gweddol debyg dros amser. O'r herwydd, byddai gosod targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cynnyrch mynediad, a gorfodi os na fydd y Post Brenhinol yn cyrraedd y targedau hynny, yn annhebygol o gymell gwahaniaeth rhwng perfformiad USO a mynediad. Felly mae'n annhebygol y byddai gosod rheoliad o'r fath yn cyflawni'r nod hwn a geisir. Ar ben hynny, er bod yn rhaid i ni ystyried ffactorau amrywiol wrth ystyried cosbau am fethiannau USO (fel cynaliadwyedd ariannol yr USO ac ymdrechion i wella ansawdd gwasanaeth), nid yw'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i drefniadau iawndal sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ar sail fasnachol.
- 7.123 Wrth ystyried yr uchod, nid ydym yn credu bod achos ar hyn o bryd dros ystyried rhagor o reoleiddio mewn perthynas ag ansawdd gwasanaethau mynediad. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae targedau ansawdd gwasanaeth a chyfraddau iawndal yn cael eu pennu ar hyn o bryd drwy negodi rhwng cwmnïau mynediad a'r Post Brenhinol, yn amodol ar fesurau diogelu rheoleiddiol presennol fel y gofyniad bod mynediad yn cael ei gynnig ar delerau ac amodau teg a rhesymol. Os bydd cwmni mynediad yn credu bod y Post Brenhinol wedi

methu cydymffurfio â rhwymedigaethau o'r fath, gall roi gwybod i Ofcom am y tor-amod honedig, neu gyhoeddi anghydfod mynediad ffurfiol.

## Newid sut mae gwasanaethau mynediad yn cael eu diffinio

- 7.124 Ar hyn o bryd mae'r Amod USPA yn pennu bod y gwasanaethau mynediad a reoleiddir yn wasanaethau 'D+X'. Fel y dangosir yn Nhabl 7.2 uchod, mae D yn sefyll am y diwrnod mae'r cwmni mynediad yn casglu post gan yr anfonwr. Tybir mai D+1 yw'r diwrnod mae'r cwsmer mynediad yn trosglwyddo'r post i'r Post Brenhinol yn yr IMC. D+2 wedyn yw'r diwrnod danfon targed ar gyfer gwasanaethau mynediad D+2 presennol. O dan y gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig, byddai rhywfaint o'r post yn cael ei ddanfon ar D+2 a rhywfaint ar D+3 gan ddibynnu ar y llwybr cerdded y mae ffordd benodol arni.<sup>325</sup> Ar gyfer gwasanaethau mynediad D+5, mae post yn cael ei ddanfon o D+2 ymlaen.
- 7.125 Mae'r MCF wedi awgrymu bod y ffordd rydym yn diffinio gwasanaethau mynediad yn ddryslyd i gwsmeriaid.<sup>326</sup> Rydym yn cytuno y gallai'r system hon fod yn gliriach i ddefnyddwyr gwasanaethau post. O dan y geiriad presennol, mae 'D', h.y. y diwrnod mae'r cwmni mynediad yn casglu post gan yr anfonwr, yn lluniad rheoleiddio oherwydd nid yw D bob amser yn digwydd un diwrnod cyn i gwmni mynediad anfon post i'r Post Brenhinol yn yr IMC. Er enghraifft, gallai cwmni mynediad ddewis dal post yn ôl nes bydd ganddo fwy o bost i'w roi yn yr IMC. Yn yr amgylchiadau hynny, byddai'r cwmni mynediad yn darparu gwasanaethau "hwyrach na D+X" i'w gwsmeriaid.
- 7.126 Er mwyn bod yn gliriach am y gwasanaeth gall cwsmeriaid cwmnïau mynediad ddisgwyl ei gael, rydym yn cynnig diwygio'r diffiniadau o "Mynediad D+2" a "Mynediad D+5" i'w hamlinellu'n fwy clir rhwng:
- y gwasanaeth mae'r cwmni mynediad yn cael mynediad iddo, gyda'r nod o ddanfon post cyn pen nifer penodol o ddiwrnodau ar ôl i'r cwmni gasglu'r post gan y cwsmer; ac
  - y rhwymedigaeth danfon ar y Post Brenhinol, lle mae'r amser llwybro targed yn cael ei gyfrifo o'r diwrnod y bydd y cwmni mynediad yn trosglwyddo post yn yr IMC.
- 7.127 Er mwyn cyflawni hyn, a'i gwneud hi'n haws deall y disgrifiad o wasanaethau mynediad, rydym wedi cynnig ymgorffori'r diffiniadau "gwasanaethau Llythyrau a Llythyrau Mawr D+2 a hwyrach na D+2" a "gwasanaethau Llythyrau D+5 a hwyrach na D+5" yn y diffiniadau o "Mynediad D+2" a "Mynediad D+5" fel bod yr holl wybodaeth berthnasol mewn un lle yn yr Amod USPA.
- 7.128 Er enghraifft, rydym yn cynnig bod y diffiniad diwygiedig o "Mynediad D+5" yn nodi ei fod yn golygu mynediad at rwydwaith post darparwr y gwasanaeth cyffredinol yn yr IMC at ddibenion cwmni mynediad sy'n darparu gwasanaethau post sy'n ceisio danfon llythyrau o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl casglu gan yr anfonwr, ond bod y gwasanaethau hyn i'w danfon gan y Post Brenhinol ddim hwyrach na'r pedwerydd diwrnod yn ystod yr wythnos ar ôl i'r cwmni mynediad drosglwyddo'r post yn yr IMC. Credwn y bydd hyn yn ei gwneud yn gliriach i gwsmeriaid cwmnïau mynediad y bydd yr amser llwybro ar gyfer eu post yn dibynnu ar y dyddiad y bydd y cwmni mynediad yn ei drosglwyddo yn yr IMC ac, o'r

<sup>325</sup> Y Post Brenhinol, 20 Mehefin 2024. Cyflwyniad i Ofcom.

<sup>326</sup> MCF, 10 Gorffennaf 2024. Cyflwyniad i Ofcom am y newidiadau i USO/mynediad sy'n cael eu trafod.

herwydd, y gallant dderbyn “gwasanaeth hwyrach na D+X”. Rydym yn cynnig disgrifio mynediad D+3 mewn ffordd debyg.

- 7.129 Ar ben hynny, rydym yn nodi bod y gofynion adrodd ar y Post Brenhinol ar gyfer ansawdd gwasanaeth D+5, a’r rheini rydym yn eu cynnig ar gyfer ansawdd gwasanaeth D+3, yn mynnu bod y Post Brenhinol yn adrodd ar sawl diwrnod *ar ôl y trosglwyddo* y caiff y post hwnnw ei ddanfôn. Rydym yn disgwyl y bydd hyn hefyd yn helpu cwsmeriaid mynediad i ddeall y gwasanaeth maent yn ei brynu a phryd gellir danfon eu post.
- 7.130 Fel dewis arall yn lle’r dull uchod, roeddem wedi ystyried a ddylid newid y ffordd mae gwasanaethau mynediad yn cael eu disgrifio o “D+X” i “H+X”, lle mae H yn cynrychioli’r diwrnod trosglwyddo (handover). Er enghraifft, byddai D+5 yn dod yn H+4. Er ein bod yn gweld rhywfaint o werth yn y newid hwn, rydym o’r farn y gallai achosi mwy o ddryswch yn y diwydiant o ystyried y disgrifiad hirsefydlog o wasanaethau mynediad fel “D+X”. Mae hefyd yn berthnasol bod yr amseroedd llwybro ar gyfer gwasanaethau USO yn cael eu disgrifio fel “D+X”. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl i gwmnïau mynediad alluogi eu cwsmeriaid i ddeall y gwasanaeth maent yn ei brynu, gan gynnwys y gellir danfon eu post yn hwyrach na phum diwrnod ar ôl ei gasglu, er enghraifft. At ei gilydd, rydym o’r farn mai ein diwygiadau arfaethedig i sut rydym yn disgrifio’r rhwymedigaethau mynediad yw’r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau eglurder am y gwasanaethau y gall cwsmeriaid ddisgwyl eu cael.
- 7.131 Mae’r diwygiadau perthnasol i’r Amod USPA wedi’u nodi yn Atodlenni 1 a 2 i Atodiad A9 yr ymgynghoriad hwn.

## **Gwahardd y Post Brenhinol rhag defnyddio gwybodaeth a gafwyd drwy roi mynediad i’w rwydwaith post**

- 7.132 Mae Amod 5.3 USPA yn mynnu bod y Post Brenhinol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth sydd ganddo, o ganlyniad i ddarparu mynediad, yn cael ei datgelu i, neu’n cael ei defnyddio gan, unrhyw un o fusnesau masnachu’r Post Brenhinol na pherson sy’n gysylltiedig â’r Post Brenhinol. Yn gysylltiedig â hyn, mae Amod 5.4 USPA yn cynnwys nifer o eithriadau i Amod 5.3 USPA. Mae’r rhain yn cynnwys pan fydd Ofcom yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i ddatgelu neu i ddefnyddio gwybodaeth, neu pan fydd yr unigolyn mae’r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi cydsynio’n ysgrifenedig i’w datgelu neu ei defnyddio. Yn syml, mae’r rheolau hyn yn ceisio sicrhau nad yw’r Post Brenhinol yn defnyddio’r wybodaeth mae’n ei chael gan gwmnïau mynediad wrth roi mynediad i’w rwydwaith i gael mantais gystadleuol dros gwmnïau mynediad.
- 7.133 Fe wnaethom asesu a oedd angen diwygio’r amodau a nodir yn USPA 5 yn ein Hadolygiad o Reoliadau’r Gwasanaethau Post 2022.<sup>327</sup> Yn yr adolygiad hwnnw, daethom i’r penderfyniad y dylai’r cyfyngiad yn erbyn datgelu a defnyddio gwybodaeth sy’n ymwneud â mynediad y Post Brenhinol barhau. Roedd hyn oherwydd y pŵer sydd gan y Post Brenhinol fel cyfanwerthwr a chystadleuydd i gwmnïau mynediad drwy ei is-adrannau manwerthu.

---

<sup>327</sup> Ofcom, 2022. [Atodiad 6 - Rheoleiddio Mynediad - tystiolaeth ategol](#), tudalennau 11-12.

- 7.134 Ers yr adolygiad hwnnw, rydym yn ymwybodol bod pryderon ychwanegol wedi cael eu codi am effaith Amod 5 USPA ar y farchnad mynediad drwy anghydfod 2023 rhwng Whistl a'r Post Brenhinol.<sup>328</sup> Roedd yr anghydfod hwnnw'n ymwneud â phryderon ynghylch a all y Post Brenhinol drosglwyddo costau cydymffurfio â'i rwymedigaethau mynediad i gwmni mynediad ac a all cwmni mynediad roi caniatâd parhaus yn ysgrifenedig i ddatgelu neu i ddefnyddio gwybodaeth y byddai'r Post Brenhinol yn ei chael drwy ddarparu cynnyrch mynediad y gofynnwyd amdano.
- 7.135 Gofynnodd yr MCF i ni ystyried a ellid gwneud diwygiadau i lacio USPA 5, gan awgrymu'n benodol bod rhwystrau i rannu gwybodaeth yn gosod rhwystr rhy uchel ar lwyddiant ceisiadau newydd am wasanaethau mynediad. Awgrymwyd y byddai'r newid hwn yn gwneud cwmnïau mynediad yn fwy cyfartal â'r Post Brenhinol.<sup>329</sup> Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys y farn y gall y Post Brenhinol drosglwyddo costau diangen am geisiadau am wasanaethau mynediad newydd drwy gyfeirio at bridianu Amod 5.3 USPA, tra bo rhai cwmnïau mynediad o'r farn y gellir darparu mesurau diogelu yr un mor effeithiol drwy gytundeb contract.<sup>330</sup>
- 7.136 Rydym o'r farn bod rhesymau da o hyd dros gael rheolau ar rannu gwybodaeth mae'r Post Brenhinol yn ei chael drwy roi mynediad i'w rwydwaith. O ystyried ei rôl fel cyfanwerthwr a chystadleuydd i gwmnïau mynediad, gallai'r Post Brenhinol gael gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif am gwsmeriaid cwmni mynediad, gan roi mantais gystadleuol annheg iddo yn y farchnad post swmp. Felly, nid ydym yn cynnig newid ein trefn reoleiddio y tro hwn, ond byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn a byddwn yn ystyried ymyrryd os yw'n ymddangos bod angen gwneud hynny.

## Gofyniad am delerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol

- 7.137 Ar hyn o bryd, mae Amod 3 yr USPA yn mynnu bod darpariaeth mynediad D+2 a D+5 yn cael ei rhoi ar delerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol. Rydym yn cynnig bod y ddarpariaeth hon hefyd yn berthnasol i'r gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig. Mae'r MCF hefyd wedi gofyn i ni fod yn fwy penodol yn ein diffiniad o delerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol. Mae wedi gofyn i ni fod yn fwy penodol am yr hyn sy'n dderbyniol gyda phwerau rheoleiddio y gellir eu gorfodi'n llawn ar gyfer unrhyw dor-amod.
- 7.138 Er nad ydym yn nodi'n benodol yr hyn rydym yn ei ystyried yn delerau, amodau a ffioedd teg a rhesymol, mae ein trefn reoleiddio yn gosod safon sylfaenol ar gyfer mynediad. Rydym yn gosod disgwyliadau sylfaenol o ran manylebau danfon, tryloywder o ran ansawdd gwasanaeth, a phrisiau. Mae'r drefn hon yn cefnogi negodiadau masnachol rhwng y Post Brenhinol a chwmnïau mynediad wrth gytuno ar delerau ac amodau mynediad.
- 7.139 Wrth sefydlu'r drefn mynediad yn 2012, fe wnaethom egluro nad oeddem yn ystyried bod angen dull rhagnodol o osod telerau ac amodau teg a rhesymol. Nid yw ein hasesiad wedi newid, gan ein bod yn dal o'r farn ei bod yn well sefydlu mynediad drwy negodiadau masnachol sy'n seiliedig ar warchodaeth reoleiddiol sylfaenol. Beth bynnag, gallai unrhyw

---

<sup>328</sup> Ofcom, 2023. [Anghydfod rhwng Whistl a'r Post Brenhinol](#).

<sup>329</sup> MCF, Awst 2024. Cyflwyniad i Ofcom.

<sup>330</sup> Ofcom, 2023. [Anghydfod rhwng Whistl a'r Post Brenhinol](#), tudalen 23.



amodau rhagnodol ynghylch yr hyn sy'n delerau ac yn amodau teg a rhesymol fynd yn hen ffasiwn neu'n amherthnasol wrth i'r farchnad mynediad esblygu. Felly, rydym yn credu ei bod yn dal yn fwy priodol caniatáu i'r Post Brenhinol ac i gwmnïau mynediad negodi'r telerau a'r amodau hynny'n rhydd, gyda'r opsiwn o ddod ag unrhyw anghydfodau i Ofcom y gallwn eu hystyried fesul achos.

- 7.140 Gan ystyried yr uchod, a gan nodi bod ein gwaith rheoleiddio hyd yma wedi cefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad mynediad, ar hyn o bryd nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros ailedrych ar y ddarpariaeth hon o'r Amod USPA.

## Casgliadau dros dro

---

- 7.141 Fel sy'n cael ei nodi yn adran 2, ein hamcanion polisi yw rhoi fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar waith a fydd yn hyrwyddo'r canlyniadau canlynol:
- Arwain at fanteision i ddefnyddwyr drwy USO sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr;
  - Cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol;
  - Cymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel; a
  - Hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y diwydiant post.
- 7.142 Nid yw post swmp yn rhan o fanyleb yr USO, ond mae llythyrau sy'n cael eu danfon drwy wasanaethau post swmp yn bwysig i ddefnyddwyr, i fusnesau mawr, ac i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fel y nodir uchod, gan mai post swmp yw'r rhan fwyaf o'r holl bost, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r USO gael eu haildrodd mewn mynediad er mwyn i'r Post Brenhinol gael cyfle i wireddu arbedion cost llawn model danfon bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos.
- 7.143 Felly, rydym yn cynnig rheoleiddio gwasanaethau mynediad D+3 i'w danfon bob yn ail ddiwrnod yn yr wythnos. Rydym yn disgwyl i'r cynigion hyn roi manteision i ddefnyddwyr post mawr drwy barhau i gefnogi'r defnydd o wasanaethau post swmp yn y dyfodol, gan ehangu'r dewis i ddefnyddwyr a chynnal mesurau diogelu rheoleiddiol. Mae hyn yn bwysig oherwydd mai llythyrau post swmp yw'r rhan fwyaf o'r holl lythyrau sy'n cael eu hanfon ac mae'r farchnad mynediad yn cyfrif am gyfran sylweddol o refeniw'r Post Brenhinol, sy'n helpu i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Dylai rheoleiddio mynediad D+3 ei wneud yn opsiwn mwy deniadol i gwsmeriaid mynediad, gan gefnogi'r newid angenrheidiol yn nifer y bobl sy'n symud o D+2 i'r gwasanaeth hwn er mwyn galluogi'r Post Brenhinol i gyflawni'r arbedion cost a ragwelir yn sgil diwygio. Dylai rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn o fynediad D+5 hefyd gyfrannu at y canlyniad hwn. Ein barn gychwynnol felly yw y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r farchnad mynediad yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ac yn arwain at fanteision i ddefnyddwyr.
- 7.144 Rydym hefyd yn gwneud cynigion i wella'r broses o oruchwylio ansawdd gwasanaethau mynediad drwy fynnu bod y Post Brenhinol yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad gwasanaethau mynediad D+3. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r cynigion hyn gymell y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gwmnïau mynediad.
- 7.145 Yn olaf, rydym wedi egluro y byddai rheoleiddio mynediad D+3 a'r gwaith parhaus o reoleiddio mynediad D+2 yn cefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp ac yn

tarfu llai ar gwsmeriaid yn dilyn y newid yn amserlen danfon y Post Brenhinol ar gyfer post nad yw'n flaenoriaeth. Dylai marchnad gystadleuol sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, gan gynnwys prisiau is, mwy o arloesi a datblygu gwasanaethau.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### **Cwestiwn 7.1**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i reoleiddio gwasanaethau mynediad D+3, yn amodol ar reolaeth gwasgu elw a'r mesurau diogelu eraill a amlinellir uchod? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

### **Cwestiwn 7.2**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i newid manyleb gwasanaethau mynediad D+5 er mwyn rhoi'r gorau i ddanfon ar ddydd Sadwrn? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

### **Cwestiwn 7.3**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnigion i gynnal rheolaeth gwasgu elw ar wasanaethau mynediad D+2 lle mai'r gwasanaethau manwerthu perthnasol yw gwasanaethau swmp manwerthu Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

### **Cwestiwn 7.4**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnigion ar gyfer tryloywder prisio a diwygio sut mae gwasanaethau mynediad yn cael eu diffinio? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

## Addasiadau arfaethedig i'r Amod USPA

7.146 Er mwyn rhoi ein cynnigion ar waith, rydym yn cynnig gwneud yr addasiadau canlynol i'r Amod USPA.

7.147 Er mwyn rheoleiddio mynediad D+3, rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- a) Mewnosod diffiniad newydd o "ddiwrnod yn yr wythnos", i olygu unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul nac yn ŵyl gyhoeddus;
- b) Mewnosod diffiniad newydd o "Fynediad D+3", i olygu mynediad at rwydwaith y Post Brenhinol yn yr IMC er mwyn darparu gwasanaethau manwerthu sy'n ceisio danfon Llythyrau a Llythyrau Mawr dair gwaith yr wythnos ar ôl casglu, i'w Post Brenhinol eu danfon heb fod yn hwyrach na'r ail ddiwrnod yn yr wythnos ar ôl trosglwyddo yn yr IMC. Er mwyn osgoi dechrau cyfrifo'r amseroedd llwybro ar ddydd Sadwrn, rydym yn cynnig bod y diffiniad yn datgan, os bydd llythyrau'n cael eu trosglwyddo ar ddydd Sadwrn, yna ystyrir bod y trosglwyddo wedi digwydd ar y diwrnod nesaf yn yr wythnos;
- c) Mewnosod diffiniad newydd o "Gwmni Mynediad D+3", sy'n golygu cwmni post sydd â Mynediad D+3 neu'n ceisio hynny, a diweddarau'r diffiniad o "Gwmni Mynediad" i gynnwys Cwmni Mynediad D+3;
- d) Mewnosod diffiniad newydd o "Gontract Mynediad D+3", sy'n golygu contract rhwng y Post Brenhinol a chwmni neu ddefnyddiwr post er mwyn darparu Mynediad D+3;

- e) Defnyddio darpariaethau sylweddol yr Amod USPA i fynediad D+3 drwy gyfeirio at y diffiniadau uchod fel y bo'n briodol (gweler Amodau 2.1A, 2.2, 4.1, 4.1A, 4.3, 4.4, 5.1, 6.8, 7.3, 7.4, 8.1, ac 8.1B yr USPA). Byddai'r addasiadau hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol gynnig mynediad D+3 yn amodol ar yr un rhwymedigaethau rheoleiddiol â'r rhai sy'n bodoli ar gyfer mynediad D+2 a D+5. Mae hyn yn cynnwys y rheolaeth gwasgu elw, y gwasanaethau manwerthu perthnasol a bennir yn yr addasiadau arfaethedig i Amod 6.8 USPA; a
- f) Mewnosod Amod 8.1ZA newydd USPA, a fyddai'n golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol adrodd ar gyfran y llythyrau mynediad D+3 sy'n cael eu danfon ar D+2 'r gyfran sy'n cael eu danfon ar D+3.

7.148 Rydym hefyd yn cynnig addasu Amod 4.2 USPA i'w gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyhoeddi Datganiad o Broses sy'n cwmpasu Mynediad D+3 o fewn tri mis ar ôl i'n haddasiadau ddod i rym.

7.149 O ran mynediad D+5, rydym yn cynnig addasu:

- a) Y diffiniad o "Fynediad D+5" i gyfeirio at ddanfon yn ystod yr wythnos, yn hytrach na diwrnodau gwaith, a fyddai'n dileu'r rhwymedigaeth i ddanfon ar ddydd Sadwrn;
- b) Y diffiniad o "Fynediad D+5" i ddatgan, os caiff llythyrau eu trosglwyddo ar ddydd Sadwrn, yna pennir bod y trosglwyddo wedi digwydd ar y diwrnod nesaf yn yr wythnos, a fyddai'n osgoi dechrau cyfrifo amseroedd llwybro ar ddydd Sadwrn; ac
- c) Y rhwymedigaeth ansawdd gwasanaeth yn Amod 8.1A USPA fel ei fod yn mynnu bod y Post Brenhinol yn adrodd ar sawl diwrnod yn yr wythnos yn hytrach na diwrnod gwaith ar ôl trosglwyddo cafodd post ei ddanfon, gan na fyddai dydd Sadwrn yn ddiwrnod danfon mwyach.

7.150 Rydym wedi cynnig diweddarau'r gwasanaethau manwerthu perthnasol ar gyfer rheoli'r wasgfa ar elw Mynediad D+2 yn Amod 6.8 USPA..

7.151 Mae paragraffau 7.124 i 7.131 uchod yn disgrifio ein haddasiadau arfaethedig i fynnu bod y Post Brenhinol yn danfon post mynediad nifer penodol o ddiwrnodau ar ôl trosglwyddo yn yr IMC.

7.152 Rydym hefyd yn cynnig gwneud rhai mân addasiadau, er enghraifft i ddiweddarau'r diffiniad o "Ganllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol" fel ei fod yn cyfeirio at y canllawiau fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd, yn hytrach na dyddiad penodol.

7.153 Mae Atodiad A9 i'r Ymgynghoriad hwn yn hysbysiad statudol o'r addasiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'r Amod USPA. Mae Atodlen 1 i Atodiad A9 yn gopi o'r Amod USPA wedi'i farcio gyda'n haddasiadau arfaethedig, ac mae Atodlen 2 yn cynnwys tabl sy'n nodi'r addasiadau arfaethedig mewn fformat hygyrch.

## Ein hasesiad o'n haddasiadau arfaethedig i'r Amod USPA yn erbyn y profion statudol

7.154 O dan adran 38(4) o'r Ddeddf, dim ond os ydym o'r farn ei bod yn briodol i'r canlynol y cawn osod neu addasu Amod USPA:

- a) Hyrwyddo effeithlonrwydd;
- b) Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol; a

c) Rhoi manteision sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.

7.155 Yn yr adran hon rydym wedi nodi pam ein bod yn credu bod ein cynigion yn cyflawni'r canlyniadau hyn. Rydym yn nodi eu bod yn cyd-fynd yn agos â'n hamcanion polisi, ac felly rydym yn cyfeirio'n benodol at y crynodeb ym mharagraffau 7.141 i 7.145 uchod sydd hefyd yn cefnogi pam mae ein cynigion yn bodloni'r profion hyn.

## Y prawf rheolaeth pris a nodir yn adran 38(5) o'r Ddeddf

7.156 O dan adran 38(5) o'r Ddeddf, ni chawn osod rheolaethau prisiau oni bai ei bod yn ymddangos i ni y gallai darparwr y gwasanaeth cyffredinol fel arall:

- a) Gosod a chynnal rhai o'i brisiau neu'r cwbl ar lefel rhy uchel gyda chanlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau post, neu
- b) Gosod gwasgfa ar brisiau sy'n arwain at ganlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.

7.157 Rydym wedi egluro uchod ym mharagraffau 7.57-7.68 a 7.93-7.99 ein bod o'r farn bod risg i'r Post Brenhinol wasgu'r elw mewn perthynas â darparu mynediad D+2 a D+3, ac y gallai gwasgfa pris o'r fath arwain at ganlyniadau niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaethau post.

7.158 Felly, rydym o'r farn bod ein rheolaeth gwasgu elw arfaethedig mewn perthynas â'r gwasanaethau mynediad D+2 presennol a'r gwasanaethau mynediad D+3 arfaethedig yn bodloni'r prawf yn adran 38(5) o PSA 2011.

## Y ffactorau a nodir yn adran 38(8) o'r Ddeddf

7.159 Mae adran 38(8) o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn ystyried, yn benodol, bum ffactor wrth benderfynu mewn achos penodol pa rwymedigaethau i'w gosod mewn Amod USPA:

- hyfywedd technegol ac economaidd, gan ystyried cyflwr datblygiad y farchnad, gosod a defnyddio cyfleusterau a fyddai'n gwneud y mynediad arfaethedig yn ddiangen;
- ymarferoldeb rhoi'r mynediad arfaethedig;
- y buddsoddiad a wnaed gan y darparwr gwasanaeth cyffredinol dan sylw mewn perthynas â'r materion y cynigir mynediad ar eu cyfer;
- yr angen i sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y tymor hir; ac
- unrhyw hawliau i eiddo deallusol sy'n berthnasol i'r cynnig.

7.160 Rydym eisoes wedi egluro uchod pam ein bod o'r farn bod angen ymestyn yr Amod USPA i wasanaethau mynediad D+3 er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp ymhellach i fyny'r ffrwd yn y dyfodol. Felly, mae angen ein hestyniad arfaethedig i gynnal cystadleuaeth effeithiol yn y tymor hirach.

7.161 Yn hynny o beth, rydym hefyd yn nodi bod y Post Brenhinol eisoes wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno'r math hwn o fynediad ac yn gofyn i gwsmeriaid cyfanwerthol bleidleisio ar ei gyflwyno. O'r herwydd, rydym o'r farn bod ein cynigion ynghylch gwasanaethau mynediad D+3 yn ymarferol, yn ogystal ag yn ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd. Ar ben hynny, rydym yn credu nad oes gan gwmnïau mynediad opsiwn ymarferol ar wahân i ddefnyddio rhwydwaith post y Post Brenhinol i ddanfôn gwasanaethau post swmp o un pen

i'r llall. Felly, nid ydym yn credu bod cyfleusterau ar wahân i rai'r Post Brenhinol a fyddai'n gwneud y mynediad arfaethedig yn ddiangen.

- 7.162 Rydym hefyd wedi ystyried y ffactorau hyn mewn perthynas â'n rheolaeth gwasgu elw arfaethedig. Rydym o'r farn, heb reolaeth o'r fath, efallai na fydd cystadleuaeth yn effeithiol oherwydd gallu'r Post Brenhinol i brisio'n wrthgystadleuol. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn cynnig gosod math o reolaeth ar sail yr hyn rydym yn ei ystyried yn fesur priodol o gostau ac sy'n rhoi cyfle i'r Post Brenhinol godi prisiau i adennill ei gostau, gan ystyried buddsoddiad yn ei rwydwaith.

## Y prawf cyffredinol a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 6 i'r Ddeddf

- 7.163 Yn ogystal â'r profion statudol penodol uchod, rhaid i ni hefyd fod yn fodlon bod y prawf cyffredinol ym mharagraff 1 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn cael ei fodloni mewn perthynas â'n haddasiadau arfaethedig i'r Amod USPA.
- 7.164 Yn hynny o beth, rydym o'r farn bod ein haddasiadau arfaethedig fel a ganlyn:
- **Yn gyfiawn yn wrthrychol:** Rydym wedi egluro uchod ein bod o'r farn y byddai addasu'r Amod USPA i fynnu mynediad yn yr IMC i ddarparu'r gwasanaethau mynediad D+3 newydd yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol ymhellach i fyny'r ffrwd, yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac yn rhoi manteision sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau post. Rydym hefyd wedi egluro y byddai cyflwyno mynediad D+3, a rhoi'r gorau i ddanfôn ar ddydd Sadwrn o fynediad D+5, yn helpu'r Post Brenhinol i gyflawni'r arbedion costau sy'n deillio o ddiwygio'r gwasanaeth cyffredinol drwy gefnogi newid yn y niferoedd oddi wrth wasanaethau'r diwrnod canlynol. Dylai hyn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr, gan gynnwys cynnydd is mewn prisiau yn y tymor hir nag y byddai'n digwydd heb ddiwygio. Ar ben hynny, rydym wedi egluro'r rhesymau pam fod cyfiawnhad dros reolaeth gwasgu elw mewn perthynas â gwasanaethau mynediad D+2 a D+3 er mwyn diogelu rhag y risg y bydd y Post Brenhinol yn gorfodi gwasgfa prisiau ar y gwasanaethau hyn. Rydym wedi ystyried effaith ehangach ein cynigion, ac wedi seilio ein hasesiad ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Post Brenhinol a rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, fel cwmnïau mynediad a defnyddwyr gwasanaethau mynediad.
  - **Ddim yn gwahaniaethu'n ormodol:** Yn yr un modd â'r mynediad D+2 a D+5 sydd ar gael ar hyn o bryd, mae ein cynigion i reoleiddio mynediad i D+3 yn adlewyrchu safle'r Post Brenhinol fel yr unig gwmni post sydd â rhwydwaith danfôn ymhellach i lawr y ffrwd sy'n gallu hwyluso cyfranogiad cwmnïau mynediad yn y marchnadoedd perthnasol. Felly, rydym o'r farn na fyddent yn gwahaniaethu'n ormodol. Rydym yn nodi y byddai pris mynediad D+2 yn cynyddu o dan ein cynigion yn Adran 5, ac y byddai cyflwyno cynnyrch D+3 sy'n cael ei reoleiddio yn ddewis arall priodol i ddefnyddwyr a allai fod yn arbennig o sensitif i bris. O ran ein cynigion i roi'r gorau i ddanfôn ar ddydd Sadwrn o D+5 ac addasu'r rheolaeth gwasgu elw D+2, byddai'r rhain yn effeithio ar bob defnyddiwr yn yr un modd.
  - **Yn gymesur mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni:** Rydym o'r farn bod ein cynnig i reoleiddio mynediad D+3 ac addasu'r rheolaeth gwasgu elw D+5 yn cynrychioli'r ymyriadau sylfaenol i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad post swmp, gan gefnogi cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cyffredinol

ar yr un pryd. Effaith ein cynnig i roi'r gorau i ddanfôn ar ddydd Sadwrn o fynediad D+5 yw'r ymyriad sylfaenol sydd ei angen i gefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.

- **Tryloyw:** Mae'r rhesymau dros ein cynigion a'u heffaith wedi'u nodi'n llawn yn yr adran hon. Mae ein haddasiadau arfaethedig i'r Amod USPA yn cael eu hegluro uchod a'u nodi'n glir yn yr hysbysiad statudol a gyhoeddir yn Atodiad A9 yr ymgynghoriad hwn.

- 7.165 Rydym o'r farn bod ein haddasiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'n dyletswyddau yn adran 29 o'r Ddeddf. Dylent gyfrannu at barhau i ddarparu gwasanaeth cyffredinol drwy gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a'i effeithlonrwydd a galluogi'r Post Brenhinol i wireddu arbedion cost llawn diwygio.
- 7.166 Rydym hefyd o'r farn bod ein cynigion yn cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, lle bo hynny'n briodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth. Yn benodol, rydym wedi egluro ein bod o'r farn y byddai ein cynigion yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol ymhellach i fyny'r ffrwd ac y byddai buddiannau defnyddwyr hefyd yn cael eu hyrwyddo mewn perthynas â dewis, pris, ansawdd gwasanaeth ac arian, o ystyried y byddai cwmnïau mynediad yn gallu cynnig gwasanaethau manwerthu ar sail mynediad D+2, D+3 neu D+5 wedi'i reoleiddio. Dylai'r arbedion costau y gallai'r Post Brenhinol eu gwneud o ganlyniad i'n cynigion hefyd arwain at fanteision i ddefnyddwyr.
- 7.167 Yn olaf, rydym yn nodi ein dyletswydd barhaus o dan adran 6(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i adolygu ein gwaith rheoleiddio gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'n gosod nac yn cynnal beichiau sy'n ddiangen neu sydd wedi dod yn ddiangen. Fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 7.91, os byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynigion i gyflwyno mynediad D+3 yna byddwn yn monitro ymateb y farchnad i'w gyflwyno, ac rydym yn fodlon ailedrych ar a yw'n gwaith o reoleiddio gwasanaethau mynediad D+2 yn dal yn briodol.

## 8. Effaith ein cynigion ar gynaliadwyedd ariannol

### Pwrpas yr adran hon

Mae'r adran hon yn nodi ein hamcangyfrifon o'r arbedion posibl y gallai'r Post Brenhinol eu gwneud o'n cynigion i newid ein gwaith rheoleiddio ac yn eu cymharu ag amcangyfrifon y Post Brenhinol gan ddefnyddio ei gynigion ei hun. Rydym wedyn yn ystyried effaith hyn ar gynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol.

### Yn fyr

- Gallai newid pa mor aml caiff llythyrau Ail Ddosbarth eu danfon, newidiadau cysylltiedig i'r rhwymedigaeth mynediad ac adolygu targedau ansawdd gwasanaeth yr USO, yn unol â'n cynigion yn Adrannau 5 i 7, arwain at arbedion cost sylweddol i'r Post Brenhinol. Rydym yn amcangyfrif y gallai'r arbedion posibl ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 fod yn £250m i £425m. Bydd gwireddu'r arbedion yn gyflym yn her weithredol fawr iawn, a fydd yn golygu newidiadau i bob agwedd ar biblinell danfon y Post Brenhinol.
- Ni fyddai'r arbedion cost yn unig yn ddigon i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr USO. Yn ogystal â'n cynigion i ddiwygio, rhaid i'r Post Brenhinol hefyd sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau'n effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd drwy addasu ei rwydwaith i newidiadau o ran swmp a llwyth gwaith.
- Fodd bynnag, mae'r arbedion posibl, o ran yr arbedion cost o symud i'r model danfon bob yn ail ddiwrnod a'r gofyniad is i fuddsoddi oherwydd targedau ansawdd gwasanaeth is, yn elfen sylweddol a thebygol angenrheidiol o ddod â'r USO yn ôl i gynaliadwyedd ariannol tymor hir.

## Cyflwyniad

- 8.1 Rydym yn egluro yn Adran 4 y dyletswyddau sy'n berthnasol i wneud ein cynigion ar gyfer newid, gan gynnwys ein dyletswydd i ystyried cynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol. Felly, rydym wedi ystyried effaith ariannol y cynigion rydym wedi'u nodi yn Adrannau 5 i 7. Rydym wedi gwneud hyn drwy foddelu'r arbedion cost posibl y gellid eu gwneud pe bai ein cynigion yn cael eu mabwysiadu.
- 8.2 Yn ein Cais am Fewnbwn, roeddem wedi cyflwyno ein modelu a oedd yn sail i'n hamcangyfrifon o gost net yr USO ac arbedion net posibl newidiadau i gwmpas y gwasanaeth cyffredinol. Cafodd y rhain eu nodi yn Atodiad 7<sup>331</sup> y Cais am Fewnbwn, ochr yn ochr â disgrifiad manwl o strwythur ein gwaith modelu. Rydym wedi parhau i ddatblygu'r

---

<sup>331</sup> Ofcom, 2024. Gweler [Atodiad 7 - Ein dull o gyfrifo costau net.](#)

modelu hwn ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, ar sail yr adborth a gafwyd i'r Cais am Fewnbwn.

- 8.3 Roedd y model roeddem wedi'i ddefnyddio yn y Cais am Fewnbwn yn amcangyfrif o'r gwaelod i fyny o reffeniw'r Busnes a Gofnodwyd a chostau cyfran danfon y Busnes a Gofnodwyd. Roedd yn modelu cynnyrch y Post Brenhinol yn fanwl, gan gynnwys sut gallai defnyddwyr newid rhwng ac oddi wrth gynnyrch mewn ymateb i newidiadau i'r gwasanaeth maen nhw'n ei gael. Roedd hefyd yn modelu rhwydwaith danfon y Post Brenhinol ar lefel ddaearyddol fanwl, gan lunio amcangyfrifon o'r amser sy'n gysylltiedig â llwybrau danfon ar sail niferoedd, gwybodaeth ddaearyddol ac asesiadau peirianeg manwl o'r amser sydd ei angen i gyflawni pob rhan o lwybr danfon.
- 8.4 Fel rhan o'i ymateb i'r Cais am Fewnbwn, rhoddodd y Post Brenhinol ei gynnig hefyd i ni newid cwmpas y gwasanaeth cyffredinol, a oedd yn cynnwys ei waith modelu o effaith ariannol elfennau allweddol o'i newidiadau arfaethedig, sef yr arbedion cost net y gellid eu gwireddu pe bai'r newidiadau hynny'n cael eu rhoi ar waith. Isod, rydym yn egluro ein dull o amcangyfrif yr arbedion net posibl ac yn cymharu hyn â dull gweithredu'r Post Brenhinol.
- 8.5 Rydym hefyd wedi craffu ar waith modelu'r Post Brenhinol ei hun i ddeall ei ddisgwyliadau ynghylch sut gallai costau a reffeniw newid o ganlyniad i newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol.

## Amcangyfrif y Post Brenhinol o effaith ariannol ei ddiwygiadau arfaethedig

---

- 8.6 I gefnogi ei ymateb i'r Cais am Fewnbwn, cynhyrchodd y Post Brenhinol ei waith modelu ei hun i amcangyfrif arbedion cost net elfennau allweddol ei gynigion.<sup>332</sup> Mae'r model yn rhagweld yr arbedion a fyddai'n cael eu gwneud ym mlwyddyn ariannol 2025/26 pe bai model danfon bob yn ail ddiwrnod ar gyfer llythyrau heb flaenoriaeth yn cael ei fabwysiadu. Mae'r model hwn yn amcangyfrif arbedion cost net blynyddol a allai fod hyd at £300m ym mlwyddyn ariannol 2025/26.<sup>333</sup> Byddai disgwyl arbedion cost a cholledion reffeniw tebyg bob blwyddyn, o'i gymharu â sefyllfa wrthffeithiol yr USO fel y mae wedi'i gwmpasu ar hyn o bryd, er y byddant yn newid ar sail newidiadau mewn niferoedd ac yng ngweithrediadau sylfaenol y Post Brenhinol.
- 8.7 Mae amcangyfrif y Post Brenhinol yn seiliedig ar fodel o'r brig i lawr a gynhyrchwyd gan y Post Brenhinol ac sy'n seiliedig ar ei gynllun busnes ar gyfer 2023.<sup>334</sup> Roedd yn ystyried pa effaith y byddai'r newidiadau gweithredol a phrisiau wedi'i chael ar y niferoedd a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn honno ac yn cynhyrchu amrywiaeth o ganlyniadau posibl. O'r rhain, amcangyfrifodd y Post Brenhinol yr effaith ar gostau a reffeniw. Fel ein model ni, nid oedd ei waith modelu yn ystyried costau pontio ond yn hytrach yn edrych ar yr arbedion cost a'r effeithiau reffeniw a fyddai'n cael eu gwneud ar ôl cyflwyno model gweithredu

---

<sup>332</sup> Gweler Adran 2, tudalennau 18-21 o'r ddogfen hon i gael crynodeb o gynigion y Post Brenhinol.

<sup>333</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024, tudalen 7.

<sup>334</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.



newydd. Roedd gwaith modelu'r Post Brenhinol hefyd yn canolbwyntio ar un flwyddyn benodol, er bod ei fodel hefyd wedi amcangyfrif yr effaith dros amser. Mae dull modelu o'r brig i lawr y Post Brenhinol yn wahanol i'n dull modelu ni o'r gwaelod i fyny.

**Tabl 8.1: Amcangyfrifon y Post Brenhinol o arbedion posibl o ddanfôn bob yn ail ddiwrnod, BC 2025/26**

	£m
<b>Effaith ar refeniw</b>	-100
<b>Arbedion mewn costau</b>	400
<b>Arbedion net</b>	300

*Ffynhonnell: Model USO y Post Brenhinol*

8.8 Rydym wedi adolygu model y Post Brenhinol ac wedi'i gymharu â'n model ni, gan addasu ein rhagdybiaethau i'n galluogi i wirio'r canlyniadau. Yn yr is-adran nesaf byddwn yn egluro'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n gwaith modelu ers y Cais am Fewnbwn ac yn trafod allbynnau'r model wedi'i ddiweddarau.

## Amcangyfrif Ofcom o effaith ariannol ein diwygiadau arfaethedig i'r strwythur danfon

8.9 Fel y nodir uchod, rydym wedi datblygu ein modelau ymhellach i amcangyfrif yr arbedion net posibl yn sgil ein cynnig i anfon llythyrau Ail Ddosbarth, mynediad D+3 a mynediad D+5 yn llai aml. Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n model i wella ei ddefnydd at y diben hwn.

### Effeithlonrwydd llwybrau danfon parseli

8.10 Ymatebodd y Post Brenhinol i'r Cais am Fewnbwn gan nodi bod un o allbynnau ein gwaith modelu, nifer y parseli a ddanfônwyd o fewn awr, yn afresymol yn weithredol.<sup>335</sup> Eglurodd ei fod yn rhagdybio danfon cyfradd is o lawer yr awr a dadleuodd fod y dybiaeth is hon yn fwy realistig.

8.11 Rydym wedi adolygu'r gwaith o fodelu llwybrau parseli ac yn cytuno ag asesiad y Post Brenhinol bod y modelu yn y Cais am Fewnbwn yn hepgor rhai elfennau amser a fyddai'n codi'n ymarferol. Er enghraifft, nid oedd ein modelu blaenorol yn cynnwys yr amser roedd ei angen ar weithiwr post i barcio ac i nôl eitemau o fan, ac roedd yn tybio cyflymder gyrru afrealistig o uchel ar gyfer y llwybrau hyn. Mae'r newidiadau hyn wedi lleihau nifer y eitemau sy'n cael eu danfon yr awr y gall llwybrau parseli eu cyflawni i lefel y credwn y gellir ei chyflawni'n ymarferol. Mae hyn wedi ychwanegu at sylfaen gostau'r rhwydwaith wedi'i ailgwmpasu sydd wedi'i fodelu, ac wedi lleihau'r arbedion net sydd wedi'u modelu.

### Newid niferoedd oherwydd newidiadau gweithredol a phrisiau

8.12 Yn ein gwaith modelu, rydym yn ystyried effaith pob newid i gynnig cynnyrch y Post Brenhinol drwy ystyried y newid oherwydd newidiadau gweithredol a'r newid oherwydd

<sup>335</sup> [Ymateb y Post Brenhinol](#) i Gais am Fewnbwn 2024, Atodiad A2.11.

pris.<sup>336</sup> Roedd hyn yn cynnwys ystyried sut byddai defnyddwyr yn newid pa gynhyrchion roeddent wedi'u prynu mewn ymateb i newidiadau gweithredol a phrisiau. Roeddem wedi ystyried pedwar llwybr penodol ar gyfer niferoedd yr effeithir arnynt, gyda rhai cwsmeriaid yn uwchraddio i gynnyrch drutach y Post Brenhinol (e.e. defnyddiwr newid Ail Ddosbarth yn newid i Ddosbarth Cyntaf), eraill yn newid am i lawr (ee i'r gwrthwyneb), eraill yn newid i gynnyrch mynediad sy'n dal i ddefnyddio rhwydwaith danfon y Post Brenhinol, a rhai yn gadael y farchnad yn gyfan gwbl.

- 8.13 Rydym wedi cynnal ein dull gweithredu i raddau helaeth ar gyfer effeithiau gweithredol newid yr amllder danfon, gan ddefnyddio'r un tybiaethau ag ar gyfer ein senarios danfon 2.5 diwrnod o'r modelu yn y Cais am Fewnbwn.
- 8.14 Rydym wedi adolygu tybiaethau'r Post Brenhinol mewn perthynas ag effeithiau ei gynigion i ddiwygio ar niferoedd ar gynnyrch Dosbarth Cyntaf. Rydym o'r farn bod y Post Brenhinol wedi bod yn ofalus ac wedi tybio y byddai nifer fawr o gwsmeriaid yn dewis gadael y farchnad oherwydd y cynnydd mewn prisiau.
- 8.15 Ar ôl adolygu gwaith modelu'r Post Brenhinol, rydym wedi mireinio'r tybiaethau a wnaethom mewn perthynas ag effaith y newidiadau i brisiau Dosbarth Cyntaf. Rydym nawr o'r farn bod y tybiaethau a wnaed yn ein modelu yn y Cais am Fewnbwn yn tybio y byddai nifer rhy isel yn gadael y farchnad ac y byddai nifer rhy uchel yn symud i lawr i ddefnyddio cynnyrch arall gan y Post Brenhinol. Felly, rydym wedi diweddarau ein tybiaethau i ddangos nifer mwy yn gadael y farchnad oherwydd cynnydd ym mhrisiau llythyrau Dosbarth Cyntaf.
- 8.16 Fodd bynnag, nid ydym wedi ailadrodd tybiaethau'r Post Brenhinol gan ein bod yn credu eu bod yn rhy besimistaidd o ystyried eu bod yn tybio bod rhywfaint o yn gadael y farchnad sydd, yn ein barn ni, yn ormodol o ystyried y tybiaethau newid pris.
- 8.17 Rydym yn nodi ei bod hi'n gallu bod yn anodd iawn amcangyfrif effaith newidiadau i brisiau ar niferoedd. Felly, rydym o'r farn bod mwy o ansicrwydd am yr effaith hon o'i chymharu ag effaith y newidiadau arfaethedig i ddanfon ar gostau danfon, yr ydym wedi'u disgrifio uchod.

## Tybiaethau elastigedd pris

- 8.18 Soniodd rhai o'r ymatebwyr i'r Cais am Fewnbwn am ein defnydd o elastigedd yn ein modelu refeniw, gan ddadlau eu bod yn anghywir a bod tystiolaeth yn y byd go iawn bod cynnydd mewn prisiau yn effeithio mwy ar y galw na'r hyn a nodwyd yn ein hamcangyfrifon.<sup>337</sup> Rydym yn defnyddio tybiaethau elastigedd prisiau i bennu lefel gyffredinol y niferoedd mae newid penodol mewn pris yn effeithio arno, gan adlewyrchu is-set o ddefnyddwyr sy'n rhoi gorau i anfon rhai o'u llythyrau Dosbarth Cyntaf neu'r cwbl mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau.
- 8.19 I rai cwsmeriaid, bydd hyn yn golygu newid i lythyrau Ail Ddosbarth yn hytrach na dewis peidio ag anfon llythyr o gwbl. Byddai'r niferoedd Ail Ddosbarth ychwanegol hyn yn rhoi

---

<sup>336</sup> Mae manylion y dull gweithredu hwn ar gael yn [Nhabl A7.3 Atodiad 7](#) (Ein dull o gyfrifo'r gost net) yn y Cais am Fewnbwn yn 2024.

<sup>337</sup> Tudalen 8 o ymateb [Thortful](#) a thudalennau 1-2 o ymateb [Moonpig](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

refeniw i'r Post Brenhinol a byddai'r llythyrau'n cael eu danfon am gost is i'r Post Brenhinol o'i gymharu â Dosbarth Cyntaf. Felly, mae gan y Post Brenhinol gymhelliant i ystyried yr effaith hon wrth bennu prisiau llythyrau Dosbarth Cyntaf, gan arwain at brisiau Dosbarth Cyntaf uwch a llai o lythyrau Dosbarth Cyntaf nag y byddai heb yr effaith hon. O ran elastigedd prisiau, mae'r cymhelliant hwn yn golygu ein bod, ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf, wedi codi elastigedd yn uwch na'r elastigedd-uned, sy'n golygu bod cynnydd mewn prisiau, ar gyfartaledd, yn negatiff o ran refeniw yn hytrach nag yn positif o ran refeniw, fel yr oeddent yn y Cais am Fewnbwn.

- 8.20 Er bod hyn yn lleihau enillion refeniw yn sgil codi prisiau, nid yw'n golygu bod cynnydd mewn prisiau yn gwbl negatiff o ran refeniw i'r Post Brenhinol yn ein gwaith modelu. Y rheswm am hyn yw y bydd rhywfaint o'r niferoedd mae cynnydd mewn prisiau yn effeithio arnynt yn newid i gynnyrch eraill (cynnyrch rhatach fel arfer, ond nid bob tro) y Post Brenhinol ac felly byddant yn dal i ddenu rhywfaint o refeniw.

## Effeithlonrwydd

- 8.21 Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylem ystyried effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn fanylach fel rhan o'n hasesiad ac y dylem ystyried sut roedd materion gweithredol neu aneffeithlonrwydd yn cyfrannu at y materion ariannol, gan gynnwys cymharu costau o'r gwaelod i fyny yn erbyn cymaryddion rhyngwladol i feincnodi effeithlonrwydd.<sup>338</sup>
- 8.22 Fel rydym yn ei egluro yn Adran 4, rydym yn dal o'r farn nad yw'r Post Brenhinol wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y byddem yn ei ddisgwyl i wella effeithlonrwydd. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, yn ein Hadolygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Post yn 2022,<sup>339</sup> fe wnaethom gyflwyno rhagor o ofynion adrodd i'r Post Brenhinol er mwyn cael mwy o dryloywder cyhoeddus am ei gynnydd ar effeithlonrwydd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn dal o'r farn bod cymhellion masnachol i'r Post Brenhinol wella effeithlonrwydd ac na fyddai rhagor o reoleiddio yn hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd. Nid bwriad ein newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol yw digolledu'r Post Brenhinol am ei aneffeithlonrwydd; eu bwriad yw diwallu anghenion defnyddwyr yn well, a hefyd rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol a masnachol i'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol a phost arall am gostau is a gwneud cynnydd o ran sicrhau cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol.
- 8.23 Mae gwelliannau effeithlonrwydd ar wahân i'r arbedion cost rydym yn eu disgwyl o newidiadau i gwmpas y gwasanaeth cyffredinol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y categorïau o newidiadau i sylfaen costau'r Post Brenhinol sy'n newidiadau posibl sy'n cael eu gyrru gan effeithlonrwydd o dan gwmpas presennol y gwasanaeth cyffredinol a'r rheini sy'n bosibl gan y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol.

---

<sup>338</sup> Tudalen 13 o ymateb [Greetings Card Association](#), tudalen 3 o ymateb [Moonpig](#), tudalennau 29-30 o ymateb [Consumer Scotland](#), tudalen 24 o ymateb [Swyddfa'r Post](#), tudalen 2 o ymateb [Quadient](#), tudalen 2 o ymateb [Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain](#), tudalennau 2-3 o ymateb [Strategic Mailing Partnership](#), tudalen 2 o ymateb [Direct Commerce Association](#), tudalennau 1-3 o ymateb [Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri](#) i Gais am Fewnbwn 2024.

<sup>339</sup> Ofcom, 2022. Datganiad: Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post.

- 8.24 Felly, er bod gwelliannau effeithlonrwydd bob amser yn ffactor allweddol yn ein hasesiadau o gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, maent yn llai perthnasol i'n gwaith modelu penodol o'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol gan eu bod yn effeithio ar yr amcangyfrifon cyn ac ar ôl diwygio. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth, ond nid yn gyfan gwbl ac nid ydynt yn arwain at lawer o arbedion cost.
- 8.25 Rydym wedi cynnal y dull modelu o'r Cais am Fewnbwn drwy edrych ar enillion effeithlonrwydd ar lefel uchel, gan leihau'r sylfaen gostau cyn ac ar ôl diwygio gyda rhagdybiaeth sylfaenol o 9% i roi cyfrif am arbedion effeithlonrwydd.<sup>340</sup>

## Gwelliannau cyffredinol a chywirow gwallau

- 8.26 Yn ystod ein hadolygiad o'r modelu yn y Cais am Fewnbwn, fe wnaethom ganfod gwall yn ymwneud â sut roedd symud niferoedd rhwng cynnyrch yn ystod ein cyfrifiadau refeniw. Roedd hyn yn gwaethygu'r colledion refeniw a fodelwyd yn y modelu yn y Cais am Fewnbwn. Rydym wedi cywiro hyn ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, sydd wedi cynyddu refeniw mewn senarios wedi'u modelu, gan gynyddu'r arbedion net wedi'u modelu.
- 8.27 Rydym wedi gwneud amryw o fân ddiwygiadau eraill i'n gwaith modelu i wella'i weithrediad a'i gywirdeb.

## Adeiladu ein hystod

- 8.28 O ystyried bod modelu newidiadau sylweddol i rwydwaith y Post Brenhinol yn golygu llawer o ansicrwydd, mae'n briodol modelu ystod ar gyfer ein hamcangyfrif o arbedion cost net. Rydym wedi gwneud hyn drwy fodelu ystodau ar gyfer gwahanol fewnbynnau allweddol. Dyma'r mewnbynau rydym wedi'u hamrywio i greu ein hystod:
- Elastigedd** – rydym wedi ystwytho ein tybiaethau elastigedd yn ôl ffactor o  $\pm 1.2$  (h.y. byddai elastigedd rhagdybiaeth sylfaenol o 1 yn troi'n ystod o 0.83 i 1.2);
  - Patrymau newid** – rydym wedi profi amrywiaeth o ffyrdd mae cwsmeriaid yn ymateb i newidiadau mewn prisiau drwy newid i gynnyrch arall neu adael y farchnad; ac
  - Effeithlonrwydd** – rydym wedi cynnwys amrywiaeth o enillion effeithlonrwydd o 5%-14% (achos sylfaenol: 9%) i addasu'r sylfaen gostau ar gyfer gwneud arbedion.

## Rhagweld yr arbedion hyd at 2025/26 a goblygiadau amseru

- 8.29 Mae ein model yn defnyddio blwyddyn sylfaen 2021/22 fel yr esbonnir yn Atodiad 7 y Cais am Fewnbwn. Oherwydd y baich adnoddau y byddai diweddaru'r flwyddyn sylfaen yn ei olygu i'r Post Brenhinol ac Ofcom, nid ydym wedi ceisio diweddaru blwyddyn sylfaen y gwaith modelu ar gyfer y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae hyn yn ei gwneud yn anoddach cymharu ein hamcangyfrifon â rhai'r Post Brenhinol, gan eu bod yn ymwneud â blynyddoedd gwahanol. Er mwyn helpu i gymharu, rydym wedi rhagamcanu ein hamcangyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, sy'n cyfateb i'r flwyddyn mae

---

<sup>340</sup> Mae ein dull modelu o ran effeithlonrwydd wedi'i nodi ym mharagraffau A7.97-A7.98 yn [Atodiad 7 \(Ein dull o gyfrifo costau net\)](#) yn y Cais am Fewnbwn yn 2024.

modelu'r Post Brenhinol wedi canolbwyntio arni. Fel sy'n cael ei egluro isod, mae hwn yn amcanestyniad 'cyflwr terfynol' ac nid rhagolwg o'r hyn y dylai'r Post Brenhinol ei gyflawni yn 2025/26 gan nad yw'n ystyried y costau pontio a'r amser sydd ei angen i roi newidiadau ar waith.

- 8.30 Rydym wedi rhagamcanu'r effeithiau cost a refeniw ar wahân ac yn ystyried nifer o ffactorau allweddol rydym yn disgwyl a fyddai'n arwain at wahaniaethau mewn allbynnau pe baem yn seilio ein modelu ar flwyddyn ariannol 2025/26.
- 8.31 I ragamcanu costau, rydym wedi:
- a) Cyfrif am newid cymysgedd a lefelau niferoedd (gan gynnwys sut gallai pobl newid sut maent yn defnyddio gwahanol gynnyrch llythyrau'r Post Brenhinol), sy'n sbarduno newidiadau yn nifer yr oriau rydym yn disgwyl y gellid eu harbed o dan fodel danfon gweithredol newydd. Mae hyn yn lleihau'r arbedion cost posibl ychydig (er enghraifft, oherwydd bod llai o lythyrau'n golygu llai o arbedion o ganlyniad i newid y ffordd gellid danfon y llythyrau hyn);
  - b) Cyfrif am dwf i'r gyfradd cyflogau sy'n golygu bod arbed awr yn 2025/26 yn werth mwy nag arbed awr yn 2021/22, gan gynyddu'r arbedion posibl; a
  - c) Tynnu arbedion costau a fyddai fel arall yn cael eu cyfrif ddwywaith, sy'n ymwneud â chynlluniau 'danfon yn ôl y fanyleb'<sup>341</sup> y Post Brenhinol sydd ag effaith debyg i'r arbedion rydym wedi'u modelu – dal post i gael ei ddanfon mewn bwndeli mwy pan fo'n bosibl.
- 8.32 Effaith gyffredinol y ffactorau hyn yw lleihau rhywfaint ar faint o arbedion cost rydym yn disgwyl y gellid eu gwneud, fel y nodir yn fanylach isod.
- 8.33 I ragamcanu refeniw, rydym wedi:
- a) Cyfrif am newid cymysgedd a lefelau niferoedd sydd yn lleihau rhywfaint ar y sylfaen refeniw gyffredinol y mae effeithiau arni, gan fod ein newidiadau arfaethedig i amllder danfon yn canolbwyntio ar lythyrau a dim ond yn cael effeithiau eilaidd ar barseli; a
  - b) Cyfrif am godi prisiau a gyflwynwyd ers 2021/22, sy'n lleihau effaith codi prisiau Dosbarth Cyntaf wrth i'r cynnydd mewn prisiau ddechrau o sylfaen uwch ac felly mae'n gynydd llai yn gyfrannol. Mae hyn yn lleihau'r enillion refeniw posibl o godi prisiau gan fod y rhain eisoes wedi cael eu gwireddu.
- 8.34 Effaith gyffredinol y ffactorau hyn yw lleihau refeniw wedi'i fodelu ym mlwyddyn ariannol 2025/26 o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen (2021/22) ar ôl gwneud ein newidiadau arfaethedig i amllder y ddarpariaeth, yn enwedig ar ben uchaf ein hystod lle mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig â phrisiau fwyaf, fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod.
- 8.35 Er mwyn osgoi amheuaeth, er bod y ffigurau yn ein modelu wedi cael eu rhagamcanu ymlaen i flwyddyn ariannol 2025/26, nid yw hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i raddfa'r

---

<sup>341</sup> Nod y mentrau hyn yw lleihau sawl gwaith bydd un llythyr yn cael ei ddanfon ar ei ben ei hun i bwynt danfon drwy ddal post yn ôl sy'n barod i'w ddanfon yn gynharach nag y gallai fod tra'n aros o fewn y fanyleb (e.e. gellid cadw llythyr Ail Ddosbarth a fyddai'n cael ei ddanfon ar D+2 yn ôl i D+3). Drwy ddal post yn ôl fel hyn, mae cyfran o'r llythyrau hyn yn cael eu paru â llythyr arall sy'n mynd i'r un cyfeiriad, ac felly bydd post yn cael ei ddanfon mewn un ymweliad yn hytrach na dau ymweliad dros ddau ddiwrnod, gan arbed costau.

newidiadau hyn mewn costau a refeniw fod yn gyraeddadwy ym mlwyddyn ariannol 2025/26. Yn hytrach, fel yr eglurwyd, rydym o'r farn y bydd yn cymryd rhywfaint o amser i'r Post Brenhinol gyflwyno'r newidiadau arfaethedig a gwireddu eu manteision. Rydym wedi rhagamcanu ein modelu ymlaen at flwyddyn ariannol 2025/26 er mwyn rhoi cymhariaeth well â modelu'r Post Brenhinol o'r manteision net ac i ystyried rhai deinameg sydd wedi digwydd ers blwyddyn ariannol 2021/22, sef y flwyddyn y mae gennym ffigurau manwl ar ei chyfer i lywio'r gwaith modelu o'r gwaelod i fyny.

- 8.36 Byddem yn disgwyl i'n cynigion gymryd dros flwyddyn i'w gweithredu cyn y byddai manteision llawn diwygio'n cael eu gwireddu, gyda rhai manteision yn cael eu gwireddu'n gyflymach a'r gweddill yn cael eu cyflwyno'n raddol dros amser. Byddai'r Post Brenhinol wedyn yn parhau i elwa o sylfaen gostau is a gyflawnir drwy ddiwygio.
- 8.37 Mae amcangyfrifon y Post Brenhinol a'n hamcangyfrifon wedi'u modelu o broffidoldeb yn weithrediadau 'cyflwr terfynol', gan gymharu costau a refeniw gyda'n diwygiadau arfaethedig a hebddynt. Nid ydynt yn rhoi cyfrif am gostau gweithredu'r newidiadau nac am amseriad pryd y gellid gwireddu arbedion llawn y diwygio. Mae'r ffactorau hyn yn gydgyssylltiedig – gallai gweithredu model gweithredol newydd yn gyflymach olygu costau pontio uwch ar ffurf dileu swyddi'n wirfoddol, costau adolygu llwybrau neu gostau gweinyddol eraill.

## Ein hamcangyfrif o arbedion net o newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol

- 8.38 Gan ddefnyddio ein model diweddaraf a rhagamcanu arbedion, rydym wedi amcangyfrif yr arbedion posibl y gallai'r Post Brenhinol eu gwneud o'i gymharu â sefyllfa wrthffeithiol lle nad yw'r gwasanaeth cyffredinol yn newid. Mae ein hamcangyfrif o arbedion net ein cynigion wedi'u nodi yn Nhabl 8.2 isod.

**Tabl 8.2: Amcangyfrif Ofcom o arbedion net 2025/26, £ miliynau (m)**

	Ystod (£m)
<b>Arbedion ariannol</b>	£375m i £450m
<b>Colledion refeniw</b>	-£100m i £0m
<b>Arbedion net</b>	£250m i £425m

*Ffynhonnell: Modelu Ofcom. Sylwer - ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £25m agosaf, felly nid yw arbedion net yn swm yr arbedion cost a'r colledion refeniw a gyflwynir yn y tabl hwn.*

## Cymharu ein hamcangyfrif ni ag amcangyfrif y Post Brenhinol

- 8.39 Mae nifer o wahaniaethau mawr yn y dulliau cyffredinol y mae'r Post Brenhinol ac Ofcom wedi'u mabwysiadu o ran modelu. Mae ein model ni yn fodel o'r gwaelod i fyny, gan ddefnyddio blwyddyn sylfaen 2021/22, ac mae'r Post Brenhinol o'r brig i lawr i raddau helaeth ac yn seiliedig ar ddata blwyddyn sylfaen mwy diweddar. Er ein bod wedi rhagamcanu ein hallbynnau i'w cyflwyno ar gyfer yr un flwyddyn allbwn ag y mae'r Post Brenhinol wedi'i dewis, mae rhai gwahaniaethau mawr mewn allbynnau i'w disgwyl o

ystyried y gwahaniaethau yn y dull gweithredu. Rydym yn nodi bod amcangyfrif o arbedion net y Post Brenhinol tuag at ben isaf ein hystod.

- 8.40 Nid ydym yn argyhoeddedig y byddai effeithiau refeniw mor eithafol ag y mae'r Post Brenhinol wedi'i fodolu. Yn benodol, rydym yn rhagweld y byddai mwy o bost yn defnyddio cynnyrch rhatach yn hytrach na gadael y farchnad yn gyfan gwbl ac felly byddai'n dal i gynhyrchu refeniw i'r Post Brenhinol. Mae hyn yn gwneud i ni ddisgwyl refeniw gwell yn gyffredinol yn dilyn newid yng nghwmpas y gwasanaeth cyffredinol na'r Post Brenhinol.
- 8.41 Mae ein barn am gostau (yn hytrach na refeniw) yn cyd-fynd yn agosach â'r Post Brenhinol ac nid ydym wedi gweld unrhyw wahaniaethau mawr rhwng ei ddisgwyliadau o ran symudiadau costau â'r rheini sy'n cael eu hamcangyfrif gan ein modelu costau wedi'i ddiweddarau.
- 8.42 Yn gyffredinol, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch unrhyw refeniw a ragwelir yn dilyn newid mawr mewn gweithrediadau a strategaeth brisio, rydym o'r farn bod ein hamcangyfrifon ni a rhai'r Post Brenhinol yn gredadwy ac yn cyd-fynd yn fras â'i gilydd.
- 8.43 Rydym yn credu bod yr arbedion posibl o'n diwygiadau arfaethedig yn sylweddol ac, os cânt eu gwireddu, y byddent yn gwella cynaliadwyedd ariannol darparu'r gwasanaeth cyffredinol yn sylweddol.

## Ansawdd gwasanaethau

---

- 8.44 Fel y nodir yn Adran 6, rydym yn cynnig diwygio'r targed Dosbarth Cyntaf cenedlaethol D+1 i 90%. Yn yr adran honno rydym hefyd yn nodi amcangyfrif y Post Brenhinol o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lefelau o dargedau ansawdd gwasanaeth (gweler paragraff 6.40).
- 8.45 Mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif y byddai'n costio £120m-£180m y flwyddyn i wella o 90% i 93% o ran y post Dosbarth Cyntaf sy'n cael ei ddanfôn o fewn D+1. Byddai gostwng y targed cenedlaethol Dosbarth Cyntaf yn arbed y costau hynny i'r Post Brenhinol.
- 8.46 Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 6, ar hyn o bryd nid yw perfformiad y Post Brenhinol yn cyrraedd y targedau presennol, gan gynnwys y rheini ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth. Felly, mae'r arbedion hyn eisoes wedi cael eu gwireddu yn y dadansoddiad ariannol a gyflwynir yn Adran 4 ac, felly, ni ddylid eu hystyried fel arbedion cost ychwanegol, o'u cymharu â'r lefelau cost presennol, y gallai'r Post Brenhinol eu cyflawni drwy'r cynigion rydym yn eu gwneud.
- 8.47 Mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif bod angen buddsoddi £20-30m [£<] i wella o 77% i 82.5%, a buddsoddiad arall o £60-80m y flwyddyn i wella'r perfformiad hwnnw i 90%.<sup>342</sup>

## Yr effaith bosibl ar gynaliadwyedd ariannol yr USO

---

- 8.48 Un o'n hamcanion polisi yw sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio sy'n sail i'r USO yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Fodd bynnag, ni all fframwaith

---


<sup>342</sup> Ymateb y Post Brenhinol i wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan adran 55 o'r Ddeddf (y cais gwybodaeth statudol) dyddiedig 5 Rhagfyr 2024.



rheoleiddio ar ei ben ei hun sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol. Mae llawer o elfennau angenrheidiol cynaliadwyedd ariannol y tu allan i reoleiddio, gan gynnwys perfformiad masnachol cynnyrch nad yw'n USO sy'n defnyddio'r un rhwydwaith danfon â'r gwasanaeth cyffredinol, y newid rhwng llythyrau a nifer y parseli dros amser, ac effeithlonrwydd y rhwydwaith.

- 8.49 Fel y nodir uchod, rydym yn amcangyfrif y gallai ein cynigion olygu bod y Post Brenhinol yn gwneud arbedion cost net o £250m-£425m yn 2025/26, tra bod y Post Brenhinol yn amcangyfrif hyd at £300m. Byddai cyflawni'r arbedion cost net hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfradd enillion y Busnes a Gofnodwyd, h.y. ei EBIT. O'i gymharu ag enillion 2023/24 y Post Brenhinol, gallai ein cynigion gynyddu'r EBIT tua 4%-6% yn ôl ein hamcangyfrif neu hyd at tua 4% yn ôl amcangyfrif y Post Brenhinol. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 4, rydym o'r farn bod yr ystod EBIT 5-10% yn cyd-fynd â chyfradd fasnachol a gallai'r diwygiadau arfaethedig wneud cyfraniad sylweddol at adfer yr EBIT i'r ystod 5-10%.<sup>343</sup>
- 8.50 Fel y nodir uchod, rydym yn ystyried bod maint EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn ddangosydd cyntaf cynaliadwyedd ariannol yr USO. Felly, gallai diwygio'r gwasanaeth cyffredinol o bosibl wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol at gynaliadwyedd ariannol yr USO. Er mwyn rhoi'r amcangyfrifon hyn yng nghyd-destun EBIT y Busnes a Gofnodwyd, rydym yn dangos yr effeithiau hyn yn unol ag EBIT 2023/24 yn Ffigur 8.1 isod.

**Ffigur 8.1: Amcangyfrif o effaith y cynigion ar EBIT y Post Brenhinol**



*Ffynhonnell: Datganiadau Ariannol Rheoleiddiol y Post Brenhinol, datganiadau heb eu harchwilio gan y Post Brenhinol a dadansoddiad Ofcom. \*Ffigurau wedi'u haddasu i 52-wythnos*

- 8.51 Mae ein dadansoddiad o ragolygon EBIT y Busnes a Gofnodwyd yn awgrymu, er y byddai arbedion posibl diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn cael effaith sylweddol, nid yw'n ddigon, ynddo'i hun, i sicrhau bod yr EBIT yn dychwelyd i'r ystod 5-10% a chynaliadwyedd ariannol tymor hir yr USO.

<sup>343</sup> Er enghraifft, gallai graddfa ein hamcangyfrifon o'r arbedion net wneud yn iawn yn rhannol neu'n gyfan gwbl am golled EBIT y Post Brenhinol sef -6.3% ym mlynnyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24. Mae hyn yn ystyried y costau pontio a fyddai, yn y tymor byr, yn lleihau effaith y diwygio ar EBIT y Post Brenhinol.

## Heriau cyflawni'r arbedion disgwylidig

- 8.52 Mae ein hamcangyfrif ni ac amcangyfrif y Post Brenhinol o arbedion net diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn tybio bod potensial llawn y diwygio'n cael ei wireddu. Yn ymarferol, bydd maint yr arbedion net gwirioneddol y gellir eu gwireddu yn dibynnu ar lwyddiant y Post Brenhinol o ran rhoi'r newidiadau gweithredol angenrheidiol ar waith, gan gynnwys cyflwyno'r model danon newydd bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Bydd gwireddu'r arbedion net sy'n cael eu datgloi gan ein cynigion, a gwneud hynny'n gyflym, yn her weithredol fawr iawn, a fydd yn golygu newidiadau i bob agwedd ar biblinell danfon y Post Brenhinol. Mae'n anochel y bydd yn anodd gwneud newidiadau mawr i systemau cymhleth o'r fath a bydd yn cymryd amser i'r newidiadau ymsefydlu ac i gael trefn ar y manylion.
- 8.53 Bydd yr arbedion net gwirioneddol hefyd yn dibynnu ar ymatebion cwsmeriaid y Post Brenhinol i'r newidiadau yn lefelau'r gwasanaeth (e.e. peidio â danfon llythyrau Ail Ddosbarth ar ddydd Sadwrn mwyach a bod mynediad yn cael ei ddarparu ar D+2, D+3 a D+5), a hefyd ar ymatebion cwsmeriaid i brisiau newydd (e.e. unrhyw gynnydd mewn llythyrau Dosbarth Cyntaf a mynediad D+2).

## Casgliad

---

- 8.54 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 4, mae perfformiad ariannol y Post Brenhinol dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol yr USO. Bydd y diwygiadau hyn yn cefnogi cynaliadwyedd yr USO, oherwydd:
- byddai'r diwygiadau'n rhoi'r hyblygrwydd gweithredol a masnachol pellach sydd ei angen ar y Post Brenhinol i drawsnewid ei rwydwaith a'i bortffolio o gynnyrch ac i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r heriau mae'n eu hwynebu;
  - mae ein hamcangyfrif o £250m-£425m (sy'n cyfateb i gynyddu'r EBIT 4%-6%) ac amcangyfrif y Post Brenhinol o hyd at £300m (sy'n cyfateb i gynyddu'r EBIT hyd at 4%) ar gyfer arbedion net posibl newidiadau i'r strwythur danfon yn cynrychioli cynnydd sylweddol yng nghyfradd elw'r rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol; ac
  - Mae amcangyfrif y Post Brenhinol o £120m-£180m (sy'n cyfateb i ostwng yr EBIT 1.5%-2.5%) i fynd o ansawdd gwasanaeth 90% Dosbarth Cyntaf i'r targedau presennol yn cyflwyno rhwystr ariannol sy'n cael ei ddileu gan ein cynigion.
- 8.55 Fodd bynnag, er ein bod yn credu bod y diwygiad arfaethedig yn angenrheidiol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, mae ein dadansoddiad yn awgrymu nad yw'n ddigon ar ei ben ei hun. Bydd cynaliadwyedd ariannol tymor hir y gwasanaeth cyffredinol hefyd yn dibynnu ar y Post Brenhinol yn gwireddu arbedion cost net llawn posibl y diwygiadau, gan sicrhau twf sylweddol mewn parseli, rheoli'r gostyngiad yn nifer y llythyrau yn effeithiol, a gwella ei effeithlonrwydd drwy addasu ei rwydwaith i'r newidiadau o ran swmp a llwyth gwaith.

# 9. Y camau nesaf a diweddariad ar waith arall

## Amseriad yr ymgynghoriad ac amseriad y datganiad arfaethedig

---

- 9.1 Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 10 Ebrill 2025.
- 9.2 Rydym yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid am y cynigion sydd yn y ddogfen hon.
- 9.3 Mae Atodiad A1 yn cynnwys manylion sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
- 9.4 Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2025. Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu i unrhyw newidiadau rheoleiddiol byddwn yn penderfynu eu gwneud ddod i rym ar y diwrnod rydym yn cyhoeddi ein datganiad. Rydym yn credu bod rhoi unrhyw newidiadau rheoleiddio ar waith ar unwaith yn briodol gan y byddai'n rhoi'r hyblygrwydd i'r Post Brenhinol ddechrau newid ei fodel gweithredu ar gyfer yr USO a mynediad cyn gynted â phosibl. Mae hyn oherwydd bod y newidiadau hyn yn debygol o fod yn gymhleth a byddai'n golygu bod yn rhaid i'r Post Brenhinol wneud newidiadau sylweddol i'w rwydwaith.

## Cynlluniau peilot y Post Brenhinol

---

- 9.5 Mae'r Post Brenhinol wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu cynnal rhaglen beilot a fydd yn cynnwys cynlluniau peilot o'i fodel gweithredu arfaethedig mewn cymysgedd o leoliadau yn y DU. Mae wedi dweud bod y cynlluniau peilot hyn yn angenrheidiol oherwydd arwyddocâd a chymhlethdod y newidiadau gweithredol posibl. Ar ben hynny, mae'r Post Brenhinol wedi dweud bod angen cynnal y cynlluniau peilot o fis Chwefror 2025 ymlaen er mwyn gallu rhoi unrhyw newidiadau rheoleiddio ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl y datganiad, os bydd Ofcom yn penderfynu gwneud unrhyw newidiadau o'r fath.
- 9.6 Rydym wedi cael gwybodaeth gan y Post Brenhinol am hyd a lled y cynlluniau peilot a'r effaith debygol ar ddefnyddwyr. Mae'r Post Brenhinol wedi amcangyfrif y bydd y cynlluniau peilot yn cynnwys tua 4% o'r pwyntiau danfon. O ystyried yr effeithiau cymharol fach ar ddefnyddwyr a'r manteision posibl y gellid eu gwireddu o hwyluso gweithredu cyflymach, os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion, nid ydym yn debygol o gymryd camau gorfodi os bydd yn bwrw ymlaen â chynlluniau peilot yn y ffordd a gynigir. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith unrhyw gynlluniau peilot ar ddefnyddwyr drwy ein rhaglen ôl-fonitro ac, os daw'n amlwg bod effaith niweidiol sylweddol ar ddefnyddwyr, efallai y byddwn yn penderfynu defnyddio dull gwahanol.

## Rhagor o waith sydd ar y gweill

---

- 9.7 Ym mis Medi 2024, fe wnaethom gyhoeddi dogfen yn nodi ein camau nesaf, lle roeddem yn egluro ein bod yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar ddiwygio rheoleiddio'r post y tu hwnt i'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynlluniau isod.

- **Ansawdd gwasanaeth.** Yn Adran 6 rydym wedi nodi ein cynigion ar gyfer newidiadau i amrywiol dargedau ansawdd gwasanaeth. O ystyried hyd a lled ein cynigion, rydym nawr yn disgwyl i'n gwaith pellach yn y maes hwn ganolbwyntio ar ein gwaith i fonitro camau gweithredu'r Post Brenhinol i wella ansawdd ei wasanaeth nawr ac yn enwedig wrth weithredu'r newidiadau arfaethedig i'r USO.
- **Fforddiadwyedd a phrisiau.** Bydd y cap diogelu ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth yn dod i ben ym mis Mawrth 2027. Cyn hyn, byddwn yn ystyried opsiynau i sicrhau fforddiadwyedd parhaus gwasanaethau rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu'n well na'r cap diogelu presennol, yn ogystal ag adolygu'n fwy cyffredinol ein dull o reoleiddio prisiau gwasanaethau'r Post Brenhinol.
- **Monitro'r post.** Byddwn yn parhau â'n rhaglen waith i fonitro'r post, gan ganolbwyntio'n benodol ar y risgiau i gynaliadwyedd ariannol darparu'r USO. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'r Llywodraeth, yn enwedig yng ngoleuni'r newid disgwylidiedig ym mherchnogaeth International Distributions Services (IDS) Plc, a gweithrediad y Post Brenhinol o'i gynllun adfer i wella ansawdd ei wasanaeth.

9.8 Ochr yn ochr â'r gwaith pellach hwn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill ar y mater o sicrhau bod grwpiau penodol sy'n agored i niwed yn gallu cael gafael ar bost. Mae cyrff defnyddwyr wedi tynnu sylw at anghenion pobl agored i niwed heb gyfeiriad sefydlog. Rydym yn dal i gredu bod hwn yn fater pwysig ond yn un sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas cylch gwaith Ofcom, yn enwedig gan ei fod yn debygol o gynnwys camau sy'n cael eu cymryd gan Swyddfa'r Post, nad yw Ofcom yn eu rheoleiddio, yn ogystal â'r Post Brenhinol. Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom gynnull cyfarfod bwrdd crwn gan gynnwys y Llywodraeth, y Post Brenhinol, Swyddfa'r Post a chyrrff defnyddwyr i drafod y mater. Rydym yn barod i barhau i gydlynu trafodaethau ar y mater hwn pan fydd rhanddeiliaid eraill wedi datblygu eu syniadau ar y ffordd ymlaen.